abhor the Virgin's womb.

When thou hadst overcome
the sharpness of death : thou
didst open the Kingdom of Hea-
ven to all believers.

Thou sittest at the right hand
of God : in the Glory of the Fa-
ther.

We believe that thou shalt
come : to be our Judge.

We therefore pray thee, help
thy servants : whom thou hast re-
deemed with thy precious blood.

Make them to be numbered
with thy Saints : in glory ever-
lasting.

O Lord, save thy people : and
bless thine heritage.

Govern them : and lift them
up for ever.

Day by day : we magnify
thee ;

And we worship thy Name :
ever world without end.

Vouchsafe, O Lord : to keep
us this day without sin.

O Lord, have mercy upon us :
have mercy upon us.

O Lord, let thy mercy light-
en upon us : as our trust is in
thee.

O Lord, in thee have I trust-
ed : let me never be confound-
ed.

BOREOL WEDDI.

¶ *Neu'r Ganiad hon,*

Benedicite, omnia Opera.

CHWYCHWI holl Weithredoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Angylion yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Nefoedd, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi'r Dyfroedd, sydd uwch ben y ffurfafen, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi holl Nerthoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Haul a Lleuad, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Sery Nefoedd, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Gawodau a Gwlith, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Wÿntoedd Duw, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Dàn a Gwres, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Auaf a Haf, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Wlithoedd a Rhewoedd, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Rew ac Oerfel, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Iâ ac Eira, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

¶ *Or this Canticle,*

Benedicite, omnia Opera.

O All ye Works of the Lord, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Angels of the Lord, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Heavens, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Waters that be above the Firmament, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O all ye Powers of the Lord, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Sun, and Moon, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Stars of Heaven, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Showers, and Dew, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Winds of God, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Fire and Heat, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Winter and Summer, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Dews, and Frosts, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Frost and Cold, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Ice and Snow, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

BOREOL WEDDI.

Chwychwi Nosau a Dyddiau, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Oleuni a Thywyllwch, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Fellt a Chymmylau, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Bendithied y Ddaear yr Arglwydd : moled a mawrhâed ef yn dragywydd.

Chwychwi Fynyddoedd a Bryniau, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi holl Wÿrddion Bethau ar y Ddaear, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Ffynhonnau, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Foroedd a Llifeiriain, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Forfilod, ac oll a'r sydd yn ymsymmud yn y Dyfroedd, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi holl Adar yr Awyr, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi holl Anifeiliaid ac Ysgrubliaid, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Blant Dynion, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Bendithied Israel yr Arglwydd : moled a mawrhâed ef yn dragywydd.

Chwychwi Offeiriaid yr Arglwydd, bendithiwch yr Ar-

O ye Nights, and Days, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Light and Darkness, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Lightnings, and Clouds, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O let the Earth bless the Lord : yea, let it praise him, and magnify him for ever.

O ye Mountains, and Hills, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O all ye Green Things upon the Earth, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Wells, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Seas, and Floods, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Whales, and all that move in the Waters, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O all ye Fowls of the Air, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O all ye Beasts, and Cattle, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Children of Men, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O let Israel bless the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Priests of the Lord, bless

BOREOL WEDDI.

glwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Wasanaethwŷr yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Ysprydion, ac Eneidiau'r cyfiawn, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi y rhai sanctaidd a gostyngedig o galon, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Chwychwi Ananias, Azarias, a Misael, bendithiwch yr Arglwydd : molwch a mawrhêwch ef yn dragywydd.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Yna y darllennir yn yr un modd yr ail Lith, gwedi ei chymmeryd allan o'r Testament Newydd. Ac wedi hynny yr Emyu sy'n canlyn ; oddi eithr pan ddigwyddo i'w darllain ym mhennod y Dydd, neu yn yr Efengyl ar Ddydd St. Ioan Fedyddiwr.*

Benedictus. St. Luc i. 68.

BENDIGEDIG fyddo Arglwydd Dduw Israel : canys efe a ynwelodd ac a brynodd ei bobl ;

Ac a ddyrchafodd iachawdwr-iaeth nerthol i ni : yn nhŷ Ddafydd ei wasanaethwr ;

Megis y dywedodd trwy enau ei sanctaidd Brophwydi : y rhai oedd o ddechreuad y byd ;

Yr anfonai efe i ni ymward rhag ein gelynion : ac oddi wrth ddwyllaw pawb o'n digasogion ;

Y gwnai efe drugaredd â'n tadau : ac y cofiai ei sanctaidd Gyfammod ;

A'r llw yr hwn a dyngodd efe wrth ein tad Abraham : sef bod iddo ganiattâu i ni, gwedi ein

ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Servants of the Lord, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye Spirits and Souls of the Righteous, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O ye holy and humble men of heart, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

O Ananias, Azarias, and Misaël, bless ye the Lord : praise him, and magnify him for ever.

Glory be to the Father, and to the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. Amen.

¶ *Then shall be read in like manner the Second Lesson, taken out of the New Testament. And after that, the Hymn following ; except when that shall happen to be read in the Chapter for the Day, or for the Gospel on St. John Baptist's Day.*

Benedictus. St. Luke i. 68.

BLESSED be the Lord God of Israel : for he hath visited, and redeemed his people ;

And hath raised up a mighty salvation for us : in the house of his servant David ;

As he spake by the mouth of his holy Prophets : which have been since the world began ;

That we should be saved from our enemies : and from the hands of all that hate us ;

To perform the mercy promised to our forefathers : and to remember his holy Covenant ;

To perform the oath which he sware to our forefather Abraham : that he would give us ;

BOREOL WEDDI.

hymwared oddi wrth ddwyllaw
ein gelynion, allu ei wasanaethu
ef yn ddiöfn ;

Mewn sancteiddrwydd a chyf-
iawnder ger ei fron ef : holl
ddyddiau ein bywyd.

A thithau, Fab, a elwir yn
Brophwyd i'r Goruchaf : canys
ti a âi o flaen wyneb yr Ar-
glwydd, i barottöi ei ffyrdd
ef ;

Ac i roddi gwybodaeth iach-
awdwriaeth i'w bobl ef : trwy
faddeuant o'u pechodau,

O herwydd tiriondeb trugar-
edd ein Duw : trwy yr hon yr
ymwelodd â ni Godiad Haul o'r
uchelder ;

I roddi llewyrch i'r rhai sydd
yn eistedd mewn tywyllwch a
chysgod angau : ac i gyfeirio ein
traed i ffordd tangnefedd.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab :
ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu,
y mae yr awr hon, ac y bydd yn
wastad : yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Neu y Psalm hon,*

Jubilate Deo. Psalm c.

CENWCH yn llafar i'r Ar-
glwydd, yr holl ddaear :
gwasanaethwch yr Arglwydd
mewn llawenydd, deuwch yn ei
wÿydd ef mewn gorfoledd.

Gwybyddwch mai yr Ar-
glwydd sy Dduw : efe a'n
gwnaeth, ac nid ni ein hunain ;
ei bobl ef ydym, a defaid ei
borfa.

Ewch i mewn i'w byrth ef â
diöloch, ac i'w lysoedd â moliant
gennyh : diölochwch iddo, a
chlodforwch ei Enw.

Canys daionus yw yr Ar-
glwydd, a'i drugaredd sydd yn
dragrwydd : a'i wirionedd a
bery o genhedlaeth i genhedlaeth
byth.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab :
ac i'r Yspryd Glân ;

That we being delivered out
of the hand of our enemies :
might serve him without fear ;

In holiness and righteousness
before him : all the days of our
life.

And thou, Child, shalt be
called the Prophet of the High-
est : for thou shalt go before
the face of the Lord to prepare
his ways ;

To give knowledge of salva-
tion unto his people : for the
remission of their sins,

Through the tender mercy
of our God : whereby the day-
spring from on high hath visited
us ;

To give light to them that sit
in darkness, and in the shadow
of death : and to guide our feet
into the way of peace.

Glory be to the Father, and to
the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is
now, and ever shall be : world
without end. Amen.

¶ *Or this Psalm,*

Jubilate Deo. Psalm c.

OBE joyful in the Lord, all
ye lands : serve the Lord
with gladness, and come before
his presence with a song.

Be ye sure that the Lord he
is God : it is he that hath made
us, and not we ourselves ; we
are his people, and the sheep of
his pasture.

O go your way into his gates
with thanksgiving, and into his
courts with praise : be thankful
unto him, and speak good of
his Name.

For the Lord is gracious, his
mercy is everlasting : and his
truth endureth from generation
to generation.

Glory be to the Father, and
to the Son : and to the Holy
Ghost ;

BOREOL WEDDI.

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Yna y cenir, neu y dywedir, Cred-o'r Apostolion, gan y Gweinidog a'r bobl, yn eu sefyll: oddi eithr y dyddiau hynny yn unig ar y rhai y gosodwyd Credo Sant Athanasius i'w ddarllain.*

CREDAF yn Nuw Dad Holl-gyfoethog, Creawawr nef a daear :

Ac yn Iesu Grist ei un Mab ef, ein Harglwydd ni ; Yr hwn a gaed trwy yr Yspryd Glân, A aned o Fair Forwyn, A ddiö-ddefodd dan Pontius Pilatus, A groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd ; A ddisgynodd i uffern ; Y trydydd dydd y cyfododd o feirw ; A esgynodd i'r nefoedd, Ac y mae yn eistedd ar ddeheu-law Dduw Dad Holl-gyfoethog ; Oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Credaf yn yr Yspryd Glân ; Yr Eglwys Lân Gatholig ; Cymmun y Saint ; Maddeuant Pechodau ; Adgyfodiad y cnawd, A'r Bywyd tragywyddol. Amen.

¶ *Ac ar ol hynny, y Gweddian hyn sy'n canlyn, a phawb yn gostwng yn ddefosiyntol ar eu glinïan ; y Gweinidog yn gyntaf a lefara â llef uchel,*

Yr Arglwydd a fo gyd â chwi. *Atteb.* A chyd â th yspryd dithau.

Gweinidog. Gweddïwn.
Arglwydd, trugarhâ wrthym.
Crist, trugarhâ wrthym.
Arglwydd, trugarhâ wrthym.

¶ *Yna'r Gweinidog, yr Ysgolheigion, a'r bobl, a ddywedant Weddï'r Arglwydd â lleferydd uchel.*

EIN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, Megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. Amen.

¶ *Then shall be sung or said the Apostles' Creed by the Minister and the people, standing: except only such days as the Creed of Saint Athanasius is appointed to be read.*

I Believe in God the Father Almighty, Maker of heaven and earth :

And in Jesus Christ his only Son our Lord, Who was conceived by the Holy Ghost, Born of the Virgin Mary, Suffered under Pontius Pilate, Was crucified, dead, and buried, He descended into hell ; The third day he rose again from the dead, He ascended into heaven, And sitteth on the right hand of God the Father Almighty ; From thence he shall come to judge the quick and the dead.

I believe in the Holy Ghost ; The holy Catholick Church ; The Communion of Saints ; The Forgiveness of sins ; The Resurrection of the body, And the life everlasting. Amen.

¶ *And after that, these Prayers following, all devoutly kneeling ; the Minister first pronouncing with a loud voice,*

The Lord be with you.
Answer. And with thy spirit.

Minister. Let us pray.
Lord, have mercy upon us.
Christ, have mercy upon us.
Lord, have mercy upon us.

¶ *Then the Minister, Clerks, and people, shall say the Lord's Prayer with a loud voice.*

OUR Father, which art in heaven, Hallowed be thy Name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, As it is in heaven. Give us this day

BOREOL WEDDI.

heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

¶ *Yna y Gweinidog yn ei sefyll a ddywced,*

Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.

Atteb. A chaniattâ i ni dy iachawdwriaeth.

Offeiriad. Arglwydd, cadw y Frenhines.

Atteb. A gwrando ni yn drugarog pan alwom arnat.

Offeiriad. Gwisg dy Weinidogion âg iawnder.

Atteb. A gwna dy ddewisol bobl yn llawen.

Offeiriad. Arglwydd, cadw dy bobl.

Atteb. A bendithia dy etifedd-iaeth.

Offeiriad. Arglwydd, dyro dangnefedd yn ein dyddiau.

Atteb. Gan nad oes neb arall a ymladd drosom, ond tydi, Dduw, yn unig.

Offeiriad. Duw, glanhâ ein calonnau ynom.

Atteb. Ac na chymmer dy Yspryd Glân oddi wrthym.

¶ *Yna y caulyn tri Cholect: y cyntaf, o'r Dydd, yr hwn a fydd yr un ag a osodir ar y Cymmun; yr ail, am Dangnefedd; y trydydd, am Ras i fyso yn dda. A'r ddau Golect diweddaf ni chyfnwidir un amser, ond eu dywedyd beunydd ar y Foreol Weddi trwy'r holl stwydd-yn, fel y caulyn; a phawb ar eu g'iniiau.*

Yr ail Golect, am Dangnefedd.

DUW, yr hwn wyt Awdwr tangnefedd a charwr cytundeb, yr hwn o 'th iawn adnabod y mae'n buchedd dragwydd yn sefyll arno, a'th wasamaeth sydd wir fraint; Amddiffyn nyni, dy ostyngedig weision, rhag holl ruthrau ein gelyn-

our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

¶ *Then the Priest standing up shall say,*

O Lord, shew thy mercy upon us.

Answer. And grant us thy salvation.

Priest. O Lord, save the Queen.

Answer. And mercifully hear us when we call upon thee.

Priest. Endue thy Ministers with righteousness.

Answer. And make thy chosen people joyful.

Priest. O Lord, save thy people.

Answer. And bless thine inheritance.

Priest. Give peace in our time, O Lord.

Answer. Because there is none other that fighteth for us, but only thou, O God.

Priest. O God, make clean our hearts within us.

Answer. And take not thy holy Spirit from us.

¶ *Then shall follow three Collects; the first of the Day, which shall be the same that is appointed at the Communion; the second for Peace; the third for Grace to live well. And the two last Collects shall never alter, but daily be said at Morning Prayer throughout all the year, as followeth; all kneeling.*

The second Collect, for Peace.

O God, who art the author of peace and lover of concord, in knowledge of whom standeth our eternal life, whose service is perfect freedom; Defend us thy humble servants in all assaults of our enemies; that we, surely trusting in thy de-

BOREOL WEDDI.

ion; fel, trwy gwbl ymddiried yn dy amddiffyn di, nad ofnom allu neb gwrthwynebwy'r, trwy nerth Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Y trydydd Colect, am gael Gras.

O Arglwydd, nefol Dad, Holl-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn a'n cedwaist yn ddiangol hyd ddechreu'r dydd heddyw; Amddiffyn nynddo â'th gadarn allu; a chaniattâ na syrthiom y dydd hwn mewn un pechod, ac nad elom mewn heb rhyw berygl; eithr bod ein holl weithredoedd wedi eu trefnu a'u llywio wrth dy lywodraeth, i wneuthur yn wastad y peth sy gyfiawn yn dy olwg di; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Mewn Corau a Mannau lle'r arferont ganu, yma y canlyn yr Anthem.*

¶ *Yna y pum Gweddi hyn sy'n canlyn a ddarllenir yma, oddi eithr pan ddarllenir y Litani; ac yna y ddwy olaf yn unig a ddarllenir, fel y maent gwedi eu cyflêu yno.*

Gweddi dros Fawrhydi'r Frenhines.

O Arglwydd, ein Tad nefol, goruchel a galluog, Brenhin y brenhinoedd, Arglwydd yr arglwyddi, unig Lywiawdwr y tywysogion, yr hwn wyt o'th eisteddile yn edrych ar holl drigolion y ddaear; Ni a attolygwn ac a erfyniwn i ti, edrych o honot yn ddarbodus ar ein grasusaf ddaionus Arglwyddes, y Frenhines *VICTORIA*; ac felly eichyflawni hi o ras dy Sanctaidd Yspryd, fel y bo iddi yn wastadol bwyso at dy feddwl, a rhodio yn dy ffordd: Cynnysgaedda hi yn helaeth â doniau nefol; caniatâ iddi mewn llwyddiant ac iechyd hir hoedl; nertha hi modd y gallo oresgyn a gorchfygu ei holl elynion; ac o'r diwedd, ar ol y fuchedd hon, bod iddi fwynhâu llawenydd a dedwyddyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

fence, may not fear the power of any adversaries, through the might of Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The third Collect, for Grace.

O Lord, our heavenly Father, Almighty and everlasting God, who hast safely brought us to the beginning of this day; Defend us in the same with thy mighty power; and grant that this day we fall into no sin, neither run into any kind of danger; but that all our doings may be ordered by thy governance, to do always that is righteous in thy sight; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

¶ *In Quires and Places where they sing, here followeth the Anthem.*

¶ *Then these five Prayers following are to be read here, except when the Litany is read; and then only the two last are to be read, as they are there placed.*

A Prayer for the Queen's Majesty.

O Lord our heavenly Father, high and mighty, King of kings, Lord of lords, the only Ruler of princes, who dost from thy throne behold all the dwellers upon earth; Most heartily we beseech thee with thy favour to behold our most gracious Sovereign Lady, Queen *VICTORIA*; and so replenish her with the grace of thy Holy Spirit, that she may alway incline to thy will, and walk in thy way: Endue her plenteously with heavenly gifts; grant her in health and wealth long to live; strengthen her that she may vanquish and overcome all her enemies; and finally, after this life, she may attain everlasting joy and felicity; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

BOREOL WEDDI.

Gweddi dros y Brenhinol Deulu.

HOLL-alluog Dduw, ffynnon pob daioni, yr ydym ni yn ostyngedig yn attolwg i ti fendithio *Albert Edward Tywysog Cymru, Tywysoges Cymru, a'r holl Frenhinol Deulu: Cynnysgaedda hwy â'th Yspryd Glân; cyfoethoga hwy â'th nefol ras; llwydda hwy â phob dedwyddwch; a dwg hwy i'th dragwyddol deyrnas; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.*

Gweddi dros yr Offeiriaid a'r bobl.

HOLL-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn wyt yn unig yn gwneuthur rhyfeddodau; Danfon i lawr ar ein Heshgobion a'n Curadiaid, a'r holl gynnulleidfaon a orchymynwyd dan eu gofal hwynt, iachol Yspryd dy ras; ac fel y gallont wir ryngu bodd i ti, tywallt arnynt ddyfal wllth dy fendith. Caniattâ hyn, Arglwydd, er anrhydedd ein Dadleuwr a'n Cyfryngwr, Iesu Grist. *Amen.*

Gweddi o waith St. Chrysostom.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn a roddaist i ni ras y pryd hwn, trwy gyfundeb a chyd-gyfarach, i weddiö arnat; ac wyt yn addaw, pan ymgynhullo dau neu dri yn dy Enw, bod i ti ganiattâu eu gofynion: Cyflawna yr awr hon, O Arglwydd, ddymuniaid a deisyfiad dy weision, fel y bo mwyaf buddiol iddynt; gan ganiattâu i ni yn y byd hwn wybodaeth am dy wirionedd, ac yn y byd a ddaw, fywyd tragwyddol. *Amen.*

2 Cor. xiii.

GRAS ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chyndeithas yr Yspryd Glân, a fyddo gyd â ni oll byth bythoedd. *Amen.*

A Prayer for the Royal Family.

ALmighty God, the fountain of all goodness, we humbly beseech thee to bless *Albert Edward Prince of Wales, the Princess of Wales, and all the Royal Family: Endue them with thy holy Spirit; enrich them with thy heavenly grace; prosper them with all happiness; and bring them to thine everlasting kingdom; through Jesus Christ our Lord. Amen.*

A Prayer for the Clergy and people.

ALmighty and everlasting God, who alone workest great marvels; Send down upon our Bishops, and Curates, and all Congregations committed to their charge, the healthful Spirit of thy grace; and that they may truly please thee, pour upon them the continual dew of thy blessing. Grant this, O Lord, for the honour of our Advocate and Mediator, Jesus Christ. *Amen.*

A Prayer of St. Chrysostom.

ALmighty God, who hast given us grace at this time with one accord to make our common supplications unto thee; and dost promise, that when two or three are gathered together in thy Name thou wilt grant their requests: Fulfil now, O Lord, the desires and petitions of thy servants, as may be most expedient for them; granting us in this world knowledge of thy truth, and in the world to come life everlasting. *Amen.*

2 Cor. xiii.

THE grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God, and the fellowship of the Holy Ghost, be with us all evermore. *Amen.*

Yma y diwedd Trefn y Foreol Weddi trwy'r Flwyddyn.

TREFN Y

WEDDI BRYDNHAWNOL,

BOB DYDD TRWY'R FLWYDDYN.

¶ *Ar ddechren'r Weddi Brydnhawol, darlleded y Gweinidog, â llef uchel, ryw un neu ychwaneg o'r adnodan hyn o'r Ysgrhythyr Lân y rhai sydd yn canlyn. Ac yna dywedod yr hyn y sydd ysgrifenedig ar ol yr unrhyw adnodau.*

PAN ddychwelo'r annuwiol oddi wrth ei ddrygioni yr hwn a wnaeth, a gwneuthur barn a chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei enaid. *Ezec. xviii. 27.*

Yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau, a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron. *Psal. li. 3.*

Cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau, a dilea fy holl anwireddau. *Psal. li. 9.*

Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig: calon ddrylliog, gystuddiedig, O Dduw, ni ddirmygi. *Psal. li. 17.*

Rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw: o herwydd graslawn a thrugarog yw efe, hwyrfrydig i ddigofaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg. *Jôel ii. 13.*

Gan yr Arglwydd ein Duw y mae trugareddau a maddeuant, er gwrthryfelu o honom i'w erbyn: ni wrandawsom chwaith ar lais yr Arglwydd ein Duw, i rodio yn ei gyfreithiau ef, y rhai a roddodd efe o'n blaen ni. *Dan. ix. 9, 10.*

Cospa fi, Arglwydd, etto mewn barn; nid yn dy lid, rhag it' fy

WHEN the wicked man turneth away from his wickedness that he hath committed, and doeth that which is lawful and right, he shall save his soul alive. *Ezek. xviii. 27.*

I acknowledge my transgressions, and my sin is ever before me. *Psal. li. 3.*

Hide thy face from my sins, and blot out all mine iniquities. *Psal. li. 9.*

The sacrifices of God are a broken spirit: a broken and a contrite heart, O God, thou wilt not despise. *Psal. li. 17.*

Rend your heart, and not your garments, and turn unto the Lord your God: for he is gracious and merciful, slow to anger, and of great kindness, and repenteth him of the evil. *Joel ii. 13.*

To the Lord our God belong mercies and forgivenesses, though we have rebelled against him: neither have we obeyed the voice of the Lord our God, to walk in his laws which he set before us. *Dan. ix. 9, 10.*

O Lord, correct me, but with judgement; not in thine anger,

PRYDNHAWNOL WEDDI.

ngwneuthur yn ddiddym. *Jer.* x. 24. *Psal.* vi. 1.

Edifarhêwch ; canys nesaodd weyrnas nefoedd. *St. Matt.* iii. 2.

Mi a godaf, ac a âf at fy nhad, ac a ddywedaf wrtho, Fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau, ac mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn fab i ti. *St. Luc* xv. 18, 19.

Arglwydd, na ddos i farn â'th was ; o herwydd ni chyfiawnhêir neb byw yn dy olwg di. *Psal.* cxliii. 2.

Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yu ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd uid yw ynom. Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder. 1 *Ioan* i. 8, 9.

FY anwyl gariadus frodyr, y maë'r Ysgrhythyr Lân yn ein cynhyrfu, mewn amrywiol fannau, i gydnabod ac i gyffesu ein haml bechodau a'n hanwiredd ; ac na wuelem na'u cuddio na'u celu yngwÿydd yr Holl-alluog Dduw ein Tad nefol ; eithr eu cyffesu â gostyngedig, isel, edifarus, ac ufudd galon ; er mwyn caffael o honom fadd-euant am danynt, trwy ei anfeidrol ddaioni a'i drugaredd ef. Ac er y dylem ni bob amser addef yn ostyngedig ein pechodau ger bron Duw ; etto ni a ddylem yn bennaf wneuthur hynny, pan ymgynhullom i gydgyfartod, i dalu diolch am yr aml ddaioni a dderbyniasom ar ei law ef, i ddatgan ei haeddedicaf foliant, i wrando ei sancteiddiaf Air ef, ac i erchi y cyfryw bethau ag a fyddo cymmwys ac angenrheidiol, yn gystal ar les y corph a'r enaid. O herwydd paham myfi a erfyniaf ac a at-

lest thou bring me to nothing. *Jer.* x. 24. *Psal.* vi. 1.

Repent ye ; for the Kingdom of heaven is at hand. *St. Matt.* iii. 2.

I will arise, and go to my father, and will say unto him, Father, I have sinned against heaven, and before thee, and am no more worthy to be called thy son. *St. Luke* xv. 18, 19.

Enter not into judgement with thy servant, O Lord ; for in thy sight shall no man living be justified. *Psal.* cxliii. 2.

If we say that we have no sin, we deceive ourselves, and the truth is not in us : but, if we confess our sins, he is faithful and just to forgive us our sins, and to cleanse us from all unrighteousness. 1 *St. John* i. 8, 9.

DEARLY beloved brethren, the Scripture moveth us in sundry places to acknowledge and confess our manifold sins and wickedness ; and that we should not dissemble nor cloke them before the face of Almighty God our heavenly Father ; but confess them with an humble, lowly, penitent, and obedient heart ; to the end that we may obtain forgiveness of the same, by his infinite goodness and mercy. And although we ought at all times humbly to acknowledge our sins before God ; yet ought we most chiefly so to do, when we assemble and meet together to render thanks for the great benefits that we have received at his hands, to set forth his most worthy praise, to hear his most holy Word, and to ask those things which are requisite and necessary, as well for the body as the soul. Wherefore I pray and beseech you, as many

PRYDNHAWNOL WEDDI.

tolygaf i chwi, cynnifer ag y sydd yma yn bresennol, gyd-dynnu â myfi â chalon bur, ac â lleferydd ostyngedig, hyd yngorseddfa'r nefol rad, gan ddywedyd ar fy ol i ;

¶ *Cyffes gyffredin, i'w dywedyd gan yr holl Gynnullaidfa, ar ol y Gweinidog, gan ostwng ar eu gliniau oll.*

HOLL-alluog Dduw a thrugaroccaf Dad ; Nyni a aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffyrdd di fel defaid ar gyfrgoll. Nyni a ddilynasom ormod ar auncanion a chwantau ein calonnau ein hunain. Nyni a wnaethom yn erbyn dy sancteiddiol gyfreithiau. Nyni a adawsom heb wneuthur y pethau a ddylesym eu gwneuthur ; Ac a wnaethom y pethau ni ddylesym eu gwneuthur ; Ac nid oes iechyd ynom. Eithr tydi, O Arglwydd, cynmer drugaredd arnom, ddrwg weithredwyr truain. Arbed di hwynt-hwy, O Dduw, y rhai sy'n cyffesu eu beiau. Cyweiria di'r sawl sydd yn edifarus ; Yn ol dy addewidion a hypsyswyd i ddyn yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. A chaniattâ, drugaroccaf Dad, er ei fwyn ef ; Fyw o honom rhag llaw mewn duwiol, union, a sobr fuchedd, I ogoniant dy sancteiddiol Enw. Amen.

¶ *Y Gollyngdod, neu Faddeuant pechodau, i'w ddatgan gan yr Offiriad yn unig, yn ei sefyll ; a'r bobl etto ar eu gliniau.*

YR Holl-alluog Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn ni ddeisyf farwolaeth pechadur, eithr yn hytrach ymchwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd, a byw ; ac a roddes allu a gorchymyn i'w Weinidogion, i ddatgan ac i fynegi i'w bobl, sydd yn edifarus, Ollyngdod a Maddeuant am eu pechodau : Efe a bardyna ac a ollwng y rhai oll sydd wir edifeiriol, ac

as are here present, to accompany me with a pure heart, and humble voice, unto the throne of the heavenly grace, saying after me ;

¶ *A general Confession to be said of the whole Congregation after the Minister, all kneeling*

AL MIGHTY and most merciful Father ; We have erred, and strayed from thy ways like lost sheep. We have followed too much the devices and desires of our own hearts. We have offended against thy holy laws. We have left undone those things which we ought to have done ; And we have done those things which we ought not to have done ; And there is no health in us. But thou, O Lord, have mercy upon us, miserable offenders. Spare thou them, O God, which confess their faults. Restore thou them that are penitent ; According to thy promises declared unto mankind in Christ Jesu our Lord. And grant, O most merciful Father, for his sake ; That we may hereafter live a godly, righteous, and sober life, To the glory of thy holy Name. Amen.

¶ *The Absolution, or Remission of sins, to be pronounced by the Priest alone, standing ; the people still kneeling.*

AL MIGHTY God, the Father of our Lord Jesus Christ, who desireth not the death of a sinner, but rather that he may turn from his wickedness, and live ; and hath given power, and commandment, to his Ministers, to declare and pronounce to his people, being penitent, the Absolution and Remission of their sins : He pardoneth and absolveth all them that truly repent,

PRYDNHAWNOL WEDDI.

yn ddiffuant yn credu i'w sancteiddiol Efengyl ef. O herwydd paham attolygwn ni iddo gan-izttau i ni wir edifeirwch, a'i Yspryd Glân; fel y byddo boddlon ganddo'r pethau yr ydym y pryd hwn yn eu gwneuthur; a bod y rhan arall o'n bywyd rhag llaw yn bur ac yn sancteiddiol; modd y delom o'r diwedd i'w lawenydd tragywyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yna y gostwng y Gweinidog ar ei liniau, ac a ddywed Weddi'r Arglwydd â llef uchel; a'r bobl hefyd ar eu gliniau, yn ei dywedyd gyd âg ef.*

EIN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, Megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg: Canys eiddot ti yw'r deyrnas, A'r gallu, A'r gogoniant, Yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Yna y dywed efe yn yr un modd, Arglwydd, agor ein gwefusau.*

Atteb. A'n genau a fynega dy foliant.

Offeiriad. Duw, brysia i'n cyn-northwyo.

Atteb. Arglwydd, prysura i'n cymmorth.

¶ *Yna, a phawb yn eu sefyll, yr Offeiriad a ddywed,*

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab: ac i'r Yspryd Glân;

Atteb. Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.

Offeiriad. Molwch yr Arglwydd.

Atteb. Moliannus fyddo Enw'r Arglwydd.

and unfeignedly believe his holy Gospel. Wherefore let us beseech him to grant us true repentance, and his holy Spirit, that those things may please him, which we do at this present; and that the rest of our life hereafter may be pure, and holy; so that at the last we may come to his eternal joy; through Jesus Christ our Lord. Amen.

¶ *Then the Minister shall kneel, and say the Lord's Prayer; the people also kneeling, and repeating it with him.*

OUR Father, which art in heaven, Hallowed be thy Name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, As it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil: For thine is the kingdom, The power, and the glory, For ever and ever. Amen.

¶ *Then likewise he shall say,*

O Lord, open thou our lips.

Answer. And our mouth shall shew forth thy praise.

Priest. O God, make speed to save us.

Answer. O Lord, make haste to help us.

¶ *Here all standing up, the Priest shall say,*

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost;

Answer. As it was in the beginning, is now, and ever shall be: world without end. Amen.

Priest. Praise ye the Lord.

Answer. The Lord's Name be praised.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

¶ *Yna y dywcedir, neu y cenir, y Psalman mewn trefn, megis y gosodwyd hwy. Yna Llith o'r Hen Destament, megis ag yr gosodwyd. Ar ol hymny, y Magnificat (neu Gân y fendigedig Fair Forwyn) yn Gymraeg, megis y carlyn.*

Magnificat. St. Luc i.

FY enaid a fawrhâ yr Arglwydd : a'm hyspryd a law-enychodd yn Nuw fy lachawdwr.

Canys efe a edrychodd : ar ostyngeddwydd ei wasanaethyddes.

Oblegid wele, o hyn allan : yr holl genhedlaethau a'm geilw yn wynfydedig.

Canys yr hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd : a sanct-aidd yw ei Enw ef.

A'i drugaredd sydd yn oes oesoedd : ar y rhai a'i hofnant ef.

Efe a ddangosodd nerth â'i fraich : efe a wasgarodd y rhai beilchion ym mwriadau eu calonnau.

Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u heisteddfau : ac a ddyrchafodd y rhai isel radd.

Efe a lanwodd y rhai newynog â phethau da : ac a anfonodd ymaith y rhai goludog mewn eisiau.

Efe a gynnorthwyodd ei was Israel, gan gofio ei drugaredd : fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i had, yn dragywydd.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Neu ynte y Psalm hon ; oddi eithr ar y namyn un ugeinfed dydd o'r mis, pan ddarllenir hi yn uhrefn gyffredin y Psalman.*

Cantate Domino. Psal. xcvi.

CENWCH i'r Arglwydd ganiad newydd : canys efe a wnaeth bethau rhyfedd : â'i

¶ *Then shall be said or sung the Psalms in order as they are appointed. Then a Lesson of the Old Testament, as is appointed. And after that, Magnificat (or the Song of the blessed Virgin Mary) in English, as followeth.*

Magnificat. St. Luke i.

MY soul doth magnify the Lord : and my spirit hath rejoiced in God my Saviour.

For he hath regarded : the lowliness of his hand-maiden.

For behold, from henceforth : all generations shall call me blessed.

For he that is mighty hath magnified me : and holy is his Name.

And his mercy is on them that fear him : throughout all generations.

He hath shewed strength with his arm : he hath scattered the proud in the imagination of their hearts.

He hath put down the mighty from their seat : and hath exalted the humble and meek.

He hath filled the hungry with good things : and the rich he hath sent empty away.

He remembering his mercy hath holpen his servant Israel : as he promised to our forefathers, Abraham and his seed, for ever.

Glory be to the Father, and to the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. Amen.

¶ *Or else this Psalm ; except it be on the Nineteenth Day of the Month, when it is read in the ordinary Course of the Psalms.*

Cantate Domino. Psal. xcvi.

O Sing unto the Lord a new song : for he hath done marvellous things.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

ddeheulaw, ac â'i fraich sanct-
aidd, y parodd iddo ei hun iach-
awdwriaeth.

Hyspysodd yr Arglwydd ei
iachawdwriaeth : a datguddiodd
ei gyfiawnder yngolwg y cen-
hedloedd.

Cofiodd ei drugaredd a'i wir-
ionedd i dŷ Israel : a holl derfyn-
au'r ddaear a welsant iachawd-
wriaeth ein Duw ni.

Cenwch yn llafar i'r Arglwydd,
yr holl ddaear : llefwch, ac ym-
lawenhêwch, a chenwch.

Cenwch i'r Arglwydd gyd â'r
delyn : sef gyd â'r delyn â llef
cannoliaeth.

Cenwch yn llafar o flaen yr
Arglwydd y Brenhin : ar yr ud-
gyrn a sain cornet.

Rhued y môr, ac y sydd yn-
ddo : y byd, a'r rhai a drigant
o'i fewn.

Cured y llifeiriaint eu dwylaw,
a chyd-ganed y mynyddoedd o
flaen yr Arglwydd : canys efe a
ddaeth i farnu'r ddaear.

Efe a farna'r byd mewn cyfi-
awnder : a'r bobloedd mewn
uniondeb.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab :
ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu,
y mae yr awr hon, ac y bydd yn
wastad : yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Yna Llith o'r Testament Newydd,*
megis y gosodwyd : ac ar ol hynny,
Nunc dimittis (neu Gân Simeon)
yn Gymraeg, megis y canlyn.

Nunc dimittis. St. Luc ii. 29.

YR awr hon, Arglwydd, y go-
llyngi dy was mewn tang-
nefedd : yn ol dy air.

Canys fy llygaid a welsant : dy
iachawdwriaeth,

Yr hon a barottoaist : ger bron
wynèb yr holl bobl ;

I fod yn oleuni i oleuo'r Cen-

With his own right hand, and
with his holy arm : hath he got-
ten himself the victory.

The Lord declared his salva-
tion : his righteousness hath he
openly shewed in the sight of
the heathen.

He hath remembered his mer-
cy and truth toward the house
of Israel : and all the ends of
the world have seen the salva-
tion of our God.

Shew yourselves joyful unto
the Lord, all ye lands : sing, re-
joice, and give thanks.

Praise the Lord upon the harp :
sing to the harp with a psalm of
thanksgiving.

With trumpets also and
shawms : O shew yourselves
joyful before the Lord the King.

Let the sea make a noise, and
all that therein is : the round
world, and they that dwell
therein.

Let the floods clap their hands,
and let the hills be joyful to-
gether before the Lord : for he
cometh to judge the earth.

With righteousness shall he
judge the world : and the people
with equity.

Glory be to the Father, and to
the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is
now, and ever shall be : world
without end. Amen.

¶ *Then a Lesson of the New Testa-*
ment, as it is appointed. And
after that, Nunc dimittis (or the
Song of Symeon) in English, as
followeth.

Nunc dimittis. St. Luke ii. 29.

LORD, now lettest thou thy
servant depart in peace :
according to thy word.

For mine eyes have seen : thy
salvation,

Which thou hast prepared :
before the face of all people ;

To be a light to lighten the

PRYDNHAWNOL WEDDI.

hedloedd : ac yn ogoniant i'th bobl Israel.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Neu y Psalm hon; oddi eithr ar y deuddegfed dydd o'r mis.*

Deus misereatur. Psal. lxxvii.

DUW a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio : a thywynned llewyrch ei wyneb arnom, a thrugarhâed wrthym.

Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear : a'th iachawdwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.

Molianned y bobl di, O Dduw : molianned yr holl bobl dydi.

Llawenhâed y cenhedloedd, a byddant hyfryd : canys tydi a ferni'r bobl yn uniawn, ac a lywodraethi'r cenhedloedd ar y ddaear.

Molianned y bobl di, O Dduw : molianned yr holl bobl dydi.

Yna'r ddaear a rydd ei ffrwyth : a Duw, sef ein Duw ni, a'n bendithia.

Duw a'n bendithia : a holl derfynau'r ddaear a'i hofnant ef.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Yna y cenir, neu y dywedir, Cred-o'r Apostolion gan y Gweinidog a'r bobl, yn eu sefyll.*

CREDAF yn Nuw Dad Holl-gyfoethog, Creawdwr nef a daear :

Ac yn Iesu Grist ei un Mab ef, ein Harglwydd ni, Yr hwn a gaed trwy yr Yspryd Glân, A aned o Fair Forwyn, A ddiodefodd dan Pontius Pilatus, A

Gentiles : and to be the glory of thy people Israel.

Glory be to the Father, and to the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. Amen.

¶ *Or else this Psalm; except it be on the Twelfth Day of the Month.*

Deus misereatur. Psal. lxxvii.

GOD be merciful unto us, and bless us : and shew us the light of his countenance, and be merciful unto us :

That thy way may be known upon earth : thy saving health among all nations.

Let the people praise thee, O God : yea, let all the people praise thee.

O let the nations rejoice and be glad : for thou shalt judge the folk righteously, and govern the nations upon earth.

Let the people praise thee, O God : yea, let all the people praise thee.

Then shall the earth bring forth her increase : and God, even our own God, shall give us his blessing.

God shall bless us : and all the ends of the world shall fear him.

Glory be to the Father, and to the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. Amen.

¶ *Then shall be said or sung the Apostles' Creed by the Minister and the people, standing.*

I Believe in God the Father Almighty, Maker of heaven and earth :

And in Jesus Christ his only Son our Lord, Who was conceived by the Holy Ghost, Born of the Virgin Mary, Suffered under Pontius Pilate, Was cru-

PRYDNHAWNOL WEDDI.

groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd; A ddisgynodd i uffern; Y trydydd dydd y cyfodd o feirw; A esgynodd i'r nefoedd, Ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw Dduw Dad Holl-gyfoethog; Oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Credaf yn yr Yspryd Glân; Yr Eglwys Lân Gatholig; Cymmun y Saint; Maddeuant Pechodau; Adgyfodiad y Cnawd, A'r Bywyd tragywyddol. Amen.

¶ *Ac ar ol hynny, y Gweddïau hyn sy'n canlyn, a phawb yn gostwng yn ddefosiynol ar eu gliniau; y Gweinidog yn gyntaf a lesara â llef uchel,*

Yr Arglwydd a fo gyd â chwi. *Atteb.* A chyd â'th yspryd dithau.

Gweinidog. Gweddïwn. Arglwydd, trugarhâ wrthym. *Crist, trugarhâ wrthym.* Arglwydd, trugarhâ wrthym.

¶ *Yna'r Gweinidog, yr Ysgolheigion, a'r bobl, a ddywedant Weddï yr Arglwydd â llesferydd uchel.*

EIN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, Megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

¶ *Yna'r Gweinidog yn ei sefyll, a ddywed,*

Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom.

Atteb. A chaniattâ i ni dy iachawdwriaeth.

Offeiriad. Arglwydd, cadw y Frenhines.

Atteb. A gwrando ni yn drugarog pan a'wom arnat.

cified, dead, and buried, He descended into hell; The third day he rose again from the dead, He ascended into heaven, And sitteth on the right hand of God the Father Almighty; From thence he shall come to judge the quick and the dead.

I believe in the Holy Ghost; The holy Catholick Church; The Communion of Saints; The Forgiveness of sins; The Resurrection of the body, And the life everlasting. Amen.

¶ *And after that, these Prayers following, all devoutly kneeling; the Minister first pronouncing with a loud voice,*

The Lord be with you. *Answer.* And with thy spirit.

Minister. Let us pray.

Lord, have mercy upon us.

Christ, have mercy upon us.

Lord, have mercy upon us.

¶ *Then the Minister, Clerks, and people, shall say the Lord's Prayer with a loud voice.*

OUR Father, which art in heaven, Hallowed be thy Name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, As it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

¶ *Then the Priest standing up shall say,*

O Lord, shew thy mercy upon us;

Answer. And grant us thy salvation.

Priest. O Lord, save the Queen.

Answer. And mercifully hear us when we call upon thee.

PRYDNHAWNOL WEDDI.

Offeiriad. Gwisg dy Weiaid-ogion ág iawnder.

Atteb. A gwna dy ddewisol bobl yu llawen.

Offeiriad. Arglwydd, cadw dy bobl.

Atteb. A bendithia dy etifedd-iaeth.

Offeiriad. Arglwydd, dyro dangnefedd yn ein dyddiau.

Atteb. Gan nad oes neb arall a ymladd drosom, ond tydi, Dduw, yn unig.

Offeiriad. Duw, glanhâ ein calonau ynom.

Atteb. Ac na chymmer dy Yspryd Glân oddi wrthym.

¶ *Yna y canlyn tri Cholect; y cyntaf, o'r Dydd; yr ail, am Dangnefedd; y trydydd, am Gynhorthwy yn erbyn pob Perygl, fel y canlyn yma rhagllaw. A'r ddau Golect diweddaf a ddywedir bob dydd ar Brydnawnol Weddi, heb gyfnewid.*

Yr ail Golect, ar y Brydnawnol Weddi.

DUW, oddi wrth ba un y daw pob adduned sanct-aidd, pob cyngor da, a phob gweithred gyfiawn; Dyro i'th wasanaeth-ddynion y rhyw dangnefedd a'r na ddichon y byd ei roddi; modd y gallo ein calonau ymroi i ufuddhâu i'th orchymynion, ac hefyd trwy'n hamddiffyn ni rhag ofn ein gelynyon, allu o honom dreulio ein hamser mewn heddwch a thangnefedd; trwy haeddedigaethau Iesu Grist ein Hiachawdwr. *Amen.*

Y trydydd Colect, am Gynhorthwy yn erbyn pob Peryglon.

GOLEUA ein tywyllwch, ni a attolygwn i ti, O Arglwydd; a thrwy dy fawr drugaredd amddiffyn nyni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon; er serch ar dy un Mab, ein Hiachawdwr Iesu Grist. *Amen.*

¶ *Mewn Coran, a Mannau lle'r arferont gann, yma y canlyn yr Anthem.*

Priest. Endue thy Ministers with righteousness.

Answer. And make thy chosen people joyful.

Priest. O Lord, save thy people.

Answer. And bless thine inheritance.

Priest. Give peace in our time, O Lord.

Answer. Because there is none other that fighteth for us, but only thou, O God.

Priest. O God, make clean our hearts within us.

Answer. And take not thy holy Spirit from us.

¶ *Then shall follow three Collects; the first of the Day; the second for Peace; the third for Aid against all Perils, as hereafter followeth; which two last Collects shall be daily said at Evening Prayer without alteration.*

The second Collect at Evening Prayer.

O God, from whom all holy desires, all good counsels, and all just works do proceed; Give unto thy servants that peace which the world cannot give; that both our hearts may be set to obey thy commandments, and also that by thee we being defended from the fear of our enemies may pass our time in rest and quietness; through the merits of Jesus Christ our Saviour. *Amen.*

The third Collect, for Aid against all Perils.

LIGHTEN our darkness, we beseech thee, O Lord; and by thy great mercy defend us from all perils and dangers of this night; for the love of thy only Son, our Saviour, Jesus Christ. *Amen.*

¶ *In Quires and Places where they sing, here followeth the Anthem.*

PRYDNHAWNOL WEDDI.

Gweddi dros Fawrhydi'r Frenhines.

O Arglwydd, ein Tad nefol, goruchel a galluog, Brenhin y brenhinoedd, Arglwydd yr arglwyddi, unig Lywiawdwr y tywysogion, yr hwn wyt o'th eisteddle yn edrych ar holl drigolion y ddaear; Ni a attolygwn ac a erfyniwn i ti, edrych o honot yn ddarbodus ar ein grasusaf Arglwyddes, y Frenhines *VICTORIA*; ac felly ei chyflawni hi o ras dy Sanctaidd Yspryd, fel y bo iddi yn wastadol bwyso at dy feddwl, a rhodio yn dy ffordd: Cynnysgaedda hi yn hel-aeth â doniau nefol; caniattâ iddi mewn llwyddiant ac iechyd hir hoedl; nertha hi modd y gallo oresgyn a gorchfygu ei holl elynion; ac o'r diwedd, ar ol y fuchedd hon, bod iddi fwynhâu llawenydd a dedwyddydd tragywyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi dros y Brenhinol Deulu.

HOLL-alluog Dduw, ffynnon pob daioni, yr ydym ni yn ostyngedig yn attolwg i ti fendithio *Albert Edward* Tywysog *Cymru*, Tywysoges *Cymru*, a'r holl Frenhinol Deulu: Cynnysgaedda hwy â'th Yspryd Glân; cyfoethoga hwy â'th nefol ras; llwydda hwy â phob dedwyddwch; a dwg hwy i'th dragwyddol deyrnas; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi dros yr Offeiriaid a'r bobl.

HOLL-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn wyt yn unig yn gwneuthur rhyfeddodau; Danfon i lawr ar ein Heshgobion a'n Curadiaid, a'r holl gynulleidfaon a orchymynwyd dan eu gofal hwynt, iachol Yspryd dy ras; ac fel y gallont wir ryngu bodd i ti, tywallt arnynt ddyfal wllith dy fendith. Caniattâ hyn, Arglwydd, er an-

A Prayer for the Queen's Majesty.

O Lord our heavenly Father, high and mighty, King of kings, Lord of lords, the only Ruler of princes, who dost from thy throne behold all the dwellers upon earth; Most heartily we beseech thee with thy favour to behold our most gracious Sovereign Lady, Queen *VICTORIA*; and so replenish her with the grace of thy Holy Spirit, that she may alway incline to thy will, and walk in thy way: Endue her plenteously with heavenly gifts; grant her in health and wealth long to live; strengthen her that she may vanquish and overcome all her enemies; and finally, after this life, she may attain everlasting joy and felicity; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

A Prayer for the Royal Family.

ALMIGHTY God, the fountain of all goodness, we humbly beseech thee to bless *Albert Edward* Prince of *Wales*, the Princess of *Wales*, and all the Royal Family: Endue them with thy holy Spirit; enrich them with thy heavenly grace; prosper them with all happiness; and bring them to thine everlasting kingdom; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

A Prayer for the Clergy and people.

ALMIGHTY and everlasting God, who alone workest great marvels; Send down upon our Bishops, and Curates, and all Congregations committed to their charge, the healthful Spirit of thy grace; and that they may truly please thee, pour upon them the continual dew of thy blessing. Grant this, O Lord, for the honour of our Advocate

PRYDNHAWNOL WEDDI.

rhydedd ein Dadleuwr a'n Cyf-
ryngwr, Iesu Grist. *Amen.*

Gweddi o waith St. Chrysostom.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn
a roddaist i ni ras y pryd
hwn, trwy gyfundeb a chyd-
gyfarch, i weddiö arnat; ac wyt
yn addaw, pan ymgynhullo dau
neu dri yn dy Enw, bod i ti
ganiattâu eu gofynion: Cyf-
lawna yr awr hon, O Arglwydd,
ddymuniad a deisyfiad dy weis-
ion, fel y bo mwyaf buddiol
iddynt; gan ganiattâu i ni yn y
byd hwn wybodaeth am dy wir-
ionedd, ac yn y byd a ddaw,
fywyd tragywyddol. *Amen.*

2 Cor. xiii.

GRAS ein Harglwydd Iesu
Grist, a chariad Duw, a
chymdeithas yr Yspryd Glân, a
fyddo gyd â ni oll byth byth-
oedd. *Amen.*

and Mediator, Jesus Christ. *A-
men.*

A Prayer of St. Chrysostom.

ALMIGHTY God, who hast
given us grace at this time
with one accord to make our
common supplications unto thee;
and dost promise, that when two
or three are gathered together in
thy Name thou wilt grant their
requests: Fulfil now, O Lord,
the desires and petitions of thy
servants, as may be most ex-
pedient for them; granting us
in this world knowledge of thy
truth, and in the world to come
life everlasting. *Amen.*

2 Cor. xiii.

THE grace of our Lord Jesus
Christ, and the love of God,
and the fellowship of the Holy
Ghost, be with us all evermore.
Amen.

Yma y diwedd Trefn y Brydnhawnol Weddi trwy'r Flwyddyn.

CREDO SANT ATHANASIUS.

¶ *Ar y Gwyliau hyn ; sef, dydd Nadolig Crist, dydd gwyl Ystwyll, dydd gwyl Sant Matthias, dydd Pasg, y Dyrchafael, y Sulgwyn, dydd Gwyl Sant Ioan Fedyddiwr, Sant Iago, Sant Bartholomeus, Sant Matthew, Sant Simon a Sant Judas, Sant Andreas, a Sul y Drindod ; y ceir, neu y dywedir, ar y Forcol Weddi, yn lle Credo yr Apostolion, y Gyffes hon o'n Ffydd Gristionogol, a ekwir yn gyffredin, Credo Sant Athanasius, gan y Gweinidog a'r Bobl, yn sefyll.*

Quicumque vult.

PWY bynnag a fynno fod yn gadwedig : o flaen dim rhaid iddo gynnal y Ffydd Gatholig.

Yr hon Ffydd, oni's ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog : diammen y collir ef yn dragwydd.

A'r Ffydd Gatholig yw hon : Bod i ni addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod.

Nid cymmysgu o honom y Personau : na gwahanu 'r Sylwedd.

Canys un Person sydd i'r Tad, arall i'r Mab : ac arall i'r Ysoryd Glân.

Eithr Duwdod y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, sydd unrhyw : Gogoniant gogyfuch, Mawrhydi gogyd-tragywyddol.

Unrhyw yw 'r Tad, unrhyw yw 'r Mab : unrhyw yw 'r Yspryd Glân.

Digrëedig Dad, digrëedig Fab : digrëedig Yspryd Glân.

Anfesuredig Dad, anfesuredig Fab : anfesuredig Yspryd Glân.

Tragywyddol Dad, tragwyddol Fab : tragwyddol Yspryd Glân.

Ac etto nid ydynt dri thragywyddolion : ond un tragwyddol.

Ac fel nad ynt dri anfesuredigion, na thri digrëedigion : ond un digrëedig, ac un anfesuredig.

Felly yn gyffelyb, Holl-alluog yw 'r Tad, Holl-alluog yw 'r Mab : Holl-alluog yw 'r Yspryd Glân.

Quicumque vult.

WHOSOEVER will be saved : before all things it is necessary that he hold the Catholic Faith.

Which Faith except every one do keep whole and undefiled : without doubt he shall perish everlastingly.

And the Catholick Faith is this : That we worship one God in Trinity, and Trinity in Unity ;

Neither confounding the Persons : nor dividing the Substance.

For there is one Person of the Father, another of the Son : and another of the Holy Ghost.

But the Godhead of the Father, of the Son, and of the Holy Ghost, is all one : the Glory equal, the Majesty co-eternal.

Such as the Father is, such is the Son : and such is the Holy Ghost.

The Father uncreate, the Son uncreate : and the Holy Ghost uncreate.

The Father incomprehensible, the Son incomprehensible : and the Holy Ghost incomprehensible.

The Father eternal, the Son eternal : and the Holy Ghost eternal.

And yet they are not three eternals : but one eternal.

As also there are not three incomprehensibles, nor three uncreated : but one uncreated, and one incomprehensible.

So likewise the Father is Almighty, the Son Almighty : and the Holy Ghost Almighty.

CREDO SANT ATHANASIUS.

Ac etto nid ŷnt dri Holl-alluogion : ond un Holl-alluog.

Felly y Tad sy Dduw, y Mab sy Dduw : a'r Yspryd Glân sy Dduw.

Ac etto nid ŷnt dri Duwiau : ond un Duw.

Felly y Tad sydd Arglwydd, y Mab sydd Arglwydd : a'r Yspryd Glân sydd Arglwydd ;

Ac etto nid ŷnt dri Arglwyddi : namyn un Arglwydd.

Canys fel y'n cymhellir trwy y Cristionogaidd wirionedd : i gyfaddef bod pob Person o hono ei hun yn Dduw ac yn Arglwydd ;

Felly y'n gwaherddir trwy'r Gatholig Grefydd : i ddywedyd, bod tri Duwiau, neu dri Arglwyddi.

Y Tad ni wnaethpwyd gan neb : ni's crëwyd, ac ni's cenedlwyd.

Y Mab sydd o'r Tad yn unig : heb ei wneuthur, na'i grëu ; eithr wedi ei genhedlu.

Yr Yspryd Glân sydd o'r Tad a'r Mab : heb ei wneuthur, na'i grëu, na'i genhedlu ; eithr yn deilliaw.

Wrth hynny, un Tad y sydd, nid tri Thad ; un Mab, nid tri Mab : un Yspryd Glân, nid tri o Ysprydion Glân.

Ac yn y Drindod hon, nid oes un cynt, neu gwedi eu gilydd : nid oes un mwy na llai nâ'u gilydd ;

Eithr yr holl dri Phersonau ydynt ogyd-tragywyddol : a go-gyfuwch.

Ac felly ym mhob peth, fel y dywedwyd uchod : yr Undod yn y Drindod, a'r Drindod yn yr Undod sydd i'w haddoli.

Pwy bynnag gan hynny a fynno fod yn gadwedig : synied felly o'r Drindod.

Y mae hefyd yn anghenraid, er mwyn tragywyddol iachawdwriaeth : gredu o ddyn yn ffyddlon am gnawdoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

And yet they are not three Almightyies : but one Almighty.

So the Father is God, the Son is God : and the Holy Ghost is God.

And yet they are not three Gods : but one God.

So likewise the Father is Lord, the Son Lord : and the Holy Ghost Lord.

And yet not three Lords : but one Lord.

For like as we are compelled by the Christian verity : to acknowledge every Person by himself to be God and Lord ;

So are we forbidden by the Catholick Religion : to say, There be three Gods, or three Lords.

The Father is made of none : neither created, nor begotten.

The Son is of the Father alone : not made, nor created, but begotten.

The Holy Ghost is of the Father and of the Son : neither made, nor created, nor begotten, but proceeding.

So there is one Father, not three Fathers ; one Son, not three Sons : one Holy Ghost, not three Holy Ghosts.

And in this Trinity none is afore, or after other : none is greater, or less than another ;

But the whole three Persons are co-eternal together : and co-equal.

So that in all things, as is aforesaid : the Unity in Trinity, and the Trinity in Unity is to be worshipped.

He therefore that will be saved : must thus think of the Trinity.

Furthermore, it is necessary to everlasting salvation : that he also believe rightly the Incarnation of our Lord Jesus Christ.

CREDO SANT ATHANASIUS.

Canys yr iawn ffydd yw, credu a chyffesu o honom : fod ein Harglwydd ni Iesu Grist, Fab Duw, yn Dduw ac yn Ddyn ;

Duw, o Sylwedd y Tad, wedi ei genhedlu cyn yr oesoedd : a Dyn, o Sylwedd ei fam, wedi ei eni yn y byd ;

Perffaith Dduw, a pherffaith Ddyn : o enaid rhesymmol, a dynol gnawd yn hanfod ;

Gogyfuwch a'r Tad, oblegid ei Dduwdod : a llai nâ'r Tad, oblegid ei Ddyndod.

Yr hwn er ei fod yn Dduw ac yn Ddyn : er hynny nid yw efe ddau, ond un Crist.

Un ; nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn gnawd : ond gan gymmeryd y Dyndod at Dduw ;

Un i gŷd oll ; nid gan gymmysgu 'r Sylwedd : ond drwy undod Person.

Canys fel y mae yr enaid rhesymmol a'r cnawd yn un dyn : felly Duw a Dyn sydd un Crist :

Yr hwn a ddioddefodd er ein hiachawdwriaeth : a ddisgynodd i uffern, a gyfododd y trydydd dydd o feirw.

Esgynodd i'r nefoedd, ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw 'r Tad, Duw Holl-alluog : oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Ac ar ei ddyfodiad y cyfyd pob dyn yn eu cyrph eu hunain : ac a roddant gyfrif am eu gweithredoedd priod.

A'r rhai a wnaethant dda, a ant i'r bywyd tragwyddol : a'r rhai a wnaethant ddrwg, i'r tân tragwyddol.

Hon yw y Ffydd Gatholig : yr hon pwy bynnag a'r ni's cretto yn ffyddlon, ni all efe fod yn gadwedig.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

For the right Faith is, that we believe and confess : that our Lord Jesus Christ, the Son of God, is God and Man ;

God, of the Substance of the Father, begotten before the worlds : and Man, of the Substance of his Mother, born in the world ;

Perfect God, and perfect Man : of a reasonable soul and human flesh subsisting ;

Equal to the Father, as touching his Godhead : and inferior to the Father, as touching his Manhood.

Who although he be God and Man : yet he is not two, but one Christ ;

One ; not by conversion of the Godhead into flesh : but by taking of the Manhood into God ;

One altogether ; not by confusion of Substance : but by unity of Person.

For as the reasonable soul and flesh is one man : so God and Man is one Christ ;

Who suffered for our salvation : descended into hell, rose again the third day from the dead.

He ascended into heaven, he sitteth on the right hand of the Father, God Almighty : from whence he shall come to judge the quick and the dead.

At whose coming all men shall rise again with their bodies : and shall give account for their own works.

And they that have done good shall go into life everlasting : and they that have done evil into everlasting fire.

This is the Catholick Faith : which except a man believe faithfully, he cannot be saved.

Glory be to the Father, and to the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. Amen.

Y LITANI.

¶ *Yma y canlyn y Litani, neu Ymbiliau Cyffredinol, i'w canu, neu i'w dywedyd, ar ol y Foreol Wcddi, ar y Suliau, y Merchurau, a'r Gwenerau, ac ar Amserau craill, pau orchymyner gan yr Ordinari.*

DUW Dad, o'r nef : trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Dad, o'r nef : trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Fab, Brynwr y byd : trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Fab, Brynwr y byd : trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Yspryd Glân, yn deill-iaw oddi wrth y Tad a'r Mab : trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Yspryd Glân, yn deill-iaw oddi wrth y Tad a'r Mab : trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Yr ogoned, lân, fendigaidd Drindod, tri Pherson, ac un Duw : trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Yr ogoned, lân, fendigaidd Drindod, tri Pherson, ac un Duw : trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Na chofia, Arglwydd, ein hanwiredd, nac anwiredd ein rhieni ; ac na ddyro ddiâl am ein pechodau : arbed nyni, Arglwydd daionus, arbed dy bobl a brynaist â'th werthfawroccaf waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd.

Arbed ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth bob drwg ac anffawd ; oddi wrth bechod, oddi wrth ystryw ac ymgyrch y cythraul ; oddi wrth dy lid, ac oddi wrth farnedigaeth dragywyddol,

Gwarded ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth bob dallineb calon ; oddi wrth falchder, a gwag-ogoniant, a ffug sancteidrwydd ; oddi

O God the Father, of heaven : have mercy upon us miserable sinners.

O God the Father, of heaven : have mercy upon us miserable sinners.

O God the Son, Redeemer of the world : have mercy upon us miserable sinners.

O God the Son, Redeemer of the world : have mercy upon us miserable sinners.

O God the Holy Ghost, proceeding from the Father and the Son : have mercy upon us miserable sinners.

O God the Holy Ghost, proceeding from the Father and the Son : have mercy upon us miserable sinners.

O holy, blessed, and glorious Trinity, three Persons and one God : have mercy upon us miserable sinners.

O holy, blessed, and glorious Trinity, three Persons and one God : have mercy upon us miserable sinners.

Remember not, Lord, our offences, nor the offences of our forefathers ; neither take thou vengeance of our sins : spare us, good Lord, spare thy people, whom thou hast redeemed with thy most precious blood, and be not angry with us for ever.

Spare us, good Lord.

From all evil and mischief ; from sin, from the crafts and assaults of the devil ; from thy wrath, and from everlasting damnation,

Good Lord, deliver us.

From all blindness of heart ; from pride, vain-glory, and hypocrisy ; from envy, hatred, and

Y LITANI.

wrth gynfigen, digasedd, a bwriad drwg, a phob anghariadoldeb,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth anniweirdeb, a phob pechod marwol arall; ac oddi wrth holl dwyll y byd, y cnawd, a'r cythraul,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth felt a thymmestl; oddi wrth bla, haint y nodau, a newyn; oddi wrth ryfel, a llofruddiaeth, ac oddi wrth angau disyfyd,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Oddi wrth bob terfysg, dirgel frad, a gwrthryfel; oddi wrth bob gau ddysegeidiaeth, heresi, a sism; oddi wrth galedrwydd calon, a dirmyg ar dy Air a'th Orchymyn,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Trwy ddirgelwch dy lân Gnawdoliaeth; trwy dy sanctaidd Enedigaeth, a'th Enwaed-iad; trwy dy Fedydd, dy Ym-
pryd, a'th Brofedigaeth,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Trwy dy ddirfawr Ing, a'th Chwys gwaedlyd; trwy dy Grog, a'th Ddiodefaint; trwy dy werthfawr Angau, a'th Gladd-edigaeth; trwy dy anrhydeddus Adgyfodiad, a'th Esgyniad; a thrwy ddyfodiad yr Yspryd Glân,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Yn holl amser ein trallod, yn holl amser ein gwynfyd; yn awr angau, ac yn nydd y farn,

Gwared ni, Arglwydd daionus.

Nyni bechaduriaid a attolygwn i ti ein gwrando, O Arglwydd Dduw; a theilyngu o honot gadw, rheoli, a llywodraethu dy lân Eglwys Gyffredinol yn y ffordd union;

Nyni a attolygwn i ti ein gurando, Arglwydd trugarog.

Theilyngu o honot gadw a nerthu i'th wir addoli, mewn iawnder a glendid buchedd, dy

malice, and all uncharitable-ness,

Good Lord, deliver us.

From fornication, and all other deadly sin; and from all the de-
ceits of the world, the flesh, and the devil,

Good Lord, deliver us.

From lightning and tempest; from plague, pestilence, and fa-
mine; from battle and murder, and from sudden death,

Good Lord, deliver us.

From all sedition, privy con-
spiracy, and rebellion; from all false doctrine, heresy, and schism; from hardness of heart, and contempt of thy Word and Commandment,

Good Lord, deliver us.

By the mystery of thy holy Incarnation; by thy holy Nati-
vity and Circumcision; by thy Baptism, Fasting, and Tempta-
tion,

Good Lord, deliver us.

By thine Agony and bloody Sweat; by thy Cross and Pas-
sion; by thy precious Death and Burial; by thy glorious Resurrection and Ascension; and by the coming of the Holy Ghost,

Good Lord, deliver us.

In all time of our tribulation; in all time of our wealth; in the hour of death, and in the day of judgement,

Good Lord, deliver us.

We sinners do beseech thee to hear us, O Lord God; and that it may please thee to rule and govern thy holy Church univer-
sal in the right way;

We beseech thee to hear us, good Lord.

That it may please thee to keep and strengthen in the true worshipping of thee, in righte-
ousness and holiness of life, thy

Wasanaethyddes *VICTORIA*,
ein grasusaf Frenhines a'n Pen-
llywydd;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot lywodraethu
ei chalon yn dy ffydd, ofn, a
chariad; ac iddi ymddiried byth
ynot, ac ymgais yn wastad a'th
anrhydedd a'th ogoniant;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot ei ham-
ddiffyn a'i chadw, gan roddi iddi
fuddugoliaeth ar ei holl elynion;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot fendithio a
chadw *Albert Edward* Tywysog
Cymru, Tywysoges *Cymru*, a'r
holl Frenhinol Deulu;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot lewyrchu
yr holl Esgobion, Offeiriaid, a
Diaconiaid, âg iawn wybodaeth
a deall dy Air; ac iddynt hwy,
trwy eu pregeth a'u buchedd,
ei fynegi a'i ddangos yn ddylad-
wy;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot gynnysg-
aeddu Arglwyddi'r Cynghor, a'r
holl Fonedd, â gras, doethineb,
a deall;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot fendithio a
chadw y Pen-swyddogion; gan
roddi iddynt ras i wneuthur cyf-
iawnder, ac i amddiffyn y gwir;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot fendithio a
chadw dy holl bobl;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arglwydd trugarog.*

Teilyngu o honot roddi i bob
cenedl undeb, tangnefedd, a
chyd-gordio;

Servant *VICTORIA*, our most
gracious Queen and Governour;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to rule
her heart in thy faith, fear, and
love, and that she may evermore
have affiance in thee, and ever
seek thy honour and glory;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to be her
defender and keeper, giving her
the victory over all her enemies;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to
bless and preserve *Albert Edward*
Prince of *Wales*, the Princess
of *Wales*, and all the Royal
Family;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to il-
luminat all Bishops, Priests, and
Deacons, with true knowledge
and understanding of thy Word;
and that both by their preaching
and living they may set it forth,
and shew it accordingly;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to
endue the Lords of the Council,
and all the Nobility, with grace,
wisdom, and understanding;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to
bless and keep the Magistrates,
giving them grace to execute
justice, and to maintain truth;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to
bless and keep all thy people;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to
give to all nations unity, peace,
and concord;

Y LITANI.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrandu, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i ni galon i'th garu ac i'th ofni, ac i fyw yn ddiesgeulus yn ol dy orchymynion ;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrandu, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i'th holl bobl ychwaneg o ras, i wrando yn ufudd dy Air, ac i'w dderbyn o bur ewyllys, ac i gynhyrchu ffrwythau yr Yspryd ;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrandu, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot ddwyn i'r ffordd wir bawb a'r aeth ar gyfeiliorn, ac a dwyllwyd ;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrandu, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot nerthu y rhai sydd yn sefyll ; a chysuro a chynnorthwyo y rhai sydd â gwan galon, a chyfodi 'r sawl a syrthiant, ac o'r diwedd curo i law'r Satan dan ein traed ;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrandu, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gymmorth, helpu, a diddanu, pawb a'r sy mewn perygl, angenoetid, a thrallod ;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrandu, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gadw pawb a'r y sydd yn ymdaith ar fôr neu dir, pob gwraig wrth esgor plant, yr holl gleifion, a rhai bychain ; a thosturio wrth bawb a fyddo mewn caethiwed a charchar ;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrandu, Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot amddiffyn ac angeleddu y plant amddifaid, a'r gwragedd gweddwon, a phawb a'r y sydd yn unig, ac yn goddef gorthrymder ;

Nyni a attolygwn i ti ein gwrandu, Arglwydd trugarog.

We beseech thee to hear us, good Lord.

That it may please thee to give us an heart to love and dread thee, and diligently to live after thy commandments ;

We beseech thee to hear us, good Lord.

That it may please thee to give to all thy people increase of grace to hear meekly thy Word, and to receive it with pure affection, and to bring forth the fruits of the Spirit ;

We beseech thee to hear us, good Lord.

That it may please thee to bring into the way of truth all such as have erred, and are deceived ;

We beseech thee to hear us, good Lord.

That it may please thee to strengthen such as do stand ; and to comfort and help the weak-hearted ; and to raise up them that fall ; and finally to beat down Satan under our feet ;

We beseech thee to hear us, good Lord.

That it may please thee to succour, help, and comfort, all that are in danger, necessity, and tribulation ;

We beseech thee to hear us, good Lord.

That it may please thee to preserve all that travel by land or by water, all women labouring of child, all sick persons, and young children ; and to shew thy pity upon all prisoners and captives ;

We beseech thee to hear us, good Lord.

That it may please thee to defend, and provide for, the fatherless children, and widows, and all that are desolate and oppressed ;

We beseech thee to hear us, good Lord.

Y LITANI.

Teilyngu o honot drugarhâu
wrth bob dyn ;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arghwydd trugarog.*

Teilyngu o honot faddeu i'n
gelynion, erlynwŷr, ac enllib-
wŷr, a throi eu calonnau ;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arghwydd trugarog.*

Teilyngu o honot roddi a
chadw er ein lles, amserol
ffrwythau'r ddaear, modd y
caffom mewn amser dyledus eu
mwynhâu ;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arghwydd trugarog.*

Teilyngu o honot roddi i ni
wir edifeirwch ; a maddeu i ni
ein holl bechodau, ein hesgeu-
lusdra, a'n hanwybod ; a'n cyn-
nysgaeddu â gras dy Yspryd
Glân, i wellhâu ein buchedd yn
ol dy Air sanctaidd ;

*Nyni a attolygwn i ti ein
gwrando, Arghwydd trugarog.*

Mab Duw : attolygwn i ti ein
gwrando.

*Mab Duw : attolygwn i ti ein
gwrando.*

Oen Duw : yr hwn wyt yn
dilëu pechodau'r byd ;

Caniattâ i ni dy dangnefedd.

Oen Duw : yr hwn wyt yn
dilëu pechodau'r byd ;

Trugarhâ wrthym.

Crist, clyw nyni.

Crist, clyw nyni.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Crist, trugarhâ wrthym.

Crist, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

¶ *Yua y dywed yr Offeiriad, a'r bobl
gyd âg ef, Weddi'r Arglwydd.*

EIN Tad, yr hwn wyt yn y
nefoedd, Sancteiddier dy
Enw. Deued dy deyrnas. Bydd-
ed dy ewyllys ar y ddaear, Meg-

That it may please thee to
have mercy upon all men ;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to for-
give our enemies, persecutors,
and slanderers, and to turn their
hearts ;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to
give and preserve to our use the
kindly fruits of the earth, so
as in due time we may enjoy
them ;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

That it may please thee to
give us true repentance ; to for-
give us all our sins, negligences,
and ignorances ; and to endue
us with the grace of thy Holy
Spirit to amend our lives accord-
ing to thy holy Word ;

*We beseech thee to hear us,
good Lord.*

Son of God : we beseech thee
to hear us.

*Son of God : we beseech thee to
hear us.*

O Lamb of God : that takest
away the sins of the world ;

Grant us thy peace.

O Lamb of God : that takest
away the sins of the world ;

Have mercy upon us.

O Christ, hear us.

O Christ, hear us.

Lord, have mercy upon us.

Lord, have mercy upon us.

Christ, have mercy upon us.

Christ, have mercy upon us.

Lord, have mercy upon us.

Lord, have mercy upon us.

¶ *Then shall the Priest, and the
people with him, say the Lord's
Prayer.*

OUR Father, which art in
heaven, Hallowed be thy
Name. Thy kingdom come.
Thy will be done in earth, As

Y LITANI.

is y mae yn y Nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Offeiriad. Arglwydd, na wna â nyni yn ol ein pechodau.

Atteb. Ac na obrwya ni yn ol ein hanwireddau.

Gweddïwn.

DUW Dad trugarog, yr hwn nid wyt yn dirmygu uchenaid calon gystuddiedig, nac adduned y gorthrymmedig; Cyn-northwya yn drugarog ein gweddïau, y rhai yr ym ni yn eu gwneuthur ger dy fron yn ein holl drallod a'n blinfyd, pa bryd bynnag y gwasgant arnom; a gwrando ni yn rasmusol, fel y bo i'r drygau hynny, y rhai y mae ystryw a dichell diafol neu ddyn yn eu gwneuthur i'n herbyn, fyned yn ofer; a thrwy ragluniaeth dy ddaioni di iddynt fod yn wasgaredig, modd na'n briwer ni dy weision drwy erlyn neb, a gallu o honom byth ddi-olch i ti yn dy lân Eglwys; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

O Arglwydd, cyfod, cymmorth ni, a gwared ni, er mwyn dy Enw.

O Dduw, ni a glywsom a'n clustiau, a'n tadau a fynegasant i ni, y gweithredoedd ardderchog a wnaethost yn eu dyddïau, ac yn y cynfyd o'u blaen hwy.

O Arglwydd, cyfod, cymmorth ni, a gwared ni, er mwyn dy Anrhydedd.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab: ac i'r Yspryd Glân;

Atteb. Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad: yn oes oes-oedd. Amen.

it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

Priest. O Lord, deal not with us after our sins.

Answer. Neither reward us after our iniquities.

Let us pray.

O God, merciful Father, that despisest not the sighing of a contrite heart, nor the desire of such as be sorrowful; Mercifully assist our prayers that we make before thee in all our troubles and adversities, whensoever they oppress us; and graciously hear us, that those evils, which the craft and subtilty of the devil or man worketh against us, be brought to nought; and by the providence of thy goodness they may be dispersed; that we thy servants, being hurt by no persecutions, may evermore give thanks unto thee in thy holy Church; through Jesus Christ our Lord.

O Lord, arise, help us, and deliver us for thy Name's sake.

O God, we have heard with our ears, and our fathers have declared unto us, the noble works that thou didst in their days, and in the old time before them.

O Lord, arise, help us, and deliver us for thine honour.

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost;

Answer. As it was in the beginning, is now, and ever shall be: world without end. Amen.

Y LITANI.

Rhag ein gelynion amddiffyn ni, O Crist.

Yn rasol edrych ar ein poenedigaethau.

Yn dosturus ystyria wrth drymder ein calonnau.

Yn drugarog maddeu bechodau dy bobl.

Yn garedigol gan drugaredd gwranddo ein gweddiâu.

Iesu Fab Dafydd, trugarhá wrthym.

Yr awr hon a phob amser teilynga ein gwranddo, O Crist.

Yn rasol clyw ni, O Crist; yn rasol clyw nyini, O Arglwydd Grist.

Offeiriad. Arglwydd, dangos dy drugaredd arnom;

Atteb. Fel yr ým yn ymddiried ynot.

Gweddiwn.

NYNI yn ufudd a attolygwn i ti, O Arglwydd Dad, yn drugarog edrych ar ein gwenddid; ac, er gogoniant dy Enw, ymchwel oddi wrthym yr holl ddrygau a ddarfu i ni o wir gyfiawnder eu haeddu; a chaniattâ fod i ni yn ein holl drallod ddodi ein cyfan ymddiried a'n gobraith yn dy drugaredd, ac byth dy wasanaethu mewn sancteiddrwydd a phurdeb buchedd, i'th anrhydedd a'th ogoniant; trwy ein hunig Gyfryngwr a'n Dadl-euwr, Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi o waith St. Chrysostom.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn a roddaist i ni ras y pryd hwn, trwy gyfundeb a chydgyfarch, i weddiö arnat; ac wyt yn addaw, pan ymgynhullo dau neu dri yn dy Enw, bod i ti ganiattâu eu gofynion: Cyflawna yr awr hon, O Arglwydd, ddymuniad a deisyfiad dy weision, fel y bo mwyaf buddiol

From our enemies defend us, O Christ.

Graciously look upon our afflictions.

Pitifully behold the sorrows of our hearts.

Mercifully forgive the sins of thy people.

Favourably with mercy hear our prayers.

O Son of David, have mercy upon us.

Both now and ever vouchsafe to hear us, O Christ.

Graciously hear us, O Christ; graciously hear us, O Lord Christ.

Priest. O Lord, let thy mercy be shewed upon us;

Answer. As we do put our trust in thee.

Let us pray.

WE humbly beseech thee, O Father, mercifully to look upon our infirmities; and for the glory of thy Name turn from us all those evils that we most righteously have deserved; and grant, that in all our troubles we may put our whole trust and confidence in thy mercy, and evermore serve thee in holiness and pureness of living, to thy honour and glory; through our only Mediator and Advocate, Jesus Christ our Lord. *Amen.*

A Prayer of St. Chrysostom.

ALMIGHTY God, who hast given us grace at this time with one accord to make our common supplications unto thee; and dost promise, that when two or three are gathered together in thy Name thou wilt grant their requests; Fulfil now, O Lord, the desires and petitions of thy servants, as may be most

GWEDDIAU.

iddynt ; gan ganiattâu i ni yn y byd hwn wybodaeth am dy wirionedd, ac yn y byd a ddaw, fywyd tragwyddol. *Amen.*

2 Cor. xiii.

GRAS ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glân, a fyddo gyd â ni oll byth byth-oedd. *Amen.*

expedient for them ; granting us in this world knowledge of thy truth, and in the world to come life everlasting. *Amen.*

2 Cor. xiii.

THE grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God, and the fellowship of the Holy Ghost, be with us all evermore. *Amen.*

Yma y diwedd y LITANI.

GWEDDIAU A DIOLCHIADAU

AR AMRYW ACHOSION ;

† *I'w harfer o flaen y ddwy Weddi ddiweddaf o'r Litani, neu o'r Foreol a'r Brydnhawrol Weddi.*

GWEDDIAU.

Am Wlaw.

O Dduw, nefol Dad, yr hwn trwy dy Fab Iesu Grist a addewaist i bawb a geisiant dy deyrnas a'th gyfiawnder, bob peth angenrheidiol i'w cynhaliaeth corphorol ; Danfon i ni wrth ein hangenocid hwn, ni a attolygwn i ti, gyfryw wlaw a chawodydd cymhedrol, modd y derbyniom ffirwythau'r ddaear i'n mwyniant ni, ac i'th ogoniant dithau, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Am Dywydd teg.

HOLL-alluog Arglwydd Dduw, yr hwn am bechod dyn a foddiaist unwaith yr holl fyd, oddi eithr wyth-nyn o bobl, ac ar ol hynny o'th fawr drugaredd a addewaist na's distrywit ef felly byth drachefn ; Yn ostyngedig ni a attolygwn i ti, er i ni am ein hanwireddau gyfiawn haeddu pla o wlaw a dyfroedd ;

For Rain.

O God, heavenly Father, who by thy Son Jesus Christ hast promised to all them that seek thy kingdom, and the righteousness thereof, all things necessary to their bodily sustenance ; Send us, we beseech thee, in this our necessity, such moderate rain and showers, that we may receive the fruits of the earth to our comfort, and to thy honour ; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For fair Weather.

O Almighty Lord God, who for the sin of man didst once drown all the world, except eight persons, and afterward of thy great mercy didst promise never to destroy it so again ; We humbly beseech thee, that although we for our iniquities have worthily deserved a plague of rain and waters, yet upon our

GWEDDIAU.

etto, wrth ein gwir edifeirwch, danfon i ni y cyfryw dywydd a hinon, fel y derbyniom ffrwythau'r ddaear mewn amser dyladwy; ac y dysgom drwy dy gosp-edigaeth wellhâu ein bucheddau, ac am dy fwynder roddi i ti foliant a gogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Ar amser Drudaniaeth a Newyn.

O Dduw, Dad o'r nef, trwy ddawn pa un y disgyn y gwlaw, y mae'r ddaear yn ffrwythlawn, yr hilia anifeiliaid, ac yr amlbâ'r pysgod; Edrych, attolwg, ar adfyd dy bobl; a chaniattâ am y prinder a'r drudaniaeth (yr ym ni yr awr hon yn eu diodd-ef yn gwbl gyfiawn am ein hanwiredd) iddynt, trwy dy drugarog ddaioni di, ymchwelyd yn rhad ac yn helaethrwydd, er cariad ar Iesu Grist ein Harglwydd; i'r hwn, gyd â thydi a'r Yspryd Glân, y bo'r holl anrhydedd a'r gogoniant, yr awr hon ac yn oes oesoedd. *Amen.*

New hon.

O Dduw, drugarog Dad, yr hwn, yn amser Elisëus y prophwyd, a droaist yn ddi-symmwth y prinder mawr a'r drudaniaeth yn Samaria yn helaethrwydd a rhad; Cymmer drugaredd arnom, fel y bo i ni, y rhai am ein pechodau a boenir yr awr hon â'r cyffelyb adfyd, dderbyn yr un fath brydol gym-morth: Trwy dy nefol fendith par gymnyrch ar ffrwythau'r ddaear; a chaniattâ fod i ni, sy'n derbyn dy haelionus lawnder, arferu'r unrhyw i'th ogoniant di, i gymmorth eraill y sy'n dwyn eisiau, ac i'n diddanwch ein hunain; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

true repentance thou wilt send us such weather, as that we may receive the fruits of the earth in due season; and learn both by thy punishment to amend our lives, and for thy clemency to give thee praise and glory; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

In the time of Dearth and Fa-mine.

O God, heavenly Father, whose gift it is, that the rain doth fall, the earth is fruitful, beasts increase, and fishes do multiply; Behold, we beseech thee, the afflictions of thy people; and grant that the scarcity and dearth, which we do now most justly suffer for our iniquity, may through thy goodness be mercifully turned into cheapness and plenty; for the love of Jesus Christ our Lord, to whom with thee and the Holy Ghost be all honour and glory, now and for ever. *Amen.*

Or this.

O God, merciful Father, who, in the time of Elisha the prophet, didst suddenly in Samaria turn great scarcity and dearth into plenty and cheapness; Have mercy upon us, that we, who are now for our sins punished with like adversity, may likewise find a seasonable relief: Increase the fruits of the earth by thy heavenly benediction; and grant that we, receiving thy bountiful liberality, may use the same to thy glory, the relief of those that are needy, and our own comfort; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

Ar amser Rhufel a Therfysgau.

HOLL-alluog Dduw, Brenhin yr holl frenhinoedd, a Phen-llywiawdwr pob peth, yr hwn ni ddichon neb creadur wrthladd ei nerth, i'r hwn y perthyn o gyfiawnder gospi pechaduriaid, a bod yn drugarog wrth y rhai a fyddont wir edifeiriol; Cadw a gwared nyni, yn ostyngedig ni a attolygwn i ti, rhag dwylaw ein gelynion; gostwng eu balchder, gwareiddia eu drygioni, a gwaradwydda eu bwriadau; modd y gallom, yn arfogion gan dy amddiffyn di, fod byth yn gadwedig rhag pob perygl, i'th ogoneddu di yr hwn wyt unig roddwr pob buddugoliaeth, trwy haeddedigaethau dy un Mab Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yn amser Pla cyffredin, neu Glesyd.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn yn dy lid a anfoneaist bla ar dy bobl dy hun yn yr anialwch, oblegid eu gwar-sythni a'u gwrthryfel yn erbyn Moses ac Aaron; ac hefyd, yn amser y brenhin Dafydd, a leddaist â phla'r nodau ddengmil a thriugeinmil, ac yn y man, gan gofio dy drugaredd, a gedwaist y lleill; Trugarhâ wrthym wir bechaduriaid, â'r rhai yr ymwelir yr awr hon â dirfawr haint a marwolaeth; fel megis y pryd hwnnw y derbyniaist gymmodaeth, ac y gorchymynaist i'r Angel dinystriol beidio â chospi, felly bod yn awr yn deilwng gennyf wrthladd oddi wrthym y bla a'r gofidus haint yma; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yn Wythnosau y Cyd-goriau, i'w dywedyd bob dydd dros y rhai a fyddant i dderbyn Urddau Cyssegredig.*

HOLL-alluog Dduw, ein Tad nefol, yr hwn a brynaist i'

In the time of War and Tumults.

O Almighty God, King of all kings, and Governour of all things, whose power no creature is able to resist, to whom it belongeth justly to punish sinners, and to be merciful to them that truly repent; Save and deliver us, we humbly beseech thee, from the hands of our enemies; abate their pride, assuage their malice, and confound their devices; that we, being armed with thy defence, may be preserved evermore from all perils, to glorify thee, who art the only giver of all victory; through the merits of thy only Son, Jesus Christ our Lord. *Amen.*

In the time of any common Plague or Sickness.

O Almighty God, who in thy wrath didst send a plague upon thine own people in the wilderness, for their obstinate rebellion against Moses and Aaron; and also, in the time of king David, didst slay with the plague of Pestilence threescore and ten thousand, and yet remembering thy mercy didst save the rest; Have pity upon us miserable sinners, who now are visited with great sickness and mortality; that like as thou didst then accept of an atonement, and didst command the destroying Angel to cease from punishing, so it may now please thee to withdraw from us this plague and grievous sickness; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

¶ *In the Ember Weeks, to be said every day, for those that are to be admitted into Holy Orders.*

ALMIGHTY God, our heavenly Father, who hast pur-

GWEDDIAU.

Eglwys gyffredinol trwy werthfawr waed dy anwyl Fab; Edrych yn ddarbodus ar yr unrhyw; ac ar hyn o amser cyfarwydda a llywia felly feddyliau dy weision yr Esgobion a Bugeiliaid dy braidd, fel na ddodont ddwylaw yn ebrwydd ar neb, eithr bod iddynt ddewis yn ffyddlon ac yn bwylllog rai cymmwys i wasanaethu yn sanctaidd Weinidogaeth dy Eglwys. A dyro dy ras a'th fendith nefol i'r sawl a urddir i bob swyddogaeth sancteiddlân; fel y bo iddynt trwy eu buchedd a'u hathrawiaeth osod allan dy ogoniant di, a hyfforddio iachawdwriaeth pawb oll; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Neu hon.

HOLL-alluog Dduw, rhoddwr wr pob dawn daionus, yr hwn o'th ddwyfol ddarbodaeth a osodaist amryw Raddau yn dy Eglwys; Ni yn ufudd a attolygwn i ti roddi dy ras i'r sawl oll a alwer i bob Swydd a Gweinyddiaeth yn yr unrhyw; ac felly cyflawna hwynt â'th wir Athrawiaeth, a chynnysgaedda hwynt â diniweidrwydd buchedd, fel y gwasanaethont yn ffyddlon ger dy fron, i ogoniant dy ddirfawr Enw, ac er lles i'th Eglwys sanctaidd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

† *Gweddi a ellir ei dywedyd ar ol pob un o'r rhai o'r blaen.*

O Dduw, yr hwn bïau o naturiaeth a phriodoldeb drugarhâu yn wastad a maddeu, derbyn ein hufudd weddïau; ac er ein bod ni yn rhwym gan gaethiwed cadwynau ein pechodau, er hynny dattoder ni gan dosturi dy fawr drugaredd, er anrhydedd Iesu Grist ein Cyfyngwr a'n Dadleuwr. *Amen.*

chased to thyself an universal Church by the precious blood of thy dear Son; Mercifully look upon the same, and at this time so guide and govern the minds of thy servants the Bishops and Pastors of thy flock, that they may lay hands suddenly on no man, but faithfully and wisely make choice of fit persons to serve in the sacred Ministry of thy Church. And to those which shall be ordained to any holy function give thy grace and heavenly benediction; that both by their life and doctrine they may set forth thy glory, and set forward the salvation of all men; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

Or this.

ALMIGHTY God, the giver of all good gifts, who of thy divine providence hast appointed divers Orders in thy Church; Give thy grace, we humbly beseech thee, to all those who are to be called to any office and administration in the same; and so replenish them with the truth of thy doctrine, and endue them with innocency of life, that they may faithfully serve before thee, to the glory of thy great Name, and the benefit of thy holy Church; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

† *A Prayer that may be said after any of the former.*

O God, whose nature and property is ever to have mercy and to forgive, receive our humble petitions; and though we be tied and bound with the chain of our sins, yet let the pitifulness of thy great mercy loose us; for the honour of Jesus Christ, our Mediator and Advocate. *Amen.*

GWEDDIAU.

¶ *Gweddi dros Oruchel Llys y Parliament, i'w dywedyd tra byddont yn eistedd.*

O Dduw grasusaf, yn ufudd attolygwn i ti, megis dros y Deyrnas hon yn gyffredinol, felly yn enwedig dros yr Uchel Lys Parliament, ymgynnulledig yr awrhon dan ein duwiolaf a'n grasusaf Frenhines; Deilyngu o honot lywio a llwyddo eu holl ymgynghoriadau er dyrchafiad i'th Ogoniant, er daioni i'th Eglwys, ac er diogelwch, anrhydedd, a llwyddiant i'n Brenhines a'i Harglwyddiaethau; trwy eu llafur hwy felly trefner a gwastattâer pob peth ar y sail oreu a chadarnaf, fel y bo heddwch a dedwyddwch, gwirionedd a chyfiawnder, ffydd a duwioldeb, yn sefydlog yn ein plith trwy'r holl genhedlaethau. Hyn, a phob peth arall anghenraid iddynt hwy, i ni, ac i'th Eglwys oll, yr ym yn ostyngedig yn eu herfyn yn Enw a Chyfyngdod Iesu Grist ein Harglwydd a'n Hiachawdwr bendigedig. *Amen.*

¶ *Colect neu Weddi dros bob Cystur o ddynion, i'w harfer pan nŷ bo osodedig dywedyd y Litani.*

O Arglwydd, Creawdwr a Cheidwad pob rhyw ddyd, yn ostyngedig attolygwn i ti dros bob cyflwr a gradd o ddynion, ar fod yn wiw gennyt hyspysu iddynt dy ffyrdd, dy iachawdwriaeth i'r holl genhedloedd. Yn bennaf erfyniwn arnat dros lwyddiannus gyflwr yr Eglwys Gatholig; fel, gan gael ei harwain a'i llywio gan dy Yspryd grasusol, y caffo pawb yn eu proffesu ac yn eu galw eu hunain yn Gristionogion, eu tywys ar hŷd ffordd y gwirionedd, a chynnal y ffydd mewn undeb

¶ *A Prayer for the High Court of Parliament, to be read during their Session.*

MOST gracious God, we humbly beseech thee, as for this Kingdom in general, so especially for the High Court of Parliament, under our most religious and gracious Queen at this time assembled: That thou wouldest be pleased to direct and prosper all their consultations to the advancement of thy glory, the good of thy Church, the safety, honour, and welfare of our Sovereign, and her Dominions; that all things may be so ordered and settled by their endeavours, upon the best and surest foundations, that peace and happiness, truth and justice, religion and piety, may be established among us for all generations. These and all other necessaries, for them, for us, and thy whole Church, we humbly beg in the Name and Mediation of Jesus Christ our most blessed Lord and Saviour. *Amen.*

¶ *A Collect or Prayer for all Conditions of men, to be used at such times when the Litany is not appointed to be said.*

O God, the Creator and Preserver of all mankind, we humbly beseech thee for all sorts and conditions of men; that thou wouldest be pleased to make thy ways known unto them, thy saving health unto all nations. More especially, we pray for the good estate of the Catholick Church; that it may be so guided and governed by thy good Spirit, that all who profess and call themselves Christians may be led into the way of truth, and hold the faith in unity of

DIOLCHIADAU.

yspryd, rhwymyn tangnefedd, ac uniondeb buchedd. Yn ddiweddaf, ni a orchymynwn i' th dadol amgeledd y rhai oll a gystuddir mewn un modd, neu sydd yn gyfyng arnynt mewn meddwl, corph, neu ystâd ;

• Hyn a ddywedir pan ddymuno neb Weddïau y Gynulleidfa.

[* yn enwedig y sawl dros ba rai y dymunir ein gweddïau,] ryngu

bodd i ti eu diddanu a'u cym-morth yn ol angenrheidiau pob un ; gan roddi iddynt amynedd dan eu dïoddefïadau, a dedwyddol ymwarded o'u holl gystuddïau. A hyn a erfyniwn er mwyn Iesu Grist. *Amen.*

spirit, in the bond of peace, and in righteousness of life. Finally, we commend to thy fatherly goodness all those, who are any ways afflicted, or distressed, in mind, body, or estate ; [* especially those for whom our prayers are desired,] that it may please thee to comfort and relieve them, according to their several necessities, giving them patience under their sufferings, and a happy issue out of all their afflictions. And this we beg for Jesus Christ his sake. *Amen.*

• This to be said when any desire the Prayers of the Congregation.

FFURFIAU O DALU DIOLCH.

¶ *Diolch cyffredinol.*

HOLL-alluog Dduw, Tad yr holl drugareddau, yr ydym ni dy weision annheilwng yn rhoddi i ti ddiolch gostyngeddiad a ffyddlonaf am dy holl ddaioni a'th drugareddau i ni, ac i bob

• Dyweder hyn pan fo neb un a weddiwyd drosto yn deisyf talu diolch.

dyn ; [* yn arbennig i'r rhai y sydd yr awr hon yn ewyllysio offrymmu i't eu mol-

iannau a'u diolch am y tosturi a ryglyddaist iddynt yn ddiweddar.] Ni a'th fendithiwn am ein creadigaeth, am ein cadwraeth, ac am holl fendithion y bywyd hwn ; eithr uwch law pob dim, am dy anfeidrol gariad ym mhrynedigaeth y byd trwy ein Harglwydd Iesu Grist ; am foddion gras, ac am obaith gogoniant. Ac ni a attolygwn i ti roddi i ni y cyfryw ddwys ac iawn ymsyniad ar dy holl drugareddau, fel y bo 'n calonnau yn ddiffuant yn ddiolchgar ; ac fel y mynegom dy foliant, nid â'n gwefusau yn unig, eithr yn ein bucheddau ;

¶ *A General Thanksgiving.*

ALMIGHTY God, Father of all mercies, we thine unworthy servants do give thee most humble and hearty thanks for all thy goodness and loving-kindness to us, and to all men ;

[* particularly to those who desire now to offer up their praises and thanks-

• This to be said when any that have been prayed for desire to return praise.

givings for thy late mercies vouchsafed unto them.] We bless thee for our creation, preservation, and all the blessings of this life ; but above all, for thine inestimable love in the redemption of the world by our Lord Jesus Christ ; for the means of grace, and for the hope of glory. And, we beseech thee, give us that due sense of all thy mercies, that our hearts may be unfeignedly thankful, and that we shew forth thy praise, not only with our lips, but in our lives ; by giving up ourselves to thy service, and by walking before thee

DIOLCHIADAU.

trwy ymroddi i'th wasanaeth, a thrwy rodio ger dy fron mewn sancteiddrwydd ac uniondeb dros ein holl ddyddiau ; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, i'r hwn gyd â thydi a'r Yspryd Glân, bydded yr holl anrhydedd a'r gogoniant, byth bythoedd. *Amen.*

Am gael Gwlaw.

O Dduw, ein Tad nefol, yr hwn drwy dy rasol ragluniaeth wyt yn peri i'r gwlaw cynnar a'r diweddar ddisgyn ar y ddaear, fel y dygo ffrwyth er mwyniant dyn ; Yr ydym ni yn rhoi i ti ostyngedig ddiolch, fod yn wiw gennyt, wrth ein dirfawr anghenraid, ddanfon i ni o'r diwedd wlaw hyfryd ar dy etiffediaeth, a'i hireiddio pan oedd sech ; i'n mawr ddiddanwch ni dy weision anwiw, ac i ogoniant dy sanctaidd Enw ; trwy dy drugareddau yn Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Am Dywydd teg.

O Arglwydd Dduw, yr hwn yn gyfiawn a'n darostyng-aist ni trwy dy ddiweddar bla o wlaw a dyfroedd anghymhedrol, ac yn dy drugaredd a gymhorth-aist ac a ddiddenaist ein heneidiau trwy y tymhoraidd a'r bendigedig gyfnewid yma ar dywydd ; Nyni a foliannwn ac a ogoneddwn dy sanctaidd Enw am dy drugaredd hon ; ac a ddatganwn byth dy dosturi o genhedlaeth i genhedlaeth ; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Am Helaethrwydd.

O Drugaroccaf Dad, yr hwn o'th raslon ddaioni a wrandewaist ddifrifol Weddiau dy Eglwys, ac a droaist ein prinder ni a'n drudaniaeth yn rhad ac yn helaethrwydd ; Yr ydym yn rhoi i ti ostyngedig ddiolch am dy ragorol haelioni

in holiness and righteousness all our days ; through Jesus Christ our Lord, to whom with thee and the Holy Ghost be all honour and glory, world without end. *Amen.*

For Rain.

O God our heavenly Father, who by thy gracious providence dost cause the former and the latter rain to descend upon the earth, that it may bring forth fruit for the use of man ; We give thee humble thanks that it hath pleased thee, in our great necessity, to send us at the last a joyful rain upon thine inheritance, and to refresh it when it was dry, to the great comfort of us thy unworthy servants, and to the glory of thy holy Name ; through thy mercies in Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For fair Weather.

O Lord God, who hast justly humbled us by thy late plague of immoderate rain and waters, and in thy mercy hast relieved and comforted our souls by this seasonable and blessed change of weather ; We praise and glorify thy holy Name for this thy mercy, and will always declare thy loving-kindness from generation to generation ; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For Plenty.

O Most merciful Father, who of thy gracious goodness hast heard the devout prayers of thy Church, and turned our dearth and scarcity into cheapness and plenty ; We give thee humble thanks for this thy special bounty ; beseeching thee to

DIOLCHIADAU.

yma; gan attolygu i ti barhâu dy garedigrwydd tu ag attom, fel y rhoddo ein tir i ni ei ffrwythau toreithiog, i'th ogoniant di a'n diddanwech ninnau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Am Heddwch ac Ymwared oddi wrth ein Gelynyon.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn wyt gadarn dŵr amddiffynfa i'th weision rhag wyneb eu gelynyon; Yr ydym ni yn rhoddi i ti foliant a diolch am ein hymwared ni oddi wrth y mawr a'r amlwg beryglon oedd yn ein hangylchu: Yr ydym ni yn cydnabod mai dy ddaioni di yw, na 'n rhoddwyd ni i fynu yn ysglyfaeth iddynt hwy; gan attolygu i ti yn wastadol barhâu dy gyfryw drugareddau tu ag attom, fel y gwypo 'r holl fyd mai tydi yw ein Hachubwr a'n cadarn Waredwr ni; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Am adferu Heddwch cyffredinol Gartref.

Y Tragywyddol Dduw, ein Tad nefol, yr hwn yn unig wyt yn gwneuthur i ddynion fod yn unfryd mewn tŷ, ac yn gostegu cynddeiriowgrwydd pobl angerddol ac afreolus; Ni a fendithiwn dy Enw sanctaidd, am fod yn wiw gennyt lonyddu y cythrwfl terfysgus a gyffrowyd yn ddiweddar yn ein plith; ac yn ostyngedig yr attolygwn i ti ganiattâu i bawb o honom ras, i rodio o hyn allan yn ufudd i'th orchymynion sanctaidd; a chan fyw mewn buchedd lonydd a heddychol ym mhob duwioldeb a gonestrwydd, i offrymmu yn ddibaid i ti ein haberth o foliant a diolchgarwech am dy drugareddau hyn tu ag attom; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

continue thy loving-kindness unto us, that our land may yield us her fruits of increase, to thy glory and our comfort; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For Peace and Deliverance from our Enemies.

O Almighty God, who art a strong tower of defence unto thy servants against the face of their enemies; We yield thee praise and thanksgiving for our deliverance from those great and apparent dangers wherewith we were compassed: We acknowledge it thy goodness that we were not delivered over as a prey unto them; beseeching thee still to continue such thy mercies towards us, that all the world may know that thou art our Saviour and mighty Deliverer; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For restoring Publick Peace at Home.

O Eternal God, our heavenly Father, who alone makest men to be of one mind in a house, and stillest the outrage of a violent and unruly people; We bless thy holy Name, that it hath pleased thee to appease the seditious tumults which have been lately raised up amongst us; most humbly beseeching thee to grant to all of us grace, that we may henceforth obediently walk in thy holy commandments; and, leading a quiet and peaceable life in all godliness and honesty, may continually offer unto thee our sacrifice of praise and thanksgiving for these thy mercies towards us; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

DIOLCHIADAU.

Am Ymwared oddi wrth Bla y Nodau, neu neb rhyw Glefyd arall.

O Arglwydd Dduw, yr hwn a'n harchollaist ni am ein pechodau, ac a'n difeaiast am ein hanwireddau, trwy dy ddiweddar ymweliad gorthrwm ac ofnadwy; ac etto ynghanol dy farnedigaethau a gofiaist dy drugaredd, ac a achubaist ein heneidiau allan o safn angau; Yr ydym ni yn offrw m i'th dadol ddaioni ein hunain, ein heneidiau, a'n cyrph, y rhai a waredaist ti, i fod yn aberth bywiol i ti; gan foliannu a mawrygu yn wastadol dy drugareddau ynghanol dy Eglwys; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Neu hon.

WHEN much people were gathered together, and were come to him out of every city, he spake by a parable: A sower went out to sow his seed; and as he sowed, some fell by the way-side, and it was trodden down, and the fowls of the air devoured it. And some fell upon a rock, and as soon as it was sprung up, it withered away, because it lacked moisture. And some fell among thorns, and the thorns sprang up with it, and choked it. And other fell on good ground, and sprang up, and bare fruit an hundred-fold. And when he had said these things, he cried, He that hath ears to hear, let him hear. And his disciples asked him, saying, What might this parable be? And he said, Unto you it is given to know the mysteries of the kingdom of God: but to others in parables; that seeing they might not see, and hearing they might not understand. Now the parable is this: The seed is the Word of God. Those by the way-side are they that hear; then cometh the devil, and taketh away the word out of their hearts, lest they should believe, and be saved. They on the rock are they, which, when they hear, receive the word with joy; and these have no root, which for a while

Y Sul a elwir Cwincwagesima.

dros amser, ac yn amser profed-igaeth yn cilio. A'r hwn a syrthiodd ym mysg drain, yw y rhai a wrandawsant, ac wedi iddynt fyned ymaith, hwy a dagwyd gan ofalon, a golud, a meluswedd buchedd, ac nid ydynt yn dwyn ffrwyth i berffeithrwydd. A'r hwn ar y tir da yw y rhai hyn, y rhai â chalon hawddgar a da, ydynt yn gwrando'r gair, ac yn ei gadw, ac yn dwyn ffrwyth trwy amynedd.

Y Sul a elwir Cwincwagesima, neu'r Sul nesaf o flaen y Garawys.

Y Collect.

O Arglwydd, yr hwn a'n dysgaist, na thâl dim ein holl weithredoedd a wnelom, heb gariad perffaith; Anfon dy Yspryd Glân, a thywallt yn ein calonnau ragorol ddawn cariad perffaith, gwir rwymyn tangnefedd a holl rinweddau da, heb yr hwn pwy bynnag sydd yn byw, a gyfrifir yn farw ger dy fron di: Caniattâ hyn er mwyn dy un Mab Iesu Grist. *Amen.*

Yr Epistol. 1 Cor. xiii. 1.

Pellefarwn â thafodau dynion ac angylion, ac heb fod gennyf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio, neu symbal yn tingcian. A phe byddai gennyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth; a phe bai gennyf yr holl ffydd, fel y gallwn symmudo mynyddoedd, ac heb gennyf gariad, nid wyf fi ddim. A phe porthwn y tlodion â'm holl ddâ, a phe rhoddwn fy nghorph i'm llosgi, ac heb gariad gennyf, nid yw ddim llesâd i mi. Y mae cariad yn hir-ymaros, yn gymmwynasgar; cariad nid yw yn cynfigennu, nid yw cariad yn ymfrostio, nid yw yn ymchwyddo, nid yw yn gwneuthur yn anwedd-

believe, and in time of temptation fall away. And that which fell among thorns, are they, which, when they have heard, go forth, and are choaked with cares, and riches, and pleasures of this life, and bring no fruit to perfection. But that on the good ground, are they, which in an honest and good heart, having heard the word, keep it, and bring forth fruit with patience.

The Sunday called Quinquagesima, or the next Sunday before Lent.

The Collect.

O Lord, who hast taught us that all our doings without charity are nothing worth; Send thy Holy Ghost, and pour into our hearts that most excellent gift of charity, the very bond of peace and of all virtues, without which whosoever liveth is counted dead before thee: Grant this for thine only Son Jesus Christ's sake. *Amen.*

The Epistle. 1 Cor. xiii. 1.

THOUGH I speak with the tongues of men and of angels, and have not charity, I am become as sounding brass, or a tinkling cymbal. And though I have the gift of prophecy, and understand all mysteries, and all knowledge; and though I have all faith, so that I could remove mountains, and have no charity, I am nothing. And though I bestow all my goods to feed the poor, and though I give my body to be burned, and have not charity, it profiteth me nothing. Charity suffereth long, and is kind; charity envieth not; charity vaunteth not itself, is not puffed up, doth not behave itself un-

aidd, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythruddir, ni feddwl ddrwg, nid yw lawen am anghyfiawnder, ond cyd-lawenhâu y mae â'r gwirionedd; y mae yn dioddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim. Cariad byth ni chwmp ymaith: eithr pa un bynnag ai prophwydoliaethau, hwy a ballant; ai tafodau, hwy a beidiant; ai gwybodaeth, hi a ddiflanna. Canys o ran y gwyddom, ac o ran yr ydym yn prophwydo. Eithr pan ddelo yr hyn sy berffaith, yna yr hyn sydd o ran, a ddilëir. Pan oeddwn fachgen, fel bachgen y llefarwn, fel bachgen y deallwn, fel bachgen y meddylwn; ond pan aethum yn wr, mi a rois heibio bethau bachgennaidd. Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych mewn dammeg; ond yna, wyneb yn wyneb: yn awr yr adwaen o ran; ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir. Yr awrhon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn; a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad.

Yr Efengyl. St. Luc xviii. 31.

YNA Iesu a gymmerodd y deuddeg atto, ac a ddywedodd wrthynt, Wele, yr ydym ni yn myned i fynu i Jerusalem; a chyflawnir pob peth a'r sydd yn ysgrifenedig trwy'r prophwydi am Fab y dyn. Canys efe a draddodir i'r Cenhedloedd, ac a watwerir, ac a amherchir, ac a boerir arno: ac wedi iddynt ei fflangellu, y lladdant ef; a'r trydydd dydd efe a adgyfyd. A hwy ni ddeallasant ddim o'r pethau hyn: a'r gair hwn oedd guddiedig oddi wrthynt, ac ni wybuant y pethau a ddywedwyd. A bu, ac efe yn nesâu at Jericho, i ryw ddyn dall fod yn eistedd yn ymyl y ffordd, yn cardotta. A phan glybu efe y dyrfa yn

seemly, seeketh not her own, is not easily provoked, thinketh no evil, rejoiceth not in iniquity, but rejoiceth in the truth; beareth all things, believeth all things, hopeth all things, endureth all things. Charity never faileth: but whether there be prophecies, they shall fail; whether there be tongues, they shall cease; whether there be knowledge, it shall vanish away. For we know in part, and we prophesy in part. But when that which is perfect is come, then that which is in part shall be done away. When I was a child, I spake as a child, I understood as a child, I thought as a child; but when I became a man, I put away childish things. For now we see through a glass darkly; but then face to face: now I know in part; but then shall I know even as also I am known. And now abideth faith, hope, charity, these three; but the greatest of these is charity.

The Gospel. St. Luke xviii. 31.

THEN Jesus took unto him the twelve, and said unto them, Behold, we go up to Jerusalem, and all things that are written by the prophets concerning the Son of Man shall be accomplished. For he shall be delivered unto the Gentiles, and shall be mocked, and spitefully entreated, and spitted on: and they shall scourge him, and put him to death; and the third day he shall rise again. And they understood none of these things: and this saying was hid from them, neither knew they the things which were spoken. And it came to pass, that as he was come nigh unto Jericho, a certain blind man sat by the way-side begging: and hearing the multitude pass by, he asked

myned heibio, efe a ofynodd pa beth oedd hyn. A hwy a ddywedasant iddo, mai Iesu o Nazareth oedd yn myned heibio. Ac efe a lefodd, gan ddywedyd, Iesu fab Dafydd, trugarhâ wrthyf. A'r rhai oedd yn myned o'r blaen a'i ceryddasant ef i dewi: eithr efe a lefodd yn fwy o lawer, Mab Dafydd, trugarhâ wrthyf. A'r Iesu a safodd, ac a orchymynodd ei ddwyn ef atto. A phan ddaeth yn agos, efe a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Pa beth a fynni di i mi ei wneuthur i ti? Yntau a ddywedodd, Arglwydd, cael o honof fy ngolwg. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Cymmer dy olwg; dy ffydd a'th iachaodd. Ac allan o law y cafodd efe ei olwg, ac a'i canlynodd ef, gan o-goneddu Duw: a'r holl bobl, pan welsant, a roisant foliant i Dduw.

Y Dydd cyntaf o'r Garawys, yr hwn a elwir yn gyffredin, Dydd Merchur y Lludw.

Y Colect.

HOLL-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn ni chasèi ddim a'r a wnaethost, ac a faddeui bechodau pawb y sydd edifeiriol; Crëa a gwna ynom newydd a drylliedig galonnau; fel y bo i ni, gan ddyledus ddolurio am ein pechodau, a chyfaddef ein trueni, gaffael gennyti, Dduw'r holl drugaredd, gwbl faddeuant a gollyngdod; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Y Colect hwn a ddarllenir bob dydd o'r Garawys, ar ol y Colect a osodir i'r ddiwrnod.*

Yn lle yr Epistol. Joel ii. 12.

DYCHWELWCH attaf fi (medd yr Arglwydd) â'ch holl galon, âg ympryd hefyd, ac âg wylofain, ac â galar. A rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw: o herwydd

what it meant. And they told him, that Jesus of Nazareth passeth by. And he cried, saying, Jesus, thou Son of David, have mercy on me. And they which went before rebuked him, that he should hold his peace: but he cried so much the more, Thou Son of David, have mercy on me. And Jesus stood, and commanded him to be brought unto him: and when he was come near, he asked him, saying, What wilt thou that I should do unto thee? And he said, Lord, that I may receive my sight. And Jesus said unto him, Receive thy sight; thy faith hath saved thee. And immediately he received his sight, and followed him, glorifying God: and all the people, when they saw it, gave praise unto God.

The first Day of Lent, commonly called Ash-Wednesday.

The Collect.

ALMIGHTY and everlasting God, who hatest nothing that thou hast made, and dost forgive the sins of all them that are penitent; Create and make in us new and contrite hearts, that we worthily lamenting our sins, and acknowledging our wretchedness, may obtain of thee, the God of all mercy, perfect remission and forgiveness; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

¶ *This Collect is to be read every day in Lent after the Collect appointed for the Day.*

For the Epistle. Joel ii. 12.

TURN ye even to me, saith the Lord, with all your heart, and with fasting, and with weeping, and with mourning. And rend your heart, and not your garments, and turn unto the Lord your God: for he

Dydd Merchur y Llundw.

graslawn a thrugarog yw efe, hwyrfrydig i ddigofaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg. Pwy a wŷr a dry efe, ac edifarhâu, a gweddill bendith ar ei ol; sef bwyd-offrwm, a dïod-offrwm i'r Arglwydd eich Duw? Cenwch udgorn yn Sïon, cyssegrwch ympryd, gelwch gymmanfa, cesglwch y bobl, cyssegrwch y gynulleidfa, cynhullwch yr henuriaid, cesglwch y plant, a'r rhai yn sugno bronnau: deued y priod-fab allan o'i ystafell, a'r brïod-ferch allan o ystafell ei gwely: wyled yr offeiriad, gweinidogion yr Arglwydd, rhwng y porth a'r allor; a dywedant, Arbed dy bobl, O Arglwydd, ac na ddyro dy etifeddiaeth i warth, i lywodraethu o'r cenedloedd arnynt. Paham y dywedent ym mhlith y bobloedd, Pa le y mae eu Duw hwynt?

Yr Efengyl. St. Matth. vi. 16.

PAN ymprydioch, na fyddwch fel y rhagrithwŷr, yn wyneb drist: canys anffurfio eu hwynebau y maent, fel yr ymddangosont i ddynion eu bod yn ymprydio. Yn wir meddaf i chwi, Y maent yn derbyn eu gwobr. Eithr pan ymprydioch di, enneinia dy ben, a golch dy wyneb; fel nad ymddangosech i ddynion dy fod yn ymprydio, ond i'th Dad yr hwn sydd yn y dirgel: a'th Dad, yr hwn sydd yn gweled yn y dirgel, a dâl i ti yn yr anlwg. Na thrysorwch i'wch' drysorau ar y ddaear, lle y mae gwyfyn a rhwd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd, ac yn lladratta. Eithr trysorwch i'wch' drysorau yn y nef; lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle ni's cloddia lladron trwodd, ac ni's lladrattânt. Canys lle y mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd.

is gracious and merciful, slow to anger, and of great kindness. and repenteth him of the evil. Who knoweth if he will return, and repent, and leave a blessing behind him, even a meat-offering and a drink-offering unto the Lord your God? Blow the trumpet in Zion, sanctify a fast, call a solemn assembly, gather the people, sanctify the congregation, assemble the elders, gather the children, and those that suck the breasts; let the bridegroom go forth of his chamber, and the bride out of her closet; let the priests, the ministers of the Lord, weep between the porch and the altar, and let them say, Spare thy people, O Lord, and give not thine heritage to reproach, that the heathen should rule over them: wherefore should they say among the people, Where is their God?

The Gospel. St. Matth. vi. 16.

WHEN ye fast, be not as the hypocrites, of a sad countenance: for they disfigure their faces, that they may appear unto men to fast. Verily I say unto you, They have their reward. But thou, when thou fastest, anoint thine head, and wash thy face, that thou appear not unto men to fast, but unto thy Father which is in secret; and thy Father, which seeth in secret, shall reward thee openly. Lay not up for yourselves treasures upon earth, where moth and rust doth corrupt, and where thieves break through and steal: but lay up for yourselves treasures in heaven, where neither moth nor rust doth corrupt, and where thieves do not break through nor steal: for where your treasure is, there will your heart be also.

Y Sul cyntaf yn y Garawys.

Y Sul cyntaf yn y Garawys.

Y Collect.

O Arglwydd, yr hwn er ein mwyn a ymprydiaist ddeugain niwrnod a deugain nos; Dyro i ni ras i ymarfer â chyfryw ddirwest, fel, wedi gostwng ein cnawd i'r Yspryd, y gallom fyth ufuddhâu i'th dduwiol amog-aethau mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd, i'th anrhydedd a'th ogoniant, yr hwn wyt yn byw ac yn teyrnasu gyd â'r Tad, a'r Yspryd Glân, yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yr Epistol. 2 Cor. vi. 1.

NYNI, gan gyd-weithio, ydym yn attolwg i chwi, na dderbynioch ras Duw yn ofer. (Canys y mae efe yn dywedyd, Mewn anser cymmeradwy y'th wrandewais: ac yn nydd iachawdwriaeth y'th gynnorthwyais: wele, yn awr yr anser cymmeradwy; wele, yn awr ddydd yr iachawdwriaeth.) Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, fel na feier ar y weinidogaeth: eithr gan ein dangos ein hunain ym mhob peth fel gweinidogion Duw, mewn amynedd mawr, mewn cystuddiau, mewn anghenion, mewn cyfyngderau, mewn gwialennodiau, mewn carcharau, mewn terfysgau, mewn poenau, mewn gwyliadwriaethau, mewn ymprydiau, mewn purdeb, mewn gwybodaeth, mewn hir ymaros, mewn tiriondeb yn yr Yspryd Glân; mewn cariad diragrith, yugair y gwirionedd, yn nerth Duw, trwy arfau cyfiawnder ar ddechau ac ar aswy, trwy barch ac ammharch, trwy anglod a chlod; megis twyllwyr, ac er hynny yn eirwir; megis anadnabyddus, ac er hynny yn adnabyddus; megis yn meirw, ac wele byw ydym; megis wedi ein ceryddu, ac heb ein lladd; megis wedi ein tristâu, ond yn wastad yn llawen; megis

The first Sunday in Lent.

The Collect.

O Lord, who for our sake didst fast forty days and forty nights; Give us grace to use such abstinence, that, our flesh being subdued to the Spirit, we may ever obey thy godly motions in righteousness, and true holiness, to thy honour and glory, who livest and reignest with the Father and the Holy Ghost, one God, world without end. *Amen.*

The Epistle. 2 Cor. vi. 1.

WE then, as workers together with him, beseech you also, that ye receive not the grace of God in vain; (for he saith, I have heard thee in a time accepted, and in the day of salvation have I succoured thee: behold, now is the accepted time; behold, now is the day of salvation;) giving no offence in any thing, that the ministry be not blamed; but in all things approving ourselves as the ministers of God, in much patience, in afflictions, in necessities, in distresses, in stripes, in imprisonments, in tumults, in labours, in watchings, in fastings; by pureness, by knowledge, by long-suffering, by kindness, by the holy Ghost, by love unfeigned, by the word of truth, by the power of God, by the armour of righteousness on the right hand and on the left, by honour and dishonour, by evil report and good report; as deceivers, and yet true; as unknown, and yet well known; as dying, and behold, we live; as chastened, and not killed; as sorrowful, yet alway rejoicing; as poor, yet making many

Yr ail Sul yn y Garawys.

yn dlodion, ond yn cyfoethogi llawer; megis heb ddim gennym, ond etto yn meddiannu pob peth.

Yr Efengyl. St. Matth. iv. 1.

YNA yr Iesu a arweiniwyd i fynu i'r anialwch gan yr yspryd, i'w demtio gan ddiabol. Ac wedi iddo ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nos, ar ol hynny efe a newynodd. A'r temtiwr, pan ddaeth atto, a ddywedodd, Os Mab Duw wyt ti, arch i'r cerrig hyn fod yn fara. Ac yntau a atebodd ac a ddywedodd, Ysgrifenwyd, Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw. Yna y cymmerth diafol ef i'r ddinas sanctaidd, ac a'i gosododd ef ar binacl y deml; ac a ddywedodd wrtho, Os Mab Duw wyt ti, bwrw dy hun i lawr: canys ysgrifenwyd, y rhydd efe orchymyn i'w angylion am danat, a hwy a'th ddygant yn eu dwylaw, rhag taro o honot un amser dy droed wrth garreg. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, ysgrifenwyd drachefn, Na themtia'r Arglwydd dy Dduw. Trachefn y cymmerth diafol ef i fynydd tra uchel, ac a ddangosodd iddo holl deyrnasoedd y byd, a'u gogoniant; ac a ddywedodd wrtho, Hyn oll a roddaf i ti, os syrthi i lawr a'm haddoli i. Yna yr Iesu a ddywedodd wrtho, Ymaith, Satan: canys ysgrifenwyd, Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi. Yna y gadawodd diafol ef; ac wele, angylion a ddaethant ac a weiniasant iddo.

Yr ail Sul yn y Garawys.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn wyt yn gweled nad oes gennym o'n nerth ein hunain ddim meddiant i'n cymmorth ein

rich; as having nothing, and yet possessing all things.

The Gospel. St. Matth. iv. 1.

THEN was Jesus led up of the Spirit into the wilderness, to be tempted of the devil. And when he had fasted forty days and forty nights, he was afterward an-hungred. And when the tempter came to him, he said, If thou be the Son of God, command that these stones be made bread. But he answered and said, It is written, Man shall not live by bread alone, but by every word that proceedeth out of the mouth of God. Then the devil taketh him up into the holy city, and setteth him on a pinnacle of the temple, and saith unto him, If thou be the Son of God, cast thyself down; for it is written, He shall give his angels charge concerning thee, and in their hands they shall bear thee up, lest at any time thou dash thy foot against a stone. Jesus said unto him, It is written again, Thou shalt not tempt the Lord thy God. Again, the devil taketh him up into an exceeding high mountain, and sheweth him all the kingdoms of the world, and the glory of them; and saith unto him, All these things will I give thee, if thou wilt fall down and worship me. Then saith Jesus unto him, Get thee hence, Satan; for it is written, Thou shalt worship the Lord thy God, and him only shalt thou serve. Then the devil leaveth him, and behold, angels came and ministered unto him.

The second Sunday in Lent.

The Colect.

ALmighty God, who seest that we have no power of ourselves to help ourselves; Keep

hunain ; Cadw di ni oddi fewn ac oddi allan, sef enaid a chorph ; fel yr amddiffyner ni rhag pob gwrthwyneb a ddigwyddo i'r corph, a rhag pob drwg feddwl a wna niweid na chynnwrf i'r enaid ; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. 1 Thess. iv. 1.

YM mhellach gan hynny, frodyr, yr ydym yn attolwg i chwi, ac yu deisyf yn yr Arglwydd Iesu, megis y derbyniasoch gennym pa fodd y dylech rodio, a boddloni Duw, ar i chwi gynnyddu fwyfwy. Canys chwi a wyddoch pa orchymynion a roddasom i chwi trwy'r Arglwydd Iesu. Canys hyn yw ewyllys Duw, sef eich sancteiddiad chwi, ar ymgadw o honoch rhag godineb ; ar fedru o bob un o honoch feddiannu ei lestr ei hun mewn sancteiddrwydd, a pharch ; nid mewn gwŷn trachwant, megis y Cenhedloedd, y rhai nid adwaenant Dduw : na byddo i neb orthrymmu na thwylo ei frawd mewn dim : canys dialydd yw'r Arglwydd ar y rhai hyn oll, megis y dywedasom i chwi o'r blaen, ac y tystiasom. Canys ni alwodd Duw nyni i affendid, ond i sancteiddrwydd. Am hynny y neb sydd yn dirmygu, nid dyn y mae yn ei ddirmygu, ond Duw, yr hwn hefyd a roddes ei Yspryd Glân i ni.

Yr Efengyl. St. Matth. xv. 21.

A'R Iesu a aeth oddi yno, ac a giliodd i dueddau Tyrus a Sidon. Ac wele, gwraig o Canaan a ddaeth o'r parthau hynny, ac a lefodd, gan ddywedyd wrtho, Trugarhâ wrthyf, O Arglwydd, fab Dafydd : y mae fy merch yn ddrwg ei hwyl gan gythraul. Eithr nid attebodd efe iddi un gair. A daeth ei ddisgyblion atto, ac a attolygasant iddo, gan ddywedyd, Go-

us both outwardly in our bodies, and inwardly in our souls ; that we may be defended from all adversities which may happen to the body, and from all evil thoughts which may assault and hurt the soul ; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. 1 Thess. iv. 1.

WE beseech you, brethren, and exhort you by the Lord Jesus, that as ye have received of us how ye ought to walk, and to please God, so ye would abound more and more. For ye know what commandments we gave you by the Lord Jesus. For this is the will of God, even your sanctification, that ye should abstain from fornication ; that every one of you should know how to possess his vessel in sanctification and honour ; not in the lust of concupiscence, even as the Gentiles which know not God ; that no man go beyond and defraud his brother in any matter ; because that the Lord is the avenger of all such, as we also have forewarned you, and testified. For God hath not called us unto uncleanness, but unto holiness. He therefore that despiseth despiseth not man, but God, who hath also given unto us his holy Spirit.

The Gospel. St. Matth. xv. 21.

JESUS went thence, and departed into the coasts of Tyre and Sidon. And behold, a woman of Canaan came out of the same coasts, and cried unto him, saying, Have mercy on me, O Lord, thou Son of David ; my daughter is grievously vexed with a devil. But he answered her not a word. And his disciples came and besought him, saying, Send her

Y trydydd Sul yn y Garawys.

llwng hi ymaith ; canys y mae hi yn llefain ar ein hol. Ac efe a atebodd ac a ddywedodd, Ni'm danfonwyd i ond at ddefaid coll-edig tŷ Israel. Ond hi a ddaeth ac a'i haddolodd ef, gan ddywed-yd, Arglwydd, cymmorth fi. Ac efe a atebodd ac a ddywedodd, Nid da cymmeryd bara'r plant, a'i fwrw i'r cwn. Hithau a ddywedodd, Gwir yw, Arglwydd : canys y mae'r cwn yn bwyta o'r briwsion sy'n syrthio oddi ar fwrdd eu harglwyddi. Yna 'r atebodd yr Iesu, ac a ddywedodd wrthi, Ha wraig, mawr yw dy ffydd : bydded i ti fel yr wyt yn ewyllsio. A'i merch a iachawyd o'r awr honno allan.

Y trydydd Sul yn y Garawys.

Y Colect.

NYNI a attolygwn i ti, Holl-allnog Dduw, edrych o honot ar ddeisyfiadau diffuant dy ufudd weision, ac estyn deheulaw dy Fawredd i fod yn ymwarded i ni yn erbyn ein holl elynion ; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. Ephes. v. 1.

BYDDWCH gan hynny ddi-lynwŷr Duw, fel plant an-wyl ; a rhodiwch mewn cariad, megis y carodd Crist ninnau, ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw, o arogl peraidd. Eithr godineb, a phob aflendid, neu gybydd-dra, na enwer chwaith yn eich plith, megis y gweddai i saint, na serth-edd, nac ymadrodd ffol, na choeg ddigrifwch, pethau nid ydynt weddus : eithr yn hytrach, rhoddi diolch. Canys yr ydych chwi yn gwybod hyn, am bob puttein-iwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn sy ddelw-addolwr, nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Crist a Duw. Na thwyllled

away ; for she crieth after us. But he answered and said, I am not sent, but unto the lost sheep of the house of Israel. Then came she and worshipped him, saying, Lord, help me. But he answered and said, It is not meet to take the children's bread, and to cast it to dogs. And she said, Truth, Lord ; yet the dogs eat of the crumbs which fall from their master's table. Then Jesus answered and said unto her, O woman, great is thy faith : be it unto thee even as thou wilt. And her daughter was made whole from that very hour.

The third Sunday in Lent.

The Collect.

WE beseech thee, Almighty God, look upon the hearty desires of thy humble servants, and stretch forth the right hand of thy Majesty, to be our defence against all our enemies ; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. Ephes. v. 1.

BE ye therefore followers of God, as dear children ; and walk in love, as Christ also hath loved us, and hath given himself for us, an offering and a sacrifice to God for a sweet-smelling savour. But fornication, and all uncleanness, or covetousness, let it not be once named amongst you, as becometh saints ; neither filthiness, nor foolish-talking, nor jesting, which are not convenient ; but rather giving of thanks : for this ye know, that no whoremonger, nor unclean person, nor covetous man, who is an idolater, hath any inheritance in the kingdom of Christ, and

neb chwi â geiriau ofer: canys oblegid y pethau hyn y mae dig-ofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod. Na fyddwch gan hynny gyfrannogion â hwynt: canys yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch, ond yr awrhon goleuni ydych yn yr Arglwydd. Rhodiwch fel plant y goleuni; (canys ffrwyth yr Yspryd sydd ym mhob daioni, a chyfiawnder, a gwirionedd) gan brofi beth sy gymmeradwy gan yr Arglwydd. Ac na fydded i chwi gyd-gyfeillach â gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch; eithr yn hytrach argyoeddwch hwynt: canys brwnt yw adrodd y pethau a wneir ganddynt hwy yn ddirgel. Eithr pob peth, wedi'r argyoedder, a eglurir gan y goleuni: canys beth bynnag sydd yn egluro, goleuni yw. O herwydd paham y mae efe yn dywedyd, Deffro di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddi wrth y meirw; a Christ a oleua i ti.

Yr Efyngyl. St. Luc xi. 14.

YR oedd yr Iesu yn bwrw allan gythraul, a hwnnw oedd fud. A bu, wedi i'r cythraul fyned allan, i'r mudan lefaru: a'r bobloedd a ryfeddasant. Eithr rhai o honynt a ddywedasant, Trwy Beelzebub, pennaeth y cythreuliaid, y mae efe yn bwrw allan gythreuliaid. Ac eraill, gan ei demtio, a geisiasant ganddo arwydd o'r nef. Yntau, yn gwybod eu meddyliau hwynt, a ddywedodd wrthynt, Pob teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, a anghyfynddir; a thŷ yn erbyn tŷ, a syrth. Ac os Satan hefyd sy wedi ymrannu yn ei erbyn ei hun, pa fodd y saif ei deyrnas ef? gan eich bod yn dywedyd, mai trwy Beelzebub yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid. Ac os trwy Beelzebub yr wyf fi yn bwrw allan

of God. Let no man deceive you with vain words: for because of these things cometh the wrath of God upon the children of disobedience. Be not ye therefore partakers with them: for ye were sometimes darkness, but now are ye light in the Lord: walk as children of light; (for the fruit of the Spirit is in all goodness, and righteousness, and truth;) proving what is acceptable unto the Lord. And have no fellowship with the unfruitful works of darkness, but rather reprove them: for it is a shame even to speak of those things which are done of them in secret. But all things that are reprov'd are made manifest by the light: for whatsoever doth make manifest is light. Wherefore he saith, Awake, thou that sleepest, and arise from the dead, and Christ shall give thee light.

The Gospel. St. Luke xi. 14.

JESUS was casting out a devil, and it was dumb. And it came to pass, when the devil was gone out, the dumb spake; and the people wondered. But some of them said, He casteth out devils through Beelzebub, the chief of the devils. And others, tempting him, sought of him a sign from heaven. But he, knowing their thoughts, said unto them, Every kingdom divided against itself is brought to desolation; and a house divided against a house falleth. If Satan also be divided against himself, how shall his kingdom stand? because ye say, that I cast out devils through Beelzebub. And if I by Beelzebub cast out devils, by whom do your sons cast them out? there-

Y pedwerydd Sul yn y Garawys.

gythreuliaid, trwy bwy y mae eich plant chwi yn eu bwrw hwynt allan? am hynny y byddant hwy yn farnwyr arnoch chwi. Eithr os myfi trwy fys Duw ydyw yf yn bwrw allan gythreuliaid, diammeu ddyfod teyrnas Dduw atoch chwi. Pan fyddo un cryf arfog yn cadw ei neuadd, y mae yr hyn sy ganddo mewn heddwch: ond pan ddél un cryfach nag ef arno, a'i orchfygu, efe a ddwg ymaith ei holl arfogaeth ef, yn yr hon yr oedd yn ymddiried, ac a ran ei anrhaith ef. Y neb nid yw gyd â mi, sydd yn fy erbyn: a'r neb nid yw yn casglu gyd â mi, sydd yn gwasgaru. Pan él yr yspryd aflan allan o ddyn, efe a rodia mewn lleoedd sychion, gan geisio gorphwysdra; a phryd na chaffo, efe a ddywed, Mi a ddychwelaf i'm tŷ o'r lle y daethum allan. A phan ddél, y mae yn ei gael wedi ei ysgubo a'i drefnu. Yna yr â ef ac y cymmer atto saith yspryd eraill, gwaeth nag ef ei hun; a hwy a ant i mewn, ac a arhosant yno: a diwedd y dyn hwnnw fydd gwaeth nâ'i ddechreuad. A bu fel yr oedd efe yn dywedyd hyn, rhyw wraig o'r dyrfa a gododd ei llef, ac a ddywedodd wrtho, Gwŷn fyd y groth a'th ddug di, a'r bronau a sugnaist. Ond efe a ddywedodd, Yn hytrach gwŷn fyd y rhai sydd yn gwrando gair Duw, ac yn ei gadw.

fore shall they be your judges. But if I with the finger of God cast out devils, no doubt the kingdom of God is come upon you. When a strong man armed keepeth his palace, his goods are in peace; but when a stronger than he shall come upon him, and overcome him, he taketh from him all his armour wherein he trusted, and divideth his spoils. He that is not with me is against me: and he that gathereth not with me scattereth. When the unclean spirit is gone out of a man, he walketh through dry places, seeking rest; and finding none, he saith, I will return unto my house whence I came out. And when he cometh, he findeth it swept and garnished. Then goeth he and taketh to him seven other spirits more wicked than himself, and they enter in, and dwell there; and the last state of that man is worse than the first. And it came to pass, as he spake these things, a certain woman of the company lift up her voice, and said unto him, Blessed is the womb that bare thee, and the paps which thou hast sucked. But he said, Yea rather, blessed are they that hear the Word of God, and keep it.

Y pedwerydd Sul yn y Garawys.

Y Colect.

CANIATTA, ni a attolygwn Ci ti, Holl-alluog Dduw, fod i ni y rhai yn gyfiawn a haeddasom gael ein poeni am ein drwg weithredoedd, trwy ddiddanwch dy ras di allu yn drugarog gael esmwythâd; trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist. *Amen.*

The fourth Sunday in Lent.

The Collect.

GRANT, we beseech thee, Almighty God, that we, who for our evil deeds do worthily deserve to be punished, by the comfort of thy grace may mercifully be relieved; through our Lord and Saviour Jesus Christ. *Amen.*

Y pedwerydd Sul yn y Garawys.

Yr Epistol. Gal. iv. 21.

DYWEDWCH i mi, y rhai ydych yn chwennych bod dan y ddeddf, onid ydych chwi yn clywed y ddeddf? Canys y mae yn ysgrifenedig, fod i Abraham ddau fab; un o'r wasanaeth-ferch, ac un o'r wraig rýdd. Eithr yr hwn oedd o'r wasanaeth-ferch, a aned yn ol y cnawd; a'r hwn oedd o'r wraig rýdd, trwy'r addewid. Yr hyn bethau ydynt mewn alegori: canys y rhai hyn yw y ddau destament; un yn ddiâu o fynydd Sina, yn cenhedlu i gaethiwed, yr hon yw Agar. Canys yr Agar yma yw mynydd Sina yn Arabia, ac y mae yn cyfatteb i'r Jerusalem sydd yn awr, ac y mae yn gaeth hi a'i phlant. Eithr y Jerusalem honno uchod, sy rýdd, yr hon yw ein mam ni oll. Canys ysgrifenedig yw, Llawenhâ, di yr ammhlantadwy, yr hon nid wyt yn eppilio; tor allan a llefa, yr hon nid wyt yn esgor: canys i'r unig y mae llawer mwy o blant nag i'r hon y mae iddi wr. A ninnau, frodyr, megis yr oedd Isaac, ydym blant yr addewid. Eithr megis y pryd hwnnw, yr hwn a anwyd yn ol y cnawd, a erlidiai yr hwn a anwyd yn ol yr yspryd; felly yr awrhon hefyd. Ond beth y mae'r ysgrythyr yn ei ddywedyd? Bwrw allan y wasanaeth-ferch, a'i mab; canys ni chaiff mab y wasanaeth-ferch etifeddu gyd â mab y wraig rýdd. Felly, frodyr, nid plant i'r wasanaeth-ferch ydym, ond i'r wraig rýdd.

Yr Efengyl. St. Ioan vi. 1.

YR Iesu a aeth tros fôr Galilea, hwnnw yw môr Tiberias. A thyrfa fawr a'i caulynodd ef; canys hwy a welsent ei arwyddion y rhai a wnaethai efe ar y cleifion. A'r Iesu a aeth i fynu i'r mynydd, ac a eisteddodd

The Epistle. Gal. iv. 21.

TELL me, ye that desire to be under the law, do ye not hear the law? For it is written, that Abraham had two sons, the one by a bond-maid, the other by a free-woman. But he who was of the bond-woman was born after the flesh; but he of the free-woman was by promise. Which things are an allegory: for these are the two covenants; the one from the mount Sinai, which gendereth to bondage, which is Agar. For this Agar is mount Sinai in Arabia, and answereth to Jerusalem which now is, and is in bondage with her children. But Jerusalem which is above is free; which is the mother of us all. For it is written, Rejoice, thou barren that bearest not; break forth and cry, thou that travailest not: for the desolate hath many more children than she which hath an husband. Now we, brethren, as Isaac was, are the children of promise. But as then he that was born after the flesh persecuted him that was born after the Spirit; even so it is now. Nevertheless, what saith the Scripture? Cast out the bond-woman and her son; for the son of the bond-woman shall not be heir with the son of the free-woman. So then, brethren, we are not children of the bond-woman, but of the free.

The Gospel. St. John vi. 1.

JESUS went over the sea of Galilee, which is the sea of Tiberias. And a great multitude followed him, because they saw his miracles which he did on them that were diseased. And Jesus went up into a mountain.

Y pummed Sul yn y Garawys.

yno gyd â'i ddisgyblion. A'r pasg, gwyl yr Iuddewon, oedd yn agos. Yna'r Iesu a ddyrchafodd ei lygaid, ac a welodd fod tyrfa lawr yn dyfod atto; ac a ddywedodd wrth Phylip, O ba le y prynwn ni fara, fel y caffo y rhai hyn fwytta? (A hyn a ddywedodd efe i'w brofi ef: canys efe a wyddai beth yr oedd efe ar fedr ei wneuthur.) Phylip a'i hattebodd ef, Gwerth dau can ceiniog o fara nid yw ddigon iddynt hwy, fel y gallo pob un o honynt gymmeryd ychydig. Un o'i ddisgyblion a ddywedodd wrtho, Andreas, brawd Simon Petr, Y mae yma ryw fachgennyn, a chanddo bùm torth haidd, a dau bysgodyn; ond beth yw hynny rhwng cynnifer? A'r Iesu a ddywedodd, Perwch i'r dynion eistedd i lawr. Ac yr oedd glaswellt lawer yn y fan honno. Felly y gwŷr a eisteddasant i lawr, ynghylch pum mil o nifer. A'r Iesu a gymmerth y torthau, ac wedi iddo ddiolch, efe a'u rhanodd i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r rhai oedd yn eistedd; felly hefyd o'r pysgod cymmaint ag a fynnasant. Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim. Am hynny hwy a'i casglasant, ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briwfwyd, o'r pum torth haidd a weddillasai gan y rhai a fwyttasant. Yna y dynion, pan welsant yr arwydd a wnaethai'r Iesu, a ddywedasant, Hwn yn ddiâu yw y Prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd.

and there he sat with his disciples. And the Passover, a feast of the Jews, was nigh. When Jesus then lift up his eyes, and saw a great company come unto him, he saith unto Philip, Whence shall we buy bread, that these may eat? (And this he said to prove him; for he himself knew what he would do.) Philip answered him, Two hundred peny-worth of bread is not sufficient for them, that every one of them may take a little. One of his disciples, Andrew, Simon Peter's brother, saith unto him, There is a lad here, which hath five barley-loaves, and two small fishes: but what are they among so many? And Jesus said, Make the men sit down. Now there was much grass in the place. So the men sat down, in number about five thousand. And Jesus took the loaves, and when he had given thanks he distributed to the disciples, and the disciples to them that were set down; and likewise of the fishes as much as they would. When they were filled, he said unto his disciples, Gather up the fragments that remain, that nothing be lost. Therefore they gathered them together, and filled twelve baskets with the fragments of the five barley-loaves, which remained over and above unto them that had eaten. Then those men, when they had seen the miracle that Jesus did, said, This is of a truth that Prophet that should come into the world.

Y pummed Sul yn y Garawys.

Y Colect.

NI a attolygwn i ti, Hollalluog Dduw, edrych o honot yn drugarog ar dy bobl;

The fifth Sunday in Lent.

The Colect.

WE beseech thee, Almighty God, mercifully to look upon thy people; that by thy

fel y bo iddynt, trwy dy fawr ddaioni, gael byth eu llywodraethu a'u cadw mewn enaid a chorff; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. Heb. ix. 11.

CRIST, wedi dyfod yn Arch-offeiriad y daionus bethau a fyddent, trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hynny yw, nid o'r adeiladaeth yma, nid chwaith trwy waed geifr a lloi, eithr trwy ei waed ei hun, a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhad. Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd; pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr yspryd dragywyddol a'i hoffrymmodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddi wrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw? Ac am hynny y mae efe yn Gyfryngwr y cyfammod newydd, megis trwy fod marwolaeth yn ymwarded oddi wrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol.

Yr Efengyl. St. Ioan viii. 46.

IESU a ddywedodd, Pwy o honod? ac od wyf fi yn dywedyd y gwir, paham nad ydych yn credu i mi? Y mae yr hwn sydd o Dduw, yn gwrando geiriau Duw: am hynny nid ydych chwi yn eu gwrando, am nad ydych o Dduw. Yna'r atebodd yr Iuddewon, ac y dywedasant wrtho ef, Onid da yr ydym ni yn dywedyd, mai Samaritan wyt ti, a bod gennyt gythraul? Yr Iesu a atebodd, Nid oes gennyf gythraul; ond yr wyf fi yn anrhydeddu fy Nhad,

great goodness they may be governed and preserved evermore, both in body and soul; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. Heb. ix. 11.

CHRISt being come an High Priest of good things to come, by a greater and more perfect tabernacle, not made with hands; that is to say, not of this building; neither by the blood of goats and calves; but by his own blood he entered in once into the holy place, having obtained eternal redemption for us. For if the blood of bulls and of goats, and the ashes of an heifer sprinkling the unclean, sanctifieth to the purifying of the flesh; how much more shall the blood of Christ, who, through the eternal Spirit, offered himself without spot to God, purge your conscience from dead works to serve the living God? And for this cause he is the Mediator of the new testament, that by means of death, for the redemption of the transgressions that were under the first testament, they which are called might receive the promise of eternal inheritance.

The Gospel. St. John viii. 46.

JESUS said, Which of you convinceth me of sin? and if I say the truth, why do ye not believe me? He that is of God heareth God's words; ye therefore hear them not, because ye are not of God. Then answered the Jews, and said unto him, Say we not well, that thou art a Samaritan, and hast a devil? Jesus answered, I have not a devil; but I honour my Father, and ye do dishonour me. And I seek

Y Sul nesaf o flaen y Pasg.

ac yr ydych chwithau yn fy ni-anrhydeddu innau. Ac nid wyf fi yn ceisio fy ngogoniant fy hun; y mae a'i cais, ac a farn. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wel efe farwolaeth yn dragywydd. Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Yr awr hon y gwyddom fod gennyt gythraul. Bu Abraham farw, a'r prophwydi; ac meddi di, Os ceidw neb fy ymadrodd i, nid archwaetha efe farwolaeth yn dragywydd. Ai mwy wyt ti nag Abraham ein tad ni, yr hwn a fu farw? a'r prophwydi a fuant feirw: pwy yr wyt ti yn dy wneuthur dy hun? Yr Iesu a atebodd, Os wyf fi yn fy ngogoneddu fy hun, fy ngogoniant i nid yw ddim: fy Nhad yw'r hwn sydd yn fy ngogoneddu i, yr hwn yr ydych chwi yn dywedyd mai eich Duw chwi yw. Ond nid adnabuo chwi ef; eithr myfi a'i hadwaen ef: ac os dywedaf nad adwaen ef, myfi a fyddaf debyg i chwi, yn gelwyddog: ond mi a'i hadwaen ef, ac yr wyf yn cadw ei ymadrodd ef. Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i; ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd. Yna y dywedodd yr Iuddewon wrtho, Nid wyt ti ddengnlwydd a deugain etto, ac a welaist ti Abraham? Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Cyn bod Abraham, yr wyf fi. Yna hwy a godasant gerrig i'w taflu atto ef. A'r Iesu a ymguddiodd, ac a aeth allan o'r deml.

Y Sul nesaf o flaen y Pasg.

Y Colect.

HOLL-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn o'th garedigol serch ar ddyn, a ddanfonaist dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, i gymmeryd arno ein cnawd, ac i ddioddef

not mine own glory; there is one that seeketh and judgeth. Verily, verily, I say unto you, If a man keep my saying, he shall never see death. Then said the Jews unto him, Now we know that thou hast a devil: Abraham is dead, and the prophets; and thou sayest, If a man keep my saying, he shall never taste of death. Art thou greater than our father Abraham, which is dead? and the prophets are dead: whom makest thou thyself? Jesus answered, If I honour myself, my honour is nothing; it is my Father that honoureth me, of whom ye say, that he is your God: yet ye have not known him; but I know him: and if I should say, I know him not, I shall be a liar like unto you; but I know him, and keep his saying. Your father Abraham rejoiced to see my day, and he saw it, and was glad. Then said the Jews unto him, Thou art not yet fifty years old, and hast thou seen Abraham? Jesus said unto them, Verily, verily, I say unto you, before Abraham was, I am. Then took they up stones to cast at him: but Jesus hid himself, and went out of the temple.

The Sunday next before Easter.

The Colect.

ALMIGHTY and everlasting God, who, of thy tender love towards mankind, hast sent thy Son, our Saviour Jesus Christ, to take upon him our flesh, and to suffer death upon

Y Sul nesaf o flaen y Pasg.

angau ar y groes, fel y gallai pob rhyw ddyn ddilyn esampl ei fawr ostyngedd rwydd ef; Caniattâ o'th drugaredd fod i ni ganlyn esampl ei ddioddefgarwch, a bod hefyd yn gyfrannogion o'i adgyfodiad; trwy yr unrhyw Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. Phil. ii. 5.

BYDDED ynoch y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yng Nghrist Iesu: yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw: eithr efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion: a'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, i.e., angau'r groes. O herwydd paham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo Enw, yr hwn sy goruwch pob enw: fel yn Enw'r Iesu y plygai pob glin o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad.

Yr Efengyl. St. Matth. xxvii. 1.

A Phan ddaeth y bore, cydyngynghorodd yr holl arch-offeiriaid a henuriaid y bobl yn erbyn yr Iesu, fel y rhoddent ef i farwolaeth. Ac wedi iddynt ei rwymo, hwy a'i dygasant ef ymaith, ac a'i traddodasant ef i Pontius Pilat y rhaglaw. Yna pan welodd Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, ddarfod ei gondemnio ef, bu edifar ganddo; ac a ddug drachefn y deg ar hugain arian i'r arch-offeiriaid a'r henuriaid, gan ddywedyd, Pechais, gan fradychu gwaed gwirion. Hwytthau a ddywedasant, Pa beth yw hynny i ni? edrych di. Ac wedi iddo dafu'r

the cross, that all mankind should follow the example of his great humility; Mercifully grant, that we may both follow the example of his patience, and also be made partakers of his resurrection; through the same Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. Phil. ii. 5.

LET this mind be in you, which was also in Christ Jesus: who, being in the form of God, thought it not robbery to be equal with God; but made himself of no reputation, and took upon him the form of a servant, and was made in the likeness of men: and being found in fashion as a man, he humbled himself, and became obedient unto death, even the death of the cross. Wherefore God also hath highly exalted him, and given him a Name which is above every name; that at the Name of Jesus every knee should bow, of things in heaven, and things in earth, and things under the earth; and that every tongue should confess that Jesus Christ is Lord, to the glory of God the Father.

The Gospel. St. Matth. xxvii. 1.

WHEN the morning was come, all the chief priests and elders of the people took counsel against Jesus, to put him to death. And when they had bound him, they led him away, and delivered him to Pontius Pilate the governour. Then Judas who had betrayed him, when he saw that he was condemned, repented himself, and brought again the thirty pieces of silver to the chief priests and elders, saying, I have sinned, in that I have betrayed the innocent blood. And they said, What is that to us?

Y Sul nesaf o flaen y Pasg.

arian yn y deml, efe a ymadawodd, ac a aeth ac a ymgrogodd. A'r arch-offeiriaid a gymmerasant yr arian, ac a ddywedasant, Nid cyfreithlawn i ni eu bwrw hwynt yn y drysorfa; canys gwerth gwaed ydyw. Ac wedi iddynt gyd-ymgyngori, hwy a brynasant â hwynt faes y crochenydd, yn gladdfa dŷeithriaid. Am hynny y galwyd y maes hwnnw, Maes y gwaed, hyd heddyw. (Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedwyd trwy Jeremias y prophwyd, gan ddywedyd, A hwy a gymmerasant y deg ar hugain arian, pris y prisiedig, yr hwn a brynasant gan feibion Israel, ac a'u rhoisant hwy am faes y crochenydd, megis y gosododd yr Arglwydd i mi.) A'r Iesu a safodd ger bron y rhaglaw: a'r rhaglaw a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Yr wyt ti yn dywedyd. A phan gyhuddid ef gan yr arch-offeiriaid a'r henuriaid, nid atebodd efe ddim. Yna y dywedodd Pilat wrtho, Oni chlywi di faint o bethau y maent hwy yn eu tystiolaethu yn dy erbyn di? Ac nid atebodd efe iddo i un gair; fel y rhyfeddodd y rhaglaw yn fawr. Ac ar yr wyl honno yr arferai y rhaglaw ollwng yn rhŷdd i'r bobl un carcharor, yr hwn a fynnent. Ac yna yr oedd ganddynt garcharor hynod, a elwid Barabbas. Wedi iddynt gan hynny ymgasglu ynghŷd, Pilat a ddywedodd wrthynt, Pa un a fynnwch i mi ei ollwng yn rhŷdd i chwi, Barabbas, ai yr Iesu, yr hwn a elwir Crist? canys efe a wyddai mai o gynfigen y traddodasant ef. Ac efe yn eistedd ar yr orseddfaingc, ei wraig a ddanfonodd atto, gan ddywedyd, Na

see thou to that. And he cast down the pieces of silver in the temple, and departed, and went and hanged himself. And the chief priests took the silver pieces, and said, It is not lawful for to put them into the treasury, because it is the price of blood. And they took counsel, and bought with them the potter's field, to bury strangers in. Wherefore that field was called, The field of blood, unto this day. (Then was fulfilled that which was spoken by Jeremy the prophet, saying, And they took the thirty pieces of silver, the price of him that was valued, whom they of the children of Israel did value, and gave them for the potter's field, as the Lord appointed me.) And Jesus stood before the governor; and the governor asked him, saying, Art thou the King of the Jews? And Jesus said unto him, Thou sayest. And when he was accused of the chief priests and elders, he answered nothing. Then saith Pilate unto him, Hearest thou not how many things they witness against thee? And he answered him to never a word, insomuch that the governor marvelled greatly. Now at that feast the governor was wont to release unto the people a prisoner, whom they would. And they had then a notable prisoner, called Barabbas. Therefore when they were gathered together, Pilate said unto them, Whom will ye that I release unto you? Barabbas, or Jesus which is called Christ? For he knew that for envy they had delivered him. When he was set down on the judgement-seat, his wife sent unto him, saying, Have thou nothing to

fydded i ti a wnelych â'r cyfiaw'n hwnnw: canys goddefais lawer heddyw mewn breuddwyd o'i achos ef. A'r arch-offeiriaid a'r henuriaid a ber-swadiasant y bobl, fel y gofynent Barabbas, ac y difethent yr Iesu. A'r rhaglaw a atebodd ac a ddywedodd wrthynt, Pa un o'r ddau a fynnwch i mi ei ollwng yn rhÿdd i chwi? Hwythau a ddywedasant, Barabbas. Pilat a ddywedodd wrthynt, Pa beth gan hynny a wnaf i'r Iesu, yr hwn a elwir Crist? Hwythau oll a ddywedasant wrtho, Croeshoelïer ef. A'r rhaglaw a ddywedodd, Ond pa ddrwg a wnaeth efe? Hwythau a lefasant yn fwy, gan ddywedyd, Croeshoelïer ef. A Philat, pan welodd nad oedd dim yn tycio, ond yn hytrach bod cynnwrf, a gymmerth ddwfr, ac a olchodd ei ddwyllaw ger bron y bobl, gan ddywedyd, Dïeuog ydwyf fi oddi wrth waed y cyfiawn hwn: edrychwch chwi. A'r holl bobl a atebodd ac a ddywedodd, Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant. Yna y gollyngodd efe Barabbas yn rhÿdd iddynt; ond yr Iesu a fflangellodd efe, ac a'i rhoddes i'w groeshoelio. Yna milwÿr y rhaglaw a gymmerasant yr Iesu i'r dadleudÿ, ac a gynnullasant atto yr holl fyddin. A hwy a'i dïosgasant ef, ac a roisant am dano fantell o ysgarlad. A chwedi iddynt blethu coron o ddrain, hwy a'i gosodasant ar ei ben ef, a chorsen yn ei law ddehau: ac a blygasant eu gliniau ger ei fron ef, ac a'i gwatwarasant, gan ddywedyd, Henffych well, Brenhin yr Iuddewon. A hwy a boerasant arno, ac a gymmerasant y gorsen, ac a'i tarawsant ar ei ben. Ac wedi iddynt ei

do with that just man: for I have suffered many things this day in a dream because of him. But the chief priests and elders persuaded the multitude that they should ask Barabbas, and destroy Jesus. The governour answered and said unto them, Whether of the twain will ye that I release unto you? They said, Barabbas. Pilate saith unto them, What shall I do then with Jesus, which is called Christ? They all say unto him, Let him be crucified. And the governour said, Why, what evil hath he done? But they cried out the more, saying, Let him be crucified. When Pilate saw that he could prevail nothing, but that rather a tumult was made, he took water, and washed his hands before the multitude, saying, I am innocent of the blood of this just person: see ye to it. Then answered all the people, and said, His blood be on us, and on our children. Then released he Barabbas unto them: and when he had scourged Jesus he delivered him to be crucified. Then the soldiers of the governour took Jesus into the common hall, and gathered unto him the whole band of soldiers. And they stripped him, and put on him a scarlet robe. And when they had platted a crown of thorns they put it upon his head, and a reed in his right hand: and they bowed the knee before him, and mocked him, saying, Hail, King of the Jews. And they spit upon him, and took the reed, and smote him on the head. And after that they had mocked him they took the robe off from him, and put his own raiment on him, and led him away to crucify him. And as

watwar, hwy a'i dïosgasant ef o'r fantell, ac a'i gwisgasant â'i ddillad ei hun, ac a'i dygasant ef ymaith i'w groeshoelio. Ac fel yr oeddynt yn myned allan, hwy a gawsant ddyn o Cyrene, a'i enw Simon: hwn a gymmellasant i ddwyn ei groes ef. A phan ddaethant i le a elwid Golgotha, yr hwn a elwir Lle'r benglog, hwy a roisant iddo i'w yfed finegr yn gymmysgedig â bustl. Ac wedi iddo ei brofi, ni fynnodd efe yfed. Ac wedi iddynt ei groeshoelio ef, hwy a rannasant ei ddillad, gan fwrw coelbren; er cyflawni y peth a ddywedwyd trwy'r prophwyd, Hwy a rannasant fy nillad yn eu plith, ac ar fy ngwisg y bwriasant goelbren. A chan eistedd, hwy a'i gwylasant ef yno. A gosodasant hefyd uwch ei ben ef ei achos yn ysgrifenedig, HWN YW IESU BRENHIN YR IUDEWON. Yna y croeshoeliwyd gyd âg ef ddau leidr, un ar y llaw ddehau, ac un ar yr aswy. A'r rhai oedd yn inyned heibio a'i cablasant ef, gan ysgwyd eu pennau, a dywedyd, Ti yr hwn a ddinystri'r deml, ac a'i hadeiledi mewn tridiau, gwared dy hun: os ti yw Mab Duw, disgyn oddi ar y groes. A'r un modd yr arch-offeiriaid hefyd, gan watwar, gyd â'r ysgrifenyddion a'r henuriaid, a ddywedasant, Efe a waredodd eraill, ei hunan ni's gall efe ei waredu: os Brenhin Israel yw, disgyned yr awrhon oddi ar y groes, ac ni a gredwn iddo. Ymddiriedodd yn Nuw; gwareded efe ef yr awrhon, os efe a'i myn ef: canys efe a ddywedodd, Mab Duw ydwyf. A'r un peth hefyd a edliwiodd y lladron iddo, y rhai a groeshoeliasid gyd âg ef. Ac o'r chweched awr y bu tywyllwch ar yr holl ddaear, hyd y nawfed

they came out they found a man of Cyrene, Simon by name; him they compelled to bear his cross. And when they were come unto a place called Golgotha, that is to say, a place of a scull, they gave him vinegar to drink mingled with gall: and when he had tasted thereof, he would not drink. And they crucified him, and parted his garments, casting lots: that it might be fulfilled, which was spoken by the prophet, They parted my garments among them, and upon my vesture did they cast lots. And sitting down they watched him there; and set up over his head his accusation written, THIS IS JESUS THE KING OF THE JEWS. Then were there two thieves crucified with him; one on the right hand, and another on the left. And they that passed by reviled him, wagging their heads, and saying, Thou that destroyest the temple, and buildest it in three days, save thyself: if thou be the Son of God, come down from the cross. Likewise also the chief priests mocking him, with the scribes and elders, said, He saved others, himself he cannot save: if he be the King of Israel, let him now come down from the cross, and we will believe him. He trusted in God; let him deliver him now, if he will have him: for he said, I am the Son of God. The thieves also, which were crucified with him, cast the same in his teeth. Now from the sixth hour there was darkness over all the land unto the ninth hour. And about the ninth hour Jesus cried with a loud voice, saying, *Eli, Eli, lama sabachthani?* that is to say, My God, my God, why hast

Dydd Llun o flaen y Pasg.

awr. Ac ynghylch y nawfed awr y llefodd yr Iesu â llef uchel, gan ddywedyd, *Eli, Eli, luma sabachthani?* hynny yw, Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist? A rhai o'r sawl oedd yn sefyll yno, pan glywsant, a ddywedasant, Y mae hwn yn galw am Elias. Ac yn y fan un o'honynt a redodd ac a gymmerth yspwng, ac a'i llanwodd o finegr, ac a'i rhoddes ar gorsen, ac a'i diododd ef. A'r lleill a ddywedasant, Paid; edrychw'n a ddaw Elias i'w waredu ef. A'r Iesu, wedi llefain drachefn â llef uchel, a ymadawodd â'r yspryd. Ac wele, llen y deml a rwygwyd yn ddau, oddi fynu hyd i waered, a'r ddaear a grynodd, a'r meini a holltwyd; a'r beddau a agorwyd, a llawer o gyrph y saint a hunasant a gyfodasant, ac a ddaethant allan o'r beddau, ar ol ei gyfodiad ef, ac a aethant i mewn i'r ddinas sanctaidd, ac a ymddangosasant i lawer. Ond y canwriad, a'r rhai oedd gyd âg ef yn gwylied yr Iesu, wedi gweled y ddaear-gryn, a'r pethau a wnaethid, a ofnasant yn fawr, gan ddywedyd, Yn wir Mab Duw ydoedd hwn.

Dydd Llun o flaen y Pasg.

Yn lle yr Epistol. Esay lxiii. 1.

PWY yw hwn yn dyfod o Edom, yn goch ei ddillad o Bozrah? hwn sydd hardd yn ei wisg, yn ymdaith yn amllder ei rym? Myfi, yr hwn a lefaraf mewn cyfiawnder, ac wyf gadarn i iachâu. Paham yr ydwyf yn goch dy ddillad, a'th wisgoedd fel yr hwn a sathrai mewn gwin-wrŷf? Sethrais y gwin-wrŷf fy hunan, ac o'r bobl nid oedd un gyd â mi: canys mi a'u sathraf hwynt yn fy nig, ac a'u mathraf

thou forsaken me? Some of them that stood there, when they heard that, said, This man calleth for Elias. And straight-way one of them ran, and took a sponge, and filled it with vinegar, and put it on a reed, and gave him to drink. The rest said, Let be, let us see whether Elias will come to save him. Jesus, when he had cried again with a loud voice, yielded up the ghost. And behold, the veil of the temple was rent in twain from the top to the bottom, and the earth did quake, and the rocks rent, and the graves were opened, and many bodies of saints which slept arose, and came out of the graves after his resurrection, and went into the holy city, and appeared unto many. Now when the centurion, and they that were with him, watching Jesus, saw the earthquake, and those things that were done, they feared greatly, saying, Truly this was the Son of God.

Monday before Easter.

For the Epistle. Isai. lxiii. 1.

WHO is this that cometh from Edom, with dyed garments from Bozrah? this that is glorious in his apparel, travelling in the greatness of his strength? I that speak in righteousness, mighty to save. Wherefore art thou red in thine apparel, and thy garments like him that treadeth in the wine-fat? I have trodden the wine-press alone, and of the people there was none with me: for I will tread them in mine

Dydd Llun o flaen y Pasg.

hwynt yn fy llioiogrwydd; a'u gwaed hwynt a daenellir ar fy nillad, a'm holl wisgoedd a lychwinaf. Canys dydd dial sydd yn fy nghalon, a blwyddyn fy ngwaredigion a ddaeth. Edrychais hefyd, ac nid oedd gynnorthwywr; rhyfeddais hefyd am nad oedd gynhaliwr: yna fy mraich fy hun a'm hachubodd, a'm llioiogrwydd a'm cynhaliodd; ac mi a sathraf y bobl yn fy nig, ac a'u meddwaf hwynt yn fy llioiogrwydd, a'u cadernid a ddisgynaf i'r llawr. Cofiaf drugareddau yr Arglwydd, a moliant Duw, yn ol yr hyn oll a roddodd Duw i ni, ac amllder ei ddaioni i dŷ Israel, yr hyn a roddodd efe iddynt, yn ol ei dosturiaethau, ac yn ol amllder ei drugareddau. Canys efe a ddywedodd, Dïau fy mhobl ydynt hwy, meibion ni ddywedant gelwydd: felly efe a aeth yn lachawdwr iddynt. Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd, ac angel ei gyd-ddrychioldeb a'u hachubodd hwynt: yn ei gariad, ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt; efe a'u dygodd hwynt, ac a'u harweiniodd yr holl ddyddiau gynt. Hwythau oeddynt wrthryfelgar, ac a ofidiasant ei Yspryd Sanctaidd ef: am hynny y trodd efe yn elyn iddynt, ac yr ymladdodd yn eu herbyn. Yna y cofiodd efe 'r dyddiau gynt, Moses a'i bobl, gan ddywedyd, Mae'r hwn a'u dygodd hwynt i fynu o'r môr, gyd â bugail ei braidd? mae'r hwn a osododd ei Yspryd Sanctaidd o'i fewn ef? yr hwn a'u tywysodd hwynt â deheulaw Moses, ac â'i ogoneddus fraich, gan hollti'r dyfroedd o'u blaen hwynt, i wneuthur iddo ei hun Enw tragywyddol? yr hwn a'u harweiniodd hwynt trwy y dyfnoderau, fel march yn yr anial-

anger, and trample them in my fury, and their blood shall be sprinkled upon my garments, and I will stain all my raiment. For the day of vengeance is in mine heart, and the year of my redeemed is come. And I looked, and there was none to help; and I wondered that there was none to uphold: therefore mine own arm brought salvation unto me, and my fury it upheld me. And I will tread down the people in mine anger, and make them drunk in my fury, and I will bring down their strength to the earth. I will mention the loving-kindnesses of the Lord, and the praises of the Lord, according to all that the Lord hath bestowed on us, and the great goodness towards the house of Israel, which he hath bestowed on them, according to his mercies, and according to the multitude of his loving-kindnesses. For he said, Surely they are my people, children that will not lie: so he was their Saviour. In all their affliction he was afflicted, and the angel of his presence saved them: in his love, and in his pity, he redeemed them, and he bare them, and carried them all the days of old. But they rebelled, and vexed his Holy Spirit; therefore he was turned to be their enemy, and he fought against them. Then he remembered the days of old, Moses and his people, saying, Where is he that brought them up out of the sea with the shepherd of his flock? where is he that put his Holy Spirit within him? that led them by the right hand of Moses, with his glorious arm, dividing the water before them, to make himself an everlasting Name? that led them through the deep as an horse in the wilderness, that they should not stumble? As a beast

Dydd Llun o flaen y Pasg.

wch, fel na thramgwyddyt? Fel y disgyn anifail i'r dyffryn, y gwna Yspryd yr Arglwydd iddo orphwys: felly y tywysaist dy bobl, i wneuthur it' Enw gogoneddus. Edrych o'r nef-oedd, a gwel o annedd dy sanct-eiddrwydd, a'th ogoniant: mae dy zêl a'th gadernid, llïosowgrwydd dy dosturiaethau, a'th drugareddau tu ag attaf fi? a ymattaliasant? Canys ti yw ein Tad ni, er nad edwyn Abraham ni, ac na'n cydnebydd Israel: ti, Arglwydd, yw ein Tad ni, ein gwaredydd; dy Enw sydd erioed. Paham, Arglwydd, y gwnaethost i ni gyfeiliorni allan o'th ffyrdd? ac y caledaist ein calonau oddi wrth dy ofn? Dychwel, er mwyn dy weision, llwythau dy etifeddiaeth. Dros ychydig ennyd y meddiannodd dy bobl sanctaidd: ein gwrthwynebwyr a fathrasant dy gyssegr di. Nyni ydym eiddot ti; erioed ni buost yn arglwyddiaethu arnynt hwy, ac ni elwid dy Enw arnynt.

Yr Efengyl. St. Marc xiv. 1.

AC wedi deuddydd yr oedd y pasg, gwyl y bara croyw: a'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a geisiasant pa fodd y dalient ef trwy dwyll, ac y lladdent ef. Eithr dywedasant, Nid ar yr wyl, rhag bod cynnwrf ym mhlith y bobl. A phan oedd efe yn Bethania, yn nhŷ Simon y gwahanglwyfus, ac efe yn eistedd i fwytta, daeth gwraig a chanddi flwch o ennaint o nard gwlyb gwerthfawr; a hi a dorrodd y blwch, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef. Ac yr oedd rhai yn anfoddlon ynddynt eu hunain, ac yn dywedyd, I ba beth y gwnaethpwyd y golled hon o'r ennaint? oblegid fe allasid gwerthu hwn uwch law tri chan ceiniog, a'u

goeth down into the valley, the Spirit of the Lord caused him to rest: so didst thou lead thy people, to make thyself a glorious Name. Look down from heaven, and behold from the habitation of thy holiness, and of thy glory: where is thy zeal, and thy strength, the sounding of thy bowels, and of thy mercies towards me? Are they restrained? Doubtless thou art our Father, though Abraham be ignorant of us, and Israel acknowledge us not: Thou, O Lord, art our Father, our Redeemer, thy Name is from everlasting. O Lord, why hast thou made us to err from thy ways? and hardened our hearts from thy fear? Return for thy servants' sake, the tribes of thine inheritance. The people of thy holiness have possessed it but a little while: our adversaries have trodden down thy sanctuary. We are thine: thou never barest rule over them; they were not called by thy Name.

The Gospel. St. Mark xiv. 1.

AFTER two days was the feast of the Passover, and of unleavened bread: and the chief priests and the scribes sought how they might take him by craft, and put him to death. But they said, Not on the feast-day, lest there be an uproar of the people. And being in Bethany, in the house of Simon the leper, as he sat at meat, there came a woman having an alabaster box of ointment of spikenard, very precious; and she brake the box, and poured it on his head. And there were some that had indignation within themselves, and said, Why was this waste of the ointment made? for it might

Dydd Llun o flaen y Pasg.

rhoddi i'r tlodion: a hwy a ffrom-
masant yn ei herbyn hi. A'r Iesu
a ddywedodd, Gadêwch iddi;
paham y gwnewch flinder iddi?
hi a wnaeth weithred dda arnaf fi.
Canys bob amser y cewch y tlo-
dion gyd â chwi, a phan fynnoch y
gellwch wneuthur da iddynt hwy:
ond myfi ni chewch bob amser.
Hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth;
hi a achubodd y blaen i enneinio
fy nghorph erbyn y claddedig-
aeth. Yn wir meddaf i chwi, Pa
le bynnag y pregether yr efengyl
hon yn yr holl fyd, yr hyn a
wnaeth hon hefyd, a adroddir er
coffa am dani. A Judas Iscariot,
un o'r deuddeg, a aeth ymaith at
yr arch-offeiriaid, i'w fradychu ef
iddynt. A phan glywsant, fe fu
lawen ganddynt, ac a addawsant
roi arian iddo. Yntau a geisiodd
pa fodd y gallai yn gymmwys ei
fradychu ef. A'r dydd cyntaf o
wyl y bara croyw, pan aberthent
y pasg, dywedodd ei ddisgyblion
wrtho, I ba le yr wyt ti yn ewyll-
ysio i ni fyned i barottô i ti, i
fwytta'r pasg? Ac efe a anfon-
odd ddau o'i ddisgyblion, ac a
ddywedodd wrthynt, Ewch i'r
ddinas, a chyferfydd â chwi ddyn
yn dwyn ystenaid o ddwfr: dilyn-
wch ef. A pha le bynnag yr êl i
mewn, dywedwch wrth wr y tŷ,
fod yr Athraw yn dywedyd, Pa le
y mae'r lletty, lle y gallwyf, mi
a'm disgyblion, fwyttar pasg?
Ac efe a ddengys i chwi oruwch-
ystafell fawr wedi ei thaenu yn
barod: yno parottôwch i ni. A'i
ddisgyblion a aethant, ac a
ddaethant i'r ddinas, ac a gawsant
megis y dywedasai efe wrthynt;
ac a barottoisant y pasg. A phan
aeth hi yn hwyr, efe a ddaeth gyd
â'r deuddeg. Ac fel yr oeddynt
yn eistedd, ac yn bwyttar, yr Iesu
a ddywedodd, Yn wir meddaf i
chwi, Un o honoch, yr hwn sydd
yn bwyttar gyd â myfi, a'm brad-

have been sold for more than
three hundred pence, and have
been given to the poor: and
they murmured against her.
And Jesus said, Let her alone;
why trouble ye her? she hath
wrought a good work on me:
for ye have the poor with you
always, and whensoever ye will
ye may do them good; but me
ye have not always. She hath
done what she could; she is
come aforehand to anoint my
body to the burying. Verily
I say unto you, Wheresoever
this Gospel shall be preached
throughout the whole world,
this also that she hath done
shall be spoken of for a memo-
rial of her. And Judas Iscariot,
one of the twelve, went unto
the chief priests to betray him
unto them. And when they
heard it they were glad, and
promised to give him money.
And he sought how he might
conveniently betray him. And
the first day of unleavened
bread, when they killed the
passover, his disciples said unto
him, Where wilt thou that we
go and prepare, that thou may-
est eat the passover? And he
sendeth forth two of his disci-
ples, and saith unto them, Go
ye into the city, and there shall
meet you a man bearing a pitch-
er of water; follow him: And
wheresoever he shall go in, say
ye to the good-man of the house,
The Master saith, Where is the
guest-chamber, where I shall
eat the passover with my dis-
ciples? And he will shew you
a large upper-room furnished,
and prepared: there make rea-
dy for us. And his disciples
went forth, and came into the
city, and found as he had said
unto them: and they made rea-
dy the passover. And in the

Dydd Llun o flaen y Pasg.

ycha i. Hwytbau a ddechreuasant dristâu, a dywedyd wrtho bob yn un ac un, Ai myfi? ac arall, Ai myfi? Ac efe a atebodd ac a ddywedodd wrthynt, Un o'r deuddeg, yr hwn sydd yn gwlychu gyd â mi yn y ddysgl, yw efe. Mab y dyn yn wir sydd yn myned ymaith, fel y mae yn ysgrifenedig am dano: ond gwaer dyn hwnnw trwy'r hwn y bradychir Mab y dyn; da fuasai i'r dyn hwnnw pe na's ganesid. Ac fel yr oeddynt yn bwytta, yr Iesu a gymmerodd fara, ac a'i bendithiodd, ac a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddynt, ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttêwch: hwn yw fy nghorph. Ac wedi iddo gymmeryd y cwpan, a rhoi diolch, efe a'i rhoddes iddynt: a hwynt oll a yfasant o hono. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Hwn yw fy ngwaed i o'r testament newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer. Yn wir yr wyf yn dywedyd wrthy, nad yfâf mwy o ffrwyth y winwÿdden, hyd y dydd hwnnw pan yfwyf ef yn newydd yn nheyrnas Dduw. Ac wedi iddynt ganu mawl, hwy a aethant allan i fynydd yr Olewÿdd. A dywedodd yr Iesu wrthynt, Chwi a rwystrir oll o'm plegid i y nos hon: canys ysgrifenedig yw, Tarawaf y bugail, a'r defaid a wasgerir. Eithr wedi i mi adgyfodi, mi a âf o'ch blaen chwi i Galilea. Ond Petr a ddywedodd wrtho, Pe byddai bawb wedi eu rhwystro, etto ni byddaf fi. A dywedodd yr Iesu wrtho, Yn wir yr ydwyf yn dywedyd i ti, Heddyw, o fewn y nos hon, cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, y gwêdi fi deir-gwaith. Ond efe a ddywedodd yn helaethach o lawer, Pe gorfyddai i mi farw gyd â thi, ni'th wadaf ddim. A'r un modd y dywedasant oll. A hwy a ddaethant i le yr oedd ei enw Geth-

evening he cometh with the twelve. And as they sat, and did eat, Jesus said, Verily I say unto you, One of you which eateth with me shall betray me. And they began to be sorrowful, and to say unto him one by one, Is it I? and another said, Is it I? And he answered and said unto them, It is one of the twelve that dippeth with me in the dish. The Son of Man indeed goeth, as it is written of him: but wo to that man by whom the Son of Man is betrayed: good were it for that man if he had never been born. And as they did eat, Jesus took bread, and blessed, and brake it, and gave to them, and said, Take, eat: this is my body. And he took the cup, and when he had given thanks he gave it to them: and they all drank of it. And he said unto them, This is my blood of the new testament, which is shed for many. Verily I say unto you, I will drink no more of the fruit of the vine, until that day that I drink it new in the Kingdom of God. And when they had sung an hymn they went out into the mount of Olives. And Jesus saith unto them, All ye shall be offended because of me this night: for it is written, I will smite the shepherd, and the sheep shall be scattered. But, after that I am risen, I will go before you into Galilee. But Peter said unto him, Although all shall be offended, yet will not I. And Jesus saith unto him, Verily I say unto thee, That this day, even in this night, before the cock crow twice, thou shalt deny me thrice. But he spake the more vehemently, If I should die

Dydd Llun o flaen y Pasg.

semane. Ac efe a ddywedodd wrth ei ddisgybillion, Eisteddwrch yma, tra fyddwyf yn gweddïo. Ac efe a gymmerth gyd âg ef Petr, ac Iago, ac Ioan, ac a ddechreuodd ymofidio a thristâu yn ddirfawr; ac efe a ddywedodd wrthynt, Y mae fy enaid yn athrist hyd angau: arhoswch yma, a gwyliwch. Ac efe a aeth ychydig ym mlaen, ac a syrthiodd ar y ddaear, ac a weddiodd, o bai bosibl, ar fyned yr awr honno oddi wrtho. Ac efe a ddywedodd, Abba, Dad, pob peth sy bosibl i ti, tro heibio y cwppan hwn oddi wrthyf: eithr nid y peth yr ydwyf fi yn ei ewyllsio, ond y peth yr ydwyf ti. Ac efe a ddaeth, ac a'u cafodd hwy yn cysgu; ac a ddywedodd wrth Petr, Simon, ai cysgu yr wyt ti? oni allit wylïo un awr? Gwyliwch a gweddïwch, rhag eich myned i brofedigaeth: yr yspryd yn ddiâu sy barod, ond y cnawd sydd wan. Ac wedi iddo fyned ymaith drachefn, efe a weddiodd, gan ddywedyd yr un ymadrodd. Ac wedi iddo ddychwelyd, efe a'u cafodd hwynt drachefn yn cysgu, (cans yr oedd eu llygaid hwynt wedi trymhâu) ac ni wyddent beth a atebent iddo. Ac efe a ddaeth y drydedd waith, ac a ddywedodd wrthynt, Cysgwch weithian, a gorphwyswch: digon yw, daeth yr awr; wele, yr ydys yn bradychu Mab y dyn i ddwy-law pechaduriaid. Cyfodwch, awn; wele, y mae yr hwn sydd yn fy mradychu yn agos. Ac yn y man, ac efe etto yn llefaru, daeth Judas, un o'r deuddeg, a chyd ag ef dyrfa fawr â chleddyfau a ffyn, oddi wrth yr arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'r henuriaid. A'r hwn a'i bradychodd ef a roddasai arwydd iddynt, gan ddywedyd, Pwy bynuag a gusanwyf, hwnnw yw; deliwch ef, a dyg-

with thee, I will not deny thee in any wise. Likewise also said they all. And they came to a place which was named Gethsemene: and he saith to his disciples, Sit ye here, while I shall pray. And he taketh with him Peter, and James, and John, and began to be sore amazed, and to be very heavy, and saith unto them, My soul is exceeding sorrowful unto death; tarry ye here, and watch. And he went forward a little, and fell on the ground, and prayed, that, if it were possible, the hour might pass from him. And he said, Abba, Father, all things are possible unto thee; take away this cup from me; nevertheless, not what I will, but what thou wilt. And he cometh and findeth them sleeping, and saith unto Peter, Simon, sleepest thou? couldest not thou watch one hour? Watch ye and pray, lest ye enter into temptation: the spirit truly is ready, but the flesh is weak. And again he went away, and prayed, and spake the same words. And when he returned he found them asleep again, (for their eyes were heavy,) neither wist they what to answer him. And he cometh the third time, and saith unto them, Sleep on now, and take your rest: it is enough, the hour is come; behold, the Son of Man is betrayed into the hands of sinners. Rise up, let us go; lo, he that betrayeth me is at hand, And immediately, while he yet spake, cometh Judas, one of the twelve, and with him a great multitude with swords and staves, from the chief priests, and the scribes, and the elders. And he that betrayed him had given them a token, saying, Whomso-

Dydd Llun o flaen y Pasg.

wch ymaith yn sicr. A phan ddaeth, yn ebrwydd efe a aeth atto, ac a ddywedodd, Rabbi, Rabbi; ac a'i cusanodd ef. A hwythau a roisant eu dwylaw arno, ac a'i daliasant ef. A rhyw un o'r rhai oedd yn sefyll ger llaw, a dynnodd ei gleddyf, ac a darawodd was yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ymaith ei glust ef. A'r Iesu a atebodd ac a ddywedodd wrthynt, Ai megis at leidr y daethoch allan, â chleddyfau ac â ffyn, i'm dala i? Yr oeddwn i beunydd gyd â chwi yn athrawiaethu yn y deml, ac ni'm daliasoch: ond rhaid yw cyflawni'r ysgrythyrau. A hwynt oll a'i gadawsant ef, ac a ffoisant. A rhyw wr ieuangc oedd yn ei ddilyn ef, wedi ymwisgo â lliain main ar ei gorph noeth; a'r gwŷr ieuangc a'i daliasant ef: a hwn a adawodd y lliain, ac a ffodd oddi wrthynt yn noeth. A hwy a ddygasant yr Iesu at yr arch-offeiriad: a'r holl arch-offeiriad, a'r henuriaid, a'r ysgrifenyddion, a ymgasglasant gyd âg ef. A Phetr a'i canlynodd ef o hirbell, hyd yn llys yr arch-offeiriad: ac yr oedd efe yn eistedd gyd â'r gwasanaethwŷr, ac yn ymdwymno wrth y tân. A'r arch-offeiriad, a'r holl gynghor, a geisiasant dystiolaeth yn erbyn yr Iesu, i'w roi ef i farwolaeth; ac ni chawsant. Canys llawer a ddygasant gau dystiolaeth yn ei erbyn ef, eithr nid oedd eu tystiolaethau hwy yn gysson. A rhai a gyfodasant, ac a ddygasant gam-dystiolaeth yn ei erbyn ef, gan ddywedyd, Ni a'i clywsom ef yn dywedyd, Mi a ddinystriaf y deml hon o waith dwylaw, ac mewn tridiau yr adeiladaf arall heb fod o waith llaw. Ac etto nid oedd eu tystiolaeth hwy felly yn gysson. A chyfododd yr arch-offeiriad yn y canol, ac a ofynnodd i'r Iesu gan

ever I shall kiss, that same is he; take him, and lead him away safely. And as soon as he was come he goeth straightway to him, and saith, Master, master; and kissed him. And they laid their hands on him, and took him. And one of them that stood by drew a sword, and smote a servant of the high priest, and cut off his ear. And Jesus answered, and said unto them, Are ye come out as against a thief, with swords and with staves, to take me? I was daily with you in the temple teaching, and ye took me not: but the Scriptures must be fulfilled. And they all forsook him, and fled. And there followed him a certain young man, having a linen cloth cast about his naked body; and the young men laid hold on him: and he left the linen cloth, and fled from them naked. And they led Jesus away to the high priest: and with him were assembled all the chief priests, and the elders, and the scribes. And Peter followed him afar off, even into the palace of the high priest; and he sat with the servants, and warmed himself at the fire. And the chief priests and all the council sought for witness against Jesus to put him to death; and found none. For many bare false witness against him, but their witness agreed not together. And there arose certain, and bare false witness against him, saying, We heard him say, I will destroy this temple that is made with hands, and within three days I will build another made without hands. But neither so did their witness agree together. And the high priest stood up in the midst, and asked Jesus, saying, Answerest

ddywedyd, Oni attebi di ddim? beth y mae y rhai hyn yn ei dystiolaethu yn dy erbyn? Ac efe a dawodd, ac nid atebodd ddim. Drachefn yr arch-offeiriad a ofynodd iddo, ac a ddywedodd wrtho, Ai tydi yw Crist, Mab y Bendigedig? A'r Iesu a ddywedodd, Myfi yw: a chwi a gewch weled Mab y dyn yn eistedd ar ddeheuulaw y gallu, ac yn dyfod ynghymmylau y nef. Yna'r arch-offeiriad, gan rwygo ei ddillad, a ddywedodd, Pa raid i ni mwy wrth dystion? chwi a glywsoch y gablodd: beth dybygwch chwi? A hwynt oll a'i condenniasant ef, ei fod yn euog o farwolaeth. A dechreuodd rhai boeri arno, a chuddio ei wyneb, a'i gernodio, a dywedyd wrtho, Prophwyda. A'r gweinidogion a'i tarawsant ef â chledrau eu dwylaw. Ac fel yr oedd Petr yn y llys i waered, daeth un o forwynion yr arch-offeiriad; a phan ganfu hi Petr yn ymdwymno, hi a edrychodd arno, ac a ddywedodd, Tithau hefydoedd it gyd â'r Iesu o Nazareth. Ac efe a wadodd, gan ddywedyd, Nid adwaen i, ac ni wn i beth yr wyt yn ei ddywedyd. Ac efe a aeth allan i'r porth; a'r ceiliog a ganodd. A phan welodd y llangces ef drachefn, hi a ddechreuodd ddywedyd wrth y rhai oedd yn sefyll yno, Y mae hwn yn un o honynt. Ac efe a wadodd drachefn. Ac ychydig wedi, y rhai oedd yn sefyll ger llaw a ddywedasant wrth Petr drachefn, Yn wir yr wyt ti yn un o honynt: canys Galilead wyt, a'th leferydd sy debyg. Ond efe a ddechreuodd regu a thyngu, Nid adwaen i y dyn yma yr ydych chwi yn dywedyd am dano. A'r ceiliog a ganodd yr ail waith. A Phetr a gofiodd y gair a ddywedasant i'r Iesu wrtho, Cyn canu o'r ceiliog ddwywaith, ti am

thou nothing? what is it which these witness against thee? But he held his peace, and answered nothing. Again the high priest asked him, and said unto him, Art thou the Christ, the Son of the Blessed? And Jesus said, I am; and ye shall see the Son of Man sitting on the right hand of power, and coming in the clouds of heaven. Then the high priest rent his clothes, and saith, What need we any further witnesses? ye have heard the blasphemy: what think ye? And they all condemned him to be guilty of death. And some began to spit on him, and to cover his face, and to buffet him, and to say unto him, Prophecy: and the servants did strike him with the palms of their hands. And as Peter was beneath in the palace there cometh one of the maids of the high priest; and when she saw Peter warming himself she looked upon him, and said, And thou also wast with Jesus of Nazareth. But he denied, saying, I know not, neither understand I what thou sayest. And he went out into the porch; and the cock crew. And a maid saw him again, and began to say to them that stood by, This is one of them. And he denied it again. And a little after, they that stood by said again to Peter, Surely thou art one of them; for thou art a Galilean, and thy speech agreeth thereto. But he began to curse and to swear, saying, I know not this man of whom ye speak. And the second time the cock crew. And Peter called to mind the word that Jesus said unto him, Before the cock crow twice, thou shalt deny me thrice.

Dydd Mawrth o flaen y Pasg.

gwëdi deirgwaith. A chan ys-
tyried hynny, efe a wylodd.

Dydd Mawrth o flaen y Pasg.

Yn lle yr Epistol. Esay 1. 5.

YR Arglwydd Dduw a agor-
odd fy nghlust, a minnau
ni wrthwynebai, ac ni chiliais
yn fy ol. Fy nghorph a roddais
i'r curwâr, a'm cernau i'r rhai
a dynnai'r blew: ni chuddiais
fy wyneb oddi wrth waradwydd
a phoeredd. O herwydd yr
Arglwydd Dduw a'm cymmorth,
am hynny ni'm cywilyddir;
am hynny gosodais fy wyneb
fel callestr, a gwn na'm cy-
wilyddir. Agos yw'r hwn a'm
cyfiawnhâ: pwy a ymryson â
mi? safwn ynghyd; pwy yw
fy ngwrthwynebwr? nesâed at-
taf. Wele'r Arglwydd Dduw
a'm cynnorthwya; pwy yw'r
hwn a'm bwrw yn euog? Wele,
hwynt oll a heneiddiant fel
dilledyn; y gwyfyn a'u hysa
hwynt. Pwy yn eich mysg
sydd yn ofni'r Arglwydd, yn
gwrando ar lais ei was ef, yn
rhodio mewn tywyllwch, ac heb
lewyrch iddo? gobeithied yn
Enw'r Arglwydd, ac ymddiried-
ed yn ei Dduw. Wele, chwi oll
y rhai ydych yn cynneu tân, ac
yn eich amgylchu eich hunain
â gwreichion; rhodiwech wrth
lewyrch eich tân, ac wrth y
gwreichion a gynneuasoch. O'm
llaw i y bydd hyn i chwi; mewn
gofid y gorweddwech.

Yr Efengyl. St. Marc xv. 1.

AC yn y fan y bore, yr ymgyn-
ghorodd yr arch-offeiriaid gyd
â'r henuriaid, a'r ysgrifenyddion,
a'r holl gynghor; ac wedi iddynt
rwymo'r Iesu, hwy a'i dygasant
ef ymaith, ac a'i traddodasant at
Pilat. A gofynodd Pilat iddo, Ai
ti yw Brenhin yr Iuddewon?
Yntau a atebodd ac a ddywedodd

And when he thought thereon,
he wept.

Tuesday before Easter.

For the Epistle. Isai. 1. 5.

THE Lord God hath opened
mine ear, and I was not
rebellious, neither turned away
back. I gave my back to the
smiters, and my cheeks to them
that plucked off the hair: I hid
not my face from shame and
spitting. For the Lord God will
help me, therefore shall I not
be confounded: therefore have
I set my face like a flint, and
I know that I shall not be
ashamed. He is near that just-
ifieth me; who will contend
with me? Let us stand toge-
ther; who is mine adversary?
let him come near to me. Be-
hold, the Lord God will help
me; who is he that shall con-
demn me? Lo, they all shall
wax old as a garment: the
moth shall eat them up. Who
is among you that feareth the
Lord, that obeyeth the voice of
his servant, that walketh in dark-
ness, and hath no light? let him
trust in the Name of the Lord,
and stay upon his God. Be-
hold, all ye that kindle a fire,
that compass yourselves about
with sparks; walk in the light
of your fire, and in the sparks
that ye have kindled. This shall
ye have of mine hand, ye shall
lie down in sorrow.

The Gospel. St. Mark xv. 1.

AND straightway in the
morning the chief priests
held a consultation with the eld-
ers, and scribes, and the whole
council, and bound Jesus, and
carried him away, and delivered
him to Pilate. And Pilate asked
him, Art thou the King of the
Jews? And he answering said

wrtho, Yr wyt ti yn dywedyd. A'r arch-offeiriaid a'i cyhuddasant ef o lawer o bethau; eithr nid attebodd efe ddim. A Philat drachefn a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Onid attebi di ddim? wele faint o bethau y maent yn eu tystiolaethu yn dy erbyn. Ond yr Iesu etto nid attebodd ddim; fel y rhyfeddodd Pilat. Ac ar yr wyl honno y gollyngai efe yn rhŷdd iddynt un carcharor, yr hwn a ofyent iddo. Ac yr oedd un a elwid Barabbas, yr hwn oedd yn rhwym gyd â'i gyd-derfysgwŷr, yrhai yn y derfysg a wnaethent lofruddiaeth. A'r dyrfa, gan groch-lefain, a ddechreuodd ddeisyf arno wneuthur fel y gwnaethai bob amser iddynt. A Philat a attebodd iddynt, gan ddywedyd, A fynnwch chwi i mi ollwng yn rhŷdd i chwi Frenhin yr Iuddewon? (canys efe a wyddai mai o gynfigen y traddodasai yr arch-offeiriaid ef.) A'r arch-offeiriaid a gynhyrfasant y bobl, fel y gollyngai efe yn hytrach Barabbas yn rhŷdd iddynt. A Philat a attebodd, ac a ddywedodd drachefn wrthynt, Beth gan hynny a fynnwch i mi ei wneuthur i'r hwn yr ydych yn ei alw Brenhin yr Iuddewon? A hwythau a leasant drachefn, Croeshoelia ef. Yna Pilat a ddywedodd wrthynt, Ond pa ddrwg a wnaeth efe? A hwythau a leasant fwyfwy, Croeshoelia ef. A Philat, yn chwennych boddloni'r bobl, a ollwngodd yn rhŷdd iddynt Barabbas; a'r Iesu, wedi iddo ei fflangellu, a draddododd efe i'w groeshoelio. A'r milwŷr a'i dygasant ef i fewn y llys a elwir Pretorium: a hwy a alwasant ynghŷd yr holl fyddin. Ac a'i gwisgasant ef â phorphor, ac a blethasant goron o ddrain, ac a'i dodasant am ei ben; ac a ddechreusant gyfarch iddo, Hanffych well, Brenhin yr

unto him, Thou sayest it. And the chief priests accused him of many things: but he answered nothing. And Pilate asked him again, saying, Answerest thou nothing? behold how many things they witness against thee. But Jesus yet answered nothing: so that Pilate marvelled. Now at that feast he released unto them one prisoner, whomsoever they desired. And there was one named Barabbas, which lay bound with them that had made insurrection with him, who had committed murder in the insurrection. And the multitude, crying aloud, began to desire him to do as he had ever done unto them. But Pilate answered them, saying, Will ye that I release unto you the King of the Jews? For he knew that the chief priests had delivered him for envy. But the chief priests moved the people, that he should rather release Barabbas unto them. And Pilate answered, and said again unto them, What will ye then that I shall do unto him whom ye call the King of the Jews? And they cried out again, Crucify him. Then Pilate said unto them, Why, what evil hath he done? And they cried out the more exceedingly, Crucify him. And so Pilate, willing to content the people, released Barabbas unto them, and delivered Jesus, when he had scourged him, to be crucified. And the soldiers led him away into the hall, called Prætorium; and they call together the whole band. And they clothed him with purple, and platted a crown of thorns, and put it about his head: and began to salute him, Hail, King of the Jews. And they smote him on the head with a reed,

Iuddewon. A hwy a gurasant ei ben ef â chorsen, ac a boerasant arno; a chan ddodi eu gliniau i lawr, a'i haddolasant ef. Ac wedi iddynt ei watwar ef, hwy a ddiosgasant y porphor oddi am dano, ac a'i gwisgasant ef â'i ddillad ei hun, ac a'i dygasant allan i'w groeshoelio. A hwy a gymmellasant un Simon o Cyrene, yr hwn oedd yn myned heibio, wrth ddyfod o'r wlad, sef tad Alexander a Rufus, i ddwyn ei groes ef. A hwy a'i harweiniasant ef i le a elwid Golgotha; yr hyn o'i gyfieithu, yw, Lle'r benglog. Ac a roisant iddo i'w yfed win myrlllyd: eithr efe ni's cymmerth. Ac wedi iddynt ei groeshoelio, hwy a rannasant ei ddillad ef, gan fwrw coelbren arnynt, beth a gai bob un. A'r drydedd awr oedd hi, a hwy a'i croeshoeliasant ef. Ac yr oedd ysgrifen ei achos ef wedi ei hargraphu, **BRENHIN YR IUDDAWON.** A hwy a groeshoeliasant gyd âg ef ddau leidr; un ar y llaw ddeheu, ac un ar yr aswy iddo. A'r ysgrythyr a gyflawnwyd, yr hon a ddywed, Ac efe a gyfrifwyd gyd â'r rhai anwir. A'r rhai oedd yn myned heibio a'i cablasant ef, gan ysgwyd eu pennau, a dywedyd, Och, tydi yr hwn wyt yn dinystrio'r deml, ac yn ei hadeiladu mewn tridiau, gwared dy hun, a disgyn oddi ar y groes. Yr un ffunud yr arch-offeiriaid hefyd yn gwatwar, a ddywedasant wrth eu gilydd, gyd â'r ysgrifenyddion, Eraill a waredodd, ei hun ni's gall ei wared. Disgyned Crist, Brenhin yr Israel, yr awr hon oddi ar y groes, fel y gwelom, ac y credom. A'r rhai a groeshoeliasid gyd âg ef, a'i difenwasant ef. A phan ddaeth y chweched awr, y bu tywyllwch ar yr holl ddaear, hyd y nawfed awr. Ac ar y nawfed awr y dolefodd yr

and did spit upon him, and bowing their knees worshipped him. And when they had mocked him they took off the purple from him, and put his own clothes on him, and led him out to crucify him. And they compel one Simon a Cyrenian, who passed by, coming out of the country, the father of Alexander and Rufus, to bear his cross. And they bring him unto the place Golgotha, which is, being interpreted, The place of a scull. And they gave him to drink wine mingled with myrrh; but he received it not. And when they had crucified him they parted his garments, casting lots upon them, what every man should take. And it was the third hour, and they crucified him. And the superscription of his accusation was written over, **THE KING OF THE JEWS.** And with him they crucify two thieves, the one on his right hand, and the other on his left. And the scripture was fulfilled, which saith, And he was numbered with the transgressors. And they that passed by railed on him, wagging their heads, and saying, Ah, thou that destroyest the temple, and buildest it in three days, save thyself, and come down from the cross. Likewise also the chief priests mocking said among themselves, with the scribes, He saved others; himself he cannot save. Let Christ the King of Israel descend now from the cross, that we may see and believe. And they that were crucified with him reviled him. And when the sixth hour was come, there was darkness over the whole land until the ninth hour. And at the ninth hour Jesus cried with a loud

Dydd Merchur o flaen y Pasg.

Iesu â llef uchel, gan ddywedyd, *Eloi, Eloi, lama sabachthani?* yr hyn o'i gyfieithu yw, *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?* A rhai o'r rhai a safent ger llaw, pan glywsant, a ddywedasant, *Wele, y mae efe yn galw ar Eliás.* Ac un a redodd, ac a lanwodd yspwng yn llawn o finegr, ac a'i dododd ar gorsen, ac a'i diododd ef, gan ddywedyd, *Peidiwch; edrychw'n a ddaw Eliás i'w dynnu ef i lawr.* A'r Iesu a lefodd â llef uchel, ac a ymadawodd â'r yspryd. A llen y deml a rwygwyd yn ddwy, oddi fynu hyd i waered. A phan welodd y canwriad, yr hwn oedd yn sefyll ger llaw gyferbyn âg ef, ddarfod iddo, yn llefain felly, ymado â'r yspryd, efe a ddywedodd, *Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn.*

voice, saying, *Eloi, Eloi, lama sabachthani?* which is, being interpreted, *My God, my God, why hast thou forsaken me?* And some of them that stood by, when they heard it, said, *Behold, he calleth Elias.* And one ran and filled a sponge full of vinegar, and put it on a reed, and gave him to drink, saying, *Let alone; let us see whether Elias will come to take him down.* And Jesus cried with a loud voice, and gave up the ghost. And the vail of the temple was rent in twain from the top to the bottom. And when the centurion, which stood over against him, saw that he so cried out, and gave up the ghost, he said, *Truly this man was the Son of God.*

Dydd Merchur o flaen y Pasg.

Yr Epistol. Heb. ix. 16.

LLE byddo testament, rhaid yw digwyddo marwolaeth y testamentwr. Canys wedi marw dynion y mae testament mewn grym: oblegid nid oes etto nerth ynddo, tra fyddo y testamentwr yn fyw. O ba achos ni chyssegrwyd y cyntaf heb waed. Canys wedi i Moses adrodd yr holl orchymyn, yn ol y gyfraith, wrth yr holl bobl, efe a gymmerodd waed lloi a geifr, gyd â dwfr, a gwlan porphor, ac isop, ac a'i taenellodd ar y llyfr, a'r bobl oll; gan ddywedyd, *Hwn yw gwaed y testament a orchymynodd Duw i chwi.* Y tabernacl hefyd, a holl lestri y gwasanaeth, a daenellodd efe â gwaed, yr un modd. A chan mwyaf trwy waed y purir pob peth wrth y gyfraith; ac heb ollwng gwaed nid oes maddeuant. Rhaid oedd gan hynny i bortreiaidau y pethau

Wednesday before Easter.

The Epistle. Heb. ix. 16.

WHERE a testament is, there must also of necessity be the death of the testator: for a testament is of force after men are dead; otherwise it is of no strength at all whilst the testator liveth. Whereupon, neither the first testament was dedicated without blood: for when Moses had spoken every precept to all the people, according to the law, he took the blood of calves and of goats, with water, and scarlet wool, and hyssop, and sprinkled both the book, and all the people, saying, *This is the blood of the testament, which God hath enjoined unto you.* Moreover, he sprinkled with blood both the tabernacle, and all the vessels of the ministry. And almost all things are by the law purged with blood; and without shedding of blood is no remission. It was therefore

sydd yn y nefoedd gael eu puro â'r pethau hyn; a'r pethau nefol eu hunain âg aberthau gwell nâ'r rhai hyn. Canys nid i'r cyssegr o waith llaw, portreiad y gwir gyssegr, yr aeth Crist i mewn, ond i'r nef ei hun, i ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni; nac fel yr offrymmai efe ei hun yn fynych, megis y mae yr arch-offeiriad yn myned i mewn i'r cyssegr bob blwyddyn, â gwaed arall: oblegid yna rhaid fuasai iddo yn fynych ddioddef er dechreuad y byd; eithr yr awrhon unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd efe, i ddilëu pechod, trwy ei aberthu ei hun. Ac megis y gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hynny bod barn: felly Crist hefyd, wedi ei offrymmu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer, a ymddengys yr ail waith heb bechod, i'r rhai sydd yn ei ddisgwyl er iachawdwriaeth.

Yr Efengyl. St. Luc xxii. 1.

A Nesaodd gwyl y bara croyw, yr hon a elwir y Pasg. A'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a geisiasant pa fodd y difethent ef: oblegid yr oedd arnynt ofn y bobl. A Satan a aeth i mewn i Judas, yr hwn a gyfenwid Iscariot, yr hwn oedd o rifedi'r deuddeg. Ac efe a aeth ymaith, ac a ymddiddanodd â'r arch-offeiriaid, a'r blaenoriaid, pa fodd y bradychai efe ef iddynt. Ac yr oedd yn llawen ganddynt; a hwy a gyttunasant ar roddi arian iddo. Ac efe a addawodd, ac a geisiodd amser cyfaddas i'w fradychu ef iddynt, yn absen y bobl. A daeth dydd y bara croyw, ar yr hwn yr oedd rhaid lladd y pasg. Ac efe a anfonodd Petr ac Ioan, gan ddywedyd, Ewch, parottô-wch i ni'r pasg, fel y bwytaom.

necessary that the patterns of things in the heavens should be purified with these; but the heavenly things themselves with better sacrifices than these. For Christ is not entered into the holy places made with hands, which are the figures of the true, but into heaven itself, now to appear in the presence of God for us; nor yet that he should offer himself often, as the high priest entereth into the holy place every year with blood of others: for then must he often have suffered since the foundation of the world; but now once in the end of the world hath he appeared to put away sin by the sacrifice of himself. And as it is appointed unto men once to die, but after this the judgement: so Christ was once offered to bear the sins of many; and unto them that look for him shall he appear the second time without sin unto salvation.

The Gospel. St. Luke xxii. 1.

NOW the feast of unleavened bread drew nigh, which is called the Passover. And the chief priests and scribes sought how they might kill him; for they feared the people. Then entered Satan into Judas surnamed Iscariot, being of the number of the twelve. And he went his way, and communed with the chief priests and captains, how he might betray him unto them. And they were glad, and covenanted to give him money. And he promised, and sought opportunity to betray him unto them in the absence of the multitude. Then came the day of unleavened bread, when the passover must be killed. And he sent Peter and John, saying, Go and pre-

A hwy a ddywedasant wrtho, pa le y mynni barottôï o honom? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Wele, pan ddeloch i mewn i'r ddinas, cyferfydd â chwi ddyn yn dwyn ystenaïd o ddwfr; canlynwch ef i'r tŷ lle yr êl efe i mewn. A dywedwch wrth wr y tŷ, Y mae'r Athraw yn dywedyd wrthynt, Pa le y mae'r lletty, lle y gallwyf fwytta'r pasg gyd â'm disgyblion? Ac efe a ddengys i chwi oruwchystafell fawr, wedi ei thaenu; yno parottôwch. A hwy a aethant, ac a gawsant fel y dywedasai efe wrthynt; ac a barottoisant y pasg. A phan ddaeth yr awr, efe a eisteddodd i lawr, a'r deuddeg apostol gyd âgef. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Mi a chwennychais yn fawr fwytta'r pasg hwn gyd â chwi, cyn dioddef o honof. Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, Ni fwyttâf fi mwyach o hono, hyd oni chyflawner yn nheyrnas Dduw. Ac wedi iddo gymmeryd y cwppan, a rhoddi diolch, efe a ddywedodd, Cymmerwch hwn, a rhennwch yn eich plith. Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad yfaf o ffrwyth y winwŷdden, hyd oni ddél teyrnas Dduw. Ac wedi iddo gymmeryd bara, a rhoi diolch, efe a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd, Hwn yw fy nghorph, yr hwn yr ydys yn ei roddi dros-och: gwnewch hyn er coffa am danaf. Yr un modd y cwppan hefyd wedi swpperu, gan ddywedyd, Y cwppan hwn yw'r testament newydd yn fy ngwaed i, yr hwn yr ydys yn ei dywallt dros-och. Eithr wele law'r hwn sydd yn fy mradychu, gyd â mi ar y bwrdd. Ac yn wir, y mae Mab y dyn yn myned, megis y mae wedi ei luniaethu: eithr gwae'r dyn hwnnw trwy'r hwn y bradychir ef. Hwytthau a ddechreusant ymo-fyn yn eu plith eu hunain, pwy o

pare us the passover, that we may eat. And they said unto him, Where wilt thou that we prepare? And he said unto them, Behold, when ye are entered into the city, there shall a man meet you, bearing a pitcher of water; follow him into the house where he entereth in. And ye shall say unto the good-man of the house, The Master saith unto thee, Where is the guest-chamber, where I shall eat the passover with my disciples? And he shall shew you a large upper room furnished; there make ready. And they went, and found as he had said unto them: and they made ready the passover. And when the hour was come he sat down, and the twelve Apostles with him. And he said unto them, With desire I have desired to eat this passover with you before I suffer: for I say unto you, I will not any more eat thereof, until it be fulfilled in the Kingdom of God. And he took the cup, and gave thanks, and said, Take this, and divide it among yourselves. For I say unto you, I will not drink of the fruit of the vine, until the Kingdom of God shall come. And he took bread, and gave thanks, and brake it, and gave unto them, saying, This is my body, which is given for you: this do in remembrance of me. Likewise also the cup after supper, saying, This cup is the new testament in my blood, which is shed for you. But behold, the hand of him that betrayeth me is with me on the table. And truly the Son of Man goeth as it was determined; but wo unto that man by whom he is betrayed. And

honynt oedd yr hwn a wnai hynny. A bu ymryson yn eu plith, pwy o honynt a dybygid ei fod yn fwyaf. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Y mae brenhinoedd y Cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt: a'r rhai sy mewn awdurdod arnynt, a elwir yn benedigion. Ond na fyddwch chwi felly; eithr y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megis yr ieuangaf; a'r pennaf, megis yr hwn sydd yn gweini. Canys pa un fwyaf, ai'r hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd, ai'r hwn sydd yn gwasanaethu? onid yr hwn sydd yn eistedd ar y bwrdd? eithr yr ydwyf fi yn eich mysg fel un yn gwasanaethu. A chwyhwi yw y rhai a arhosasoch gyd â mi yn fy mhrofedigaethau. Ac yr wyf fi yn ordeinio i chwi deyrnas, megis yr ordeiniodd fy Nhad i minnau; fel y bwytaoch ac yr yf-och ar fy mwrdd i yn fy nheyrnas, ac yr eisteddoch ar orseddfeydd, yn barnu deuddeg llwyth Israel. A'r Arglwydd a ddywedodd, Simon, Simon, wele, Satan a'ch ceisiodd chwi, i'ch nithio fel gwenith; eithr mi a weddiâis drosot, na ddiffygiâi dy ffydd di: tithau pan y'th droër, cadarnhâ dy frodyr. Ac efe a ddywedodd wrtho, Arglwydd, yr ydwyf fi yn barod i fyned gyd â thi i garchar ac i angau. Yntau a ddywedodd, Yr wyf yn dywedyd i ti, Petr, Na chân y ceiliog heddyw, nes i ti wadu dair gwaith yr adweini fi. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pan y'ch anfonais heb na phwrs, na chod, nac esgidiau, a fu arnoch eisiau dim? A hwy a ddywedasant, Na ddo ddim. Yna y dywedodd wrthynt, Ond yn awr y neb sy ganddo bwrs, cymmered; a'r un modd god: a'r neb nid oes ganddo, gwerthed ei bais, a phryned gleddyf. Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, fod yn

they began to enquire among themselves, which of them it was that should do this thing. And there was also a strife among them, which of them should be accounted the greatest. And he said unto them, The kings of the Gentiles exercise lordship over them, and they that exercise authority upon them are called benefactors. But ye shall not be so: but he that is greatest among you, let him be as the younger; and he that is chief, as he that doth serve. For whether is greater, he that sitteth at meat, or he that serveth? is not he that sitteth at meat? but I am among you as he that serveth. Ye are they which have continued with me in my temptations. And I appoint unto you a kingdom, as my Father hath appointed unto me; that ye may eat and drink at my table in my kingdom, and sit on thrones, judging the twelve tribes of Israel. And the Lord said, Simon, Simon, behold, Satan hath desired to have you, that he may sift you as wheat: but I have prayed for thee, that thy faith fail not; and when thou art converted, strengthen thy brethren. And he said unto him, Lord, I am ready to go with thee both into prison and to death. And he said, I tell thee, Peter, the cock shall not crow this day, before that thou shalt thrice deny that thou knowest me. And he said unto them, When I sent you without purse, and scrip, and shoes, lacked ye any thing? And they said, Nothing. Then said he unto them, But now, he that hath a purse, let him take it, and likewise his scrip: and he that hath no sword,

rhaid etto gyflawni ynof fi y peth hwn a ysgrifenyd, sef, A chyd â'r anwir y cyfrifwyd ef. Canys y mae diben i'r pethau am danaf fi. Ahwy a ddywedasant, Arglwydd, wele ddau gleddyf yma. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Digon yw. Ac wedi iddo fyned allan, efe a aeth, yn ol ei arfer, i fynydd yr Olewýdd; a'i ddisgyblion hefyd a'i canlynasant ef. A phan ddaeth efe i'r fan, efe a ddywedodd wrthynt, Gweddïwch nad eloch mewn profedigaeth. Ac efe a dynnodd oddi wrthynt tu ag ergyd carreg; ac wedi iddo fyned ar ei liniau, efe a weddiodd, gan ddywedyd, O Dad, os ewyllysi droi heibio y cwppan hwn oddi wrthyf: er hynny nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler. Ac angel o'r nef a ymddangosodd iddo, yn ei nerthu ef. Ac efe mewn ymdrech meddwl, a weddiodd yn ddyfalach; a'i chwys ef oedd fel defnynnau gwaed, yn disgyn ar y ddaear. A phan gododd efe o'i weddi, a dyfod at ei ddisgyblion, efe a'u cafodd hwynt yn cysgu gan dristwch; ac a ddywedodd wrthynt, Paham yr ydych yn cysgu? codwch, a gweddïwch nad eloch mewn profedigaeth. Ac efe etto yn llefaru, wele dyrfa; a'r hwn a elwir Judas, un o'r deuddeg, oedd yn myned o'u blaen hwynt, ac a nes-aodd at yr Iesu, i'w gusanu ef. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Judas, ai â chusan yr wyt ti yn bradychu Mab y dyn? A phan welodd y rhai oedd yn ei gylch ef y peth oedd ar ddyfod, hwy a ddywedasant wrtho, Arglwydd, a darawn ni â chleddyf? A rhyw un o honynt a darawodd was yr arch-offeiriad, ac a dorrodd ym-aith ei glust ddehau ef. A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd, Goddefwch hyd yn hyn. Ac efe a gyffyrddodd â'i glust, ac a'i

let him sell his garment, and buy one. For I say unto you, That this that is written must yet be accomplished in me, And he was reckoned among the transgressors: for the things concerning me have an end. And they said, Lord, behold, here are two swords. And he said unto them, It is enough. And he came out, and went, as he was wont, to the mount of Olives, and his disciples also followed him. And when he was at the place, he said unto them, Pray, that ye enter not into temptation. And he was withdrawn from them about a stone's cast, and kneeled down and prayed, saying, Father, if thou be willing, remove this cup from me: nevertheless, not my will, but thine be done. And there appeared an angel unto him from heaven, strengthening him. And being in an agony, he prayed more earnestly; and his sweat was as it were great drops of blood falling down to the ground. And when he rose up from prayer, and was come to his disciples, he found them sleeping for sorrow, and said unto them, Why sleep ye? rise and pray, lest ye enter into temptation. And while he yet spake, behold, a multitude, and he that was called Judas, one of the twelve, went before them, and drew near unto Jesus to kiss him. But Jesus said unto him, Judas, betrayest thou the Son of Man with a kiss? When they who were about him saw what would follow, they said unto him, Lord, shall we smite with the sword? And one of them smote the servant of the high priest, and cut off his right ear. And Jesus answered and

hiachaodd ef. A'r Iesu a ddywedodd wrth yr arch-offeiriaid, a blaenoriaid y deml, a'r henuriaid, y rhai a ddaethant atto, Ai fel at leidr y daethoch chwi allan â chleddyfau, ac â ffyn? Pan oeddwn beunydd gyd â chwi yn y deml, nid estynasoch ddwyllaw i'm herbyn: eithr hon yw eich awr chwi, a gallu'r tywyllwch. A hwy a'i daliasant ef, ac a'i harweiniasant, ac a'i dygasant i mewn i dŷ'r arch-offeiriad. A Phetr a ganlynodd o hirbell. Ac wedi iddynt gynneu tân ynghanol y neuadd, a chyd-eistedd o honynt, eisteddodd Petr yntau yn eu plith hwynt. A phan ganfu rhyw langces ef yn eistedd wrth y tân, a dal sulw arno, hi a ddywedodd, Yr oedd hwn hefyd gyd âg ef. Yntau a'i gwadodd ef, gan ddywedyd, O wraig, nid adwaen i ef. Ac ychydig wedi, un arall a'i gwelodd ef, ac a ddywedodd, Yr wyt tithau hefyd yn un o honynt. A Phetr a ddywedodd, O ddyn, nid ydwyf. Ac ar ol megis yspaid un awr, rhyw un arall a daerodd, gan ddywedyd, Mewn gwirionedd yr oedd hwn hefyd gyd âg ef; canys Galilead yw. A Phetr a ddywedodd, Y dyn, ni's gwn beth yr wyt yn ei ddywedyd. Ac yn y man, ac efe etto yn llefaru, canodd y ceiliog. A'r Arglwydd a drodd, ac a edrychodd ar Petr. A Phetr a gofiodd ymadrodd yr Arglwydd, fel y dywedasai efe wrtho, Cyn canu o'r ceiliog, y gwedi fi deir-gwaith. A Phetr a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw-dost. A'r gwŷr oedd yn dal yr Iesu, a'i gwatwarasant ef, gan ei daro. Ac wedi iddynt guddio ei lygaid ef, hwy a'i tarawsant ef ar ei wyneb, ac o ofynasant iddo, gan ddywedyd, Prophwyda, pwy yw'r hwn a'th darawodd di? A llawer o bethau eraill, gan gablu, a ddy-

said, Suffer ye thus far. And he touched his ear, and healed him. Then Jesus said unto the chief priests, and captains of the temple, and the elders who were come to him, Be ye come out as against a thief, with swords and staves? When I was daily with you in the temple, ye stretched forth no hands against me: but this is your hour, and the power of darkness. Then took they him, and led him, and brought him into the high priest's house: and Peter followed afar off. And when they had kindled a fire in the midst of the hall, and were set down together, Peter sat down among them. But a certain maid beheld him, as he sat by the fire, and earnestly looked upon him, and said, This man was also with him. And he denied him, saying, Woman, I know him not. And after a little while another saw him, and said, Thou art also of them. And Peter said, Man, I am not. And about the space of one hour after, another confidently affirmed, saying, Of a truth this fellow also was with him; for he is a Galilean. And Peter said, Man, I know not what thou sayest. And immediately, while he yet spake, the cock crew. And the Lord turned, and looked upon Peter; and Peter remembered the word of the Lord, how he had said unto him, Before the cock crew, thou shalt deny me thrice. And Peter went out, and wept bitterly. And the men that held Jesus mocked him, and smote him. And when they had blindfolded him, they struck him on the face, and asked him, saying, Prophesy, who is it that smote thee? And many other things

Dydd Iou o flaen y Pasg.

wedasant yn ei erbyn ef. A phan aeth hi yn ddydd, ymgynhullodd henuriaid y bobl, a'r arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, ac a'i dygasant ef i'w cynghor hwynt, gan ddywedyd, Ai ti yw Crist? dywed i ni. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Os dywedaf i chwi, ni chredwch ddim; ac os gofynaf hefyd i chwi, ni'm hattebwch, ac ni'm gollyngwch ymaith. Ar ol hyn y bydd Mab y dyn yn eistedd ar ddeheu law gallu Duw. A hwy oll a ddywedasant, Ai Mab Duw gan hynny ydwyt ti? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Yr ydych chi yn dywedyd fy mod. Hwythau a ddywedasant, Pa raid i ni mwyach wrth dystiolaeth? canys clywsom ein hunain o'i enau ef ei hun.

Dydd Iou o flaen y Pasg.

Yr Epistol. 1 Cor. xi. 17.

W RTH ddywedyd hyn, nid ydwyf yn eich canmol; eich bod yn dyfod ynghyd, nid er gwell, ond er gwaeth. Canys yn gyntaf, pan ddeloch ynghyd yn yr eglwys, yr ydwyf yn clywed fod amrafaelion yn eich mysg chi; ac o ran yr wyf fi yn credu. Canys rhaid yw bod hefyd heresiau yn eich mysg; fel y byddo y rhai cymmeradwy yn eglur yn eich plith chi. Pan fyddoch chi gan hynny yn dyfod ynghyd i'r un lle, nid bwyta swpper yr Arglwydd ydyw hyn: canys y mae pob un wrth fwyta yn cymmeryd ei swpper ei hun o'r blaen; ac un sydd â newyn arno, ac arall sydd yn feddw. Onid oes genych dai i fwyta ac i yfed? ai dirmygu yr ydych chi eglwys Dduw, a gwaradwyddo y rhai nid oes ganddynt? Pa beth a ddywedaf wrthych? a ganmolaf fi chi yn hyn? Nid wyf yn eich canmol. Canys myfi a dderbyn-

blasphemously spake they against him. And as soon as it was day, the elders of the people, and the chief priests, and the scribes, came together, and led him into their council, saying, Art thou the Christ? tell us. And he said unto them, If I tell you, ye will not believe: and if I also ask you, ye will not answer me, nor let me go. Hereafter shall the Son of Man sit on the right hand of the power of God. Then said they all, Art thou then the Son of God? And he said unto them, Ye say that I am. And they said, What need we any further witness? for we ourselves have heard of his own mouth.

Thursday before Easter.

The Epistle. 1 Cor. xi. 17.

I N this that I declare unto you, I praise you not; that ye come together not for the better, but for the worse. For first of all, when ye come together in the church, I hear that there be divisions among you, and I partly believe it. For there must be also heresies among you, that they who are approved may be made manifest among you. When ye come together therefore into one place, this is not to eat the Lord's supper: for in eating every one taketh before other his own supper; and one is hungry, and another is drunken. What, have ye not houses to eat and to drink in? or despise ye the church of God, and shame them that have not? What shall I say to you? shall I praise you in this? I praise you not. For I have received of the Lord that which also I

Dydd Iou o flaen y Pasg.

iaisgan yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi; Bod i'r Arglwydd Iesu, y nos y bradychwyd ef, gymmeryd bara; ac wedi iddo ddiolch, efe a'i torrodd, ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwyttêwch; hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorrir trosoch: gwnewch hyn er coffa am danaf. Yr un modd efe a gymmerodd y cwppan, wedi swpperu, gan ddywedyd, Y cwppan hwn yw'r testament newydd yn fy ngwaed: gwnewch hyn, cynnifer gwaith bynnag yr yfoch, er coffa am danaf. Canys cynnifer gwaith bynnag y bwyttaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwppan hwn, y dangoswch farwol-aeth yr Arglwydd hyd oni ddelo. Am hynny, pwy bynnag a fwyttao y bara hwn, neu a yfo gwppan yr Arglwydd yn annheilwng, euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd. Eithr holed dyn ef ei hun; ac felly bwyttâed o'r bara, ac yfed o'r cwppan. Canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn-farnu corph yr Arglwydd. Oblegid hyn y mae llawer yn weiniaid ac yn llesg yn eich mysg, a llawer yn huno. Canys pe iawn farnem ni ein hunain, ni'n bernid. Eithr pan y'n bernir, y'n ceryddirgan yr Arglwydd, fel na'n damnier gyd â'r byd. Am hynny, fy mrodyr, pan ddeloch ynghyd i fwytta, arhoswch eich gilydd. Eithr os bydd newyn ar neb, bwyttâed gartref; fel na ddeloch ynghyd i farnedigaeth. Ond y pethau eraill mi a'u trefnaf pan ddelwyf.

Yr Efengyl. St. Luc xxiii. 1.

A'R holl liaws o honynt a gyfodasant, ac a'i dygasant ef at Pilat. Ac a ddechreuasant ei gyhuddo ef, gan ddywedyd, Ni a gawsom hwn yn gŵyrdroi'r bobl,

delivered unto you, That the Lord Jesus, the same night in which he was betrayed, took bread; and when he had given thanks, he brake it, and said, Take, eat; this is my body, which is broken for you: this do in remembrance of me. After the same manner also he took the cup, when he had supped, saying, This cup is the new testament in my blood: this do ye, as oft as ye drink it, in remembrance of me. For as often as ye eat this bread, and drink this cup, ye do shew the Lord's death till he come. Wherefore, whosoever shall eat this bread, and drink this cup of the Lord, unworthily, shall be guilty of the body and blood of the Lord. But let a man examine himself, and so let him eat of that bread, and drink of that cup. For he that eateth and drinketh unworthily eateth and drinketh damnation to himself, not discerning the Lord's body. For this cause many are weak and sickly among you, and many sleep. For if we would judge ourselves, we should not be judged. But when we are judged, we are chastened of the Lord, that we should not be condemned with the world. Wherefore, my brethren, when ye come together to eat, tarry one for another. And if any man hunger, let him eat at home; that ye come not together unto condemnation. And the rest will I set in order when I come.

The Gospel. St. Luke xxiii. 1.

THE whole multitude of them arose, and led him unto Pilate. And they began to accuse him, saying, We found this fellow perverting the na-

ac yn gwahardd rhoi teyrn-ged i Cesar; gan ddywedyd, mai efe ei hun yw Crist Frenhin. A Philat a ofynodd iddo, gan ddywedyd, Ai ti yw Brenhin yr Iuddewon? Ac efe a atebodd iddo, ac a ddywedodd, Yr wyt ti yn dywedyd. A dywedodd Pilat wrth yr arch-offeiriaid a'r bobl, Nid wyf fi yn cael dim bai ar y dyn hwn. A hwy a fuant daerach, gan ddywedyd, Y mae efe yn cyffroi'r bobl, gan ddysgu trwy holl Judea, wedi dechreu o Galilea hyd yma. A phan glybu Pilat son am Galilea, efe a ofynodd ai Galilead oedd y dyn. A phan wybu efe ei fod ef o lywodraeth Herod, efe a'i hanfonodd ef at Herod, yr hwn oedd yntau yn Jerusalem y dyddiau hynny. A Herod, pan welodd yr Iesu, a lawenychodd yn fawr: canys yr oedd efe yn chwennycher ys talm ei weled ef, oblegid iddo glywed llawer am dano ef, ac yr ydoedd yn gobeithio cael gwyled gwneuthur rhyw arwydd ganddo ef. Ac efe a'i holodd ef mewn llawer o eiriau: eithr efe nid atebodd ddim iddo. A'r arch-offeiriaid a'r ysgrifenyddion a safasant, gan ei gyhuddo ef yn haerllug. A Herod a'i filwyr, wedi iddo ei ddiystyru ef a'i watwar, a'i wisgo â gwisg glaerwen, a'i danfonodd ef drachefn at Pilat. A'r dwthwn hwnnw yr aeth Pilat a Herod yn gyfeillion: canys yr oeddint o'r blaen mewn gelyniaeth â'u gilydd. A Philat, wedi galw ynghyd yr arch-offeiriaid, a'r llywiawdwyr, a'r bobl, a ddywedodd wrthynt, Chwi a ddygasoch y dyn hwn attaf fi, fel un a fyddai yn gwyrdroi'r bobl: ac wele, myfi a'i holais ef yn eich gwydd chwi, ac ni chefais yn y dyn hwn ddim bai o ran y pethau yr ydych chwi yn ei gyhuddo ef am danynt: na Herod chwaith: canys anfonais chwi atto ef; ac wele, dim yn

tion, and forbidding to give tribute to Cæsar, saying, That he himself is Christ a King. And Pilate asked him, saying, Art thou the King of the Jews? And he answered him, and said, Thou sayest it. Then said Pilate to the chief priests, and to the people, I find no fault in this man. And they were the more fierce, saying, He stirreth up the people, teaching throughout all Jewry, beginning from Galilee to this place. When Pilate heard of Galilee, he asked whether the man were a Galilean. And as soon as he knew that he belonged unto Herod's jurisdiction, he sent him to Herod, who himself was also at Jerusalem at that time. And when Herod saw Jesus he was exceeding glad; for he was desirous to see him of a long season, because he had heard many things of him; and he hoped to have seen some miracle done by him. Then he questioned with him in many words; but he answered him nothing. And the chief priests and scribes stood and vehemently accused him. And Herod with his men of war set him at nought, and mocked him, and arrayed him in a gorgeous robe, and sent him again to Pilate. And the same day Pilate and Herod were made friends together; for before they were at enmity between themselves. And Pilate, when he had called together the chief priests, and the rulers, and the people, said unto them, Ye have brought this man unto me, as one that perverteth the people: and behold, I, having examined him before you, have found no fault in this man touching those things whereof ye accuse him:

Dydd Iou o flaen y Pasg.

haeddu marwolaeth ni's gwnaed iddo. Am hynny mi a'i ceryddaf ef, ac a'i gollyngaf ymaith. Canys yr ydoedd yn rhaid iddo ollwng un yn rhýdd iddynt ar yr wyl. A'r holl liaws a leasant ar unwaith, gan ddywedyd, Bwrw hwn ymaith; a gollwng i ni Barabbas yn rhýdd: (yr hwn, am ryw derfysg a wnelsid yn y ddinas, a llofruddiaeth, oedd wedi ei daflu igarchar.) Am hynny Pilat a ddywedodd wrthynt drachefn, gan ewyllysio gollwng yr Iesu yn rhýdd. Eithr hwy a leasant arno, gan ddywedyd, Croeshoelia, croeshoelia ef. Ac efe a ddywedodd wrthynt y drydedd waith, Canys pa ddrwg a wnaeth efe? ni cheffais i ddim achos marwolaeth ynddo: am hynny mi a'i ceryddaf ef, ac a'i gollyngaf yn rhýdd. Hwytbau a fuant daerion â llefau uchel, gan ddeisyfu ei groeshoelio ef. A'u llefau hwynt a'r arch-offeiriaid a orfuant. A Philat a farnodd wneuthur eu deisyfiad hwynt. Ac efe a ollyngodd yn rhýdd iddynt, yr hwn am derfysg a llofruddiaeth a fwriasad yngharchar, yr hwn a ofynasant: eithr yr Iesu a draddododd efe i'w hewyllys hwynt. Ac fel yr oeddynt yn ei arwain ef ymaith hwy a ddaliasant un Simon o Cyrene, yn dyfod o'r wlad, ac a ddodasant y groes arno ef, i'w dwyn ar ol yr Iesu. Ac yr oedd yn ei ganlyn ef liaws mawr o bobl, ac o wragedd, y rhai hefyd oedd vn cwynfan ac yn galaru o'i blegid ef. A'r Iesu, wedi troi attynt, a ddywedodd, Merched Jerusalem, na wylwch o'm plegid i; eithr wylwch o'ch plegid eich hunain, ac oblegid eich plant. Canys wele, y mae'r dyddiau yn dyfod yn y rhai y dywedant, Gwýn eu byd y rhai amhrlantadwy, a'r crothau ni eppiliasant, a'r bronnau ni roisant sugn. Yna y dechreuant

No, nor yet Herod: for I sent you to him; and lo, nothing worthy of death is done unto him. I will therefore chastise him, and release him. For of necessity he must release one unto them at the feast. And they cried out all at once, saying, Away with this man, and release unto us Barabbas: (who for a certain sedition made in the city, and for murder, was cast into prison.) Pilate therefore, willing to release Jesus, spake again to them. But they cried, saying, Crucify him, crucify him. And he said unto them the third time, Why, what evil hath he done? I have found no cause of death in him: I will therefore chastise him, and let him go. And they were instant with loud voices, requiring that he might be crucified: and the voices of them and of the chief priests prevailed. And Pilate gave sentence that it should be as they required. And he released unto them him that for sedition and murder was cast into prison, whom they had desired; but he delivered Jesus to their will. And as they led him away, they laid hold upon one Simon a Cyrenian, coming out of the country, and on him they laid the cross, that he might bear it after Jesus. And there followed him a great company of people, and of women, which also bewailed and lamented him. But Jesus, turning unto them, said, Daughters of Jerusalem, weep not for me, but weep for yourselves, and for your children. For behold, the days are coming, in the which they shall say, Blessed are the barren, and the wombs that never bare, and the paps

dwywedyd wrth y mynyddoedd, Syrthiwch arnom; ac wrth y bryniau, Cuddiwch ni. Canys os gwnant hyn yu y pren ir, pa beth a wneir yn y crin? Ac arweiniwyd gyd âg ef hefyd ddau eraill, drwg-weithredwyr, i'w rhoi i'w marwolaeth. A phan ddaethant i'r lle a elwir Cal-faria, yno y croeshoeliasant ef, a'r drwg-weithredwyr; un ar y llaw ddehau, a'r llall ar yr aswy. A'r Iesu addywedodd, O Dad, madd-eu iddynt; canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur. A hwy a rannasant ei ddillad ef, ac a fwriasant goelbren. A'r bobl a safodd yn edrych; a'r pennaeth-iaid hefyd gyd â hwynt a watwaras-asant, gan ddywedyd, Eraill a waredodd efe, gwareded ef ei hun, os hwn yw Crist, Etholed-ig Duw. A'r milwyr hefyd a'i gwatwarasant ef, gan ddyfod atto, a chynnyg iddo finegr, a dywed- yd, Os tydi yw Brenhin yr Iuddewon, gwared dy hun. Ac yr ydoedd hefyd arsgrifenedi ei sgrifenu uwch ei ben ef, â llythyr- enau Groeg, a Lladin, ac Hebr- aeg, **HWN YW BRENHIN YR IUDEWON.** Ac un o'r drwg-weithredwyr a grogasid, a'i cablodd ef, gan ddywedyd, Os tydi yw Crist, gwared dy hun, a ninnau. Eithr y llall a atebodd, ac a'i ceryddodd ef, gan ddy- wedyd, Onid wyt ti yn ofni Duw, gan dy fod dan yr un ddamnedig- aeth? A nyni yn wir yn gyfiawn; canys yr ydym yn derbyn yr hyn a haeddai y pethau a wnaethom: eithr hwn ni wnaeth ddim allan o'i le. Ac efe a ddywedodd wrth yr Iesu, Arglwydd, cofia fi pan ddelych i'th deyrnas. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Yn wir meddaf i ti, Heddyw y byddi gyd â mi ym mharadwys. Ac yr ydoedd hi ynghylch y chweched awr. A thywyllwch a fu ar yr

which never gave suck. Then shall they begin to say to the mountains, Fall on us; and to the hills, Cover us. For if they do these things in a green tree, what shall be done in the dry? And there were also two other, malefactors, led with him to be put to death. And when they were come to the place which is called Calvary, there they crucified him; and the malefactors, one on the right hand, and the other on the left. Then said Jesus, Father, forgive them, for they know not what they do. And they parted his raiment, and cast lots. And the people stood beholding; and the rulers also with them derided him, saying, He saved others; let him save himself, if he be Christ, the chosen of God. And the soldiers also mocked him, coming to him, and offer- ing him vinegar, and saying, If thou be the King of the Jews, save thyself. And a superscrip- tion also was written over him in letters of Greek, and Latin, and Hebrew, **THIS IS THE KING OF THE JEWS.** And one of the malefactors, which were hanged, railed on him, saying, If thou be Christ, save thyself, and us. But the other answering rebuked him, saying, Dost not thou fear God, seeing thou art in the same condem- nation? And we indeed justly; for we receive the due reward of our deeds, but this man hath done nothing amiss. And he said unto Jesus, Lord, remem- ber me when thou comest into thy kingdom. And Jesus said unto him, Verily I say unto thee, To-day shalt thou be with me in paradise. And it was about the sixth hour: and there was a darkness over all the

Dydd Gwener y Croglith.

holl ddaear, hyd y nawfed awr. A'r haul a dywyllwyd, a llen y deml a rwygwyd yn ei chanol. A'r Iesu, gan lefain â llef uchel, a ddywedodd, O Dad, i'th ddwyllaw di y gorchymynaf fy yspryd. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a drengodd. A'r canwriad, pan welodd y peth a wnaethpwyd, a ogoneddodd Dduw, gan ddywedyd, Yn wir yr oedd hwn yn wr cyfiawn. A'r holl bobloedd, y rhai a ddaethent ynghyd i edrych hyn, wrth weled y pethau a wnaethpwyd, a ddychwelasant, gan guro eu dwyfronnau. A'i holl gydnabod ef a safasant o hirbell, a'r gwragedd y rhai a'i canlynasant ef o Galilea, yn edrych ar y pethau hyn.

Dydd Gwener y Croglith.

Y Colectau.

HOLL-alluog Dduw, nyni a attolygwn i ti edrych o honot yn rasusol ar dy deulu yma, dros yr hwn y bu foddlon gan ein Harglwydd Iesu Grist gael ei fradychu, a'i roddi yn nwyllaw dynion anwir, a dioddef angau ar y groes, yr hwn sydd yn awr yn byw ac yn teyrnasu gyd â thydi a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw, heb drange na gorphen. *Amen.*

HOLL-alluog a thragywyddol Dduw, trwy Yspryd pa un y llywodraethir ac y sancteiddir holl gorph yr Eglwys; Derbyn ein herfynion a'n gweddïau, y rhai yr ydym ni yn eu hoffrwm ger dy fron dros bob gradd o ddynion yn dy sanctaidd Eglwys; fel y gallo pob aelod o honi, yn ei alwedigaeth a'i wasanaeth, yn gywir ac yn dduwiol dy wasanaethu di; trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. *Amen.*

O Drugarog Dduw, yr hwn a wnaethost bob dyn, ac ni chasëi ddim a'r a wnaethost, ac ni

earth until the ninth hour. And the sun was darkened, and the veil of the temple was rent in the midst. And when Jesus had cried with a loud voice, he said, Father, into thy hands I commend my spirit: and having said thus, he gave up the ghost. Now when the centurion saw what was done, he glorified God, saying, Certainly this was a righteous man. And all the people that came together to that sight, beholding the things that were done, smote their breasts, and returned. And all his acquaintance, and the women that followed him from Galilee, stood afar off, beholding these things.

Good Friday.

The Collects.

ALMIGHTY God, we beseech thee graciously to behold this thy family, for which our Lord Jesus Christ was contented to be betrayed, and given up into the hands of wicked men, and to suffer death upon the cross, who now liveth and reigneth with thee and the Holy Ghost, ever one God, world without end. *Amen.*

ALMIGHTY and everlasting God, by whose Spirit the whole body of the Church is governed and sanctified; Receive our supplications and prayers, which we offer before thee for all estates of men in thy holy Church, that every member of the same, in his vocation and ministry, may truly and godly serve thee; through our Lord and Saviour Jesus Christ. *Amen.*

O Merciful God, who hast made all men, and hatest nothing that thou hast made,

fynnit farwolaeth pechadur, ond yn hytrach ymchwelyd o hono, a byw: Trugarhâ wrth yr holl Iuddewon, Tyrciaid, Anffyddlonion, a Hereticiaid, a chymmer oddi wrthynt bob anwybodaeth, caledwch calon, a dirmyg ar dy air; ac felly dwg hwynt adref, wýnfydedig Arglwydd, at dy braidd, fel y bônt gadwedig ym mhlith gweddillion y gwir Israeliaid, a bod yn un gorlan dan yr un bugail Iesu Grist ein Harglwydd, yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thydi a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw, heb drange na gorphen. *Amen.*

Yr Epistol. Heb. x. 1.

Y Gyfraith, yr hon sy ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod, ac nid gwir ddelw y pethau, ni's gall trwy yr aberthau hynny, y rhai y maent bob blwyddyn yn eu hoffrymmu yn wastadol, byth berffeithio y rhai a ddêl atti. Oblegid yna hwy a beidiasent â'u hoffrymmu, am na buasai gydwybod pechod mwy gan y rhai a addolasent, wedi eu glanhâu unwaith. Eithr yn yr aberthau hynny y mae adgoffa pechodau bob blwyddyn. Canys amhosibl yw i waed teirwa geifr dynnu ymaith bechodau. O herwydd paham y mae efe, wrth ddyfod i'r byd, yn dywedyd, Aberth ac offrwm ni's mynnaist; eithr corph a gymhwysaist i mi: Offrymmau poeth, a thros bechod, ni buost foddlon iddynt. Yna y dywedais, Wele fi yn dyfod (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu'r llyfr am danaf) i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw. Wedi iddo ddywedyd uchod, Aberth, ac offrwm, ac offrymmau poeth, a thros bechod, ni's mynnaist, ac nid ymfoddonaist ynddynt, y rhai yn ol y gyfraith a offrymmir: yna y dywedodd, Wele fi yn dyfod, i wneuthur dy ewyllys di, O

nor wouldest the death of a sinner, but rather that he should be converted and live; Have mercy upon all Jews, Turks, Infidels, and Hereticks, and take from them all ignorance, hardness of heart, and contempt of thy Word; and so fetch them home, blessed Lord, to thy flock, that they may be saved among the remnant of the true Israelites, and be made one fold under one shepherd, Jesus Christ our Lord, who liveth and reigneth with thee and the Holy Spirit, one God, world without end. *Amen.*

The Epistle. Heb. x. 1.

THE law having a shadow of good things to come, and not the very image of the things, can never with those sacrifices, which they offered year by year continually, make the comers thereunto perfect: for then would they not have ceased to be offered? because that the worshippers once purged should have had no more conscience of sins. But in those sacrifices there is a remembrance again made of sins every year. For it is not possible that the blood of bulls and of goats should take away sins. Wherefore, when he cometh into the world, he saith, Sacrifice and offering thou wouldest not, but a body hast thou prepared me: In burnt-offerings and sacrifices for sin thou hast had no pleasure: Then said I, Lo, I come (in the volume of the book it is written of me) to do thy will, O God. Above, when he said, Sacrifice and offering, and burnt-offerings, and offering for sin thou wouldest not, neither hadst pleasure therein, which are offered by the Law: then said he, Lo, I come to do thy will, O God. He taketh away the

Dydd Gwener y Croglith.

Dduw. Y mae yn tynnu ymaith y cyntaf, fely gosodai yr ail. Trwy yr hwn ewyllys yr ydym ni wedi ein sancteiddio, trwy offrymriad corph Iesu Grist unwaith. Ac y mae pob offeiriad yn sefyll beunydd yn gwasanaethu, ac yn offrymmu yn fynych yr un aberthau, y rhai ni allant fyth ddilëu pechodau. Eithr hwn, wedi offrymmu un aberth dros bechodau, yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheu-law Dduw; o hyn allan yn disgwyl hyd oni osoder ei elynion ef yn droed-faingc i'w draed ef. Canys âg un offrwm y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio. Ac y mae yr Yspryd Glân hefyd yn tystiolaethu i ni: canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen, Dyma 'r cyfammod, yr hwn a ammodaf fi â hwynt ar ol y dyddiau hynny, medd yr Arglwydd, Myfi a osodaf fy nghyfreithiau yn eu calonnau, ac a'u hysgrifenaf yn eu meddyliau; a'u pechodau, a'u hanwiredau, ni chofiaf mwyach. A lle y mae maddeuant am y rhai hyn, nid oes mwyach offrwm dros bechod. Am hynny, frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu, ar hyd ffordd newydd a bywiol, yr hon a gyssegrodd efe i ni, trwy'r llen, sef ei gnawd ef; a bod i ni Offeiriad mawr ar dŷ Dduw; nesâwn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhâu ein calonnau oddi wrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph â dwfr glân. Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl (canys ffyddlon yw'r hwn a addawodd) a chyd-ystyriwn bawb ein gilydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da; heb esgeuluso ein cyd-gynhulliad ein hunain, megis y mae arfer rhai; ond annog bawb ein gilydd: a hynny yn fwy, o gymmaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesâu.

first, that he may establish the second. By the which will we are sanctified, through the offering of the body of Jesus Christ once for all. And every priest standeth daily ministering, and offering oftentimes the same sacrifices, which can never take away sins. But this man, after he had offered one sacrifice for sins, for ever sat down on the right hand of God; from henceforth expecting till his enemies be made his foot-stool. For by one offering he hath perfected for ever them that are sanctified: Whereof the Holy Ghost also is a witness to us: for after that he had said before, This is the covenant that I will make with them after those days, saith the Lord, I will put my laws into their hearts, and in their minds will I write them; and their sins and iniquities will I remember no more. Now where remission of these is, there is no more offering for sin. Having therefore, brethren, boldness to enter into the holiest by the blood of Jesus, by a new and living way, which he hath consecrated for us, through the vail, that is to say, his flesh; and having an High Priest over the house of God; let us draw near with a true heart, in full assurance of faith, having our hearts sprinkled from an evil conscience, and our bodies washed with pure water. Let us hold fast the profession of our faith without wavering; (for he is faithful that promised;) and let us consider one another to provoke unto love, and to good works; not forsaking the assembling of ourselves together, as the manner of some is; but exhorting one another: and so much the more, as ye see the day approaching.

Yr Efengyl. St. Ioan xix. 1.

YNA gan hynny y cymmerodd Pilat yr Iesu, ac a'i fflangellodd ef. A'r milwyr a blethasant goron o ddrain, ac a'i gosodasant ar ei ben ef, ac a roisant wisg o borphor am dano: ac a ddywedasant, Henffych well, Brenhin yr Iuddewon; ac a roisant iddo gernodiau. Pilat gan hynny a aeth allan drachefn, ac a ddywedodd wrthynt, Wele, yr wyf fi yn ei ddwyn ef allan i chwi, fel y gwypoch nad wyf fi yn cael ynddo ef un bai. Yna y daeth yr Iesu allan, yn arwain y goron ddrain, a'r wisg borphor. A Philat a ddywedodd wrthynt, Wele y dyn. Yna yr arch-offeiriaid a'r swyddogion, pan welsant ef, a leasant, gan ddywedyd, Croeshoelia, croeshoelia ef. Pilat a ddywedodd wrthynt, Cymmerwch chwi ef, a chroeshoeliwch: canys nid wyf fi yn cael dim bai ynddo. Yr Iuddewon a attebasant iddo, Y mae gennym ni gyfraith; ac wrth ein cyfraith ni, efe a ddylai farw, am iddo ei wneuthur ei hun yn Fab Duw. A phan glybu Pilat yr ymadrodd hwnnw, efe a ofnodd yn fwy, ac a aeth drachefn i'r dadleudy, ac a ddywedodd wrth yr Iesu, O ba le yr wyt ti? Ond ni roes yr Iesu ateb iddo. Yna Pilat a ddywedodd wrtho, Oni ddywedi di wrthyf fi? Oni wyddost ti fod gennyf awdurdod i'th groeshoelio di, a bod gennyf awdurdod i'th ollwng yn rhydd? Yr Iesu a atebodd, Ni byddai i ti ddim awdurdod arnaf fi, oni bai ei fod wedi ei roddi i ti oddi uchod: am hynny yr hwn am traddodes i ti sy fwy ei bechod. O hynny allan y ceisiodd Pilat ei ollwng ef yn rhýdd; ond yr Iuddewon a leasant, gan ddywedyd, Os gollyngi di hwn yn rhýdd, nid wyt ti yn garedig i Cesar: pwy

The Gospel. St. John xix. 1.

PILATE therefore took Jesus, and scourged him. And the soldiers platted a crown of thorns, and put it on his head, and they put on him a purple robe, and said, Hail, King of the Jews: and they smote him with their hands. Pilate therefore went forth again, and saith unto them, Behold, I bring him forth to you, that ye may know that I find no fault in him. Then came Jesus forth, wearing the crown of thorns, and the purple robe. And Pilate saith unto them, Behold the man! When the chief priests therefore and officers saw him, they cried out, saying, Crucify him, crucify him. Pilate saith unto them, Take ye him, and crucify him: for I find no fault in him. The Jews answered him, We have a law, and by our law he ought to die, because he made himself the Son of God. When Pilate therefore heard that saying, he was the more afraid; and went again into the judgement-hall, and saith unto Jesus, Whence art thou? But Jesus gave him no answer. Then saith Pilate unto him, Speakest thou not unto me? knowest thou not that I have power to crucify thee, and have power to release thee? Jesus answered, Thou couldest have no power at all against me, except it were given thee from above: therefore he that delivered me unto thee hath the greater sin. And from thenceforth Pilate sought to release him: but the Jews cried out, saying, If thou let this man go thou art not Cæsar's friend: whosoever maketh himself a king speaketh against Cæsar. When Pilate therefore heard that

hynnag a'i gwnelo ei hun yn frenhin, y mae yn dywedyd yn erbyn Cesar. Yna Pilat, pan glybu yr ymadrodd hwn, a ddug allan yr Iesu, ac a eisteddodd ar yr orsedd-fainge, yu y lle a elwir y Palmant; ac yn Hebraeg, Gabbatha. A darpar-wyl y pasg oedd hi, ac ynghylch y chweched awr: ac efe a ddywedodd wrth yr Iuddewon, Wele eich Brenhin. Eithr hwy a lefasant, Ymaith âg ef, ymaith âg ef; croeshoelia ef. Pilat a ddywedodd wrthynt, A groeshoelias fi eich Brenhin chwi? A'r arch-offeiriaid a atebasant, Nid oes i ni frenhin ond Cesar. Yna gan hynny efe a'i traddodes ef iddynt i'w groeshoelio. A hwy a gymmerasant yr Iesu, ac a'i dygasant ymaith. Ac efe, gan ddwyn ei groes, a ddaeth i le a elwid Lle'r ben-glog; ac a elwir yn Hebraeg, Golgotha: lle y croeshoeliasant ef, a dau eraill gyd âg ef, un o bob tu, a'r Iesu yn y canol. A Philat a ysgrifennodd ditl, ac a'i dododd ar y groes. A'r ysgrifen oedd, IESU O NAZARETH BRENHIN YR IUDEWON. Y titl hwn gan hynny a ddarllenodd llawer o'r Iuddewon; oblegid agos i'r ddinas oedd y fan lle y croeshoeliwyd yr Iesu: ac yr oedd wedi ei ysgrifenu yn Hebraeg, Groeg, a Lladin. Yna arch-offeiriaid yr Iuddewon a ddywedasant wrth Pilat, Na ysgrifena, Brenhin yr Iuddewon; eithr dywedyd o hono ef, Brenhin yr Iuddewon ydwyf fi. Pilat a atebodd, Yr hyn a ysgrifena, a ysgrifena. Yna'r milwyr, wedi iddynt groeshoelio yr Iesu, a gymmerasant ei ddillad ef (ac a wnaethant bedair rhan, i bob milwr ran) a'i bais ef: a'i bais ef oedd ddiwniad, wedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll. Hwytthau a ddywedasant wrth eu gilydd, Na thorrn hi, ond

saying, he brought Jesus forth, and sat down in the judgment-seat, in a place that is called the Pavement, but in the Hebrew, Gabbatha. And it was the preparation of the passover, and about the sixth hour: and he saith unto the Jews, Behold your King! But they cried out, Away with him, away with him, crucify him. Pilate saith unto them, Shall I crucify your King? The chief priests answered, We have no king but Cæsar. Then delivered he him therefore unto them to be crucified: and they took Jesus, and led him away. And he, bearing his cross, went forth into a place called the place of a scull, which is called in the Hebrew, Golgotha: where they crucified him, and two other with him, on either side one, and Jesus in the midst. And Pilate wrote a title, and put it on the cross; and the writing was, JESUS OF NAZARETH THE KING OF THE JEWS. This title then read many of the Jews: for the place where Jesus was crucified was nigh to the city: and it was written in Hebrew, and Greek, and Latin. Then said the chief priests of the Jews to Pilate, Write not, The King of the Jews; but that he said, I am the King of the Jews. Pilate answered, What I have written, I have written. Then the soldiers, when they had crucified Jesus, took his garments, and made four parts, to every soldier a part; and also his coat: now the coat was without seam, woven from the top throughout. They said therefore among themselves, Let us not rend it, but cast lots for it, whose it shall be: that the Scripture

Dydd Gwener y Croglith.

bwriwn goelbrennau am dani, eiddo pwy fydd hi: fel y cyflawnid yr ysgrythyr sydd yn dywedyd, Rhannasant fy nillad yn eu mysg, ac am fy mhais y bwriasant goelbrennau. A'r milwyr a wnaethant y pethau hyn. Ac yr oedd yn sefyll wrth groes yr Iesu, ei fam ef, a chwaer ei fam ef, Mair gwraig Cleophas, a Mair Magdalen. Yr Iesu gan hynny pan welodd ei fam, a'r disgybl yr hwn a garai efe, yn sefyll ger llaw, a ddywedodd wrth ei fam, O wraig, wele dy fab. Gwedi hynny y dywedodd wrth y disgybl, Wele dy fam. Ac o'r awr honno allan y cymmerodd y disgybl hi i'w gartref. Wedi hynny yr Iesu, yn gwybod fod pob peth wedi ei orphen weithian, fel y cyflawnid yr ysgrythyr, a ddywedodd, Y mae syched arnaf. Yr oedd gan hynny lestr wedi ei osod yn llawn o finegr: a hwy a lanwasant yspwng o finegr, ac a'i rhoddasant ynghylch isop, ac a'i dodasant wrth ei enau ef. Yna pan gymmerodd yr Iesu y finegr, efe a ddywedodd, Gorphenwyd: a chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fynu yr yspryd. Yr Iuddewon gan hynny, fel nad arhoai y cyrph ar y groes ar y sabbath, o herwydd ei bod yn ddarpar-wyl (canys mawr oedd y dydd sabbath hwnnw) a ddeisyfiasant ar Pilat, gael torri eu besgeiriau hwynt, a'u tynnu i lawr. Yna y milwyr a ddaethant, ac a dorrasant esgeiriau y cyntaf, a'r llall yr hwn a groeshoeliasid gyd âg ef. Eithr wedi iddynt ddyfod at yr Iesu, pan welsant ef wedi marw eisoes, ni thorrasant ei esgeiriau ef. Ond un o'r milwyr a wanoedd ei ystlys ef â gwaywffon; ac yn y fan daeth allan waed a dwfr. A'r hwn a'i gwelodd a dystiolaethodd; agwir yw ei dystiolaeth:

might be fulfilled, which saith, They parted my raiment among them, and for my vesture they did cast lots. These things therefore the soldiers did. Now there stood by the cross of Jesus, his mother, and his mother's sister, Mary the wife of Cleophas, and Mary Magdalene. When Jesus therefore saw his mother, and the disciple standing by, whom he loved, he saith unto his mother, Woman, behold thy son. Then saith he to the disciple, Behold thy mother. And from that hour that disciple took her unto his own home. After this, Jesus, knowing that all things were now accomplished, that the Scripture might be fulfilled, saith, I thirst. Now there was set a vessel full of vinegar: and they filled a sponge with vinegar, and put it upon hyssop, and put it to his mouth. When Jesus therefore had received the vinegar, he said, It is finished: and he bowed his head, and gave up the ghost. The Jews therefore, because it was the preparation, that the bodies should not remain upon the cross on the sabbath-day, (for that sabbath-day was an high-day,) besought Pilate that their legs might be broken, and that they might be taken away. Then came the soldiers, and brake the legs of the first, and of the other which was crucified with him. But when they came to Jesus, and saw that he was dead already, they brake not his legs. But one of the soldiers with a spear pierced his side, and forthwith came thereout blood and water. And he that saw it bare record, and his record is true: and he knoweth that he saith

Nos Basg.

ac efe a wŷr ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwi. Canys y pethau hyn a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr ysgrythyr, Ni thorrir asgwrn o hono. A thrachefn, ysgrythyr arall sydd yn dywedyd, Hwy a edrychant ar yr hwn a wanasant.

Nos Basg.

Y Colect.

CANIATTA, O Arglwydd, megis y'n bedyddir i farwolaeth dy fendigedig Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist; fod i ni felly, trwy farwolaethu yn wastad ein gwyniau llygredig, gael ein claddu gyd âg ef; a thrwy'r bedd a phorth angau, fyned ym mlaen i'n hadgyfodiad llawen, trwy ei haeddedigaethau ef, yr hwn a fu farw, ac a gladdwyd, ac a ail-gyfododd er ein mwyn; sef, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. 1 St. Petr. iii. 17.

GWELL ydyw, os ewyllys Duw a'i myn, i chwi ddi-oddef yn gwneuthur daioni, nag yn gwneuthur drygioni. Oblegid Crist hefyd unwaith a ddi-oddefodd dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw; wedi ei farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywhâu yn yr Yspryd: trwy'r hwn yr aeth efe hefyd ac a bregethodd i'r yspydion yngharchar; y rhai a fu gynt anufudd, pan unwaith yr oedd hir-amynedd Duw yn aros yn nyddiau Noa, tra y darperid yr arch; yn yr hon ychydig, sef wyth enaid, a achubwyd trwy ddwfr. Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn sydd yr awrhon yn ein hachub ninnau, sef, bedydd (nid bwrw ymaith fudreddi'r cnawd, eithr ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw) trwy adgyfodiad Iesu Grist: yr hwn sydd ar ddeheulaw Dduw, wedi myned

true, that ye might believe. For these things were done that the Scripture should be fulfilled, A bone of him shall not be broken. And again, another Scripture saith, They shall look on him whom they pierced.

Easter Even.

The Colect.

GRANT, O Lord, that as we are baptized into the death of thy blessed Son our Saviour Jesus Christ, so by continual mortifying our corrupt affections we may be buried with him; and that through the grave, and gate of death, we may pass to our joyful resurrection; for his merits, who died, and was buried, and rose again for us, thy Son Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. 1 St. Pet. iii. 17.

IT is better, if the will of God be so, that ye suffer for well-doing, than for evil-doing. For Christ also hath once suffered for sins, the just for the unjust, that he might bring us to God, being put to death in the flesh, but quickened by the Spirit. By which also he went and preached unto the spirits in prison; which sometime were disobedient, when once the long-suffering of God waited in the days of Noah, while the ark was a preparing; wherein few, that is, eight souls, were saved by water. The like figure whereunto, even baptism, doth also now save us, (not the putting away the filth of the flesh, but the answer of a good conscience towards God,) by the resurrection of Jesus Christ: who is gone into heaven, and is on the right hand

DYDD PASG.

i'r nef; a'r angylion, a'r awdurdodau, a'r galluoedd, wedi eu darostwng iddo.

Yr Efengyl. St. Matth. xxvii. 57.

WEDI ei myned hi yn hwyr, daeth gwr goludog o Arimathea a'i enw Joseph, yr hwn a fuasai yntau yn ddisgybl i'r Iesu. Hwn a aeth at Pilat, ac a ofynodd gorph yr Iesu. Yna y gorchymynodd Pilat roddi'r corph. A Joseph, wedi cymmeryd y corph, a'i hamdôdd â lliain glân; ac a'i gosododd ef yn ei fêdd newydd ei hun, yr hwn a dorrasai efe yn y graig: ac a dreiglodd faen mawr wrth ddrws y bedd, ac a aeth ymaith. Ac yr oedd yno Mair Magdalen, a Mair arall, yn eistedd gyferbyn â'r bedd. A thrannoeth, yr hwn sydd ar ol y darpar-wyl, yr ymgynhullodd yr arch-offeiriaid a'r Phariseaid at Pilat, gan ddywedyd, Arglwydd, y mae yn gof gennym ddywedyd o'r twyllwr hwnnw, ac efe etto yn fyw, Wedi tridiau y cyfodaf. Gorchymyn gan hynny gadw'r bedd yn ddiogel hyd y trydydd dydd; rhagdyfod ei ddisgyblion o hyd nos, a'i ladratta ef, a dywedyd wrth y bobl, Efe a gyfododd o feirw: a bydd yr amryfusedd diweddaf yn waeth nâ'r cyntaf. A dywedodd Pilat wrthynt, Y mae gennych wyliadwriaeth; ewch, gwnewch mor ddiogel ag y medroch. A hwy a aethant ac a wnaethant y bedd yn ddiogel, ac a seliasant y maen, gyd â'r wyliadwriaeth.

DYDD PASG.

¶ *Ar Foreol Weddi, yn lle'r Psalm, Deuwch, canwn i'r Arglwydd, &c. y cenir, neu y dywedir, yr Anthemau hyn.*

CHRIST ein Pasg ni a aberthwyd drosom ni: am hynny cadwn wyl;

of God, angels and authorities and powers being made subject unto him.

The Gospel. St. Matth. xxvii. 57.

WHEN the even was come, there came a rich man of Arimathea, named Joseph, who also himself was Jesus' disciple. He went to Pilate, and begged the body of Jesus. Then Pilate commanded the body to be delivered. And when Joseph had taken the body, he wrapped it in a clean linen cloth, and laid it in his own new tomb, which he had hewn out in the rock; and he rolled a great stone to the door of the sepulchre, and departed. And there was Mary Magdalene, and the other Mary, sitting over against the sepulchre. Now the next day that followed the day of the preparation, the chief priests and Pharisees came together unto Pilate, saying, Sir, we remember that that deceiver said, while he was yet alive, After three days I will rise again. Command therefore that the sepulchre be made sure until the third day, lest his disciples come by night and steal him away, and say unto the people, He is risen from the dead: so the last error shall be worse than the first. Pilate said unto them, Ye have a watch; go your way, make it as sure as you can. So they went and made the sepulchre sure, sealing the stone, and setting a watch.

EASTER-DAY.

¶ *At Morning Prayer, instead of the Psalm, O come, let us sing, &c these Anthems shall be sung or said.*

CHRIST our passover is sacrificed for us: therefore let us keep the feast;

Nid â hên lefain, nac â lefain malais a drygioni : ond â bara croyw purdeb a gwirionedd. 1 Cor. v. 7.

CRIST, wedi cyfodi oddi wrth y meirw, ni bydd marw mwyach : nid arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach.

Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod : ac fel y mae yn byw, byw y mae i Dduw.

Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn feirw i bechod : eithr yn fyw i Dduw, yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. *Rhuf.* vi. 9.

CRIST a gyfodwyd oddi wrth y meirw : ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant.

Canys gan fod marwolaeth trwy ddyn : trwy ddyn hefyd y mae adgyfodiad y meirw.

Oblegid, megis yn Adda y mae pawb yn meirw : felly hefyd yng Nghrist y bywhêir pawb. 1 Cor. xv. 20.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn, trwy dy unig-anedig Fab Iesu Grist, a orchfygaist angau, ac a agoraist i ni borth y bywyd tragwyddol ; Yn ufudd yr attolgywn i ti, megis (trwy dy ras hyspysol yn ein rhag-flaenu) yr wyt yn peri deisyfiadau da i'n meddyliau ; felly, trwy dy ddyfal gymmorth, allu o honom eu dwyn i berffeithrwydd cyflawn, trwy Iesu Grist ein Harglwydd ; yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thydi a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw, heb drange na gorphen. *Amen.*

Not with the old leaven, nor with the leaven of malice and wickedness : but with the unleavened bread of sincerity and truth. 1 Cor. v. 7.

CHRISt being raised from the dead dieth no more : death hath no more dominion over him.

For in that he died, he died unto sin once : but in that he liveth, he liveth unto God.

Likewise reckon ye also yourselves to be dead indeed unto sin : but alive unto God through Jesus Christ our Lord. *Rom.* vi. 9.

CHRISt is risen from the dead : and become the first-fruits of them that slept.

For since by man came death : by man came also the resurrection of the dead.

For as in Adam all die : even so in Christ shall all be made alive. 1 Cor. xv. 20.

Glory be to the Father, and to the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. *Amen.*

The Collect.

ALMIGHTY God, who through thine only-begotten Son Jesus Christ hast overcome death, and opened unto us the gate of everlasting life ; We humbly beseech thee, that, as by thy special grace preventing us thou dost put into our minds good desires, so by thy continual help we may bring the same to good effect ; through Jesus Christ our Lord, who liveth and reigneth with thee and the Holy Ghost, ever one God, world without end. *Amen.*

Yr Epistol. Col. iii. 1.

OS cyd-gyfodasoch gyd â Christ, ceisiwch y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod, nid ar bethau sydd ar y ddaear: canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyd â Christ yn Nuw. Pan ymddangoso Crist, ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gyd âg ef mewn gogoniant. Marwhêwch gan hynny eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear; godlineb, aflendid, gwŷn, drygchwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eilun-addoliaeth: o achos yr hyn bethau y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod. Yn y rhai hefyd y rhodiasoch chwithau gynt, pan oeddych yn byw ynddynt.

Yr Efengyl. St. Ioan xx. i.

Y Dydd cyntaf o'r wythnos Mair Magdalen a ddaeth y bore, a hi etto yn dywyll, at y bedd; ac a welodd y maen wedi ei dynnu ymaith oddi ar y bedd. Yna y rheddod hi, ac a ddaeth at Simon Petr, a'r disgybl arall yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu, ac a ddywedodd wrthynt, Hwyl a ddygasant yr Arglwydd ymaith o'r bedd, ac ni wyddom ni pa le y dodasant ef. Yna Petr a aeth allan, a'r disgybl arall, a hwy a ddaethant at y bedd: ac a redasant ill dau ynghyd; a'r disgybl arall a redodd o'r blaen yn gynt na Phetr, ac a ddaeth yn gyntaf at y bedd. Ac wedi iddo grymmu, efe a ganfu y llieiniau wedi eu gosod; er hynny nid aeth efe i mewn. Yna y daeth Simon Petr yn ei ganlyn ef; ac a aeth i mewn i'r bedd, ac a ganfu y llieiniau wedi eu gosod; a'r napcyn a fuasai am ei ben ef, wedi ei osod, nid gyd â'r llieiniau, ond o'r neilldu, wedi ei

The Epistle. Col. iii. 1.

IF ye then be risen with Christ, seek those things which are above, where Christ sitteth on the right hand of God. Set your affection on things above, not on things on the earth: For ye are dead, and your life is hid with Christ in God. When Christ, who is our life, shall appear, then shall ye also appear with him in glory. Mortify therefore your members which are upon the earth; fornication, uncleanness, inordinate affection, evil concupiscence, and covetousness, which is idolatry: For which things' sake the wrath of God cometh on the children of disobedience. In the which ye also walked some time, when ye lived in them.

The Gospel. St. John xx. 1.

THE first day of the week cometh Mary Magdalene early, when it was yet dark, unto the sepulchre, and seeth the stone taken away from the sepulchre. Then she runneth and cometh to Simon Peter, and to the other disciple whom Jesus loved, and saith unto them, They have taken away the Lord out of the sepulchre, and we know not where they have laid him. Peter therefore went forth, and that other disciple, and came to the sepulchre. So they ran both together; and the other disciple did outrun Peter, and came first to the sepulchre; and he, stooping down and looking in, saw the linen clothes lying; yet went he not in. Then cometh Simon Peter following him, and went into the sepulchre, and seeth the linen clothes lie; and the napkin that was about his head, not lying with the linen clothes,

Dydd Llun Pasg.

blygu, mewn lle arall. Yna yr aeth y disgybl arall hefyd i mewn, yr hwn a ddaethai yn gyntaf at y bedd; ac a welodd, ac a gredodd. Canys hyd yn hyn ni wyddent yr ysgrythyr, fod yn rhaid iddo gyfodi o feirw. Yna y disgyblion a aethant ymaith drachefn at yr eiddynt.

Dydd Llun Pasg.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn, trwy dy unig-anedig Fab Iesu Grist, a orchfygaist angau, ac a agoraist i ni borth y bywyd tragwyddol; Yn ufudd yr attol-ygwn i ti, megis (trwy dy ras hyspysol yn ein rhag-flaenu) yr wyt yn peri deisyfiadau da i'n meddyliau; felly, trwy dy ddyfal gymmorth, allu o honom eu dwyn i berffeithrwydd cyflawn, trwy Iesu Grist ein Harglwydd; yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thydi a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw, heb drange na gorphen. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Act. x. 34.

PETR a agorodd ei enau, ac a ddywedodd, Yr wyf yn deall mewn gwirionedd, nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb; ond ym mhob cenhedl, y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sy gymmeradwy ganddo ef. Y gair yr hwn a anfonodd Duw i blant Israel, gan bregethu tangnefedd trwy Iesu Grist: (efe yw Arglwydd pawb oll;) chwychwi a wyddoch y gair a fu yn holl Judea, gan ddechreu o Galilea, wedi y bedydd a bregethodd Ioan: y modd yr enneiniodd Duw Iesu o Nazareth â'r Yspryd Glân, ac â nerth; yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni, ac iachâu pawb a'r oedd wedi eu gorthrymmu gan ddiabol: oblegid yr oedd Duw gyd âg ef. A ninnau ydym

but wrapped together in a place by itself. Then went in also that other disciple which came first to the sepulchre, and he saw, and believed. For as yet they knew not the Scripture, that he must rise again from the dead. Then the disciples went away again unto their own home.

Monday in Easter-week.

The Collect.

ALMIGHTY God, who through thy only-begotten Son Jesus Christ hast overcome death, and opened unto us the gate of everlasting life; We humbly beseech thee, that, as by thy special grace preventing us thou dost put into our minds good desires, so by thy continual help we may bring the same to good effect; through Jesus Christ our Lord, who liveth and reigneth with thee and the Holy Ghost, ever one God, world without end. *Amen.*

For the Epistle. Acts x. 34.

PETER opened his mouth, and said, Of a truth I perceive that God is no respecter of persons; but in every nation he that feareth him, and worketh righteousness, is accepted with him. The word which God sent unto the children of Israel, preaching peace by Jesus Christ; (he is Lord of all;) that word (I say) ye know, which was published throughout all Judæa, and began from Galilee, after the baptism which John preached: how God anointed Jesus of Nazareth with the Holy Ghost, and with power; who went about doing good, and healing all that were oppressed of the devil: for God was with him. And we are witnesses of all things which

dystion o'r pethau oll a wnaeth efe, yngwlad yr Iuddewon, ac yn Jerusalem; yr hwn a laddasant, ac a groeshoeliasant ar bren: hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd, ac a'i rhoddes ef i'w wneuthur yn amlwg; nid i'r bobl oll, eithr i'r tystion etholedig o'r blaen gan Dduw; sef i ni, y rhai a fwyttasom ac a yfasom gyd âg ef wedi ei adgyfodi ef o feirw. Ac efe a orchymynodd i ni bregethu i'r bobl, a thystiolaethu mai efe yw'r hwn a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr byw a meirw. I hwn y mae'r holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth, y derbyn pawb a gredo ynddo ef faddeuant pechodau, trwy ei Enw ef.

Yr Efengyl. St. Luc xxiv. 13.

WELÉ, dau o honynt oedd yn myned y dydd hwnnw i dref a'i lienw Emmäus, yr hon oedd ynghylch trugain ystâd oddi wrth Jerusalem. Ac yr oeddynt hwy yn ymddiddan â'u gilydd am yr holl bethau hyn a ddigwyddasant. A bu, fel yr oeddynt yn ymddiddan, ac yn ymofyn â'u gilydd, yr Iesu ei hun hefyd a nesaodd, ac a aeth gyd â hwynt. Eithr eu llygaid hwynt a attaliwyd, fel na's adwaenent ef. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa ryw ymadroddion yw y rhai hyn yr ydych yn eu bwrw at eu gilydd, dan rodio, ac yn wyneb-drist? Ac un o honynt, a'i enw Cleopas, gan ateb, a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn unig yn ymdeithydd yn Jerusalem, ac ni wybuost y pethau a wnaethpwyd ynddi hi yn y dyddiau hyn? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Pa bethau? Hwythau a ddywedasant wrtho, Y pethau ynghylch Iesu o Nazareth, yr hwn oedd wr o brophwyd galluog mewn gweithred a gair, ger bron Duw a'r holl

he did, both in the land of the Jews, and in Jerusalem; whom they slew, and hanged on a tree: Him God raised up the third day, and shewed him openly; not to all the people, but unto witnesses chosen before of God, even to us, who did eat and drink with him after he rose from the dead. And he commanded us to preach unto the people, and to testify that it is he who was ordained of God to be the Judge of quick and dead. To him give all the prophets witness, that through his Name whosoever believeth in him shall receive remission of sins.

The Gospel. St. Luke xxiv. 13.

BEHOLD, two of his disciples went that same day to a village called Emmaus, which was from Jerusalem about threescore furlongs. And they talked together of all these things which had happened. And it came to pass, that while they communed together, and reasoned, Jesus himself drew near, and went with them. But their eyes were holden, that they should not know him. And he said unto them, What manner of communications are these that ye have one to another, as ye walk, and are sad? And the one of them, whose name was Cleopas, answering, said unto him, Art thou only a stranger in Jerusalem, and hast not known the things which are come to pass there in these days? And he said unto them, What things? And they said unto him, Concerning Jesus of Nazareth, who was a prophet mighty in deed and word, before God and all the people: And how the chief priests and

Dydd Llun Pasg.

bobl; a'r modd y traddododd yr arch-offeiriad a'n llywodraethwyr ni ef i farn marwolaeth, ac a'i croeshoeliasant ef. Ond yr oeddym ni yn gobeithio mai efe oedd yr hwn a waredai'r Israel: ac heblaw hyn oll, heddyw yw'r trydydd dydd, er pan wnaethpwyd y pethau hyn. A hefyd, rhai gwagedd o honom ni a'n dychrynasant ni, gwedi iddynt fod yn fore wrth y bedd; a phan na chawsant ei gorph ef, lwy a ddaethant, gan ddywedyd, weled o honynt weledigaeth o angylion, y rhai a ddywedent ei fod ef yn fyw. A rhai o'r rhai oedd gyd â nynt a aethant at y bedd, ac a gawsant felly fel y dywedasai y gwagedd; ond ef ni's gwelsant. Ac efe a ddywedodd wrthynt, O ynfydion, a hwyrfrydig o galon i gredu'r holl bethau a ddywedodd y prophwydi! onid oedd raid i Grist ddiödddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant? A chan ddechreu ar Moses, a'r holl brophwydi, efe a esponiodd iddynt yn yr holl ysgrythyrau y pethau am dano ei hun. Ac yr oeddynt yn nesâu i'r dref lle yr oeddynt yn myned; ac yntau a gymmerth arno ei fod yn myned ym mhellach. A hwy a'i cymmellasant ef, gan ddywedyd, Aros gyd â ni; canys y mae hi yn hwyrhâu, a'r dydd yn darfod. Ac efe a aeth i mewn i aros gyd â hwynt. A darfu, ac efe yn eistedd gyd â hwynt, efe a gymmerodd fara, ac a'i bendithiodd, ac a'i torrodd, ac a'i rhoddes iddynt. A'u llygaid hwynt a agorwyd, a hwy a'i hadnabuant ef: ac efe a ddiffannodd allan o'u golwg hwynt. A hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Onid oedd ein calon ni yn llosgi ynom, tra'r ydoedd efe yn ymddiddan â ni ar y ffordd, a thra'r ydoedd efe yn agoryd i ni'r ysgrythyrau? A

our rulers delivered him to be condemned to death, and have crucified him. But we trusted that it had been he which should have redeemed Israel: and besides all this, to-day is the third day since these things were done. Yea, and certain women also of our company made us astonished, which were early at the sepulchre; and when they found not his body, they came, saying, that they had also seen a vision of angels, which said that he was alive. And certain of them which were with us went to the sepulchre, and found it even so as the women had said; but him they saw not. Then he said unto them, O fools, and slow of heart to believe all that the prophets have spoken: ought not Christ to have suffered these things, and to enter into his glory? And beginning at Moses, and all the prophets, he expounded unto them in all the Scriptures the things concerning himself. And they drew nigh unto the village whither they went; and he made as though he would have gone further: but they constrained him, saying, Abide with us, for it is towards evening, and the day is far spent. And he went in to tarry with them. And it came to pass, as he sat at meat with them, he took bread, and blessed it, and brake, and gave to them. And their eyes were opened, and they knew him, and he vanished out of their sight. And they said one to another, Did not our heart burn within us, while he talked with us by the way, and while he opened to us the Scriptures? And they rose up the same

Dydd Mawrth Pasg.

hwy a godasant yr awr honno, ac a ddychwelasant i Jerusalem, ac a gawsant yr un ar ddeg wedi ymgasglu ynghyd, a'r sawl oedd gyd â hwynt, yn dywedyd, Yr Arglwydd a gyfododd yn wir, ac a ymddangosodd i Simon. A hwythau a adroddasant y pethau a wnaethid ar y ffordd, a pha fodd yr adnabuwyd ef ganddynt wrth dorriad y bara.

Dydd Mawrth Pasg.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn, trwy dy unig-anedig Fab Iesu Grist, a orchfygaist angau, ac a agoraist i ni borth y bywyd tragywyddol; Yn ufudd yr attolgywn i ti, megis (trwy dy ras hyspysol yn ein rhag-flaenu) yr wyt yn peri deisyfiadau da i'n meddyliau; felly, trwy dy ddyfal gymmorth, allu o honom eudwyn i berffeithrwydd cyflawn, trwy Iesu Grist ein Harglwydd; yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thydi a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw, heb drange na gorphen. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Act. xiii. 26.

HA wŷr frodyr, plant o genedl Abraham, a'r rhai yn eich plith sydd yn ofni Duw, i chwi y danfonwyd gair yr iachawdwr-iaeth hon: canys y rhai oedd yn preswyllo yn Jerusalem, a'u tywysogion, heb adnabod hwn, na lleferydd y prophwydi y rhai a ddarllenid bob sabbath, gan ei farnu ef, a'u cyflawnasant. Ac er na chawsant ynddo ddim achos angau, hwy a ddymunasant ar Pilat ei ladd ef. Ac wedi iddynt gwblhâu pob peth a'r a ysgrifenasid am dano ef, hwy a'i disgynasant ef oddi ar y pren, ac a'i dodasant mewn bedd. Eithr Duw a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw: yr hwn a welwyd dros ddyddiau lawer gan yrhai a ddaethenti fynu

hour, and returned to Jerusalem, and found the eleven gathered together, and them that were with them, saying, The Lord is risen indeed, and hath appeared to Simon. And they told what things were done in the way, and how he was known of them in breaking of bread.

Tuesday in Easter-week.

The Colect.

ALMIGHTY God, who through thy only-begotten Son Jesus Christ hast overcome death, and opened unto us the gate of everlasting life; We humbly beseech thee, that, as by thy special grace preventing us thou dost put into our minds good desires, so by thy continual help we may bring the same to good effect; through Jesus Christ our Lord, who liveth and reigneth with thee and the Holy Ghost, ever one God, world without end. *Amen.*

For the Epistle. Acts xiii. 26.

MEN and brethren, children of the stock of Abraham, and whosoever among you feareth God, to you is the word of this salvation sent. For they that dwell at Jerusalem, and their rulers, because they knew him not, nor yet the voices of the prophets which are read every sabbath-day, they have fulfilled them in condemning him. And though they found no cause of death in him, yet desired they Pilate that he should be slain. And when they had fulfilled all that was written of him, they took him down from the tree, and laid him in a sepulchre. But God raised him from the dead: and he was seen many days of them which came up with him

gyd âg ef o Galilea i Jerusalem, y rhai sy dystion iddo wrth y bobl. Ac yr ydym ni yn efangylu i chwi yr addewid a wnaed i'r tadau, ddarfod i Dduw gyflawni hwn i ni eu plant hwy, gan iddo adgyfodi'r Iesu: megis ag yr ysgrifenyd yn yr ail Psalm, Fy Mab i ydwyt ti; myfi heddyw a'th genhedlais. Ac am iddo ei gyfodi ef o'r meirw, nid i ddychwelyd mwy i lygredigaeth, y dywedodd fel hyn; Rhoddaf i chwi sicr drugareddau Dafydd. Ac am hynny y mae yn dywedyd mewn Psalm arall, Ni adewi i'th Sanct weled llygredigaeth. Canys Dafydd, wedi iddo wasanaethu ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, a hunodd, ac a ddodwyd at ei dadau, ac a welodd lygredigaeth. Eithr yr hwn a gyfododd Duw, ni welodd lygredigaeth. Am hynny bydded hyspys i chwi, ha wŷr frodyr, mai trwy hwn yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau. A thrwy hwn y cyfiawnhêir pob un sydd yn credu, oddi wrth yr holl bethau y rhai ni allech trwy gyfraith Moses gael eich cyfiawnhâu oddi wrthynt. Gwylwch gan hynny, na ddêl arnoch y peth a ddywedwyd yn y prophwydi; Edrychwch, O ddirmygwŷr, a rhyfeddwch, a diflennwch: canys yr wyf yn gwneuthur gweithred yn eich dyddiau, gwaith ni chredwch ddim, er i neb ei ddangos i chwi.

Yr Efengyl. St. Luc xxiv. 36.

YR Iesu ei hun a safodd ynghanol ei ddisgyblion, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chwi. Hwythau, wedi brawychu, ac ofni, a dybiasant weled o honynt yspryd. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Paham y'ch tralodir? a phaham y mae meddyliau yn codi yn eich calonnau?

from Galilee to Jerusalem, who are his witnesses unto the people. And we declare unto you glad tidings, how that the promise which was made unto the fathers, God hath fulfilled the same unto us their children, in that he hath raised up Jesus again; as it is also written in the second Psalm, Thou art my Son, this day have I begotten thee. And as concerning that he raised him up from the dead, now no more to return to corruption, he said on this wise, I will give you the sure mercies of David. Wherefore he saith also in another Psalm, Thou shalt not suffer thine Holy One to see corruption. For David, after he had served his own generation by the will of God, fell on sleep, and was laid unto his fathers, and saw corruption: But he whom God raised again saw no corruption. Be it known unto you therefore, men and brethren, that through this man is preached unto you the forgiveness of sins: and by him all that believe are justified from all things, from which ye could not be justified by the law of Moses. Beware therefore, lest that come upon you which is spoken of in the prophets; Behold, ye despisers, and wonder, and perish: for I work a work in your days, a work which ye shall in no wise believe, though a man declare it unto you.

The Gospel. St. Luke xxiv. 36.

JESUS himself stood in the midst of them, and saith unto them, Peace be unto you. But they were terrified and affrighted, and supposed that they had seen a spirit. And he said unto them, Why are ye troubled, and why do thoughts arise in your hearts? Behold

Y Sul cyntaf gwedi'r Pasg.

Edrychwch fy nwyllaw a'm traed, mai myfi fy hun ydyw: teimlwch fi, a gwelwch; canys nid oes gan yspryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod gennyf fi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangosodd iddynt ei ddwyllaw a'i draed. Ac, a hwy etto heb gredu gan lawenydd, ac yn rhyfeddu, efe a ddywedodd wrthynt, A oes gennyh chwi yma ddim bwyd? A hwy a roisant iddo ddarn o bysgodyn wedi ei rostio, ac o ddil mel. Yntau a'i cymmerodd, ac a'i bwytaodd yn eu gŵydd hwynt. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Dyma'r geiriau a ddywedais i wrthyh, pan oeddw etto gyd â chwi, bod yn rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenyd ynghyfraith Moses, a'r Prophwydi, a'r Psalmu, am danaf fi. Yna yr agorodd efe eu deall hwynt, fel y deallent yr ysgrhythrau. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Felly yr ysgrifenyd, ac felly yr oedd raid i Grist ddiodes, a chyfodi o feirw y trydydd dydd; a phregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw ef ym mhllith yr holl genhedloedd, gan ddechreu yn Jerusalem. Ac yr ydyh chwi yn dystion o'r pethau hyn.

Y Sul cyntaf gwedi'r Pasg.

Y Colect.

HOLL-alluog Dad, yr hwn a roddaist dy un Mab i farw dros ein pechodau, ac i gyfodi drachefn er ein cyfiawnhâd; Caniattâ i ni felly fwrw ymaith surdoes drygioni ac anwiredd, fel y gallom yn wastad dy wasanaethu di mewn purdeb buchedd a gwirionedd; trwy haeddedigaethau dy un Mab Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Fr Epistol. 1 St. Ioan v. 4.

BETH bynnag a aned o Dduw, by mae yn gorchfygu'r byd;

my hands and my feet, that it is I myself: handle me, and see; for a spirit hath not flesh and bones, as ye see me have. And when he had thus spoken, he shewed them his hands and his feet. And while they yet believed not for joy, and wondered, he said unto them, Have ye here any meat? And they gave him a piece of a broiled fish, and of an honey-comb. And he took it, and did eat before them. And he said unto them, These are the words which I spake unto you, while I was yet with you, that all things must be fulfilled which were written in the law of Moses, and in the Prophets, and in the Psalms concerning me. Then opened he their understanding, that they might understand the Scriptures, and said unto them, Thus it is written, and thus it behoved Christ to suffer, and to rise from the dead the third day; and that repentance and remission of sins should be preached in his Name among all nations, beginning at Jerusalem. And ye are witnesses of these things.

The first Sunday after Easter.

The Colect.

ALMIGHTY Father, who hast given thine only Son to die for our sins, and to rise again for our justification; Grant us so to put away the leaven of malice and wickedness, that we may alway serve thee in pureness of living and truth; through the merits of the same thy Son Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. 1 St. John v. 4.

WHATSOEVER is born of God overcometh the

Y Sul cyntaf gwedi'r Pasg.

a hon yw'r oruchafiaeth sydd yn gorchfygu'r byd, sef ein ffydd ni. Pwy yw'r hwn sydd yn gorchfygu'r byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw? Dyma yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, sef Iesu Grist; nid trwy ddwfr yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed: a'r Yspryd yw'r hwn sydd yn tystiolaethu; oblegid yr Yspryd sydd wirionedd. Oblegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Yspryd Glân: a'r tri hyn un ydynt. Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear; yr yspryd, a'r dwfr, a'r gwaed: a'r tri hyn, yn un y maent yn cyttuno. Os tystiolaeth dynion yr ydym yn ei dderbyn, y mae tystiolaeth Duw yn fwy: canys hyn yw tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab. Yr hwn sydd yn credu ym Mab Duw, sy ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun: yr hwn nid yw yn credu i Dduw, a'i gwnaeth ef yn gelwyddog; oblegid na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab. A hon yw'r dystiolaeth; Roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol: a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef. Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd.

Yr Efengyl. St. Ioan xx. 19.

YNA, a hi yn hwyr, y dydd cyntaf hwnnw o'r wythnos, a'r drysau yn gauad, lle yr oedd y disgyblion wedi ymgasglu yng-hyd rhag ofn yr Iuddewon, daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, Tangnefedd i chi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a ddangosodd iddynt ei ddwyllaw a'i ystlys. Yna'r disgyblion a lawenychasant, pan welsant yr Arglwydd. Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt drachefn, Tangnefedd i chi:

world; and this is the victory that overcometh the world, even our faith. Who is he that overcometh the world, but he that believeth that Jesus is the Son of God? This is he that came by water and blood, even Jesus Christ; not by water only, but by water and blood: and it is the Spirit that beareth witness, because the Spirit is truth. For there are three that bear record in heaven, the Father, the Word, and the Holy Ghost: and these three are one. And there are three that bear witness in earth, the spirit, and the water, and the blood: and these three agree in one. If we receive the witness of men, the witness of God is greater: for this is the witness of God, which he hath testified of his Son. He that believeth on the Son of God hath the witness in himself: he that believeth not God hath made him a liar, because he believeth not the record that God gave of his Son. And this is the record, that God hath given to us eternal life; and this life is in his Son. He that hath the Son hath life; and he that hath not the Son hath not life.

The Gospel. St. John xx. 19.

THE same day at evening, being the first day of the week, when the doors were shut, where the disciples were assembled for fear of the Jews, came Jesus and stood in the midst, and saith unto them, Peace be unto you. And when he had so said, he shewed unto them his hands and his side. Then were the disciples glad when they saw the Lord. Then said Jesus to them again, Peace be unto you: As my

Yr ail Sul gwedi'r Pasg.

megis y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a anadlodd arnynt, ac a ddywedodd wrthynt, Derbyniwch yr Yspryd Glân. Pwy bynnag y maddeuoch eu pechodau, madd-euir iddynt; a'r eiddo pwy bynnag a attalioch, hwy a attaliwyd.

Yr ail Sul gwedi'r Pasg.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn a roddaist dy un Mab i ni yn aberth dros bechod, ac hefyd yn esampl o fuchedd dduwiol; Dyro i ni ras, fel y gallom byth yn ddiolchgar dderbyn ei an-nhraethol lesâd hynny; ac hefyd beunydd ymrôi i ganlyn bendig-edig lwybrau ei wir lanaf fuchedd ef; trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. 1 St. Petr ii. 19.

HYN sy rasol, os yw neb ho herwydd cydwybod i Dduw yn dwyn tristwch, gan ddiöddef ar gam. Oblegid pa glod yw, os pan bechoch, a chael eich cernodio, y byddwch dda eich amynedd? eithr os, a chwi yn gwneuthur yn dda, ac yn diöddef, y byddwch dda eich amynedd, hyn sy rasol ger bron Duw. Canys i hyn y'ch galwyd hefyd; oblegid Crist yntau a ddiöddefodd drosom ni, gan adael i ni esampl, fel y canlynech ei ol ef: yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau: yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddiöddefodd, ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn: yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren; fel, gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder: trwy gleisiau yr hwn yr iachawyd chwi. Canys yr oeddych megis defaid yn myned ar gyfeiliorn; eithr

Father hath sent me, even so send I you. And when he had said this, he breathed on them, and saith unto them, Receive ye the holy Ghost. Whosoever sins ye remit, they are remitted unto them; and whosoever sins ye retain, they are retained.

The second Sunday after Easter.

The Collect.

ALMIGHTY God, who hast given thine only Son to be unto us both a sacrifice for sin, and also an ensample of godly life; Give us grace that we may always most thankfully receive that his inestimable benefit, and also daily endeavour ourselves to follow the blessed steps of his most holy life; through the same Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. 1 St. Pet. ii. 19.

THIS is thank-worthy, if a man for conscience toward God endure grief, suffering wrongfully. For what glory is it, if, when ye be buffeted for your faults, ye shall take it patiently? But if, when ye do well, and suffer for it, ye take it patiently; this is acceptable with God. For even hereunto were ye called: because Christ also suffered for us, leaving us an example, that ye should follow his steps: who did no sin, neither was guile found in his mouth: who, when he was reviled, reviled not again; when he suffered, he threatened not; but committed himself to him that judgeth righteously: who his own self bare our sins in his own body on the tree, that we, being dead to sins, should live unto righteousness: by whose stripes ye were healed. For ye were as sheep going astray; but are now returned unto the

Y trydydd Sul gwedi'r Pasg.

yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Esgob eich eneidiau.

Yr Efengyl. St. Ioan x. 11.

CRIST a ddywedodd, Myfi sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid. Eithr y gwas cyflog, a'r hwn nid yw fugail, yr hwn nid eiddo y defaid, sydd yn gwled y blaidd yn dyfod, ac yn gadael y defaid, ac yn ffoi; a'r blaidd sydd yn eu hysglyfio hwy, ac yn tarfu'r defaid. Y mae'r gwas cyflog yn ffoi, oblegid mai gwas cyflog yw, ac nid oes ofal arno am y defaid. Myfi yw'r bugail da; ac a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadweinir gan yr eiddof fi. Fel yr edwyn y Tad fyfi, felly yr adwaen innau y Tad: ac yr ydwyf yn rhoddi fy einioes dros y defaid. A defaid eraill sy gennyf, y rhai nid ynt o'r gorlan hon: y rhai hynny hefyd sy raid i mi eu cyrchu; a'm llais i a wrandawant; a bydd un gorlan, ac un bugail.

Y trydydd Sul gwedi'r Pasg.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn wyt yn dangos i'r sawl sydd ar gyfeiliorn, lewyrch dy wirionedd, er eu dwyn i ffordd cyfiawnder; Caniattâ i bawb a dderbynier i gymdeithas Crefydd Grist, allu o honynt ochelyd y cyfryw bethau a'r y sydd wrthwyneb i'w proffes, a chanlyn y sawl bethau oll a'r a fyddo yn cyttuno â'r unrhyw; trwy ein Harglwydd Iesu Grist. *Amen.*

Yr Epistol. 1 St. Petr ii. 11.

ANWYLYD, yr wyf yn attolwg i chwi, megis dieithriaid a phererinion, ymgedwch oddi wrth chwantau cnawdol, y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid; gan fod â'ch ymarweddiad yn onest ym mysg y Cenhedloedd; fel, lle maent yn

Shepherd and Bishop of your souls.

The Gospel. St. John x. 11.

JESUS said, I am the good shepherd: the good shepherd giveth his life for the sheep. But he that is an hireling, and not the shepherd, whose own the sheep are not, seeth the wolf coming, and leaveth the sheep, and fleeth; and the wolf catcheth them, and scattereth the sheep. The hireling fleeth, because he is an hireling, and careth not for the sheep. I am the good shepherd, and know my sheep, and am known of mine. As the Father knoweth me, even so know I the Father: and I lay down my life for the sheep. And other sheep I have, which are not of this fold; them also I must bring, and they shall hear my voice; and there shall be one fold, and one shepherd.

The third Sunday after Easter.

The Collect.

ALMIGHTY God, who shewest to them that be in error the light of thy truth, to the intent that they may return into the way of righteousness; Grant unto all them that are admitted into the fellowship of Christ's Religion, that they may eschew those things that are contrary to their profession, and follow all such things as are agreeable to the same; through our Lord Jesus Christ. *Amen.*

The Epistle. 1 St. Pet. ii. 11.

DEARLY beloved, I beseech you as strangers and pilgrims, abstain from fleshly lusts, which war against the soul; having your conversation honest among the Gentiles; that, whereas they speak against you as evil doers, they

eich goganu megis drwg-weithredwyr, y gallont, o herwydd eich gweithredoedd da a welant, ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad. Ymddarostyngwch oblegid hyn i bob dynol ordinhâd, o herwydd yr Arglwydd: pa un bynnag ai i'r brenhin, megis goruchaf; ai i'r llywiawdwyr, megis trwyddo ef wedi eu danfon, er dial ar y drwg-weithredwyr, a mawl i'r gweithredwyr da. Canys felly y mae ewyllys Duw, fod i chwi, trwy wneuthur daioni, ostegu anwybedaeth dynion ffolion: megis yn rhyddion, ac nid â rhyddid gennyh megis cochl malais; eithr fel gwasanaethwyr Duw. Perchwch bawb. Cerwch y brawdoliaeth. Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y brenhin.

Yr Efengyl. St. Ioan xvi. 16.

YR Iesu a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn, ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch: am fy mod yn myned at y Tad. Am hynny y dywedodd rhai o'i ddisgyblion wrth eu gilydd, Beth yw hyn y mae efe yn ei ddywedyd wrthym, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn, ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch; ac, Am fy mod yn myned at y Tad? Am hynny hwy a ddywedasant, Beth yw hyn y mae efe ynei ddywedyd, Ychydig ennyd? ni wyddom ni beth y mae efe yn ei ddywedyd. Yna y gwybu'r Iesu eu bod hwy yn ewyllysio gofyn iddo; ac a ddywedodd wrthynt, Ai ymofyn yr ydych â'ch gilydd am hyn, oblegid i mi ddywedyd, Ychydig ennyd, ac ni'm gwelwch; a thrachefn, ychydig ennyd, a chwi a'm gwelwch? Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Chwi a wylwch, ac a alerwch; a'r byd a lawenycha: eithr chwi a fyddwch dristion, ond eich tristwch a droir yn llawenydd. Gwraig wrth

may, by your good works which they shall behold, glorify God in the day of visitation. Submit yourselves to every ordinance of man for the Lord's sake; whether it be to the King, as supreme; or unto governors, as unto them that are sent by him, for the punishment of evil doers, and for the praise of them that do well. For so is the will of God, that with well-doing ye may put to silence the ignorance of foolish men: as free, and not using your liberty for a cloke of maliciousness; but as the servants of God. Honour all men. Love the brotherhood. Fear God. Honour the King.

The Gospel. St. John xvi. 16.

JESUS said to his disciples, A little while and ye shall not see me; and again, a little while and ye shall see me; because I go to the Father. Then said some of his disciples among themselves, What is this that he saith unto us, A little while and ye shall not see me; and again, a little while and ye shall see me; and, Because I go to the Father? They said therefore, What is this that he saith, A little while? we cannot tell what he saith. Now Jesus knew that they were desirous to ask him, and said unto them, Do ye enquire among yourselves of that I said, A little while and ye shall not see me; and again, a little while and ye shall see me? Verily, verily I say unto you, That ye shall weep and lament, but the world shall rejoice: and ye shall be sorrowful, but your sorrow shall be turned into joy. A woman, when she is in travail, hath sorrow, because her

Y pedwerydd Sul gwedi'r Pasg.

esgor sydd mewn tristwch, am ddyfod ei hawr : eithr wedi geni y plentyn, nid yw hi yn cofio ei gofid mwyach, gan lawenydd geni dyn i'r byd. A chwithau am hynny ydych yr awrhon mewn tristwch : eithr mi a ymwelaf â chwi drachefn ; a'ch calon a lawenycha, a'ch llawenydd ni ddwg neb oddi arnoch.

Y pedwerydd Sul gwedi'r Pasg.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn yn unig biau llywodraethu afreolus chwantau a gwýniau dynion pechadurus ; Caniattâ i'th bobl, fod iddynt garu yr hyn yr wyt yn ei orchymyn, a deisyfu yr hyn yr wyt yn ei addaw ; fel, ym mhlith amrywiol ac aml ddamweiniau 'r byd, y gallo'n calonnau gwbl aros yno lle y mae gwir lawenydd i'w gaffael ; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. St. Iago i. 17.

POB rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddi wrth Dad y goleuni, gyd â'r hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod tröedigaeth. O'i wir ewylls yr ynillodd efe nyny, trwy air y gwirionedd, fel y byddem ryw flaenffrwyth o'i greaduriaid ef. O achos hyn, fy mrodyr anwyl, bydded pob dyn esgud i wrando, dïog i lesaru, dïog i ddigofaint. Canys digofaint gwr nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw. O herwydd paham, rhoddwch heibio bob budreddi, a helaethrwydd malais ; a thrwy addfwynnder derbyniwch yr impiedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau.

Yr Efengyl. St. Ioan xvi. 5.

YR Iesu a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Yn awr yr wyt yn myned at yr hwn a'm hanfon-

hour is come : but as soon as she is delivered of the child, she remembereth no more the anguish, for joy that a man is born into the world. And ye now therefore have sorrow : but I will see you again, and your heart shall rejoice, and your joy no man taketh from you.

The fourth Sunday after Easter.

The Colect.

O Almighty God, who alone canst order the unruly wills and affections of sinful men ; Grant unto thy people, that they may love the thing which thou commandest, and desire that which thou dost promise ; that so, among the sundry and manifold changes of the world, our hearts may surely there be fixed, where true joys are to be found ; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. St. James i. 17.

EVERY good gift, and every perfect gift is from above, and cometh down from the Father of lights, with whom is no variableness, neither shadow of turning. Of his own will begat he us with the Word of truth, that we should be a kind of first-fruits of his creatures. Wherefore, my beloved brethren, let every man be swift to hear, slow to speak, slow to wrath ; for the wrath of man worketh not the righteousness of God. Wherefore lay apart all filthiness and superfluity of naughtiness, and receive with meekness the engrafted Word, which is able to save your souls.

The Gospel. St. John xvi. 5.

JESUS said unto his disciples, Now I go my way to him that sent me, and none of you

Y pummed Sul gwedi'r Pasg.

odd ; ac nid yw neb o honoch yn gofyn i mi, I ba le yr wyt ti yn myned ? eithr am i mi ddywedyd y pethau hyn i chwi, tristwch a lanwodd eich calon. Ond yr wyf fi yn dywedyd gwirionedd i chwi ; Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith : canys onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd attoch ; eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf ef attoch. A phan ddêl, efe a argyocdda'r byd o bechod, ac o gyfiawnder, ac o farn : o bechod, am nad ydynt yn credu ynof fi ; o gyfiawnder, am fy mod yn myned at fy Nhad, ac ni'm gwelwch i mwyach ; o farn, oblegid tywysog y byd hwn a farnwyd. Y mae gennyf etto lawer o bethau i'w dywedyd i chwi, ond ni ellwcheu dwyn yr awrhon. Ond pan ddêl efe, sef Yspryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd : canys ni lefara o hono ei hun ; ond pa bethau bynnag a glywo, a lefara efe, a'r pethau sydd i ddyfod a fynega efe i chwi. Efe a'm gogonedda i : canys efe a gymmer o'r eiddof, ac a'i mynega a chwi. Yr holl bethau sydd eiddo'r Tad, ydynt eiddof fi : o herwydd hyn y dywedais, mai o'r eiddof fi y cymmer, ac y mynega i chwi.

Y pummed Sul gwedi'r Pasg.

Y Colect.

O Arglwydd, oddi wrth ba un o y daw pob daioni ; Caniattâ i ni, dy ufudd weision, allu o honom, trwy dy sanctaidd ysprydoliaeth di, feddwl y pethau a fo union ; a thrwy dy drugarog dywysiad gyflawni yr unrhyw ; trwy ein Harglwydd Iesu Grist. *Amen.*

Yr Epistol. St. Iago i. 22.

BYDDWCH wneuthurwyr y gair, ac nid gwrandawr yn unig, gan eich twyllo eich hunain. Oblegid os yw neb yn wrandâwr

asketh me, Whither goest thou ? But, because I have said these things unto you, sorrow hath filled your heart. Nevertheless, I tell you the truth ; it is expedient for you that I go away : for if I go not away, the Comforter will not come unto you ; but if I depart, I will send him unto you. And when he is come, he will reprove the world of sin, and of righteousness, and of judgement : of sin, because they believe not on me ; of righteousness, because I go to my Father, and ye see me no more ; of judgement, because the prince of this world is judged. I have yet many things to say unto you, but ye cannot bear them now. Howbeit, when he, the Spirit of truth, is come, he will guide you into all truth : for he shall not speak of himself ; but whatsoever he shall hear, that shall he speak : and he will shew you things to come. He shall glorify me : for he shall receive of mine, and shall shew it unto you. All things that the Father hath are mine : therefore said I, that he shall take of mine, and shall shew it unto you.

The fifth Sunday after Easter.

The Colect.

O Lord, from whom all good things do come ; Grant to us thy humble servants, that by thy holy inspiration we may think those things that be good, and by thy merciful guiding may perform the same ; through our Lord Jesus Christ. *Amen.*

The Epistle. St. James i. 22.

BE ye doers of the Word, and not hearers only, deceiving your own selves. For if any be a hearer of the Word,

Y pummed Sul gwedi'r Pasg.

y gair, ac heb fod yn wneuthurwr, y mae hwn yn debyg i wr yn edrych ei wynebpryd naturiol mewn drych. Canys efe a'i hedrychodd ei hun, ac a aeth ymaith, ac yn y man efe a anghofiodd pa fath ydoedd. Eithr yr hwn a edrych ar berffaith gyfraith rhyddid, ac a barhao ynddi, hwn, heb fod yn wrandâwr anghofus, ond gwneuthurwr y weithred, efe a fydd dedwydd yn ei weithred. Os yw neb yn eich mysg yn cymneryd arno fod yn grefyddol, heb attal ei dafod, ond twyll-o ei galon ei hun, ofer yw crefydd hwn. Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad, yw hyn; Ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrych-eulyd oddi wrth y byd.

Yr Efengyl. St. Ioan xvi. 23.

YN wir, yn wir, meddaf i chwi, Pa bethau bynnag a ofynoch i'r Tad yn fy Enw, efe a'u rhydd i chwi. Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim yn fy Enw i: gofynwch, a chwi a gewch; fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn. Y pethau hyn a leferais wrthych mewn damhegion: eithr y mae yr awr yn dyfod pan na leferwyf wrthych mewn damhegion mwyach, eithr y mynegaf i chwi yn eglur am y Tad. Y dydd hwnnw y gofynwch yn fy Enw: ac nid wyf yn dywedyd i chwi y gweddiaf fi ar y Tad trosoch; canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi, am i chwi fy ngharu i, a chredu fy nyfod i allan oddi wrth Dduw. Mi a ddaethum allan oddi wrth y Tad, ac a ddaethum i'r byd: trachefn, yr wyf yn gadael y byd, ac yn myned at y Tad. Ei ddisgyblion a ddywedasant wrtho, Wele, yr wyt ti yn awr yn dywedyd yn eglur, ac nid wyt yn dywedyd un ddammeg. Yn awr y gwyddom y

and not a doer, he is like unto a man beholding his natural face in a glass. For he beholdeth himself, and goeth his way, and straightway forgetteth what manner of man he was. But whoso looketh into the perfect law of liberty, and continueth therein, he being not a forgetful hearer, but a doer of the work, this man shall be blessed in his deed. If any man among you seem to be religious, and bridleth not his tongue, but deceiveth his own heart, this man's religion is vain. Pure religion, and undefiled before God and the Father, is this, To visit the fatherless and widows in their affliction, and to keep himself unspotted from the world.

The Gospel. St. John xvi. 23.

VERILY, verily I say unto you, Whatsoever ye shall ask the Father in my Name, he will give it you. Hitherto have ye asked nothing in my Name: ask, and ye shall receive, that your joy may be full. These things have I spoken unto you in proverbs: the time cometh when I shall no more speak unto you in proverbs, but I shall shew you plainly of the Father. At that day ye shall ask in my Name: and I say not unto you, that I will pray the Father for you; for the Father himself loveth you, because ye have loved me, and have believed that I came out from God. I came forth from the Father, and am come into the world: again, I leave the world, and go to the Father. His disciples said unto him, Lo, now speakest thou plainly, and speakest no proverb. Now are we sure that thou knowest all things, and needest not that any man

Dydd Iou y Dyrchafael.

gwyddost bob peth, ac nid rhaid it' ymofyn o neb â thi: wrth hyn yr ydym yn credu ddyfod o honot allan oddi wrth Dduw. Yr Iesu a'u hattebodd hwynt, A ydych chwi yn awr yn credu? Wele, y mae'r awr yn dyfod, ac yr awrhon hi a ddaeth, y gwasgerir chwi bob un at yr eiddo, ac y gadêwch fi yn unig: ac nid wyf yn unig, oblegid y mae y Tad gyd â myfi. Y pethau hyn a ddywedais wrthyich, fel y caffech dangnuffedd ynof. Yn y byd gorthrymder a gewch; eithr cymmerwch gysur, myfi a orchfygais y byd.

Dydd Iou y Dyrchafael.

Y Colect.

CANIATTA, ni a attolygwn i ti, Holl-alluog Dduw, megis ag yr ym ni yn credu ddarfod i'th unig-anedig Fab ein Harglwydd Iesu Grist ddyrchafael i'r nefoedd; felly bod i ninnau â meddylfryd ein calon ymddyrchafael yno, a thrigo yn wastadol gyd âg ef, yr hwn sy'n byw ac yn teyrnasu gyd â thi a'r Yspryd Glân, yn un Duw, heb drange na gorphen. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Act. i. 1.

YTraethawd cyntaf a wnaethum, O Theophilus, am yr holl bethau a ddechreuodd yr Iesu eu gwneuthur a'u dysgu, hyd y dydd y derbyniwyd ef i fynu, wedi iddo trwy yr Yspryd Glân roddi gorchymynion i'r apostolion a etholasai. I'r rhai hefyd yr ymddangosodd efe yn fyw wedi iddo ddioddef, trwy lawer o arwyddion sicr, gan fod yn weledig iddynt tros ddeugain niwrnod, a dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw. Ac wedi ymgynnull gyd â hwynt, efe a orchymynodd iddynt, nad ymadawent o Jerusalem, eithr disgwyl am addewid y Tad, yr hwn, eb efe, a glywsoch gennyf fi.

should ask thee: by this we believe that thou camest forth from God. Jesus answered them, Do ye now believe? Behold, the hour cometh, yea, is now come, that ye shall be scattered every man to his own, and shall leave me alone: and yet I am not alone, because the Father is with me. These things I have spoken unto you, that in me ye might have peace. In the world ye shall have tribulation; but be of good cheer, I have overcome the world.

The Ascension-day.

The Colect.

GRANT, we beseech thee, Almighty God, that like as we do believe thy only-begotten Son our Lord Jesus Christ to have ascended into the heavens; so we may also in heart and mind thither ascend, and with him continually dwell, who liveth and reigneth with thee and the Holy Ghost, one God, world without end. *Amen.*

For the Epistle. Acts i. 1.

THE former treatise have I made, O Theophilus, of all that Jesus began both to do and teach, until the day in which he was taken up, after that he through the Holy Ghost had given commandments unto the Apostles whom he had chosen: to whom also he shewed himself alive after his passion, by many infallible proofs; being seen of them forty days, and speaking of the things pertaining to the Kingdom of God: and, being assembled together with them, commanded them that they should not depart from Jerusalem, but wait for the promise of the Father, which,

Oblegid Ioan yn ddiâu a fedydd-iodd â dwfr; ond chwi a fedyddir â'r Yspryd Glân cyn nemmawr o ddyddiau. Gan hynny wedi eu dyfod hwy ynghyd, hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Arglwydd, ai 'r pryd hwn y rhoddi drachefn y frenhiniaeth i Israel? Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd, na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun. Eithr chwi a dderbyniwch nerth yr Yspryd Glân, wedi y delo efe arnoch; ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear. Ac wedi iddo ddywedyd y pethau hyn, a hwynt-hwy yn edrych, efe a ddyrchafwyd i fynu; a chwmmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt. Ac fel yr oeddynt yn edrych yn ddyfal tu a'r nef, ac efe yn myned i fynu, wele, dau wr a safodd ger llaw iddynt mewn gwisg wen; y rhai hefyd a ddywedasant, Chwi wŷr o Galilea, paham y sefwich yn edrych tu a'r nef? Yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fynu oddi wrthynt i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef.

Yr Efengyl. St. Marc xvi. 14.

YR Iesu a ymddangosodd i'r un ar ddeg, a hwynt yn eistedd i fwyta; ac a ddannododd iddynt eu hanghrediniaeth a'u calon-galedwch, am na chredasant y rhai a'i gwelsent ef wedi adgyfodi. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur. Y neb a gredo, ac a fedyddier, a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo a gondemnir. A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a gredant; Yn fy enw i y bwriant allan gythreuliaid: ac â thafodau newyddion y llefant;

saith he, ye have heard of me. For John truly baptized with water, but ye shall be baptized with the Holy Ghost not many days hence. When they therefore were come together, they asked of him, saying, Lord, wilt thou at this time restore again the kingdom to Israel? And he said unto them, It is not for you to know the times or the seasons, which the Father hath put in his own power. But ye shall receive power after that the Holy Ghost is come upon you; and ye shall be witnesses unto me, both in Jerusalem, and in all Judæa, and in Samaria, and unto the uttermost part of the earth. And when he had spoken these things, while they beheld, he was taken up, and a cloud received him out of their sight. And while they looked steadfastly toward heaven, as he went up, behold, two men stood by them in white apparel; which also said, Ye men of Galilee, why stand ye gazing up into heaven? This same Jesus, which is taken up from you into heaven, shall so come, in like manner as ye have seen him go into heaven.

The Gospel. St. Mark xvi. 14.

JESUS appeared unto the eleven as they sat at meat, and upbraided them with their unbelief and hardness of heart, because they believed not them which had seen him after he was risen. And he said unto them, Go ye into all the world, and preach the Gospel to every creature. He that believeth and is baptized shall be saved; but he that believeth not shall be damned. And these signs shall follow them that believe: In my Name shall they cast out devils; they shall speak with

Y Sul ar ol Dydd y Dyrchafael.

seirph a godant ymaith; ac os yfant ddim marwol, ni wna iddynt ddim niweid; ar y cleifion y rhoddant eu dwylaw, a hwy a fyddant iach. Ac felly yr Arglwydd, wedi llefaru wrthynt, a gymmerwyd i fynu i'r nef, ac a eisteddodd ar ddeheulaw Dduw. A hwythau a aethant allan, ac a bregethasant ym mhob man, a'r Arglwydd yn cyd-weithio, ac yn cadarnhau'r gair trwy arwyddion y rhai oedd yn canlyn.

Y Sul ar ol Dydd y Dyrchafael.

Y Colect.

O Dduw, Brenhin y gogoniant, yr hwn a ddyrchafaist dy un Mab Iesu Grist â mawr oruchafiaeth i'th deyrnas yn y nefoedd; Attolwg i ti, na âd ni yn anniddan; eithr danfon i ni dy Yspryd Glân i'n diddanu, a dyrcha ni i'r un fan lle yr aeth ein Hiachawdwr Crist o'r blaen; yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thi a'r Yspryd Glân, yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

Yr Epistol. 1 St. Petr. iv. 7.

DIWEDD pob peth a nesaodd; am hynny byddwch sobr, a gwyliadwrus i weddiâu. Eithr o flaen pob peth bydded gennych gariad helaeth tu ag at eich gilydd: canys cariad a guddia liaws o bechodau. Byddwch letteugar y naill i'r llall heb rwgnach. Pob un, megis y derbyniodd rodd, cyfrennwch â'ch gilydd, fel daionus oruchwylwyr amryw ras Duw. Os llefaru a wna neb, llefared megis geiriau Duw; os gweini y mae neb, gwnaed megis o'r gallu y mae Duw yn ei roddi: fel ym mhob peth y gogonedder Duw trwy Iesu Grist; i'r hwn y byddo'r gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. *Amen.*

new tongues; they shall take up serpents; and if they drink any deadly thing, it shall not hurt them; they shall lay hands on the sick, and they shall recover. So then after the Lord had spoken unto them, he was received up into heaven, and sat on the right hand of God. And they went forth and preached every where, the Lord working with them, and confirming the Word with signs following.

Sunday after Ascension-day.

The Collect.

O God the King of glory, who hast exalted thine only Son Jesus Christ with great triumph unto thy kingdom in heaven; We beseech thee, leave us not comfortless; but send to us thine Holy Ghost to comfort us, and exalt us unto the same place whither our Saviour Christ is gone before, who liveth and reigneth with thee and the Holy Ghost, one God, world without end. *Amen.*

The Epistle. 1 St. Pet. iv. 7.

yma ryw fachgennyn, a chanddo bùm torth haidd, a dau bysgodyn: ond beth yw hynny rhwng cynnifer? A'r Iesu a ddywedodd, Perwch i'r dynion eistedd i lawr. Ac yr oedd glaswellt lawer yn y fan honno. Felly y gwyr a eisteddasant i lawr, ynghylch pum mil o nifer. A'r Iesu a gymmerth y torthau; ac wedi iddo ddiolch, efe a'u rhannodd i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r rhai oedd yn eistedd: felly hefyd o'r pysgod, cymmaint ag a fynnasant. Ac wedi eu digoni hwynt, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim. Am hynny hwy a'u casglasant; ac a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briw-fwyd, o'r pum torth haidd, a weddillasai gan y rhai a fwyttasant. Yna y dynion, pan welsant yr arwydd a wnaethai'r Iesu, a ddywedasant, Hwn yn ddiau yw y Prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd.

¶ *O bydd ychwaneg o Suliau o flaen Sul yr Adfent, cymnerer Gwasanaeth rhai o'r Suliau a adawyd heb ddarllen ar ol yr Ystwyll, i gyflawni cynnifer ag y sydd yn viffyg yma. Ac os bydd llai, gadawer y rhai a fo dros ben: eithr arferer y Colect, yr Epistol, a'r Efengyl ddiweddaf yma, bob amser ar y Sul nesaf o flaen yr Adfent.*

barley-loaves, and two small fishes; but what are they among so many? And Jesus said, Make the men sit down. Now there was much grass in the place. So the men sat down, in number about five thousand. And Jesus took the loaves, and, when he had given thanks, he distributed to the disciples, and the disciples to them that were set down, and likewise of the fishes, as much as they would. When they were filled, he said unto his disciples, Gather up the fragments that remain, that nothing be lost. Therefore they gathered them together, and filled twelve baskets with the fragments of the five barley-loaves, which remained over and above unto them that had eaten. Then those men, when they had seen the miracle that Jesus did, said, This is of a truth that Prophet that should come into the world.

¶ *If there be any more Sundays before Advent-Sunday, the Service of some of those Sundays that were omitted after the Epiphany shall be taken in to supply so many as are here wanting. And if there be fewer, the overplus may be omitted: Provided that this last Collect, Epistle, and Gospel shall always be used upon the Sunday next before Advent.*

Dydd Sant Andreas Apostol.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn a roddaist gyfryw ras i'th fendigedig Apostol Sant Andreas, fel yr ufuddhaodd efe yn ebrwydd i alwad dy Fab Iesu Grist, ac a'i dilynodd ef yn ddiöed; Caniattâ i ni oll, wedi ein galw gan dy Air bendigedig, yn ebrwydd ymroddi o honom i gyflawni yn ufudd dy sanctaidd orchym-

Saint Andrew's Day.

The Colect.

ALmighty God, who didst give such grace unto thy holy Apostle Saint Andrew, that he readily obeyed the calling of thy Son Jesus Christ, and followed him without delay; Grant unto us all, that we, being called by thy holy Word, may forthwith give up ourselves obediently to fulfil thy holy commandments;

Dydd Sant Andreas Apostol.

ynion; trwy yr unrhyw Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. Rhuf. x. 9.

OS cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi. Canys â'r galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffesir i iachawdwriaeth. Oblegid y mae'r ysgrythyr yn dywedyd, Pwy bynnag sydd yn credu ynddo ef, ni chywilyddir. Canys nid oes gwahaniaeth rhwng Iuddew a Groegwr; oblegid yr un Arglwydd ar bawb, sydd oludog i bawb a'r sydd yn galw arno. Canys pwy bynnag a alwo ar Enw yr Arglwydd, cadwedig fydd. Pa fodd gan hynny y galwant ar yr hwn ni chredasant ynddo? A pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano? A pha fodd y clywant heb bregethwr? A pha fodd y pregethant, oni's danfonir hwynt? megis y mae yn ysgrifenedig, Mor brydferth yw traed y rhai sydd yn efangylu tangnefedd, y rhai sydd yn efangylu pethau daionus! Eithr nid ufuddhasant hwy oll i'r efengyl: canys y mae Esaias yn dywedyd, O Arglwydd, pwy a gredodd i'n hymadrodd ni? Am hynny ffydd sy trwy glywed, a chlywed trwy air Duw. Eithr meddaf, Oni chlywsant hwy? Yn ddiaŷ i'r holl ddaear yr aeth eu swm hwy, a'u geiriau hyd derfynau y byd. Eithr meddaf, Oni wybu Israel? Yn gyntaf, y mae Moses yn dywedyd, Mi a baraf i chwi wŷnfydu trwy rai nid yw genedl; trwy genedl anneallus y'ch digiaf chwi. Eithr y mae Esaias yn ymhyfhâu, ac yn dywedyd, Cafwyd fi gan y rhai nid oeddynt yn fy ngheisio; a gwnaed fi yn eglur i'r rhai nid oeddynt yn ymofyn am danaf. Ac wrth yr

through the same Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. Rom. x. 9.

IF thou shalt confess with thy mouth the Lord Jesus, and shalt believe in thine heart that God hath raised him from the dead, thou shalt be saved. For with the heart man believeth unto righteousness, and with the mouth confession is made unto salvation. For the Scripture saith, Whosoever believeth on him shall not be ashamed. For there is no difference between the Jew and the Greek: for the same Lord over all is rich unto all that call upon him. For whosoever shall call upon the Name of the Lord shall be saved. How then shall they call on him, in whom they have not believed? And how shall they believe in him, of whom they have not heard? And how shall they hear without a preacher? And how shall they preach, except they be sent? As it is written, How beautiful are the feet of them that preach the Gospel of peace, and bring glad tidings of good things! But they have not all obeyed the Gospel. For Esaias saith, Lord, who hath believed our report? So then faith cometh by hearing, and hearing by the Word of God. But I say, Have they not heard? Yes verily, their sound went into all the earth, and their words unto the ends of the world. But I say, Did not Israel know? First Moses saith, I will provoke you to jealousy by them that are no people, and by a foolish nation I will anger you. But Esaias is very bold, and saith, I was found of them that sought me not; I was made manifest unto them that asked not after me. But to

Dydd Sant Thomas Apostol.

Israel y mae yn dywedyd, Ar hŷd y dydd yr estynais fy nwy-law at bobl anufudd, ac yn gwrth-ddywedyd.

Yr Efengyl. St. Matth. iv. 18.

A'R Iesu yn rhodio wrth fôr Galilea, efe a ganfu ddau frodyr, Simon, yr hwn a elwir Petr, ac Andreas ei frawd, yn bwrw rhwyd i'r môr (cansys pysg-odwŷr oeddynt.) Ac efe a ddywedodd wrthynt, Deuwch ar fy ol i, ac mi a'ch gwnaf yn bysg-odwŷr dynion. A hwy yn y fan, gan adael y rhwydau, a'i canlynasant ef. Ac wedi myned rhagddo oddi yno, efe a welodd ddau frodyr eraill, Iago fab Zebedeus, ac Ioan ei frawd, mewn llong gyd â Zebedeus eu tad, yn cyweirio eu rhwydau; ac a'u galwodd hwy. Hwythau yn ebrwydd, gan adael y llong a'u tad, a'i canlynasant ef.

Dydd Sant Thomas Apostol.

Y Colect.

HOLL-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn, er mwy o gadarnhâd y Ffydd, a oddefaist i'th sanctaidd Apostol Thomas ammeu adgyfodiad dy Fab; Caniattâ i ni mor berffaith a chwbl ddiâmmeu gredu yn dy Fab Iesu Grist, fel na cherydder ein ffydd un amser yn dy olwg. Gwranddo arnom, Ô Arglwydd, trwy yr unrhyw Iesu Grist; i ba un, gyd â thi a'r Yspryd Glân, y bo'r holl anrhydedd a'r gogoniant, yr awr hon ac yn oes oesoedd. *Amen.*

Yr Epistol. Ephes. ii. 19.

WEITHIAN gan hynny nid ydych chwi mwyach yn ddiëithriaid a dyfodiaid, ond yn gyd-ddinasyddion â'r saint, ac yn deulu Duw; wedi eich goruwchadeiladu ar sail yr apostolion a'r prophwydi, ac Iesu Grist ei hun

Israel he saith, All day long I have stretched forth my hands unto a disobedient and gainsaying people.

The Gospel. St. Matth. iv. 18.

JESUS, walking by the sea of Galilee, saw two brethren, Simon called Peter, and Andrew his brother, casting a net into the sea, (for they were fishers;) and he saith unto them, Follow me; and I will make you fishers of men. And they straightway left their nets, and followed him. And going on from thence he saw other two brethren, James the son of Zebedee, and John his brother, in a ship with Zebedee their father, mending their nets; and he called them. And they immediately left the ship and their father, and followed him.

Saint Thomas the Apostle.

The Collect.

ALMIGHTY and everliving God, who for the more confirmation of the faith didst suffer thy holy Apostle Thomas to be doubtful in thy Son's resurrection; Grant us so perfectly, and without all doubt, to believe in thy Son Jesus Christ, that our faith in thy sight may never be reprov'd. Hear us, O Lord, through the same Jesus Christ, to whom, with thee and the Holy Ghost, be all honour and glory, now and for evermore. *Amen.*

The Epistle. Ephes. ii. 19.

NOW therefore ye are no more strangers and foreigners, but fellow-citizens with the saints, and of the household of God; and are built upon the foundation of the Apostles and Prophets, Jesus Christ himself

Troad Sant Paul.

yn ben congl-faen: yn yr hwn y mae yr holl adeilad wedi ei chymmwys gyd-gyssylltu, yn cynnyddu yn deml sanctaidd yn yr Arglwydd; yn yr hwn y'ch cydadeiladwyd chwithau yn breswylfod i Dduw trwy yr Yspryd.

Yr Efengyl. St. Ioan xx. 24.

THOMAS, un o'r deuddeg, yr hwn a elwir Didymus, nid oedd gyd â hwynt pan ddaeth yr Iesu. Y disgyblion eraill gan hynny a ddywedasant wrtho, Ni a welsom yr Arglwydd. Yntau a ddywedodd wrthynt, Oni chaf weled yn ei ddwyllaw ef ôl yr hoelion, a doddi fy mys yn ôl yr hoelion, a doddi fy llaw yn ei ystlys ef, ni chredaf fi. Ac wedi wyth niwrnod, drachefn yr oedd ei ddisgyblion ef i mewn, a Thomas gyd â hwynt. Yna yr Iesu a ddaeth, a'r drysau yn gauad, ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd, Tangnefedd i chwi. Wedi hynny y dywedodd efe wrth Thomas, Moes yma dy fys, a gwel fy nwyllaw; ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys: ac na fydd anghredadyn, ond credadyn. A Thomas a atebodd ac a ddywedodd wrtho, Fy Arglwydd a'm Duw. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, Am i ti fy ngweled, Thomas, y credaist: bendigedig yw y rhai ni welsant, ac a gredasant. A llawer hefyd o arwyddion eraill a wnaeth yr Iesu yngŵydd ei ddisgyblion, y rhai nid ydynt ysgrifenedig yn y llyfr hwn. Eithr y pethau hyn a ysgrifenyd, fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei Enw ef.

Troad Sant Paul.

Y Collect.

O Dduw, yr hwn, trwy bregethiad y gwynfydedig Apostol Sant Paul, a beraist i oleuni'r

being the chief corner-stone; in whom all the building, fitly framed together, groweth unto an holy temple in the Lord; in whom ye also are builded together for an habitation of God, through the Spirit.

The Gospel. St. John xx. 24.

THOMAS, one of the twelve, called Didymus, was not with them when Jesus came. The other disciples therefore said unto him, We have seen the Lord. But he said unto them, Except I shall see in his hands the print of the nails, and put my finger into the print of the nails, and thrust my hand into his side, I will not believe. And after eight days again his disciples were within, and Thomas with them: then came Jesus, the doors being shut, and stood in the midst, and said, Peace be unto you. Then saith he to Thomas, Reach hither thy finger, and behold my hands; and reach hither thy hand, and thrust it into my side; and be not faithless, but believing. And Thomas answered and said unto him, My Lord, and my God. Jesus saith unto him, Thomas, because thou hast seen me, thou hast believed; blessed are they that have not seen, and yet have believed. And many other signs truly did Jesus in the presence of his disciples, which are not written in this book. But these are written, that ye might believe that Jesus is the Christ, the Son of God; and that believing ye might have life through his Name.

The Conversion of Saint Paul.

The Collect.

O God, who, through the preaching of the blessed Apostle Saint Paul, hast caused

Troad Sant Paul.

Efengyl lewyrchu dros yr holl fyd; Caniattâ, ni a attolygwn i ti, allu o honom ni, gan ddal ei ryfedd dröedigaeth ef mewn coffa, ddangos ein diolchgarwch i ti am yr unrhyw, trwy ddilyn dy fendigedig athrawiaeth yr hon a ddysgodd efe; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Act. ix. 1.

ASaul etto yn chwythu bygythiau a chelanedd yn erbyn disgyblion yr Arglwydd, a aeth at yr arch-offeiriad, ac a ddeisyfiodd ganddo lythyrau i Ddamascus at y synagogau; fel, os cai efe neb o'r ffordd hon, na gwyr, na gwragedd, y gallai efe eu dwyn hwy yn rhwym i Jerusalem. Ac fel yr oedd efe yn ymdaith, bu iddo ddyfod yn agos i Ddamascus; ac yn ddisymmwth llewyrchodd o'i amgylch oleuni o'r nef. Ac efe a syrthiodd ar y ddaear, ac a glybu lais yn dywedyd wrtho, Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i? Yntau a ddywedodd, Pwy wyt ti, Arglwydd? A'r Arglwydd a ddywedodd, Myfi yw Iesu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid. Caled yw i ti wingo yn erbyn y symbylau. Yntau, gan grynu, ac â braw arno, a ddywedodd, Arglwydd, beth a fynni di i mi ei wneuthur? A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Cyfod, a dos i'r ddinas; ac fe a ddywedir i ti pa beth sy raid i ti ei wneuthur. A'r gwyr oedd yn cyd-deithio âg ef a safasant yn fud, gan glywed y llais, ac heb weleb neb. A Saul a gyfododd oddi ar y ddaear; a phan agorwyd ei lygaid, ni welai efe neb: eithr hwy a'i tywysasant ef erbyn ei law, ac a'i dygasant ef i mewn i Ddamascus. Ac efe a fu dridiau heb weled, ac ni wnaeth na bwytta, nac yfed. Ac yr oedd rhyw

the light of the Gospel to shine throughout the world; Grant, we beseech thee, that we, having his wonderful conversion in remembrance, may shew forth our thankfulness unto thee for the same, by following the holy doctrine which he taught; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For the Epistle. Acts ix. 1.

AND Saul, yet breathing out threatenings and slaughter against the disciples of the Lord, went unto the high priest, and desired of him letters to Damascus to the synagogues, that, if he found any of this way, whether they were men or women, he might bring them bound unto Jerusalem. And, as he journeyed, he came near Damascus, and suddenly there shined round about him a light from heaven. And he fell to the earth, and heard a voice saying unto him, Saul, Saul, why persecutest thou me? And he said, Who art thou, Lord? And the Lord said, I am Jesus whom thou persecutest: it is hard for thee to kick against the pricks. And he, trembling and astonished, said, Lord, what wilt thou have me to do? And the Lord said unto him, Arise, and go into the city, and it shall be told thee what thou must do. And the men which journeyed with him stood speechless, hearing a voice, but seeing no man. And Saul arose from the earth, and when his eyes were opened he saw no man; but they led him by the hand, and brought him into Damascus. And he was three days without sight, and neither did eat nor drink. And there was a certain disciple at Damascus, named Ananias, and

Troad Sant Paul.

ddisgybl yn Damascus, a'i enw Ananiās. A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho ef mewn gweledigaeth, Ananiās. Yntau a ddywedodd, Wele fi, Arglwydd. A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Cyfod, a dos i'r heol a elwir Uniawn, a chais yn nhŷ Judas un a'i enw Saul, o Tarsus: canys wele, y mae yn gweddïo; ac efe a welodd mewn gweledigaeth wt a elwir Ananiās, yn dyfod i mewn, ac yn dod i ei law arno, fel y gwelai eilwaith. Yna yr atebodd Ananiās, O Arglwydd, mi a glywais gan lawer am y gwr hwn, faint o ddrygau a wnaeth efe i'th saint di yn Jerusalem: ac yma y mae ganddo awdurdod oddi wrth yr arch-offeiriaid i rwymo pawb sy'n galw ar dy Enw di. A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Dos ymaith: canys y mae hwn yn llestr etholedig i mi, i ddwyn fy Enw ger bron y Cenhedloedd, a brenhinoedd, a phlant Israel. Canys myfi a ddangosaf iddo pa bethau eu maint sy raid iddo ef eu dlioddef er mwyn fy Enw i. Ac Ananiās a aeth ymaith, ac a aeth i mewn i'r tŷ: ac wedi dod i ei ddwyllaw arno, efe a ddywedodd, Y brawd Saul, yr Arglwydd a'm hanfonodd i, Iesu, yr hwn a ymddangosodd i ti ar y ffordd y daethost, fel y gwelych drachefn, ac y'th lanwer â'r Ysryd Glân. Ac yn ebrwydd y syrthiodd oddi wrth ei lygaid ef megis cen: ac efe a gafodd ei olwg yn y man; ac efe a gyfododd, ac a fedyddiwyd. Ac wedi iddo gymmeryd bwyd, efe a gryfhaodd. A bu Saul gyd â'r disgyblion oedd yn Damascus, dalm o ddyddiau. Ac yn ebrwydd yn y synagogau efe a bregethodd Grist, mai efe yw Mab Duw. A phawb a'r a'i clybu ef, a synnasant, ac a ddywedasant, Onid hwn yw'r un

to him said the Lord in a vision, Ananias. And he said, Behold, I am here, Lord. And the Lord said unto him, Arise, and go into the street which is called Straight, and enquire in the house of Judas for one called Saul, of Tarsus: for behold, he prayeth, and hath seen in a vision a man named Ananias, coming in, and putting his hand on him, that he might receive his sight. Then Ananias answered, Lord, I have heard by many of this man, how much evil he hath done to thy saints at Jerusalem; and here he hath authority from the chief priests to bind all that call on thy Name. But the Lord said unto him, Go thy way; for he is a chosen vessel unto me, to bear my Name before the Gentiles, and kings, and the children of Israel: for I will shew him how great things he must suffer for my Name's sake. And Ananias went his way, and entered into the house; and, putting his hands on him, said, Brother Saul, the Lord, (even Jesus that appeared unto thee in the way as thou camest,) hath sent me, that thou mightest receive thy sight, and be filled with the holy Ghost. And immediately there fell from his eyes as it had been scales; and he received sight forthwith, and arose, and was baptized. And when he had received meat, he was strengthened. Then was Saul certain days with the disciples which were at Damascus. And straightway he preached Christ in the synagogues, that he is the Son of God. But all that heard him were amazed, and said, Is not this he that destroyed them which called on

Puredigaeth Mair Forwyn.

oedd yn difetha yn Jerusalem y rhai a alwent ar yr Enw hwn, ac a ddaeth yma er mwyn hyn, fel y dygai hwynt yn rhwym at yr arch-offeiriaid? Eithr Saul a gynnyddodd fwy-fwy o nerth, ac a orchfygodd yr Iuddewon oedd yn preswyllo yn Damascus, gan gadarnhâu mai hwn yw y Crist.

Yr Efengyl. St. Matth. xix. 27.

PETR a attebodd ac a ddywedodd wrth yr Iesu, Wele, nyni a adawsom bob peth, ac a'th ganlynasom di: beth gan hynny a fydd i ni? A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir meddaf i chwi, y cewch chwi y rhai a'm canlynasoch i, yn yr ad-enedigaeth, pan eisteddo Mab y dyn ar orsedd ei ogoniant, eistedd chwithau ar ddeuddeg gorsedd, yn barnu deuddeg llwyth Israel. A phob un a'r a adawodd dai, neu frodyr, neu chwïorydd, neu dad, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, er mwyn fy Enw i, a dderbyn y can cymmaint, a bywyd tragwyddol a etifedda efe. Ond llawer o'r rhai blaenaf a fyddant yn olaf, a'r rhai olaf yn flaenaf.

Cuflwyniad Crist yn y Deml; yr hwn a elwir yn guffredinol, Puredigaeth y Fendigedig Fair Forwyn.

Y Collect.

HOLL-alluog a byth-fywiol Dduw, ni a attolygwn yn ufuddol i'th Fawredd, megis ag ar gyfenw i heddyw y cyflwynwyd yn y deml dy unig-anedig Fab yn sylwedd ein cnawd ni; felly ganiattâu o honot ein cyflwyno i ti â chalonnau purlan, trwy yr unrhyw dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Mal. iii. 1.

WELE fi yn anfon fy nghanad, ac efe a arloesa'r

this Name in Jerusalem, and came hither for that intent, that he might bring them bound unto the chief priests? But Saul increased the more in strength, and confounded the Jews which dwelt at Damascus, proving that this is very Christ.

The Gospel. St. Matth. xix. 27.

PETER answered and said unto Jesus, Behold, we have forsaken all, and followed thee; what shall we have therefore? And Jesus said unto them, Verily I say unto you, That ye which have followed me, in the regeneration when the Son of man shall sit in the throne of his glory, ye also shall sit upon twelve thrones, judging the twelve tribes of Israel. And every one that hath forsaken houses, or brethren, or sisters, or father, or mother, or wife, or children, or lands, for my Name's sake, shall receive an hundred-fold, and shall inherit everlasting life. But many that are first shall be last, and the last shall be first.

The Presentation of Christ in the Temple, commonly called, The Purification of Saint Mary the Virgin.

The Collect.

ALMIGHTY and everliving God, we humbly beseech thy Majesty, that, as thy only-begotten Son was this day presented in the temple in substance of our flesh, so we may be presented unto thee with pure and clean hearts, by the same thy Son Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For the Epistle. Mal. iii. 1.

BEHOLD, I will send my messenger, and he shall pre-

Puredigaeth Mair Forwyn.

ffordd o'm blaen i: ac yn ddisymnwth y daw'r Arglwydd, yr hwn yr ydych yn ei geisio, i'w deml; sef Angel y cyfaunmod, yr hwn yr ydych yn ei chwenych: wele, efe yn dyfod, medd Arglwydd y lluoedd. Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef? a phwy a saif pan ymddangoso efe? canys y mae efe fel tân y toddydd, ac fel sebon y golchyddion. Ac efe a eistedd fel purwr a glanhâwr arian: ac efe a bura feibion Lefi, ac a'u coetha hwynt fel aur, ac fel arian; fel y byddont yn offrymmu i'r Arglwydd offrwm mewn cyfiawnder. Yna y bydd melus gan yr Arglwydd offrwm Judah a Jerusalem, megis yn y dyddiau gynt, ac fel y blynyddoedd gynt. A mi a nesaf attoch chwi i farn; a byddaf dyst cyflym yn erbyn yr hudolion, ac yn erbyn y godinebwyr, ac yn erbyn yr anudonwyr, ac yn erbyn cam-attalwyr cyflog y cyflogedig, a'r rhai sydd yn gorthrymmu'r weddw, a'r amddifad, a'r dieithr, ac heb fy ofni i, medd Arglwydd y lluoedd.

Yr Efengyl. St. Luc ii. 22.

WEDI cyflawni dyddiau ei phuredigaeth hi yn ol deddf Moses, hwy a'i dygasant ef i Jerusalem, i'w gyflwyno i'r Arglwydd (fel yr ysgrifenydd yn neddf yr Arglwydd, Pob gwryw cyntaf-anedig a elwir yn sanctaidd i'r Arglwydd) ac i roddi aberth, yn ol yr hyn a ddywedwyd yn neddf yr Arglwydd, Par o durturod, neu ddau gyw colommen. Ac wele, yr oedd gwr yn Jerusalem a'i enw Simeon; a'r gwr hwn oedd gyfiawn a duwiol, yn disgwyl am ddiddanwch yr Israel: a'r Yspryd Glân oedd arno. Ac yr oedd wedi ei hyspysu iddo

pare the way before me: and the Lord, whom ye seek, shall suddenly come to his temple; even the messenger of the covenant, whom ye delight in; behold, he shall come, saith the Lord of hosts. But who may abide the day of his coming? and who shall stand when he appeareth? for he is like a refiner's fire, and like fullers' soap. And he shall sit as a refiner and purifier of silver; and he shall purify the sons of Levi, and purge them as gold and silver, that they may offer unto the Lord an offering in righteousness. Then shall the offerings of Judah and Jerusalem be pleasant unto the Lord, as in the days of old, and as in former years. And I will come near to you to judgement, and I will be a swift witness against the sorcerers, and against the adulterers, and against false-swearers, and against those that oppress the hireling in his wages, the widow, and the fatherless, and that turn aside the stranger from his right, and fear not me, saith the Lord of hosts.

The Gospel. St. Luke ii. 22.

AND when the days of her purification, according to the Law of Moses, were accomplished, they brought him to Jerusalem, to present him to the Lord; (as it is written in the Law of the Lord, Every male that openeth the womb shall be called holy to the Lord;) and to offer a sacrifice, according to that which is said in the Law of the Lord, A pair of turtle-doves, or two young pigeons. And behold, there was a man in Jerusalem, whose name was Symeon; and the same man was just and devout, waiting for the consolation of Israel: and the Holy Ghost

Puredigaeth Mair Forwyn.

gan yr Yspryd Glân, na welai efe angau cyn iddo weled Crist yr Arglwydd. Ac efe a ddaeth trwy'r yspryd i'r deul. A phan ddog ei riëni y dyn bach Iesu, i wneuthur trosto yn ol defod y gyfraith; yna efe a'i cymmerth ef yn ei freichiau, ac a fendithiodd Dduw, ac a ddywedodd, Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air: canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth, yr hon a barottoaist ger bron wyneb yr holl bobloedd; Goleuni i oleuo y Cenhedloedd, a gogoniant dy bobl Israel. Ac yr oedd Joseph a'i fam ef yn rhyfeddu am y pethau a ddywedwyd am dano ef. A Simeon a'u bendithiodd hwynt, ac a ddywedodd wrth Mair ei fam ef, Wele, hwn a osodwyd yn gwmp ac yn gyfodiad i lawer yn Israel, ac yn arwydd yr hwn y dywedir yn ei erbyn (a thrwy dy enaid di dy hun hefyd yr â cleddyf) fel y datguddier meddyliau llawer o galonnau. Ac yr oedd Anna brophwydes, merch Phaniel, o lwyth Aser: hon oedd oedranus iawn, ac a fuasai fyw gyd â gwr saith mlynedd o'i morwynod; ac a fuasai yn weddw ynghylch pedair a phedwar ugain mlynedd, yr hon nid âi allan o'r deul, ond gwasanaethu Dduw mewn ymprydiau a gweddïau ddydd a nos. A hon hefyd yn yr awr honno, gan sefyll ger llaw, a foliannodd yr Arglwydd, ac a lefarodd am dano ef wrth y rhai oll oedd yn disgwyl ymwardent yn Jerusalem. Ac wedi iddynt orphen pob peth yn ol deddf yr Arglwydd, hwy a ddychwelasant i Galilea, i'w dinas eu hun Nazareth. A'r bachgen a gynnyddodd, ac a gryfhaodd yn yr yspryd, yn

was upon him. And it was revealed unto him by the Holy Ghost, that he should not see death, before he had seen the Lord's Christ. And he came by the Spirit into the temple; and when the parents brought in the child Jesus, to do for him after the custom of the Law, then took he him up in his arms, and blessed God, and said, Lord, now lettest thou thy servant depart in peace, according to thy word: for mine eyes have seen thy salvation, which thou hast prepared before the face of all people; a light to lighten the Gentiles, and the glory of thy people Israel. And Joseph and his mother marvelled at those things which were spoken of him. And Symeon blessed them, and said unto Mary his mother, Behold, this child is set for the fall and rising again of many in Israel; and for a sign which shall be spoken against; (yea, a sword shall pierce through thy own soul also;) that the thoughts of many hearts may be revealed. And there was one Anna a prophetess, the daughter of Phaniel, of the tribe of Aser; she was of a great age, and had lived with an husband seven years from her virginity: and she was a widow of about fourscore and four years; which departed not from the temple, but served God with fastings and prayers night and day. And she coming in that instant gave thanks likewise unto the Lord, and spake of him to all them that looked for redemption in Jerusalem. And when they had performed all things according to the Law of the Lord, they returned into Galilee to their own city Nazareth. And the child grew, and waxed strong in spirit, filled with wis-

Dydd Sant Matthias Apostol.

gyflawn o ddoethineb : a gras
Duw oedd arno ef.

Dydd Sant Matthias Apostol.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn yn lle Judas fradwr a ddetholaist dy ffyddlon was Matthias i fod o nifer y deuddeg Apostol ; Caniattà i'th Eglwys, gan fod bob amser yn gadwedig oddi wrth apostolion gau, gael ei threfnu a'i llywodraethu gan ffyddlon a chywir Fugeliiaid ; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Act. i. 15.

YN y dyddiau hynny Petr a gyfododd i fynu ynghanol y disgyblion, ac a ddywedodd (a nifer yr enwau yn yr un man oedd ynghylch ugain a chant) Ha wŷr frodyr, yr oedd yn rhaid cyflawni yr ysgrythyr yma a rag-ddywedodd yr Yspryd Glân trwy enau Dafydd am Judas, yr hwn a fu flaenor i'r rhai a ddal-iasant yr Iesu. Canys efe a gyfrifwyd gyd â ni, ac a gawsai ran o'r weinidogaeth hon. A hwn a bwrcasodd faes â gwobr anwiredd ; ac wedi ymgrogi, a dorrodd yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ef a dywalltwyd allan. A bu hyspys hyn i holl breswylwŷr Jerusalem, hyd oni elwir y maes hwnnw yn eu tafod priodol hwy, Aceldama ; hynny yw, Maes y gwaed. Canys ysgrifenyd yn llyfr y Psalmu, Bydded ei drigfan ef yn ddi-ffaethwch, ac na bydded a drigo ynddi : a, Chymmered arall ei esgobaeth ef. Am hynny mae yn rhaid, o'r gwŷr a fu yn cydymdaith â ni yr holl amser yr aeth yr Arglwydd Iesu i mewn ac allan yn ein plith ni, gan ddechreu o fedydd Ioan hyd y dydd y cymmerwyd ef i fynu oddi wrthym ni, bod un o'r rhai

dom ; and the grace of God was upon him.

Saint Matthias's Day.

The Collect.

O Almighty God, who into the place of the traitor Judas didst choose thy faithful servant Matthias to be of the number of the twelve Apostles ; Grant that thy Church, being alway preserved from false Apostles, may be ordered and guided by faithful and true pastors ; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For the Epistle. Acts i. 15.

IN those days Peter stood up in the midst of the disciples, and said, (the number of the names together were about an hundred and twenty,) Men and brethren, this Scripture must needs have been fulfilled, which the Holy Ghost by the mouth of David spake before concerning Judas, which was guide to them that took Jesus : for he was numbered with us, and had obtained part of this ministry. Now this man purchased a field with the reward of iniquity ; and falling headlong he burst asunder in the midst, and all his bowels gushed out. And it was known unto all the dwellers at Jerusalem, insomuch as that field is called in their proper tongue, Aceldama, that is to say, The field of blood. For it is written in the book of Psalms, Let his habitation be desolate, and let no man dwell therein ; and, His bishoprick let another take. Wherefore, of these men which have companied with us all the time that the Lord Jesus went in and out among us, beginning from the baptism of John, unto that same day that he was taken up from

Cyfarchiad Mair Wŷryf fendigedig.

hyn gyd â ni yn dyst o'i adgyfodiad ef. A hwy a osodasant ddau ger bron; Joseph, yr hwn a enwid Barsabas, ac a gyfenwid Justus, a Matthias. A chan weddio, hwy a ddywedasant, Tydi, Arglwydd, yr hwn a wyddost galonnau pawb, dangos pa un o'r ddau hyn a etholaist, i dderbyn rhan o'r weinidogaeth hon a'r apostoliaeth, o'r hon y cyfeiliornodd Judas, i fyned i'w le ei hun. A hwy a fwriasant y coelbrennau: ac ar Matthias y syrthiodd y coelbren: ac efe a gyfrifwyd gyd â'r un apostol ar ddeg.

Yr Efengyl. St. Matth. xi. 25.

Yr amser hwnnw yr atebodd yr Iesu, ac y dywedodd, I ti yr ydwyf yn diolch, O Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a'u datguddio o honot i rai bychain. Ië, O Dad; canys felly y rhyngodd bodd i ti. Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhad: ac nid edwyn neb y Mab, ond y Tad; ac nid edwyn neb y Tad, ond y Mab, a'r hwn yr ewyllysio y Mab ei ddatguddio iddo. Deuwch attaf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, ac mi a esmwythâf arnoch. Cymmerwch fy iau arnoch, a dysgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon: a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau. Canys fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn.

*Cyfarchiad Mair Wŷryf
fendigedig.*

Y Colect.

NI a attolygwn i ti, O Arglwydd, dywallt dy ras yn ein calonnau: fel, megis y gwyddom gnawdoliaeth Iesu Grist dy Fab trwy gennadwri angel; felly, trwy ei grog a'i

us, must one be ordained to be a witness with us of his resurrection. And they appointed two, Joseph called Barsabas, who was surnamed Justus, and Matthias. And they prayed, and said, Thou, Lord, which knowest the hearts of all men, shew whether of these two thou hast chosen; that he may take part of this ministry and apostleship, from which Judas by transgression fell, that he might go to his own place. And they gave forth their lots; and the lot fell upon Matthias, and he was numbered with the eleven Apostles.

The Gospel. St. Matth. xi. 25.

AT that time Jesus answered and said, I thank thee, O Father, Lord of heaven and earth, because thou hast hid these things from the wise and prudent, and hast revealed them unto babes. Even so, Father, for so it seemed good in thy sight. All things are delivered unto me of my Father: and no man knoweth the Son, but the Father; neither knoweth any man the Father, save the Son, and he to whomsoever the Son will reveal him. Come unto me, all ye that labour and are heavy laden, and I will give you rest. Take my yoke upon you, and learn of me; for I am meek and lowly in heart: and ye shall find rest unto your souls. For my yoke is easy, and my burden is light.

*The Annunciation of the blessed
Virgin Mary.*

The Colect.

WE beseech thee, O Lord, pour thy grace into our hearts; that, as we have known the incarnation of thy Son Jesus Christ by the message of an angel, so by his cross and pas-

Cyfarchiad Mair Wýryf fendigedig.

ddiödddefaint, bod i ni gael ein dwyn i ogoniant ei adgyfodiad ef; trwy yr unrhyw Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Essay vii. 10.

YR Arglwydd a 'chwanegodd lefaru wrth Ahaz, gan ddywedyd, Gofyn it' arwydd gan yr Arglwydd dy Dduw; gofyn o'r dyfnder, neu o'r uchelder oddi arnodd. Ond Ahaz a ddywedodd, Ni ofynaf, ac ni themtiaf yr Arglwydd. A dywedodd yntau, Gwrandêwch yr awr hon, tŷ Ddafydd; Ai bychau gennych flino dynion, oni flinoch hefyd fy Nuw? Am hynny yr Arglwydd ei hun a ddyry i chwi arwydd; Wele, Morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar Fab, ac a eilw ei enw ef Immanuel. Ymenyn a mel a fwytty efe; fel y medro ymwrthod â'r drwg, ac ethol y da.

Yr Efengyl. St. Luc i. 26.

AC yn y chweched mis yr anfonwyd yr angel Gabriel oddi wrth Dduw, i ddinas yn Galilea a'i henw Nazareth, at forwyn wedi ei dyweddïo i wr a'i enw Joseph, o dŷ Ddafydd; ac enw'r forwyn oedd Mair. A'r angel a ddaeth i mewn attï, ac a ddywedodd, Hanffych well, yr hon a gefaist ras: yr Arglwydd sy gyd â thi; bendigaid wyt ym mhlith gwragedd. A hithau, pan ei gwelodd, a gythryblwyd wrth ei ymadrodd ef: a meddylïo a wnaeth pa fath gyfarch oedd hwn. A dywedodd yr angel wrthi, Nac ofna, Mair; canys ti a gefaist ffafr gyd â Duw. Ac wele, ti a gei feichiogi yn dy groth, ac a esgori ar Fab, ac a elwi ei enw ef Iesu. Hwn fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf; ac iddo y rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd. Ac efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd; ac

sion we may be brought unto the glory of his resurrection; through the same Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For the Epistle. Isai. vii. 10.

MOREOVER, the Lord spake again unto Ahaz, saying, Ask thee a sign of the Lord thy God; ask it either in the depth, or in the height above. But Ahaz said, I will not ask, neither will I tempt the Lord. And he said, Hear ye now, O house of David; Is it a small thing for you to weary men, but will ye weary my God also? Therefore the Lord himself shall give you a sign; Behold, a Virgin shall conceive, and bear a son, and shall call his name Immanuel. Butter and honey shall he eat, that he may know to refuse the evil, and choose the good.

The Gospel. St. Luke i. 26.

AND in the sixth month the angel Gabriel was sent from God unto a city of Galilee named Nazareth, to a Virgin espoused to a man whose name was Joseph, of the house of David; and the Virgin's name was Mary. And the angel came in unto her, and said, Hail, thou that art highly favoured, the Lord is with thee; blessed art thou among women. And when she saw him she was troubled at his saying, and cast in her mind what manner of salutation this should be. And the angel said unto her, Fear not, Mary; for thou hast found favour with God. And behold, thou shalt conceive in thy womb, and bring forth a Son, and shalt call his name JESUS. He shall be great, and shall be called the Son of the Highest; and the Lord God shall give unto him the throne of his father David. And he shall reign over

Dydd Sant Marc Efangylwr.

ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd. A Mair a ddywedodd wrth yr angel, Pa fodd y bydd hyn; gan nad adwaen i wr? A'r angel a attedodd ac a ddywedodd wrthi, Yr Yspryd Glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di: am hynny hefyd y peth sanctaidd a aner o honot ti, a elwir yn Fab Duw. Ac wele, Elisabeth dy gares, y mae hithau wedi beichiogi ar fab yn ei henaint: a hwn yw'r chweched mis iddi hi, yr hon a elwid yn amhlantadwy. Canys gyd â Duw ni bydd dim yn amhosibl. A dywedodd Mair, Wele, wasanaethyddes yr Arglwydd; bydded i mi yn ol dy air di. A'r angel a aeth ymaith oddi wrthi hi.

Dydd Sant Marc Efangylwr.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn a ddysgaist dy sanctaidd Eglwys â nefol athrawiaeth dy Efangylwr Sant Marc; Dyro i ni ras, fel na byddom megis plant yn ein cylch-arwain gan bob awel o wag ddysgeidiaeth; eithr ein bod wedi ein sicrhau yngwirionedd dy lân Efengyl; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. Ephes. iv. 7.

I Bob un o honom y rhoed gras, yn ol mesur dawn Crist. O herwydd paham y mae efe yn dywedyd, Pan ddyrchafodd i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion. (Eithr, Efe a ddyrchafodd, beth yw, ond darfod iddo hefyd ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear? Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth.) Ac efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi,

the house of Jacob for ever; and of his kingdom there shall be no end. Then said Mary unto the angel, How shall this be, seeing I know not a man? And the angel answered and said unto her, The Holy Ghost shall come upon thee, and the power of the Highest shall overshadow thee: therefore also that holy thing which shall be born of thee shall be called the Son of God. And behold, thy cousin Elisabeth, she hath also conceived a son in her old age; and this is the sixth month with her who was called barren: for with God nothing shall be impossible. And Mary said, Behold the handmaid of the Lord; be it unto me according to thy word. And the angel departed from her.

Saint Mark's Day.

The Collect.

O Almighty God, who hast instructed thy holy Church with the heavenly doctrine of thy Evangelist Saint Mark; Give us grace, that, being not like children carried away with every blast of vain doctrine, we may be established in the truth of thy holy Gospel; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. Ephes. iv. 7.

UNTO every one of us is given grace, according to the measure of the gift of Christ. Wherefore he saith, When he ascended up on high, he led captivity captive, and gave gifts unto men. (Now that he ascended, what is it but that he also descended first into the lower parts of the earth? He that descended is the same also that ascended up far above all heavens, that he might fill all things.) And he gave some Apostles, and some Prophets, and some Evangelists,

Dydd Sant Marc Efangylwr.

a rhai yn efangylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon; i berffeithio'r saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist; hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist: fel na byddom mwyach yn blant, yn bwhwmman, ac yn ein cylcharwain â phob awel dysgeidiaeth, trwy hocced dynion, trwy gyfrwysdra, i gynllwyn i dwyllo; eithr gan fod yn gywir mewn cariad, cynnyddu o honom iddo ef ym mhob peth, yr hwn yw'r pen, sef Crist: o'r hwn y mae'r holl gorph wedi ei gyd-ymgynnull a'i gyd-gyssylltu, trwy bob cymmal cynhaliaeth yn ol y nerthol weithrediad ym mesur pob rhan, yn gwneuthur cynnydd y corph, i'w adeiladu ei hun mewn cariad.

Yr Efengyl. St. Ioan xv. 1.

MYFI yw y wir winwýdden, a'm Tad yw'r llafurwr. Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith: a phob un a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhâu, fel y dygo fwy o ffrwyth. Yr awrhon yr ydych chwi yn lân, trwy'r gair a leferais i wrthych. Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chwi. Megis na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwýdden: felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi. Myfi yw'r winwýdden, chwithau yw'r canghennau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer: oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim. Onid erys un ynof fi, efe a daflwyd allan megis cangen, ac a wywodd: ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn eu bwrw yn tân; a hwy a losgir.

and some Pastors and Teachers; for the perfecting of the saints, for the work of the ministry, for the edifying of the body of Christ; till we all come in the unity of the faith, and of the knowledge of the Son of God, unto a perfect man, unto the measure of the stature of the fulness of Christ; that we henceforth be no more children, tossed to and fro, and carried about with every wind of doctrine, by the sleight of men, and cunning craftiness, whereby they lie in wait to deceive; but speaking the truth in love, may grow up into him in all things, which is the head, even Christ: from whom the whole body fitly joined together, and compacted by that which every joint supplieth, according to the effectual working in the measure of every part, maketh increase of the body, unto the edifying of itself in love.

The Gospel. St. John xv. 1.

I Am the true vine, and my Father is the husbandman. Every branch in me that beareth not fruit he taketh away; and every branch that beareth fruit, he purgeth it, that it may bring forth more fruit. Now ye are clean through the word which I have spoken unto you. Abide in me, and I in you. As the branch cannot bear fruit of itself, except it abide in the vine; no more can ye, except ye abide in me. I am the vine, ye are the branches. He that abideth in me, and I in him, the same bringeth forth much fruit; for without me ye can do nothing. If a man abide not in me, he is cast forth as a branch, and is withered; and men gather them, and cast them into the fire, and they are burned. If ye abide in me, and my words abide in you, ye shall

Dydd Sant Phylip a Sant Iago, Apostolion.

Os arhoswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, beth bynnag a ewyllysioch, gofynwch, ac efe a fydd i chwi. Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer; a disgyblion fyddwch i mi. Fel y carodd y Tad fi, felly y cerais innau chwithau: arhoswch yn fy nghariad i. Os cedwch fy ngorchymnion, chwi a arhoswch yn fy nghariad: fel y cedwais i orchymnion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. Hyn a ddywedais wrthy, fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn.

Dydd Sant Phylip a Sant Iago, Apostolion.

Y Colect.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn o'i wir adnabod yw bywyd tragywyddol; Caniattâ i ni berffaith adnabod dy Fab Iesu Grist i fod yn ffordd, yn wirionedd, ac yn fywyd; fel, gan ddilyn llwybrau dy sancteiddiol Apostolion Sant Phylip a Sant Iago, y bo i ni rodio yn ddïysgog ar y ffordd y sy'n arwain i fywyd tragywyddol; trwy'r unrhyw dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. St. Iago i. 1.

IAGO, gwasanaethwr Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, at y deuddeg llwyth sydd ar wasgar, annerch. Cyfrifwch yn bob llawenydd, fy mrodyr, pan syrthioch mewn amryw brofedigaethau; gan wybod fod profiad eich ffydd chwi yn gweithredu amynedd. Ond caffed amynedd ei pherffaith waith, fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim. O bydd ar neb o honoch eisiau doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddannod; a hi a roddir iddo ef.

ask what ye will, and it shall be done unto you. Herein is my Father glorified, that ye bear much fruit; so shall ye be my disciples. As the Father hath loved me, so have I loved you: continue ye in my love. If ye keep my commandments, ye shall abide in my love; even as I have kept my Father's commandments, and abide in his love. These things have I spoken unto you, that my joy might remain in you, and that your joy might be full.

Saint Philip and Saint James's Day.

The Collect.

O Almighty God, whom truly to know is everlasting life; Grant us perfectly to know thy Son Jesus Christ to be the way, the truth, and the life; that, following the steps of thy holy Apostles, Saint Philip and Saint James, we may stedfastly walk in the way that leadeth to eternal life; through the same thy Son Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. St. James i. 1.

JAMES, a servant of God and of the Lord Jesus Christ, to the twelve tribes which are scattered abroad, greeting. My brethren, count it all joy when ye fall into divers temptations; knowing this, that the trying of your faith worketh patience. But let patience have her perfect work, that ye may be perfect and entire, wanting nothing. If any of you lack wisdom, let him ask of God, that giveth to all men liberally, and upbraideth not, and it shall be given him. But let him ask in faith,

Dydd Sant Phylip a Sant Iago, Apostolon.

Eithr gofyned mewn ffydd, heb ammeu dim: canys yr hwn sydd yn ammeu, sydd gyffelyb i don y môr, a chwelir ac a deflir gan y gwânt. Canys na feddylied y dyn hwnnw y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd. Gwr dduddyblyg ei feddwl, sydd anwas-tad yn ei holl ffyrdd. Y brawd o radd isel, llawenyched yn ei oruchafiaeth; a'r cyfoethog yn ei ddarostyngiad: canys megis blodeuyn y glas-welltyn y diflan-na efe. Canys cyfododd yr haul gyd â gwres, a gwywodd y glas-welltyn, a'i flodeuyn agwmpodd, a thegwch ei bryd ef a gollodd: felly hefyd y diflanna y cyfoethog yn ei ffyrdd. Gwân ei fyd y gwr sydd yn goddef profedigaeth: canys pan fyddo profedig, efe a dderbyn goron y bywyd, yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef.

Yr Efengyl. St. Ioan xiv. 1.

A'R Iesu a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, Na thralloder eich calon: yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau: a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf fi yn myned i barottôi lle i chwi. Ac os myfi a âf, ac a barottoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun; fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd. Ac i ba le yr wyf fi yn myned, chwi a wyddoch, a'r ffordd a wyddoch. Dywedodd Thomas wrtho, Arglwydd, ni wyddom ni i ba le yr wyt ti yn myned; a pha fodd y gallwn wybod y ffordd? Yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd: nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi. Ped adnabusech fi, fy Nhad hefyd a adnabusech: ac o hyn allan yr adwaenoch ef, a chwi a'i gwelsoch ef.

nothing wavering; for he that wavereth is like a wave of the sea, driven with the wind, and tossed. For let not that man think that he shall receive any thing of the Lord. A double-minded man is unstable in all his ways. Let the brother of low degree rejoice in that he is exalted; but the rich in that he is made low; because as the flower of the grass he shall pass away. For the sun is no sooner risen with a burning heat, but it withereth the grass, and the flower thereof falleth, and the grace of the fashion of it perisheth: so also shall the rich man fade away in his ways. Blessed is the man that endureth temptation; for when he is tried, he shall receive the crown of life, which the Lord hath promised to them that love him.

The Gospel. St. John xiv. 1.

AND Jesus said unto his disciples, Let not your heart be troubled; ye believe in God, believe also in me. In my Father's house are many mansions; if it were not so, I would have told you. I go to prepare a place for you: and if I go and prepare a place for you, I will come again, and receive you unto myself, that where I am, there ye may be also. And whither I go ye know, and the way ye know. Thomas saith unto him, Lord, we know not whither thou goest, and how can we know the way? Jesus saith unto him, I am the way, the truth, and the life: no man cometh unto the Father but by me. If ye had known me, ye should have known my Father also: and from henceforth ye know him, and have seen him. Philip saith unto him, Lord,

Dydd Sant Barnabas Apostol.

Dywedodd Philip wrtho, Arglwydd, dangos i ni y Tad, a digon yw i ni. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, A ydwyf gyhyd amser gyd a chwi, ac nid adnabuost fi, Philip? Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad; a pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni y Tad? Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau? y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthyeh, nid o honof fy hun yr wyf fi yn eu llefaru; ond y Tad, yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau: ac onid e, credwch fi er mwyn y gweithredoedd eu hunain. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy na'r rhai hyn a wna efe: oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad. A pha beth bynnag a ofynoch yn fy Enw i, hynny a wna; fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynwch ddim yn fy Enw i, mi a'i gwna.

shew us the Father, and it sufficeth us. Jesus saith unto him, Have I been so long time with you, and yet hast thou not known me, Philip? He that hath seen me hath seen the Father; and how sayest thou then, Shew us the Father? Believest thou not that I am in the Father, and the Father in me? The words that I speak unto you I speak not of myself; but the Father that dwelleth in me, he doeth the works. Believe me, that I am in the Father, and the Father in me; or else believe me for the very works' sake. Verily, verily I say unto you, He that believeth on me, the works that I do shall he do also; and greater works than these shall he do; because I go unto my Father. And whatsoever ye shall ask in my Name, that will I do, that the Father may be glorified in the Son. If ye shall ask any thing in my Name, I will do it.

Dydd Sant Barnabas Apostol.

Y Colect.

O Arglwydd Dduw Holl-alluog, yr hwn a wisgaist dy sanctaidd Apostol Barnabas â rhagorol roddion dy Yspryd Glân; Na ad i ni, ni a attolygwn i ti, fod yn ddiffygiol o'th amryw ddoniau, nac etto o ras i'w harfer hwynt bob amser i'th anrhydedd di a'th ogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yn lle yr Epistol. Act. xi. 22.

A'R gair a ddaeth i glustiau yr eglwys oedd yn Jerusalem, am y pethau hyn: a hwy a anfonasant Barnabas i fyned hyd Antiochia. Yr hwn pan ddaeth, a gweled gras Duw, a fu lawen ganddo; ac a gynghor-

Saint Barnabas the Apostle.

The Collect.

O Lord God Almighty, who didst endue thy holy Apostle Barnabas with singular gifts of the Holy Ghost; Leave us not, we beseech thee, destitute of thy manifold gifts, nor yet of grace to use them alway to thy honour and glory; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

For the Epistle. Acts xi. 22.

pedwar anifail, ac a syrthiasant ger bron yr orsedd-faingc ar eu hwynebau, ac a addolasant Dduw, gan ddywedyd, Amen: Y fendith, a'r gogoniant, a'r doethineb, a'r diolch, a'r anrhydedd, a'r gallu, a'r nerth, a fyddo i'n Duw ni yn oes oesoedd. Amen.

Yr Efengyl. St. Matth. v. 1.

PAN welodd yr Iesu y tyrfa-oedd, efe a esgynodd i'r mynydd; ac wedi iddo eistedd, ei ddisgyblion a ddaethant atto. Ac efe a agorodd ei enau, ac a'u dysgodd hwynt, gan ddywedyd, Gwỳn eu byd y tlodion yn yr yspryd: canys eiddynt yw teyrnas nefoedd. Gwỳn eu byd y rhai sydd yn galaru: canys hwy a ddiiddenir. Gwỳn eu byd y rhai addfwyn: canys hwy a etifeddant y ddaear. Gwỳn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder: canys hwy a ddiwellir. Gwỳn eu byd y rhai trugarogion: canys hwy a gânt drugaredd. Gwỳn eu byd y rhai pur o galon: canys hwy a welant Dduw. Gwỳn eu byd y tangnefeddwyr: canys hwy a elwir yn blant i Dduw. Gwỳn eu byd y rhai a erlidir o achos cyfiawnder: canys eiddynt yw teyrnas nefoedd. Gwỳn eich byd pan y'ch gwaradwyddant, ac y'ch erliant, ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn, er fy mwyn i, a hwy yn gelwyddog. Byddwch lawen a hyfryd; canys mawr yw eich gwobr yn y nefoedd: oblegid felly yr erlidiasant hwy y prophwydi a fu o'ch blaen chwi.

throne on their faces, and worshipped God, saying, Amen; Blessing, and glory, and wisdom, and thanksgiving, and honour, and power, and might, be unto our God for ever and ever. Amen.

The Gospel. St. Matth. v. 1.

JESUS, seeing the multitudes, went up into a mountain; and when he was set, his disciples came unto him. And he opened his mouth, and taught them, saying, Blessed are the poor in spirit: for their's is the kingdom of heaven. Blessed are they that mourn: for they shall be comforted. Blessed are the meek: for they shall inherit the earth. Blessed are they which do hunger and thirst after righteousness: for they shall be filled. Blessed are the merciful: for they shall obtain mercy. Blessed are the pure in heart: for they shall see God. Blessed are the peace-makers: for they shall be called the children of God. Blessed are they which are persecuted for righteousness' sake: for their's is the kingdom of heaven. Blessed are ye, when men shall revile you, and persecute you, and shall say all manner of evil against you falsely for my sake. Rejoice, and be exceeding glad; for great is your reward in heaven: for so persecuted they the prophets which were before you.

TREFN
GWEINYDDIAD SWPPER YR ARGLWYDD,
NEU Y
CYMMUN BENDIGAIID.

¶ *CYNNIFER* ag a fyddo yn amcanu bod yn gyfrannogion o'r Cymmun bendigedig, a hyspysant eu henwau i'r Curad ryw amser y diwrnod o'r blaen o'r lleiaf.

¶ *Ac o bydd un o'r rhai hynny yn ddrwg-fucheddol cyhoedd, neu a wnaeth gam i'w gymmydog ar air, neu ar weithred, fel y byddo efe wrthwynebus gan y Gynnulleidfa; y Curad, wrth gael gwybodaeth o hynny, a'i geitw ef, ac a'i cynghora, na rhyfyo efe er dim ddyfod i Ford yr Arglwydd, hyd oni ddatgano efe yn gyhoeddus ei fod yn wir edifeiriol, a darfod iddo wellhâu ei ddrwg fuchedd o'r blaen, fel y boddloner y Gynnulleidfa wrth hynny, yr hon a rwystrasid o'r blaen: a darfod iddo wneuthur iawn i'r neb y gwnaethai gamwedd â hwynt; neu o'r lleiaf, ddatgan ei fod mewn cyflawn fryd i wneuthur felly, yn gyntaf og y gallo yn gyfleus.*

¶ *Y drefn hon a arfer y Curad am y sawl y gwypo efe fod malais a chasineb yn teyrnasu rhyngddynt; heb ddioddef iddynt fod yn gyfrannogion o Fwrdd yr Arglwydd, hyd pan wypo eu bod hwynt wedi cyttuno. Ac os un o'r pleidiau anheddychol a fydd boddlon i faddeu o eigion ei galon gwbl ag a wnaethpwyd yn ei erbyn, ac i wneuthur iawn i bawb ag a rwystrodd yntau ei hunan; a'r blaidd arall ni fyn ei ddwyn i dduwiol Undeb, ond sefyll yn wastad yn ei wrthnysigrwydd a'i falais: y Gweinidog yn yr achos hwnnw a ddylai dderbyn y dyn edifeiriol i'r Cymmun bendigedig, ac nid y dyn ystyfnig anhydlyn. Darparer, fod pob Gweinidog felly yn troi heibio neb fel yr hyspysir yn hwn, neu'r rhag-wahannod nesaf o'r blaen o'r Rubric yma, yn rhwymedig i roddi cyfrif o'r unrhyw i'r Ordinari, o fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ol hynny o'r pellaf. A'r Ordinari a ddylud yn erbyn y troseddwr yn ol y Canon.*

¶ *Y Bwrdd ar amser Cymmun, â lliain gwyn teg arno, a saif ynghorff yr Eglwys, neu yn y Ganghell, lle byddo'r Foreol a'r Brydnhawol Weddi wedi ordeinio eu dywedyd. A'r Offeiriad, gan sefyll wrth yr ystlys gogledd i'r Bwrdd, a ddywed Weddi'r Arglwydd, a'r Colect y sydd yn canlyn, a'r bobl ar eu gliniau.*

EIN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, Megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Y Colect.

YR Holl-alluog Dduw, i'r hwn y mae pob calon yn agored, a phob deisyf yn gydnabyddus, a rhag yr hwn nid oes dim dirgel yn guddiedig; Glanhâ feddyl-

OUR Father, which art in heaven, Hallowed be thy Name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, As it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

The Colect.

ALMIGHTY God, unto whom all hearts be open, all desires known, and from whom no secrets are hid; Cleanse the thoughts of our

iau'n calonnau trwy ysprydol-
iaeth dy Lân Yspryd; fel y
carom dydi yn berffaith, ac y
mawrhaom yn deilwng dy Enw
sanetaidd; trwy Grist ein Har-
glwydd. *Amen.*

¶ *Yna yr Offeiriad, gan droi at y
bobl, a dractha yn eglur y DENG
AIR DEDDF' oll. A'r bobl etto
ar eu gliniau, ar ol pob un o'r
Gorchymynion, a archant dru-
garedd Duw am eu torri hwynt
o'r blaen, a gras i gadw'r unrhyw
rhag llaw; fel y mae'n canlyn.*

Gweinidog.

DUW a lefarodd y geiriau
hyn, ac a ddywedodd, Myfi
yw'r Arglwydd dy Dduw: Na
fydded it' dduwiau eraill onid
myfi.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ
wrthym, a gostwng ein calon-
nau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na wna it' dy hun
ddelw gerfiedig, na llun dim a'r
y sydd yn y nefoedd uchod, neu
yn y ddaear isod, nac yn y dwfr
dan y ddaear. Na ostwng idd-
ynt, ac na addola hwynt: canys
myfi yr Arglwydd dy Dduw yd-
wyf Dduw eiddigus, yn ymweled
â phechodau'r tadau ar y plant,
hyd y drydedd a'r bedwaredd
genhedlaeth o'r rhai a'm casânt;
ac yn gwneuthur trugaredd i
filoedd o'r rhai a'm carant, ac a
gadwant fy ngorchymynion.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ
wrthym, a gostwng ein calon-
nau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na chymmer
Enw'r Arglwydd dy Dduw yn
ofer: canys nid gwirion gan yr
Arglwydd yr hwn a gymmero
ei Enw ef yn ofer.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ
wrthym, a gostwng ein calon-
nau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Cofia gadw yn

hearts by the inspiration of thy
Holy Spirit, that we may per-
fectly love thee, and worthily
magnify thy holy Name;
through Christ our Lord. *A-
men.*

¶ *Then shall the Priest, turning to the
people, rehearse distinctly all the
TEN COMMANDMENTS; and the people still kneeling shall,
after every Commandment, ask God
mercy for their transgression there-
of for the time past, and grace to
keep the same for the time to come,
as followeth.*

Minister.

GOD spake these words, and
said; I am the Lord thy
God: Thou shalt have none
other gods but me.

People. Lord, have mercy up-
on us, and incline our hearts to
keep this law.

Minister. Thou shalt not make
to thyself any graven image, nor
the likeness of any thing that is
in heaven above, or in the earth
beneath, or in the water under
the earth. Thou shalt not bow
down to them, nor worship them:
for I the Lord thy God am a
jealous God, and visit the sins
of the fathers upon the chil-
dren, unto the third and fourth
generation of them that hate
me, and shew mercy unto thou-
sands in them that love me, and
keep my commandments.

People. Lord, have mercy up-
on us, and incline our hearts to
keep this law.

Minister. Thou shalt not take
the Name of the Lord thy God
in vain: for the Lord will not
hold him guiltless, that taketh
his Name in vain.

People. Lord, have mercy up-
on us, and incline our hearts to
keep this law.

Minister. Remember that

sanctaidd y dydd Sabbath. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith; eithr y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw. Ar y dydd hwnnw na wna ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn, na'th anifail, na'r dyn dieithr a fyddo o fewn dy byrth. Canys mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nef a daear, y môr, ac oll y sydd ynddynt, ac a orphwysodd y seithfed dydd: o herwydd pahan y bendithiodd yr Arglwydd y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a gostwng ein calonau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Anrhydedda dy dad a'th fam; fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear yr hon a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a gostwng ein calonau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na ladd.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a gostwng ein calonau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na wna odineb.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a gostwng ein calonau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na ladratta.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a gostwng ein calonau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ wrthym, a gostwng ein calonau i gadw'r gyfraith hon.

Gweinidog. Na chwennych dŷ dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmydog, na'i was,

thou keep holy the Sabbath-day. Six days shalt thou labour, and do all that thou hast to do; but the seventh day is the Sabbath of the Lord thy God. In it thou shalt do no manner of work, thou, and thy son, and thy daughter, thy manservant, and thy maid-servant, thy cattle, and the stranger that is within thy gates. For in six days the Lord made heaven and earth, the sea, and all that in them is, and rested the seventh day: wherefore the Lord blessed the seventh day, and hal-
lowed it.

People. Lord, have mercy upon us, and incline our hearts to keep this law.

Minister. Honour thy father and thy mother; that thy days may be long in the land, which the Lord thy God giveth thee.

People. Lord, have mercy upon us, and incline our hearts to keep this law.

Minister. Thou shalt do no murder.

People. Lord, have mercy upon us, and incline our hearts to keep this law.

Minister. Thou shalt not commit adultery.

People. Lord, have mercy upon us, and incline our hearts to keep this law.

Minister. Thou shalt not steal.

People. Lord, have mercy upon us, and incline our hearts to keep this law.

Minister. Thou shalt not bear false witness against thy neighbour.

People. Lord, have mercy upon us, and incline our hearts to keep this law.

Minister. Thou shalt not covet thy neighbour's house, thou shalt not covet thy neighbour's

na'i forwyn, na'i ých, na'i asyn,
na dim a'r sydd eiddo.

Pobl. Arglwydd, trugarhâ
wrthym, ac ysgrifena 'r holl
ddeddfau hyn yn ein calonau,
ni a attolygwn i ti.

¶ *Yna y canlyn un o'r ddau Golect
hyn dros y Frenhines; a'r Offeir-
iad yn ei sefyll megis o'r blaen, ac
yn dywedyd,*

Gweddiwn.

HOLL-alluog Dduw, yr hwn
sydd â'i deyrnas yn dragy-
wyddol, a'i allu yn anfeidrol;
Cymmer drugaredd ar yr holl
Eglwys; a rheola felly galon
dy ddewisedig wasanaethyddes
VICTORIA, ein Brenhines a'n
Llywydd, fel y gallo hi (gan
wybod i bwy y mae yn weinidog)
uwch law pob dim geisio dy an-
rhydedd di a'th ogoniant; ac fel
y gallom ninnau a'i holl ddeiliaid
hi (gan feddylid yn ddyledus
oddi wrth bwy y mae'r awdurdod
sydd iddi) yn ffyddlon ei gwas-
anaethu, ei hanrhydeddu, ac yn
ostyngedig ufuddhâu iddi, ynot
ti, ac erot ti, yn ol dy fendigedig
air a'th ordinhâd; trwy Iesu
Grist ein Harglwydd; yr hwn,
gyd â thi a'r Ýsryd Glân, sydd
yn byw ac yn teyrnasu yn dra-
gywydd yn un Duw, heb drange
na gorphen. *Amen.*

Neu,

HOLL-alluog a thragywyddol
Dduw, fe'n dysgir gan dy
Air sanctaidd, fod calonau bren-
hinoedd wrth dy reolaeth a'th
lywodraeth di; a'th fod di yn eu
gosod hwynt ac yn eu hym-
chwelyd, fel y mae dy ddwyfol
ddoethineb yn gweled bod yn
oreu; Yr ydym ni yn ostyngedig
yn attolwg i ti felly osod a llyw-
odraethu calon *VICTORIA* dy
wasanaethyddes, ein Brenhines
a'n Llywydd, fel y gallo hi, yn ei
holl feddyliau, geiriau, a gweith-

wife, nor his servant, nor his
maid, nor his ox, nor his ass,
nor any thing that is his.

People. Lord, have mercy up-
on us, and write all these thy
laws in our hearts, we beseech
thee.

¶ *Then shall follow one of these
two Collects for the Queen, the
Priest standing as before, and
saying,*

Let us pray.

ALMIGHTY God, whose
kingdom is everlasting,
and power infinite; Have mer-
cy upon the whole Church;
and so rule the heart of thy
chosen Servant *VICTORIA*, our
Queen and Governour, that she
(knowing whose minister she is)
may above all things seek thy
honour and glory: and that
we, and all her subjects (duly
considering whose authority she
hath) may faithfully serve, ho-
nour, and humbly obey her, in
thee, and for thee, according to
thy blessed Word and ordi-
nance; through Jesus Christ
our Lord, who with thee and
the Holy Ghost liveth and reign-
eth, ever one God, world with-
out end. *Amen.*

Or,

ALMIGHTY and everlast-
ing God, we are taught by
thy holy Word, that the hearts
of Kings are in thy rule and
governance, and that thou dost
dispose and turn them as it
seemeth best to thy godly wis-
dom: We humbly beseech thee
so to dispose and govern the
heart of *VICTORIA* thy Ser-
vant, our Queen and Governour,
that, in all her thoughts, words,
and works, she may ever seek
thy honour and glory, and study

Y Cymmun.

redoedd, yn wastad geisio dy anrhydedd di a'th ogoniant, a myfyrio ar gadw dy bobl a rodded yn ei chadwraeth hi, mewn digonoldeb, tangnefedd, a duwioldeb. Caniattâ hyn, drugarog Dad, er cariad ar dy anwyl Fab Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y dywedir Colect y Dydd. Ac yu nesaf ar ol y Colect, y darllen yr Offeiriad yr Epistol, gan ddywedyd, Yr Epistol [neu, Y rhan o'r Ysgrythyr a drefnwyd yn lle'r Epistol] sydd yn ysgrifenedig yn y—Bennod o—yn dechreu ar y—Adnod. Ac wedi diweddur Epistol, efe a ddywed, Yma y terfyna'r Epistol. Yna y darllen efe yr Efengyl (a'r bobl i gyd yn eu sefyll) gan ddywedyd, Yr Efengyl sanctaidd a ysgrifeni'r yn y—Bennod o—yn dechreu ar y—Adnod. Ac wedi gorphen yr Efengyl, y cenir neu y dywedir y Credo sy'n canlyn, a'r bobl fyth yn sefyll, megis o'r blaen.*

CREDAF yn un Duw, Tad Holl-alluog, Creawdwr nef a daear, Ac oll weledigion ac anweledigion :

Ac yn un Arglwydd Iesu Grist, Unig genhedledig Fab Duw, Cenhedledig gan ei Dad cyn yr holl oesoedd; Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch, Gwir Dduw o wir Dduw, Cenhedledig, nid gwneuthuredig, Yn un hanfod â'r Tad; Gan yr hwn y gwnaethpwyd pob peth, Yr hwn, erom ni ddynion ac er ein hiachawdwriaeth, a ddisgynodd o'r nefoedd, Ac a gnawdiwyd trwy'r Yspryd Glân, o Fair Forwyn, Ac a wnaethpwyd yn ddyn, Ac a groeshoeliwyd hefyd drosom dan Pontius Pilatus. Efe a ddioddefodd, ac a gladdwyd, A'r trydydd dydd efe a adgyfododd yn ol yr Ysgrythyrau, Ac a esgynodd i'r nef, Ac y sydd yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad. A thrachefn y daw efe trwy ogoniant i farnu

to preserve thy people committed to her charge, in wealth, peace, and godliness: Grant this, O merciful Father, for thy dear Son's sake, Jesus Christ our Lord. *Amen.*

¶ *Then shall be said the Collect of the Day. And immediately after the Collect the Priest shall read the Epistle, saying, The Epistle [or, The portion of Scripture appointed for the Epistle] is written in the — Chapter of — beginning at the — Verse. And the Epistle ended, he shall say, Here endeth the Epistle. Then shall he read the Gospel (the people all standing up) saying, The holy Gospel is written in the — Chapter of — beginning at the — Verse. And the Gospel ended, shall be sung or said the Creed following, the people still standing, as before.*

I Believe in one God the Father Almighty, Maker of heaven and earth, And of all things visible and invisible :

And in one Lord Jesus Christ, the only-begotten Son of God, Begotten of his Father before all worlds, God of God, Light of Light, Very God of very God, Begotten, not made, Being of one substance with the Father; By whom all things were made, Who for us men, and for our salvation came down from heaven, And was incarnate by the Holy Ghost of the Virgin Mary, And was made man, And was crucified also for us under Pontius Pilate. He suffered and was buried, And the third day he rose again according to the Scriptures, And ascended into heaven, And sitteth on the right hand of the Father. And he shall come again with glory to judge both the quick and the

Y Cymmun.

y byw a'r meirw: Ac ar ei deyrnas ni bydd trange.

A chredaf yn yr Yspryd Glân, Yr Arglwydd a'r Bywiawdwr, Yr hwn sydd yn deilliaw o'r Tad a'r Mab; Yr hwn ynghyd â'r Tad a'r Mab a gyd-addolir ac a gyd-ogoneddir, Yr hwn a lefarodd trwy'r prophwydi. A chredaf fod un Gatholig ac Apostolig Eglwys; Addefaf un Bedydd er imaddeuant pechodau; Acedrychaf am adgyfodiad y meirw, A bywyd y byd y sydd ar ddyfod. Amen.

¶ *Yna y Curad a fynega i'r bobl pa Wyliau neu Ymprydiau a fydd i'w cadw yn yr wythnos yn canlyn. Ac yna hefyd (o bydd achos) rhodder Rhybudd o'r Cymmun; a darlener Llythyrau Casgl, Dyfynnuau, ac Ysgymnuododau. Ac ni chyhoeddir ac ni fynegir dim yn yr Eglwys, hyd y parhao Gwasanaeth Duz, ond gan y Gweinidog ei hun: na dim gauddo yntau, ond a erchir yn Rheolau y Llyfr hwn, neu a orchynynir gan y Frenhines, neu gan Ordiuari'r lle.*

¶ *Yna y canlyn y Bregeth, neu un o'r Homiliau a ddoded allan eisoes, neu a ddoder allan rhagllaw, trwy awdurdod.*

¶ *Yna y dychwel yr Offeiriad at Fwrdd yr Arglwydd, ac a ddechreu'r Offrymiad; gan ddywedyd un neu ychwaneg o'r Aduodau sy'n canlyn, y cyfryw o'i synwyr ei hun a welo yn gynhwysaf.*

LLEWYRCHED felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. *St. Matth. v.*

Na thrysorwch iwch' drysorau ar y ddaear; lle y mae gwyfyn a rhwd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd, ac yn lladratta: eithr trysorwch iwch' drysorau yn y nef; lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a

dead: Whose kingdom shall have no end.

And I believe in the Holy Ghost, The Lord and Giver of life, Who proceedeth from the Father and the Son, Who with the Father and the Son together is worshipped and glorified, Who spake by the Prophets. And I believe one Catholick and Apostolick Church. I acknowledge one Baptism for the remission of sins, And I look for the Resurrection of the dead, And the life of the world to come. Amen.

¶ *Then the Curate shall declare unto the people what Holy-days, or Fast-ing-days are in the Week following to be observed. And then also (if occasion be) shall notice be giver of the Communion; and Briefs, Citations, and Excommunications read. And nothing shall be proclaimed or published in the Church, during the time of Divine Service, but by the Minister: nor by him any thing, but what is prescribed in the Rules of this Book, or enjoined by the Queen, or by the Ordinary of the place.*

¶ *Then shall follow the Sermon, or one of the Homilies already set forth, or hereafter to be set forth, by authority.*

¶ *Then shall the Priest return to the Lord's Table, and begin the Offertory, saying one or more of these Sentences following, as he thinketh most convenient in his discretion.*

LET your light so shine before men, that they may see your good works, and glorify your Father which is in heaven. *St. Matth. v.*

Lay not up for yourselves treasure upon the earth; where the rust and moth doth corrupt, and where thieves break through and steal: but lay up for yourselves treasures in heaven; where neither rust nor moth doth cor-

lle ni's cloddia lladron trwodd, ac ni's lladrattânt. *St. Matth. vi.*

Pa bethau bynnag oll a ewyllsioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy; canys hyn yw'r gyfraith a'r prophwydi. *St. Matth. vii.*

Nid pob un y sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewylls fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd. *St. Matth. vii.*

Zacchæus a safodd ac a ddywedodd wrth yr Arglwydd, Wele, hanner fy nâ, O Arglwydd, yr ydwyf yn ei roddi i'r tlodion; ac os dygais ddim o'r eiddo neb trwy gam-achwyn, yr ydwyf yn ei dalu ar ei bedwerydd. *St. Luc xix.*

Pwy sydd un amser yn rhyfela ar ei draul ei hun? Pwy sydd yn plannu gwinllan, ac nid yw yn bwyta o'i ffrwyth hi? Neu pwy sydd yn porthi praidd, ac nid yw yn bwyta o laeth y praidd? *1 Cor. ix.*

Os nyni a hauasom i chwi bethiau ysprydol, ai mawr yw os nyni a fedwn eich pethau cnawdol? *1 Cor. ix.*

Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn gwneuthur pethau cyssegredig, yn bwyta o'r cyssegr; a'r rhai sydd yn gwasanaethu'r allor, yn gyd-gyfrannogion o'r allor? Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sy'n pregethu'r efengyl, fyw wrth yr efengyl. *1 Cor. ix.*

Yr hwn sydd yn hau yn brin, a fed hefyd yn brin; a'r hwn sydd yn hau yn helaeth, a fed hefyd yn helaeth. Pob un megis y mae yn rhag-arfaethu yn ei galon, felly rhodded, nid yn athrist, neu trwy gymmell; canys

rupt, and where thieves do not break through and steal. *St. Matth. vi.*

Whatsoever ye would that men should do unto you, even so do unto them; for this is the Law and the Prophets. *St. Matth. vii.*

Not every one that saith unto me, Lord, Lord, shall enter into the Kingdom of heaven; but he that doeth the will of my Father which is in heaven. *St. Matth. vii.*

Zacchæus stood forth, and said unto the Lord, Behold, Lord, the half of my goods I give to the poor; and if I have done any wrong to any man, I restore four-fold. *St. Luke xix.*

Who goeth a warfare at any time of his own cost? Who planteth a vineyard, and eateth not of the fruit thereof? Or who feedeth a flock, and eateth not of the milk of the flock? *1 Cor. ix.*

If we have sown unto you spiritual things, is it a great matter if we shall reap your worldly things? *1 Cor. ix.*

Do ye not know, that they who minister about holy things live of the sacrifice; and they who wait at the altar are partakers with the altar? Even so hath the Lord also ordained, that they who preach the Gospel should live of the Gospel. *1 Cor. ix.*

He that soweth little shall reap little; and he that soweth plenteously shall reap plenteously. Let every man do according as he is disposed in his heart, not grudgingly, or of necessity;

rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu. 2 *Cor.* ix.

Cyfranned yr hwn a ddysgwyd yn y gair â'r hwn y sydd yn ei ddysgu, ym mhob peth da. Na thwyller chwi; ni watworir Duw: canys beth bynnag a hauo dyn, hynny hefyd a fed efe. *Gal.* vi.

Tra'r ydym yn cael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd. *Gal.* vi.

Elw mawr yw duwioldeb gyd â boddlonrwydd: canys ni ddysgasom ni ddim i'r byd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith. 1 *Tim.* vi.

Gorchymyn i'r rhai y sydd oludog yn y byd yma, fod yn hawdd ganddynt roddi a chyfrannu, yn trysori iddynt eu hunain sail dda erbyn yr amser y sydd ar ddyfod, fel y caffont afael ar y bywyd tragwyddol. 1 *Tim.* vi.

Nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch tu ag at ei Enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini. *Heb.* vi.

Nac anghofiwich wneuthur daioni, a chyfrannu: canys â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw. *Heb.* xiii.

Yr hwn sydd ganddo ddâ'r byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisiau, ac a gauo ei dosturi oddi wrtho; pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef? 1 *St. Ioan* iii.

Dyro elusen o'r peth a fyddo gennyt, ac na thro dy wyneb oddi wrth neb tlawd, ac ni thry wyneb Duw oddi wrthyt tithau. *Tobit* iv.

Fel y byddo gennyt yr amler, dod o hono elusen. Os ychydig fydd gennyt, o ychydig na arswyda roi elusen: canys felly y

for God loveth a cheerful giver. 2 *Cor.* ix.

Let him that is taught in the Word minister unto him that teacheth, in all good things. Be not deceived, God is not mocked: for whatsoever a man soweth that shall he reap. *Gal.* vi.

While we have time, let us do good unto all men; and specially unto them that are of the household of faith. *Gal.* vi.

Godliness is great riches, if a man be content with that he hath: for we brought nothing into the world, neither may we carry any thing out. 1 *Tim.* vi.

Charge them who are rich in this world, that they be ready to give, and glad to distribute; laying up in store for themselves a good foundation against the time to come, that they may attain eternal life. 1 *Tim.* vi.

God is not unrighteous, that he will forget your works, and labour that proceedeth of love; which love ye have shewed for his Name's sake, who have ministered unto the saints, and yet do minister. *Heb.* vi.

To do good, and to distribute, forget not; for with such sacrifices God is well pleased. *Heb.* xiii.

Whoso hath this world's good, and seeth his brother have need, and shutteth up his compassion from him, how dwelleth the love of God in him? 1 *St. John* iii.

Give alms of thy goods, and never turn thy face from any poor man; and then the face of the Lord shall not be turned away from thee. *Tobit* iv.

Be merciful after thy power. If thou hast much, give plentifully: if thou hast little, do thy diligence gladly to give of that

trysori i ti dy hun wobr daionus erbyn dydd yr anghenraid. *Tobit iv.*

Y neb a gymmero drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd: a'i rodd a dâl efe iddo drachefn. *Diar. xix.*

Gwŷn ei fyd a ystyria wrth y tlawd: yr Arglwydd a'i gwared ef yn amser adfyd. *Psal. xli.*

¶ *Tra bydder yn darllen yr adnodaau hyn, y Diaconiaid, Wardeniaid yr Eglwys, neu ryw un cymhesur arall a osoder i hynny, a dderbyniant yr Elusenau i'r tlodion, ac offrymmau eraill y bobl, mewn cawg gweddus, a ddarperir gan y Plwyf i hynny; ac a'i dygant yn barchus at yr Offeiriad: yntau a'i cystwyna yn ufudd, ac a'i dŷd ar y Bwrdd sanctuaidd.*

¶ *A phan fo Cymmun, yr Offeiriad yna a esyd ar y Bwrdd gymmuint o Fara a Gwin ag a dybio fod yn ddigon. Gwedi darfod hynny, y dywed yr Offeiriad,*

Gweddïwn dros holl ystâd Eglwys Grist sy'n milwrio yma ar y ddaear.

HOLL-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn trwy dy sanctaidd Apostol a'n dysgaist i wneuthur gweddïau ac erfynïau, ac i ddiolch dros bob dyn; yr ydym ni yn ostyngedig yn atto-

lwg i ti yn drugaroccaf [*gymmeryd ein heluseni a'n hoffrymmau, a*] dderbyn ein gweddïau hyn, y rhai yr ydym yn eu hoff-

rwm i'th Ddwyfol Fawredd; gan attolygu i ti ysprydoli yn wastad yr Eglwys gyffredinol âg yspryd y gwirionedd, undeb, a chyd-gordio: a chaniattâ i bawb a'r y sy'n cyffesu dy Enw sancteiddiol, gyttuno yngwirionedd dy sanctaidd Air, a byw mewn

little: for so gatherest thou thyself a good reward in the day of necessity. *Tobit iv.*

He that hath pity upon the poor lendeth unto the Lord: and look, what he layeth out, it shall be paid him again. *Prov. xix.*

Blessed be the man that provideth for the sick and needy: the Lord shall deliver him in the time of trouble. *Psal. xli.*

¶ *Whilst these Sentences are in reading, the Deacons, Church-wardens, or other fit person appointed for that purpose, shall receive the Alms for the Poor, and other devotions of the people, in a decent bason to be provided by the Parish for that purpose; and reverently bring it to the Priest, who shall humbly present and place it upon the holy Table.*

¶ *And when there is a Communion, the Priest shall then place upon the Table so much Bread and Wine, as he shall think sufficient. After which done, the Priest shall say,*

Let us pray for the whole state of Christ's Church militant here in earth.

ALMIGHTY and everliving God, who by thy holy Apostle hast taught us to make prayers, and supplications, and to give thanks, for all men; We humbly beseech thee most mercifully [*to accept our alms and oblations,*

and] to receive these our prayers, which we offer unto thy Divine Majesty; be-

seeeching thee to inspire continually the universal Church with the spirit of truth, unity, and concord: And grant, that all they that do confess thy holy Name may agree in the truth of thy holy Word, and live in unity, and godly love. We be-

If there be no alms or oblations, then shall the words [of accepting our alms and oblations] be left out unsaid.

undeb a duwiol gariad. Ni a attolygwn i ti hefyd gadw ac amddiffyn holl Gristianus Frenhinoedd, Tywysogion, a Llyw-iaudwyr; ac yn enwedig dy wasanaethyddes *VICTORIA* ein Brenhines, fel y caffom dani hi ein llywodraethu yn dduwiol ac yn heddychol: a chaniattâ i'w holl Gynghor, ac i bawb a'r y sydd wedi eu gosod mewn awdurdod dani, allu yn gywir ac yn un-iawn rannu cyfiawnder, er cospi drygioni a phechod, ac er cyn-nal dy wir Grefydd di, a Rhin-wedd dda. Dyro ras, nefol Dad, i'r holl Esgobion, a Churadiaid, fel y gallont trwy eu buchedd a'u hathrawiaeth osod allan dy wir a'th fywiol Air, a gwasanaethu dy sanctaidd Sacramentau yn iawn ac yn ddyladwy. A dyro i'th holl bobl dy nefol ras; ac yn enwedig i'r gynnulleidfa hon sydd yma yn gyd-ddrychiol; fel y gallont âg ufudd galon a dyledus barch wrando a derbyn dy sanct-aidd Air, gan dy wasanaethu yn gywir mewn sancteiddrwydd ac uniondeb holl ddyddiau eu bywyd. Ac yr ym yn ostyngieiddiaf yn attolygu i ti o'th ddaioni, Ar-glwydd, gysuro a nerthu pawb a'r y sydd yn y bywyd trangedig hwn, mewn trallod, tristwch, angen, clefyd, neu ryw wrthwyneb arall. Ac yr ym ni hefyd yn bendithio dy Enw sanctaidd, o ran dy holl weision a ymadaw-sant a'r bywyd yma yn dy ffydd di a'th ofn; gan attolygu i ti roddi i ni ras felly i ddilyn eu hesamplau da hwy, fel gyd â hwynt y byddom gyfraunogion o'th deyrnas nefol. Caniattâ hyn, O Dad, er cariad ar Iesu Grist, ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr. *Amen.*

beseech thee also to save and defend all Christian Kings, Princes, and Governours; and specially thy servant *VICTORIA* our Queen; that under her we may be godly and quietly govern-ed: And grant unto her whole Council, and to all that are put in authority under her, that they may truly and in-differently minister justice, to the punishment of wickedness and vice, and to the maintenance of thy true religion, and virtue. Give grace, O heavenly Father, to all Bishops and Curates, that they may both by their life and doctrine set forth thy true and lively Word, and rightly and duly administer thy holy Sa-craments: And to all thy peo-ple give thy heavenly grace; and especially to this congrega-tion here present; that, with meek heart and due reverence, they may hear, and receive thy holy Word; truly serving thee in holiness and righteousness all the days of their life. And we most humbly beseech thee of thy goodness, O Lord, to comfort and succour all them, who in this transitory life are in trouble, sorrow, need, sick-ness, or any other adversity. And we also bless thy holy Name for all thy servants de-parted this life in thy faith and fear; beseeching thee to give us grace so to follow their good examples, that with them we may be partakers of thy hea-venly kingdom: Grant this, O Father, for Jesus Christ's sake, our only Mediator and Advo-cate. *Amen.*

¶ *Pan fo'r Gweinidog yn rhoddi rhybudd o Weinyddiad y Cymmun bendigedig, (yr hyn a wna efe yn*

¶ *When the Minister giveth warn-ing for the celebration of the holy Communion, (which he shall al-*

wastad ar y Sul neu ryw Ddydd Gwyl nesaf o'r blaen,) ar ol diweddur Bregeth neu'r Homili, efe a dderllyn y Cyngor hwn sydd yn canlyn.

ways do upon the Sunday, or some Holy-day, immediately preceding,) after the Sermon or Homily ended, he shall read this Exhortation following.

FY anwyl garedigion, ar ddydd — nesaf yr wyf yn amcanu, trwy help Duw, weinyddu i bawb a fo ffyddlon a defosiynol, dra-chysurus Sacrament Corph a Gwaed Crist, i'w dderbyn ganddynt er coffâu ei ryglyddus Grog a'i Ddioddefaint ef, trwy ba un yn unig y cawn faddeuant am ein pechodau, ac y'n gwneir yn gyfrannogion o deyrnas nef. O herwydd pahan ein dyledswydd yw, talu ufuddaf a ffyddlonaf ddiolch i'r Holl-alluog Dduw ein Tad nefol, am iddo roddi ei Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, nid yn unig i farw drosom, eithr i fod hefyd yn ymborth a lluniaeth ysprydol i ni yn y Sacrament bendigedig hwnnw. Yr hwn beth, gan ei fod mor ddwyfol a chysurus i'r sawl a'i derbyniant yn deilwng, ac mor enbydus i'r rhai a ryfygant ei dderbyn yn annheilwng; fy nyled i yw, eich cyngori chwi yn y cyfamser i ystyried ardderchowgrwydd y Dirgeledigaeth bendigedig hwnnw, a'r mawr berygl o'i dderbyn yn annheilwng; ac felly i chwilio a phrofi eich cydwybodau eich hunain (a hynny nid yn ysgafn, ac yn ol dull rhai yn rhagrithio â Duw, ond) fel y deloch yn lân ac yn sanctaidd i'r cyfryw wledd nefol, yn y wisg-brïodas yr hon a ofyn Duw yn yr Ysgrythyr Lân, ac y'ch derbynier megis Cyfrannogion teilwng o'r Bwrdd bendigedig hwnnw.

Y ffordd a'r modd i hynny yw, yn gyntaf, Holi eich bucheddau a'ch ymarweddiad wrth reol Gorchymynion Duw; a pha le bynnag y gweloch eich

DEARLY beloved, on — day next I purpose, through God's assistance, to administer to all such as shall be religiously and devoutly disposed the most comfortable Sacrament of the Body and Blood of Christ; to be by them received in remembrance of his meritorious Cross and Passion; whereby alone we obtain remission of our sins, and are made partakers of the Kingdom of heaven. Wherefore it is our duty to render most humble and hearty thanks to Almighty God our heavenly Father, for that he hath given his Son our Saviour Jesus Christ, not only to die for us, but also to be our spiritual food and sustenance in that holy Sacrament. Which being so divine and comfortable a thing to them who receive it worthily, and so dangerous to them that will presume to receive it unworthily; my duty is to exhort you in the mean season to consider the dignity of that holy mystery, and the great peril of the unworthy receiving thereof; and so to search and examine your own consciences, (and that not lightly, and after the manner of dissemblers with God; but so) that ye may come holy and clean to such a heavenly Feast, in the marriage-garment required by God in holy Scripture, and be received as worthy partakers of that holy Table.

The way and means thereto is; First, to examine your lives and conversations by the rule of God's commandments; and whereinsoever ye shall perceive

bod eich hunain gwedi trosedd-
u, ar ewyllys, gair, neu weithred,
yno wylo o herwydd eich cyflwr
pechadurus, ac ymgyffesu i'r
Holl-alluog Dduw, â llawn fryd
ar wellhâu eich buchedd. Ac os
gwelwch fod eich camweddau
nid yn unig yn erbyn Duw,
eithr yn erbyn eich cymmydog-
ion hefyd, yna ymgymmodwch
â hwy, gan fod yn barod i
wneuthur iawn a boddlonrwydd,
hyd eithaf eich gallu, am bob
sarhâd a chamwri a wnaethoch i
neb arall; a chau fod yn barod
hefyd i faddeu i eraill a wnaeth-
ant i'ch erbyn chwithau, megis
yr ewyllysioch faddeuant o'ch
pechodau ar law Duw: canys
heb hyn ni wna derbyn y Cym-
mun bendigedig ond anghwan-
egu eich barnedigaeth. O her-
wydd hynny, od oes neb o honoch
yn gablwr Duw, yn rhwystrwr
neu enllibiwr ei Air ef, yn odin-
ebwr, neu yn dwyn malais a
chynfigen, neu mewn rhyw fai
ceryddus arall; edifarhêwch am
eich pechodau; ac onid é, na
ddeuwch i'r Bwrdd sancteidïol
hwnnw; rhag, wedi cymmeryd
y Sacrament bendigedig hwnnw,
i ddiabol fyned i mewn i chwi,
megis yr aeth i Judas fradwr,
a'ch llenwi yn llawn o bob an-
wiredd, a'ch dwyn chwi i ddis-
tryw corph ac enaid.

Ac o herwydd bod yn angen-
rheidiol na ddél neb i'r Cym-
mun bendigedig, heb gyflawn
ymddiried yn nhrugaredd Duw,
ac heb gydwybod heddychlawn;
am hynny od oes neb o honoch
na ddichen y ffordd hon ddy-
huddo ei gydwybod ei hun yn
hyn, eithr yn rhaid iddo wrth
gysur neu gyngor ym mhellach;
deued attaf fi, neu at ryw un
arall o Weinidogion Gair Duw
a fyddo pwyllus a dysgedig, a

yourselves to have offended,
either by will, word, or deed,
there to bewail your own sin-
fulness, and to confess your-
selves to Almighty God, with
full purpose of amendment of
life. And if ye shall perceive
your offences to be such as are
not only against God, but also
against your neighbours; then
ye shall reconcile yourselves un-
to them; being ready to make
restitution and satisfaction, ac-
cording to the uttermost of your
powers, for all injuries and
wrongs done by you to any
other; and being likewise rea-
dy to forgive others that have
offended you, as ye would have
forgiveness of your offences at
God's hand: for otherwise the
receiving of the holy Commu-
nion doth nothing else but in-
crease your damnation. There-
fore if any of you be a blas-
phemer of God, an hinderer
or slanderer of his Word, an
adulterer, or be in malice, or
envy, or in any other grievous
crime, repent you of your sins,
or else come not to that holy
Table; lest, after the taking of
that holy Sacrament, the devil
enter into you, as he entered
into Judas, and fill you full
of all iniquities, and bring you
to destruction both of body and
soul.

And because it is requisite,
that no man should come to
the holy Communion, but with
a full trust in God's mercy,
and with a quiet conscience;
therefore if there be any of
you, who by this means can-
not quiet his own conscience
herein, but requireth further
comfort or counsel, let him
come to me, or to some other
discreet and learned Minister of
God's Word, and open his grief;

datguddied ei ddolur, er mwyn cael, trwy weinidogaeth sanctaidd Air Duw, fawrles gollyngdod, gyd â chyngor ac addysg ysprydol, tu ag at lonyddu ei gydwybod, a'i ryddhâu oddi wrth bob amheuaeth a phetrusder.

¶ *Neu, lle y gwelo efe y bobl yn csgeulus am ddyfod i'r Cymmun bendigedig, yn lle y cyntaf efe a arfer y Cyngor yma.*

ANWYL garedigion frodyr, ar — y mae yn fy mryd, trwy ras Duw, weinyddu Swpper yr Arglwydd: i'r hwn o ran Duw y'ch gwahoddaf bawb a'r y sydd yma yn gyd-ddrychiol, ac a attolygaf iwch, er cariad ar yr Arglwydd Iesu Grist, na wrthodoch ddyfod iddo, gan eich bod mor garedigol wedi eich galw a'ch gwahodd gan Dduw ei hunan. Chwi a wyddoch mor ofidus, ac mor angharedig o beth yw, pan fo gwr wedi arlwyo gwledd werthfawr, wedi trwsio ei fwrdd â phob rhyw arlwy, megis na bai ddim yn eisiau, ond y gwahoddedigion i eistedd; ac etto y rhai a alwyd (heb ddim achos) yn anniolchusaf yn gwrthod dyfod. Pwy o honoch chwi yn y cyfryw gyflwr ni chyffroai? pwy ni thybygai fod cam a sarhâd mawr wedi eu gwneuthur iddo? Herwydd pahan, fy anwyl garediecaf frodyr yng Nghrist, gwyliwch yn dda, rhag i chwi, wrth ymwrthod a'r Swpper sancteiddiol hwn, annog llid Duw i'ch erbyn. Hawdd i ddyn ddywedyd, Ni chymmuna fi, o herwydd bod negesau bydol i'm rhwystro. Eithr y cyfryw esgusodion nid ydynt mor hawdd eu derbyn yn gymmeradwy ger bron Duw. Os dywed neb, Yr wyf fi yn bechadur brwnt, ac am hynny yn ofni dyfod: pahan gan hynny nad ydych chwi yn edi-

that by the ministry of God's holy Word he may receive the benefit of absolution, together with ghostly counsel and advice, to the quieting of his conscience, and avoiding of all scruple and doubtfulness.

¶ *Or, in case he shall see the people negligent to come to the holy Communion, instead of the former, he shall use this Exhortation.*

DEARLY beloved brethren, on — I intend, by God's grace, to celebrate the Lord's Supper: unto which, in God's behalf, I bid you all that are here present; and beseech you, for the Lord Jesus Christ's sake, that ye will not refuse to come thereto, being so lovingly called and bidden by God himself. Ye know how grievous and unkind a thing it is, when a man hath prepared a rich feast, decked his table with all kind of provision, so that there lacketh nothing but the guests to sit down; and yet they who are called (without any cause) most unthankfully refuse to come. Which of you in such a case would not be moved? Who would not think a great injury and wrong done unto him? Wherefore, most dearly beloved in Christ, take ye good heed, lest ye, withdrawing yourselves from this holy Supper, provoke God's indignation against you. It is an easy matter for a man to say, I will not communicate, because I am otherwise hindered with worldly business. But such excuses are not so easily accepted and allowed before God. If any man say, I am a grievous sinner, and therefore am afraid to come: wherefore then do ye not repent and amend?

Y Cymmun.

farhâu, ac yn gwellhâu? Pan fo Duw yn eich galw, onid oes gywilydd arnoch ddywedyd, na ddeuwch chwi? Pan ddylech chwi ymchwelyd at Dduw, a ymesgusodwch chwi, a dywedyd, nad ydych barod? Ystyriwch yn ddfrifrif ynoch eich hunain, leied a dâl y cyfryw goeg esgusodion ger bron Duw. Y rhai a wrthodasant y wledd yn yr Efengyl, oblegid iddynt brynu tyddyn, neu y myment brofi eu hieiau ychain, neu oblegid eu prïodi, ni chawsant felly mo'u hesgusodi, ond eu cyfrif yn annheilwng o'r wledd nefol. Myfi, o'm rhan i, a fyddaf barod; ac, o herwydd fy swydd, yr ydwyf yn eich gwahodd yn Enw Duw, yr wyf yn eich galw o ran Crist; ac, megis y caroch eich iachawdwriaeth eich hunain, yr wyf yn eich cyngori i fod yn gyfrannogion o'r Cymmun bendigedig hwn. Ac, fel y bu wiw gan Fab Duw ymado â'i einioes, gan drengu ar y groes dros eich iachawdwriaeth chwi; felly yn yr un modd y dylech chwithau gymmeryd y Cymmun, er cof am offrynniadaeth ei angau ef, fel y gorchymynodd efe ei hun. Yn awr, os chwychwi a esgeuluswch wneuthur hyn, meddylwch ynoch eich hunain, faint y camwedd yr ydych yn ei wneuthur â Duw, ac mor flinyw'r boen y sy goruwch eich pennau am hynny; pan ydych yn anhydyn yn ymgadw oddi wrth Fwrdd yr Arglwydd, ac yn ymneillduo oddi wrth eich brodyr, y rhai sy'n dyfod i ymborthi ar wledd y nefolaidd luniaeth hwnnw. Os chwi a ddyfal ystyriwch y pethau hyn, trwy ras Duw chwi a ddychwelwch i feddwl a fo gwell; er mwyn caffael o honoch hynny, nid arbedwn ni wneuthur yn ostyngedig ein herfyniau i'r Hollalluog Dduw ein Tad nefol.

When God calleth you, are ye not ashamed to say ye will not come? When ye should return to God, will ye excuse yourselves, and say ye are not ready? Consider earnestly with yourselves how little such feigned excuses will avail before God. They that refused the feast in the Gospel, because they had bought a farm, or would try their yokes of oxen, or because they were married, were not so excused, but counted unworthy of the heavenly feast. I, for my part, shall be ready; and, according to mine Office, I bid you in the Name of God, I call you in Christ's behalf, I exhort you, as ye love your own salvation, that ye will be partakers of this holy Communion. And as the Son of God did vouchsafe to yield up his soul by death upon the Cross for your salvation; so it is your duty to receive the Communion in remembrance of the sacrifice of his death, as he himself hath commanded: which if ye shall neglect to do, consider with yourselves how great injury ye do unto God, and how sore punishment hangeth over your heads for the same; when ye wilfully abstain from the Lord's Table, and separate from your brethren, who come to feed on the banquet of that most heavenly food. These things if ye earnestly consider, ye will by God's grace return to a better mind: for the obtaining whereof we shall not cease to make our humble petitions unto Almighty God our heavenly Father.

¶ *Ar amser Gwcinnyddiad y Cymmun, a'r Cymmunnwyr wedi eu cystëu yn weddus i gymmeryd y Sacrament bendigedig, yr Offciriad a ddywed y Cyngor hwn.*

ANWYL garedigion yn yr Arglwydd, y sawl sydd yn meddwl dyfod i fendigedig Gymmun Corph a Gwaed ein Hiachawdwr Crist, rhaid i chwi ystyried y modd y mae Sant Paul yn cynghori pawb i'w profi ac i'w holi eu hunain yn ddyfal, cyn iddynt ryfygu bwytta o'r Bara hwnnw, ac yfed o'r Cwppan hwnnw. Canys fel y mae'r lles yn fawr, os â chalon wir edifeiriol, ac â bywiol ffydd, y cymmerwn y Sacrament bendigedig hwnnw (canys yna yr ým ni yn ysprydol yn bwytta Cnawd Crist, ac yn yfed ei Waed ef; yna yr ydym yn trigo yng Nghrist, a Christ ynom ninnau; yr ým ni yn un â Christ, a Christ â ninnau) felly y mae'r perygl yn fawr, os ni a'i cymmer yn annheilwng. Canys yna yr ým ni yn euog o Gorph a Gwaed Crist ein Hiachawdwr; yr ydym ni yn bwytta ac yn yfed ein barnedigaeth ein hunain, heb ystyried Corph yr Arglwydd; yr ydym yn ennyn digofaint Duw i'n herbyn; yr ým ni yn ei anog ef i'n plâu ág amrywiol glefydau, ac amryw fath ar angau. Bernwch gan hynny eich hunain (frodyr) fel na'ch barner gan yr Arglwydd; gwir-edifarhêwch am eich pechodau a aeth heibio; bydded gennyh fywiol a diogel ffydd yng Nghrist ein Hiachawdwr; gwellhêwch eich buchedd, a byddwch mewn cariad perffaith â phawb: felly y byddwch weddus gyfrannogion o'r Dirgeledigaethau sancteiddiol hyn. Ac o flaen pob peth y mae'n rhaid i chwi roddi gostyngeiddiaf a charedicaf ddiolch i Dduw, y Tad, y Mab, a'r Ysryd Glân, am bryn-

¶ *At the time of the celebration of the Communion, the Communicants being conveniently placed for the receiving of the holy Sacrament, the Priest shall say this Exhortation.*

DEARLY beloved in the Lord, ye that mind to come to the holy Communion of the Body and Blood of our Saviour Christ, must consider how Saint Paul exhorteth all persons diligently to try and examine themselves, before they presume to eat of that Bread, and drink of that Cup. For as the benefit is great, if with a true penitent heart and lively faith we receive that holy Sacrament; (for then we spiritually eat the flesh of Christ, and drink his blood; then we dwell in Christ, and Christ in us; we are one with Christ, and Christ with us;) so is the danger great, if we receive the same unworthily. For then we are guilty of the Body and Blood of Christ our Saviour; we eat and drink our own damnation, not considering the Lord's Body; we kindle God's wrath against us; we provoke him to plague us with divers diseases, and sundry kinds of death. Judge therefore yourselves, brethren, that ye be not judged of the Lord; repent you truly for your sins past; have a lively and stedfast faith in Christ our Saviour; amend your lives, and be in perfect charity with all men; so shall ye be meet partakers of those holy mysteries. And above all things ye must give most humble and hearty thanks to God, the Father, the Son, and the Holy Ghost, for the redemption of the world by the death and passion of our Saviour Christ, both God and man;

edigaeth y byd trwy angau a di-
oddefaint ein Hiachawdwr Crist,
Duw a dyn, yr hwn a ymos-
tyngodd i angau'r groes, drosom
ni bechauriaid truain, y rhai
oeddyd yn gorwedd mewn ty-
wyllwch a chysgod angau, fel y
gallai efe ein gwneuthur ni yn
blant i Dduw, a'n dyrchafael i
fywyd tragwyddol. Ac, er cofio
o honom yn wastad ddirfawr
gariad ein Harglwydd a'n hunig
Hiachawdwr Iesu Grist, fel hyn
yn marw drosom, a'r aneirif ddon-
iau daionus, y rhai, trwy dywallt
ei werthfawr waed, a ynnillodd efe
i ni; efe a osododd ac a ordein-
iodd sanctaidd ddirgeledigaethau,
fel gwystlon o'i gariad, a gwas-
tadol gof am ei angau, er mawr
ac annherfynol ddiddanwch i ni.
Gan hynny iddo ef, gyd â'r Tad
a'r Yspryd Glân, rhoddwn (fel
yr ŷm yn rhwymeddig) was-
tadol ddiolch; gan ymostwng
yn gwbl i'w sanctaidd ewylls
a'i orchymyn ef, a myfyrio ei
wasanaethu ef mewn gwir sanct-
eidrwydd a chyfiawnder, holl
ddyddiau ein heinioes. *Amen.*

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad wrth
y rhai a fo'n dyfod i gymmeryd
y Cymmun bendigedig,*

CHWYCHWI y sawl sydd
yn wir ac yn ddifrifol yn
edifarhâu am eich pechodau, ac
y sydd mewn cariad perffaith
â'ch cymmydogion, ac yn medd-
wl dilyn buchedd newydd, a
chanlyn gorchymynion Duw, a
rhodio o hyn allan yn ei ffyrdd
sancteiddiol ef; Deuwch yn nês
trwy ffydd, a chymmerwch y Sa-
crament sancteiddiol hwn i'ch
cysur, a gwnewch eich gostyng-
edig gyffes i'r Holl-alluog Dduw,
gan ostwng yn ufudd ar eich
gliniau.

¶ *Yna y dywedir y Guffes gyffredin
hon, yn enw parwb o'r rhai a fudd-
ont ar feddwl cymmeryd y Cym-*

who did humble himself, even
to the death upon the Cross,
for us, miserable sinners, who
lay in darkness and the sha-
dow of death; that he might
make us the children of God,
and exalt us to everlasting life.
And to the end that we should
always remember the exceeding
great love of our Master, and
only Saviour, Jesus Christ, thus
dying for us, and the innu-
merable benefits which by his
precious blood-shedding he hath
obtained to us; he hath in-
stituted and ordained holy mys-
teries, as pledges of his love,
and for a continual remembrance
of his death, to our great and
endless comfort. To him there-
fore, with the Father and the
Holy Ghost, let us give (as we
are most bounden) continual
thanks; submitting ourselves
wholly to his holy will and
pleasure, and studying to serve
him in true holiness and right-
eousness all the days of our
life. *Amen.*

¶ *Then shall the Priest say to them
that come to receive the holy Com-
munion,*

YE that do truly and ear-
nestly repent you of your
sins, and are in love and cha-
rity with your neighbours, and
intend to lead a new life, fol-
lowing the commandments of
God, and walking from hence-
forth in his holy ways; Draw
near with faith, and take this
holy Sacrament to your com-
fort; and make your humble
confession to Almighty God,
meekly kneeling upon your
knees.

¶ *Then shall this general Confes-
sion be made, in the name of all
those that are minded to receive*

Y Cymmun.

*mun bendigedig, gan un o'r Gwein-
idogion; yntau a'r bobl oll yn
gostwng yn ufudd ar eu gliniau,
ac yn dywedyd,*

¶ *Yna'r Offeiriad a gymmer bob un o'r rhai a fedyddier, gerfydd ei law ddehan; a chan ei osod ef yn gyfleus ger llaw'r Bedyddfan modd y gwelo oreu, a ofyn i'r Tadau-bedydd a'r Mamau-bedydd yr Enw: ac yna efe a'i trocha yn y dŵfr, neu a dywallt dŵfr arno ef, gan ddyrchedyd,*

N Yr ydwyf yn dy fedyddio **N.** di, Yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân. Amen.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad,*

Y R ydym ni yn derbyn y *Dyn* yma i Gynnulleidfa defaid Crist, ac yn ei *nodi ef âg arwydd y Grog; yn arwyddocâd na bo iddo rhag-

llaw gymmeryd yn gywilydd gyffesu ffydd Grist a groeshoeliwyd, ac ymladd yn wrol dan ei faner ef, yn erbyn pechod, y byd, a'r cythraul: a pharhâu yn *filwr* ffyddlon ac yn *was* i Grist holl ddyddiau ei einioes. Amen.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad,*

G AN ddarfod yn awr, anwyl a garedigion frodyr, ad-eni a doddi y *Dynion hyn* ynghorph Eglwys Grist; diolchwn ninnau i'r Holl-alluog Dduw am ei ddaioni hwn, ac o gyd-undeb gwnawn ein gweddiau arno, ar fod iddynt ddiweddu y rhan arall o'u bywyd yn ol hyn o ddechreuad.

¶ *Yna y dywedir Gweddi'r Arglwydd, a phawb ar eu gliniau.*

E IN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd; Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, Megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel

in the number of thy faithful and elect children, through Jesus Christ our Lord. Amen.

¶ *Then shall the Priest take each person to be baptized by the right hand, and placing him conveniently by the Font, according to his discretion, shall ask the Godfathers and Godmothers the Name; and then shall dip him in the water, or pour water upon him, saying,*

N I baptize thee In the **N.** Name of the Father, and of the Son, and of the Holy Ghost. Amen.

¶ *Then shall the Priest say,*

W E receive this person into the congregation of Christ's flock; * and do sign him with the sign of the Cross, in token that here-

after he shall not be ashamed to confess the faith of Christ crucified, and manfully to fight under his banner, against sin, the world, and the devil; and to continue Christ's faithful soldier and servant unto his life's end. Amen.

¶ *Then shall the Priest say,*

S Eeing now, dearly beloved brethren, that these persons are regenerate, and grafted into the body of Christ's Church, let us give thanks unto Almighty God for these benefits, and with one accord make our prayers unto him, that they may lead the rest of their life according to this beginning.

¶ *Then shall be said the Lord's Prayer, all kneeling.*

O UR Father, which art in heaven, Hallowed be thy Name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, As it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we

Bedydd y rhai a fo mewn Oedran Addfedach.

y maddeuwn ni i'n dyledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedig-aeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

YR ŷm ni yn ostyngedig yn diolch i ti, nefol Dad, fod yn wiw gennyt ein galw i wybodaeth dy ras, a ffydd ynot: Ychwanega'r wybodaeth hon, a chadarnhâ'r ffydd hon ynom yn wastad. Dyro dy Yspryd Glân i'r rhai *hyn*, fel yn awr, gwedi *eu geni* eilwaith, a'u gwneuthur yn *etifeddion* iachawdwriaeth dragywyddol trwy ein Harglwydd Iesu Grist, y parhaont yn *weision* i ti, ac y *mwynhaont* dy addewidion; trwy yr un Arglwydd Iesu Grist dy Fab; yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thi yn undod yr unrhyw Yspryd Glân, yn dragywydd. Amen.

¶ *Yna, a pharhau yn eu sefyll, yr Offeiriad a edrydd y Cyngor hwn isod; gan ddywedyd yn gyntaf wrth y Tadau-bedydd a'r Mamau-bedydd,*

YN gymmaint a darfod i'r rhai *hyn* addaw yn eich gŵydd chwi ymwrthod â diafol ac â'i holl weithredoedd, credu yn Nuw, a'i wasanaethu ef; rhaid i chwi feddwl, mai eich rhan a'ch dyledswydd chwi yw, dwyn ar gof *iddynt*, pa ryw bwysfawr adduned, addewid, a phroffes, a *wnaethant* yr awrhon ger bron y gynnull-eidfa hon, ac yn enwedig ger eich bron chwi *eu tystion* etholedig. A chwi a elwch hefyd *arnynt* i arferu pob dyfalwch i gael *eu haddysgu* yn iawn yn sancteiddlan Air Duw; fel y *cynnyddont* felly mewn gras, ac yngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist, ac y *byddont* byw yn dduwiol, yn uniawn, ac yn sobr, yn y byd presennol hwn.

(¶ *Ac yna, gan lefaru wrth y rhai newydd fedyddio, efe a â rhagddo, ac a ddywcd,)*

forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

WE yield thee humble thanks, O heavenly Father, that thou hast vouchsafed to call us to the knowledge of thy grace, and faith in thee; Increase this knowledge, and confirm this faith in us evermore. Give thy holy Spirit to *these persons*; that, being now born again, and made *heirs* of everlasting salvation, through our Lord Jesus Christ, *they* may continue thy *servants*, and attain thy promises; through the same Lord Jesus Christ thy Son, who liveth and reigneth with thee, in the unity of the same Holy Spirit, everlastingly. Amen.

¶ *Then, all standing up, the Priest shall use this Exhortation following; speaking to the Godfathers and Godmothers first.*

FORASMUCH as *these persons* have promised in your presence to renounce the devil and all his works, to believe in God, and to serve him; ye must remember, that it is your part and duty to put *them* in mind, what a solemn vow, promise, and profession *they* have now made before this congregation, and especially before you *their* chosen witnesses. And ye are also to call upon *them* to use all diligence to be rightly instructed in God's holy Word; that so *they* may grow in grace, and in the knowledge of our Lord Jesus Christ, and live godly, righteously, and soberly in this present world.

(¶ *And then, speaking to the new baptized persons, he shall proceed, and say,)*

AC am a berthyn i chwi, y rhai yr awrhon yn eich Bedydd a arwisgasoch Grist, eich rhan chwithau a'ch dyledswydd yw, gan eich bod wedi eich gwneuthur yn blant i Dduw a'r goleuni, trwy ffydd yn Iesu Grist, rhodio yn gyfattedbol i'ch galwedigaeth Gristionogol, ac megis y gweddai i blant y goleuni: gan gofio yn wastad, fod Bedydd yn arwyddocâu i nynt ein proffes; hynny yw, bod i ni ganlyn esampl ein Hiachawdwr Crist, a'n gwneuthur yn gyffelyb iddo ef: fel, megis y bu efe farw, ac y cyfododd drachefn drosom ni; felly y dylem ni, y rhai a fedyddiwyd, farw oddi wrth bechod, a chyfodi i gyfiawnder; gan farwolaethu yn wastad ein holl ddrygioni a'n gwýniau llygredig, a pheunydd myned rhagom yn mhob rhinwedd dda, a buchedd dduwiol.

AND as for you, who have now by Baptism put on Christ, it is your part and duty also, being made the children of God and of the light, by faith in Jesus Christ, to walk answerably to your Christian calling, and as becometh the children of light; remembering always that Baptism representeth unto us our profession; which is, to follow the example of our Saviour Christ, and to be made like unto him; that as he died, and rose again for us; so should we, who are baptized, die from sin, and rise again unto righteousness; continually mortifying all our evil and corrupt affections, and daily proceeding in all virtue and godliness of living.

† *Buddiol yw i bob un a fedyddier fel hyn, gael ei Gonffirmio gan yr Esgob, cyn gynted ag y galler yn gysleus ar ol ei Fedydd; fel y bo rhydd iddo felly ddyfod i'r Cymmun bendigedig.*

† *Os bydd dzwyn neb o'r cyfryw na fedyddiwyd yn eu Mebyd i'w bedyddio cyn dyfod i oedran pwyll i fedru ateb drostynt eu hunain; digon fydd arfer Gwasanaeth Bedydd Cyhoedd Plant Bychain, neu (ar ddygnaf Berygl) Wasanaeth Bedydd Neillduol, gan newid rhyw eiriau fel y bo'r achos yn gofyn.*

Y CATECISM;

HYNNY YW, ATHRAWIAETH I'W DYSGU GAN BOB UN, CYN EI DDWYN I'W GONFFIRMIO GAN YR ESGOB.

Gofyniad.

BETH yw dy Enw di?

Atteb. N. neu M.

Gofyn. Pwy a roddes yr Enw hwnnw arnat ti?

Atteb. Fy Nhadau-bedydd a'm Mamau-bedydd wrth fy medyddio; pan y'm gwnaethpwyd yn aelod i Grist, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd.

Gofyn. Pa beth a wnaeth dy

Question.

WHAT is your Name?

Answer. N. or M.

Question. Who gave you this Name?

Answer. My Godfathers and Godmothers in my Baptism; wherein I was made a member of Christ, the child of God, and an inheritor of the kingdom of heaven.

Question. What did your God-

Y Catecism.

Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd yr amser hwnnw drosot ti?

Atteb. Hwy a addawsant ac a addunasant dri pheth yn fy enw. Yn gyntaf, Ymwrthod o honof â diafol ac â'i holl weithredoedd, rhodres a gorwagedd y byd anwir hwn, a holl bechadurus chwantau'r cnawd. Yn ail, Bod i mi gredu holl Byngciau Ffydd Grist. Ac yn drydydd, Cadw o honof wŷnfydedig ewyllys Duw a'i orchymynion, a rhodio ynddynt holl ddyddiau fy mywyd.

Gofyn. Onid wyt ti yn tybied dy fod yn rhwymedig i gredu ac i wneuthur megis yr addawsant hwy drosot ti?

Atteb. Ydwyf yn wir; a thrwy nerth Duw felly y gwnaf. Ac yr wyf fi yn mawr-ddiolch i'n Tad nefol, am iddo fy ngalw i gyfryw ystâd iachawdwriaeth, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr. Ac mi a attolygaf i Dduw roddi i mi ei ras, modd y gallwyf aros ynndo holl ddyddiau fy einioes.

Catec. Adrodd i mi Fannau dy Ffydd.

Atteb.

CREDAF yn Nuw Dad Hollgyfoethog, Creawdwr nef a daear:

Ac yn Iesu Grist, ei un Mab ef, ein Harglwydd ni; Yr hwn a gaed trwy'r Yspryd Glân, A aned o Fair Forwyn, A ddiöddfedd dan Pontius Pilatus, A groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd; A ddisgynodd i uffern; Y trydydd dydd y cyfododd o feirw; A esgynodd i'r nefoedd. Ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw Dduw Dad Hollgyfoethog; Oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Credaf yn yr Yspryd Glân; Yr Eglwys Lân Gatholig; Cymmun y Saint; Maddeuant pech-

fathers and Godmothers then for you?

Answer. They did promise and vow three things in my name. First, that I should renounce the devil and all his works, the pomps and vanity of this wicked world, and all the sinful lusts of the flesh. Secondly, that I should believe all the Articles of the Christian Faith. And thirdly, that I should keep God's holy will and commandments, and walk in the same all the days of my life.

Question. Dost thou not think that thou art bound to believe, and to do, as they have promised for thee?

Answer. Yes verily; and by God's help so I will. And I heartily thank our heavenly Father, that he hath called me to this state of salvation, through Jesus Christ our Saviour. And I pray unto God to give me his grace, that I may continue in the same unto my life's end.

Catechist. Rehearse the Articles of thy Belief.

Answer.

I Believe in God the Father Almighty, Maker of heaven and earth:

And in Jesus Christ his only Son our Lord, Who was conceived by the Holy Ghost, Born of the Virgin Mary, Suffered under Pontius Pilate, Was crucified, dead, and buried, He descended into hell; The third day he rose again from the dead, He ascended into heaven, And sitteth at the right hand of God the Father Almighty; From thence he shall come to judge the quick and the dead.

I believe in the Holy Ghost; The holy Catholick Church; The Communion of Saints;

Y Catecism.

odau ; Adgyfodiad y cnawd, A'r Bywyd tragywyddol. Amen.

Gofyn. Pa beth yr wyt ti yn ei ddysgu yn bennaf yn y Pyngciau hyn o'th Ffydd ?

Atteb. Yn gyntaf, Yr wyf yn dysgu credu yn Nuw Dad, yr hwn a'm gwnaeth i a'r holl fyd.

Yn ail, Yr wyf yn dysgu credu yn Nuw Fab, Yr hwn a'm prynodd i, a phob rhyw ddyn.

Yn drydydd, Yr wyf yn dysgu credu yn Nuw Yspryd Glân, yr hwn sydd yn fy sancteiddio i, a holl etholedig bobl Duw.

Gofyn. Ti a ddywedaist ddarfod i'th Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd addaw trosot ti, fod i ti gadw Gorchymynion Duw. Dywed dithau i mi, pa nifer sydd o honynt ?

Atteb. Deg.

Gofyn. Pa rai ydynt ?

Atteb.

Y Rhai hynny a lefarodd Duw yn yr ugeinfed Bennod o Exodus ; gan ddywedyd, Myfi yw'r Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di ymaith o dir yr Aipht, o dŷ'r caethiwed.

I. Na fydded i ti dduwiau eraill onid myfi.

II. Na wna it' dy hun ddelw gerfiedig, na llun dim a'r y sydd yn y nefoedd uchod, neu yn y ddaear isod, nac yn y dwfr dan y ddaear. Na ostwng iddynt, ac na addola hwynt : canys myfi yr Arglwydd dy Dduw ydwyf Dduw eiddigus, yn ymwelêd â phechodau'r tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm casânt ; ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

III. Na chymmer Enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer : canys nid gwirion gan yr Arglwydd yr

The Forgiveness of sins ; The Resurrection of the body ; And the Life everlasting. Amen.

Question. What dost thou chiefly learn in these Articles of thy Belief ?

Answer. First, I learn to believe in God the Father, who hath made me, and all the world.

Secondly, in God the Son, who hath redeemed me, and all mankind.

Thirdly, in God the Holy Ghost, who sanctifieth me, and all the elect people of God.

Question. You said, that your Godfathers and Godmothers did promise for you, that you should keep God's Commandments. Tell me how many there be ?

Answer. Ten.

Question. Which be they ?

Answer.

THE same which God spake in the twentieth Chapter of Exodus, saying, I am the Lord thy God, who brought thee out of the land of Egypt, out of the house of bondage.

I. Thou shalt have none other gods but me.

II. Thou shalt not make to thyself any graven image, nor the likeness of any thing that is in heaven above, or in the earth beneath, or in the water under the earth. Thou shalt not bow down to them, nor worship them : for I the Lord thy God am a jealous God, and visit the sins of the fathers upon the children, unto the third and fourth generation of them that hate me, and shew mercy unto thousands in them that love me, and keep my commandments.

III. Thou shalt not take the Name of the Lord thy God in vain : for the Lord will not hold

hwn a gymmero ei Enw ef yn ofer.

IV. Cofia gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith; eithr y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw. Ar y dydd hwnnw na wna ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn, na'th anifail, na'r dyn dicitr a fyddo o fewn dy byrth. Canys mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nef a daear, y môr, ac oll y sydd ynddynt, ac a orphwysodd y seithfed dydd: o herwydd paham y bendithiodd yr Arglwydd y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef.

V. Anrhydedda dy dad a'th fam; fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear yr hon a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

VI. Na ladd.

VII. Na wna odineb.

VIII. Na ladratta.

IX. Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

X. Na chwennych dý dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmydog, na'i was, na'i forwyn, na'i ých, na'i asyn, na dim a'r sydd eiddo.

Gofyn. Beth yr wyt ti yn ei ddysgu yn bennaf wrth y Gorchymynion hyn;

Atteb. Yr ydwyf yn dysgu dau beth: fy nyledswydd tu ag at Dduw, a'm dyledswydd tu ag at fy Nghymmydog.

Gofyn. Pa beth yw dy ddyledswydd tu ag at Dduw?

Atteb. Fy nyledswydd tu ag at Dduw yw, credu ynddo, ei ofni, a'i garu â'm holl galon, â'm holl feddwl, â'm holl enaid, ac â'm holl nerth; ei addoli ef, dŵlch iddo, rhoddi fy holl ymddiried ynddo, galw arno, anrhydeddu ei Enw sanctaidd ef, a'i Aír, a'i

him guiltless that taketh his Name in vain.

IV. Remember that thou keep holy the Sabbath-day. Six days shalt thou labour, and do all that thou hast to do; but the seventh day is the Sabbath of the Lord thy God. In it thou shalt do no manner of work, thou, and thy son, and thy daughter, thy man-servant, and thy maid-servant, thy cattle, and the stranger that is within thy gates. For in six days the Lord made heaven and earth, the sea, and all that in them is, and rested the seventh day; wherefore the Lord blessed the seventh day, and hallowed it.

V. Honour thy father and thy mother, that thy days may be long in the land which the Lord thy God giveth thee.

VI. Thou shalt do no murder.

VII. Thou shalt not commit adultery.

VIII. Thou shalt not steal.

IX. Thou shalt not bear false witness against thy neighbour.

X. Thou shalt not covet thy neighbour's house, thou shalt not covet thy neighbour's wife, nor his servant, nor his maid, nor his ox, nor his ass, nor any thing that is his.

Question. What dost thou chiefly learn by these commandments?

Answer. I learn two things: my duty towards God, and my duty towards my Neighbour.

Question. What is thy duty towards God?

Answer. My duty towards God, is to believe in him, to fear him, and to love him with all my heart, with all my mind, with all my soul, and with all my strength; to worship him, to give him thanks, to put my whole trust in him, to call upon

wasanaethu yn gywir holl ddyddiau fy mywyd.

Gofyn. Pa beth yw dy ddyledswydd tu ag at dy Gymmydog?

Atteb. Fy nyledswydd tu ag at fy Nghymmydog yw, ei garu fel fi fy hun, a gwneuthur i bob dyn megis y chwennychnwn iddo wneuthur i minnau. Caru o honof, anrhydeddu, a chym-morth, fy nhad a'm mam. Anrhydeddu ac ufuddhâu i'r Frenhines a'i Swyddogion. Ymddarostwng i'm holl Lywiawdwyr, Dysgawdwyr, Bugeiliaid ysprydol, ac Athrawon. Ymddwyn o honof yn ostyngedig, gan berchi pawb o'm gwell. Na wnelwyf niweid i neb ar air na gweithred. Bod yn gywir ac yn union ym mhob peth a wnelwyf. Na bo na drwg-fwriad na digasedd yn fy nghalon i neb. Cadw o honof fy nwyllaw rhag chwilenna a lladratta, a'm tafod rhag dywedyd celwydd, cableiriau, na drwg absen. Cadw fy nghorph mewn cymhedroldeb, sobrwydd, a diweirdeb. Na chybyddwyf ac na ddeisyfwyf ddâ na golud neb arall; eithr dysgu a llafurio yn gywir i geisio ynnill fy mywyd, ac i wneuthur a ddylwyf, ym mhar yw fuchedd bynnag y rhyngo bodd i Dduw fy ngalw iddi.

Catec. Fy anwyl blentyn, gwybydd hyn yma, na ddichon i ti wneuthur y pethau hyn o honot dy hun, na rhodio yng Ngorchymynion Duw, na'i wasanaethu ef, heb ei hyspysol ras ef; yr hwn sy raid i ti ddysgu yn wastad a'lw am dano trwy ddyfal Weddi. Gan hynny moes i mi glywed a fedri di ddywedyd Gweddi yr Arglwydd.

Atteb.

EIN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd; Sancteiddier dy

him, to honour his holy Name and his Word, and to serve him truly all the days of my life.

Question. What is thy duty towards thy Neighbour?

Answer. My duty towards my Neighbour, is to love him as myself, and to do to all men, as I would they should do unto me: To love, honour, and succour my father and mother: To honour and obey the Queen, and all that are put in authority under her: To submit myself to all my governours, teachers, spiritual pastors and masters: To order myself lowly and reverently to all my betters: To hurt no body by word nor deed: To be true and just in all my dealing: To bear no malice nor hatred in my heart: To keep my hands from picking and stealing, and my tongue from evil-speaking, lying, and slandering: To keep my body in temperance, soberness, and chastity: Not to covet nor desire other men's goods; but to learn and labour truly to get mine own living, and to do my duty in that state of life, unto which it shall please God to call me.

Catechist. My good Child, know this, that thou art not able to do these things of thyself, nor to walk in the Commandments of God, and to serve him, without his special grace; which thou must learn at all times to call for by diligent prayer. Let me hear therefore, if thou canst say the Lord's Prayer.

Answer.

OUR Father, which art in heaven, Hallowed be thy

Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, Megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Gofyn. Pa beth yr wyt ti yn ei erchi ar Dduw yn y Weddi hon?

Atteb. Yr ydwyf yn erchi ar fy Arglwydd Dduw ein Tad nefol, yr hwn yw rhoddwr pob daioni, ddanfon ei ras arnaf, ac ar yr holl bobl; fel y gallom ei anrhydeddu ef, a'i wasanaethu, ac ufuddhâu iddo megis y dylem. Ac yr wyf yn gweddïo ar Dduw, ddanfon i ni bob peth angenrheidiol, yn gystal i'n heneidiau ag i'n cyrph; a bod yn drugarog wrthym, a maddeu i ni ein pechodau; a rhyngu bodd iddo ein cadw a'n hamddiffyn ym mhob perygl ysprydol a chorphorol; a chadw o hono nyni rhag pob pechod ac anwiredd, a rhag ein gelyn ysprydol, a rhag angau tragywyddol. A hyn yr ydwyf yn ei obeithio y gwna efe o'i drugaredd a'i ddaioni, trwy ein Harglwydd Iesu Grist: ac am hynny yr wyf yn dywedyd, Amen, Poed felly.

Gofyniad.

PA sawl Sacrament a ordeiniodd Crist yn ei Eglwys?

Atteb. Dau yn unig, megis yn gyffredinol yn anghenraid i lachawdwriaeth; sef, Bedydd, a Swpper yr Arglwydd.

Gofyn. Pa beth yr wyt ti yn ei ddeall wrth y gair hwn, *Sacrament*?

Atteb. Yr wyf yn deall arwydd gweledig oddi allan o ras ysprydol oddi fewn a roddir i ni; yr hwn a ordeiniodd Crist ei hun, megis

Name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, As it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

Question. What desirest thou of God in this Prayer?

Answer. I desire my Lord God our heavenly Father, who is the giver of all goodness, to send his grace unto me, and to all people; that we may worship him, serve him, and obey him, as we ought to do. And I pray unto God, that he will send us all things that be needful both for our souls and bodies; and that he will be merciful unto us, and forgive us our sins; and that it will please him to save and defend us in all dangers ghostly and bodily; and that he will keep us from all sin and wickedness, and from our ghostly enemy, and from everlasting death. And this I trust he will do of his mercy and goodness, through our Lord Jesus Christ. And therefore I say, Amen, So be it.

Question.

HOW many Sacraments hath Christ ordained in his Church?

Answer. Two only, as generally necessary to salvation, that is to say, Baptism, and the Supper of the Lord.

Question. What meanest thou by this word *Sacrament*?

Answer. I mean an outward and visible sign of an inward and spiritual grace given unto us, ordained by Christ himself,

moddion i ni i dderbyn y gras hwnnw trwyddo, ac i fod yn wystl i'n sicrhâu ni o'r gras hwnnw.

Gofyn. Pa sawl rhan y sy mewn Sacrament?

Atteb. Dwy: yr arwydd gwel-edig oddi allan, a'r gras ysprydol oddi fewn.

Gofyn. Pa beth yw'r arwydd gwel-edig oddi allan, neu'r ffurf, yn y Bedydd?

Atteb. Dwfr: yn yr hwn y bedyddir un, *Yn Ew'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân.*

Gofyn. Pa beth yw'r gras ysprydol oddi fewn?

Atteb. Marwolaeth i bechod, a genedigaeth newydd i gyflawnder: canys gan ein bod ni wrth naturiaeth wedi ein geni mewn pechod, ac yn blant digofaint, trwy Fedydd y'n gwneir ni yn blant gras.

Gofyn. Pa beth a ddisgwylir gan y rhai a fedyddier?

Atteb. Edifeirwch, trwy'r hon y maent yn ymwrthod â phechod; a Ffydd, trwy'r hon y maent yn ddiysgog yn credu addewidion Duw y rhai a wneir iddynt yn y Sacrament hwnnw.

Gofyn. Paham gan hynny y bedyddir Plant bychain, pryd na's gallant o herwydd eu hieuengetid gyflawni'r pethau hyn?

Atteb. Oblegid eu bod yn addaw pob un o'r ddau trwy eu Mechnïau; yr hwn addewid, pan ddelont i oedran, y maent hwy eu hunain yn rhwym i'w gyflawni.

Gofyn. Paham yr ordeiniwyd Sacrament Swpper yr Arglwydd?

Atteb. Er mwyn gwastadol gof am aberth marwolaeth Crist, a'r llesâd yr ydym ni yn ei dderbyn oddi wrtho.

Gofyn. Pa beth yw y rhan

as a means whereby we receive the same, and a pledge to assure us thereof.

Question. How many parts are there in a Sacrament?

Answer. Two; the outward visible sign, and the inward spiritual grace.

Question. What is the outward visible sign or form in Baptism?

Answer. Water; wherein the person is baptized *In the Name of the Father, and of the Son, and of the Holy Ghost.*

Question. What is the inward and spiritual grace?

Answer. A death unto sin, and a new birth unto righteousness: for being by nature born in sin, and the children of wrath, we are hereby made the children of grace.

Question. What is required of persons to be baptized?

Answer. Repentance, whereby they forsake sin; and Faith, whereby they stedfastly believe the promises of God made to them in that Sacrament.

Question. Why then are Infants baptized, when by reason of their tender age they cannot perform them?

Answer. Because they promise them both by their Sureties; which promise, when they come to age, themselves are bound to perform.

Question. Why was the Sacrament of the Lord's Supper ordained?

Answer. For the continual remembrance of the sacrifice of the death of Christ, and of the benefits which we receive thereby.

Question. What is the out-

Y Catecism.

oddi allan, neu'r arwydd, yn Swpper yr Arglwydd?

Atteb. Bara a Gwin, y rhai a orchymynodd yr Arglwydd eu derbyn.

Gofyn. Pa beth yw y rhan oddi fewn, neu'r peth a arwyddocêir?

Atteb. Corph a Gwaed Crist; y rhai y mae'r ffyddloniaid yn wir ac yn ddiâu yn eu cymmeryd ac yn eu derbyn, yn Swpper yr Arglwydd.

Gofyn. Pa lesâd yr ydym ni yn ei gael wrth gymmeryd y Sacrament hwn?

Atteb. Cael cryfhâu a diddanu ein heneidiau trwy Gorph a Gwaed Crist, megis y mae 'n cyrph yn cael trwy'r Bara a'r Gwin.

Gofyn. Pa beth sy raid i'r rhai a ddél i Swpper yr Arglwydd ei wneuthur?

Atteb. Eu holi eu hunain, a ydynt hwy yn wir edifeiriol am eu pechodau a aeth heibio, ac yn sier amcanu dilyn buchedd newydd; a oes ganddynt ffydd fywiol yn nhrugaredd Dduw trwy Grist, gyd â diolchus gof am ei angau ef; ac a ydynt hwy mewn cariad perffaith â phob dyn.

ward part or sign of the Lord's Supper?

Answer. Bread and Wine, which the Lord hath commanded to be received.

Question. What is the inward part, or thing signified?

Answer. The Body and Blood of Christ, which are verily and indeed taken and received by the faithful in the Lord's Supper.

Question. What are the benefits whereof we are partakers thereby?

Answer. The strengthening and refreshing of our souls by the Body and Blood of Christ, as our bodies are by the Bread and Wine.

Question. What is required of them who come to the Lord's Supper?

Answer. To examine themselves, whether they repent them truly of their former sins, steadfastly purposing to lead a new life; have a lively faith in God's mercy through Christ, with a thankful remembrance of his death; and be in charity with all men.

¶ *Bydded i Gurad pob Plwyf yn ddiesgeulus ar y Suliau a'r Gwyliau, ar ol yr ail Lith o'r Gosper, ddysgu ar osteg yn yr Eglwys, a holi cynnifer o Blant ei Blwyf ag a ddaunfoner atto, megis y tybio efe fod yn gymhesur, yn rhyw gyfran o'r Catecism hwn.*

¶ *A bydded i bob Tad, a Mam, a phob Perchen Tykwyth, beri i'w Plant, i'w Gwasanaeth-ddynion, ac i'w Prentisiaid (y rhai ni ddysgasant eu Catecism) ddyfod i'r Eglwys ar yr amser gosodedig, a gwrando yn ufudd, a bod wrth lywodraeth y Curad, hyd oni ddarffo iddynt ddysgu pob peth a'r y sydd yma wedi ei osod i'w ddysgu gunddynt.*

¶ *Cyn gynted ag y delo Plant i Oedran cymhedrol, ac y medront ddywednd, yn Iaith eu Mam, Fannau'r Ffydd, Gweddi yr Arglwydd, a'r Deg Gorchymyn; a hefyd medru o honynt ateb i Ymofynion craill y Catecism byr yma; yna y dygir hwy at yr Esgob. Ac i bob un o honynt y bydd Tad-bedydd, neu Fam-fedydd, megis yn Dyst o'u Confirmasiwn.*

¶ *A pha bryd bynnag y rhoddo yr Esgob hyspysrwydd am ddwyn Plant atto i'w Confirmitio, Curad pob Plwyf a ddwg neu a ddenfyn yn ysgrifenedig dan ei law, Enwau y rhai oll-o fewn ei Blwyf, ag a dybio efe fod yn gymhwys i'w cystwyno i'r Esgob, i'w Confirmitio. Ac os yr Esgob a'u gwel hwynt yn gymmeradwy, efe a'u Confirmitia hwynt yn y Drefn yn caulyn.*

TREFN CONFIRMASIWN;

NEU ARDDODIAD DWYLAW AR Y SAWL A FEDYDDIWD,
AC A DDAETHANT I OEDRAN PWYLL.

¶ *AR y Dydd pennodedig, wedi gosod yn eu lle cynnifer ag a fo y pryd hwnnw i'w Confirmio, a hwy yn sefyll mewn trefn o flaen yr Esgob; efe (neu ryw Weinidog arall a bennodir ganddo ef) a dderllyn y Rhagymadrodd hon y sydd yn canlyn.*

ERmwyn bod gweinyddu Confirmasiwn er mwy o adeilad i'r sawl a'i derbynio, tybiodd yr Eglwys yn dda drefnu, na bo confirmio neb rhag llaw, ond y cyfryw ag a fedro ddywedyd y Credo, Gweddi'r Arglwydd, a'r Deng-Air Deddf; ac a fedro hefyd ateb i gyfryw ymofynion eraill ag a gynhwysir yn y Catecism byr. Yr hon drefn sydd weddus iawn ei chadw, er gallu o'r plant, wedi eu dyfod weithian i oedran pwyll, ac wedi dysgu y pethau a addawsai eu Tadau-bedydd a'u Mammau-bedydd drostynt wrth eu bedyddio, eu hun, â'u genau eu hunain, ac o'u cyd-syniad eu hunain, ar osteg o flaen yr Eglwys, gadarnhâu a chonfirmio yr unrhyw; a hefyd addaw, trwy ras Duw, yr ymegniant yn wastad i gadw yn ffyddlon y cyfryw bethau ag a fu iddynt hwy â'u cyffes eu hun gyd-synio arnynt.

¶ *Yna y dywed yr Esgob,*

AYdych chwi yma, yngŵydd Duw a'r gynnulleidfa hon, yn adnewyddu yr addewid parchus, a'r adduned a wnaethpwyd yn eich enw chwi wrth eich Bedyddio; gan gadarnhâu a chonfirmio yr unrhyw eich hunain, a chan gydnabod eich bod eich hunain yn rhwymedig i gredu a gwneuthur yr holl bethau a addawodd eich Tadau-bedydd a'ch Mammau-bedydd yna drosoch chwi?

TO the end that Confirmation may be ministered to the more edifying of such as shall receive it, the Church hath thought good to order, That none hereafter shall be Confirmed, but such as can say the Creed, the Lord's Prayer, and the Ten Commandments; and can also answer to such other Questions, as in the short Catechism are contained: which order is very convenient to be observed; to the end, that children, being now come to the years of discretion, and having learned what their Godfathers and Godmothers promised for them in Baptism, they may themselves, with their own mouth and consent, openly before the Church, ratify and confirm the same; and also promise, that by the grace of God they will evermore endeavour themselves faithfully to observe such things, as they, by their own confession, have assented unto.

¶ *Then shall the Bishop say,*

DO ye here, in the presence of God, and of this congregation, renew the solemn promise and vow that was made in your name at your Baptism; ratifying and confirming the same in your own persons, and acknowledging yourselves bound to believe, and to do, all those things, which your Godfathers and Godmothers then undertook for you?

Trefn Conffirmasiwn.

¶ *A phob un a ettyb yn glywedog, Yr ydwyf.*

Esgob.

EIN porth ni sydd yn Enw yr Arglwydd.

Atteb. Yr hwn a wnaeth nef a daear.

Esgob. Bendigedig yw Enw yr Arglwydd.

Atteb. O hyn allan hyd yn oes oesoedd.

Esgob. Arglwydd, gwranddo ein gweddïau.

Atteb. A deued ein llef hyd attat.

Esgob. Gweddïwn.

HOLL-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn fu wiw gen-nynt ad-genhedlu dy weision hyn trwy dduwfr, a'r Yspryd Glân, ac a roddaist iddynt faddeuant o'u holl bechodau; Nertha hwy, ni a attolygwn i ti, Arglwydd, â'th Yspryd Glân y Diddanydd; a pheunydd ychwanega ynddynt aml ddoniau dy ras; yspryd doethineb a deall; yspryd cyngor a nerth ysprydol; yspryd gwybodaeth a gwir dduwioldeb; a chyflawna hwy, Arglwydd, âg yspryd dy sanctaidd ofn, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

¶ *Yua, a phob un o honynt yn ei drefn yn gostwng ar ei liniau ger bron yr Esgob, efe a ddyd ei law ar ben pob un yn wahanol, gan ddywedyd,*

AMDDIFFYN, Arglwydd, dy Blentyn hwn [neu, dy was hwn] â'th ras nefol, fel y byddo iddo barhâu yn eiddot ti byth, a pheunydd gynnyddu yn dy Yspryd Glân fwyfwy, hyd oni ddél i'th deyrnas dragywyddol. *Amen.*

¶ *Yua y dywedd yr Esgob,*

Yr Arglwydd a fo gyd â chwi.

Atteb. A chyd â'th yspryd dithau.

¶ *And every one shall audibly answer, I do.*

The Bishop.

OUR help is in the Name of the Lord;

Answer. Who hath made heaven and earth.

Bishop. Blessed be the Name of the Lord;

Answer. Henceforth, world without end.

Bishop. Lord, hear our prayers.

Answer. And let our cry come unto thee.

The Bishop. Let us pray.

ALMIGHTY and everliving God, who hast vouchsafed to regenerate these thy servants by Water and the holy Ghost, and hast given unto them forgiveness of all their sins; Strengthen them, we beseech thee, O Lord, with the Holy Ghost the Comforter, and daily increase in them thy manifold gifts of grace; the spirit of wisdom and understanding; the spirit of counsel and ghostly strength; the spirit of knowledge and true godliness; and fill them, O Lord, with the spirit of thy holy fear, now and for ever. *Amen.*

¶ *Then all of them in order kneeling before the Bishop, he shall lay his hand upon the head of every one severally, saying,*

DEDEFEND, O Lord, this thy Child [or *this thy Servant*] with thy heavenly grace, that he may continue thine for ever; and daily increase in thy holy Spirit more and more, until he come unto thy everlasting kingdom. *Amen.*

¶ *Then shall the Bishop say,*

The Lord be with you.

Answer. And with thy spirit.

Trefn Confirmasiwn.

¶ *Ac (a phawb ar eu gliniau) yr Esgob a 'chwanega,*

Gweddïwn.

EIN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, Megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

A'r Colect hwn.

HOLL-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn wyt yn peri i ni ewyllysio a gwneuthur yr hyn sy dda ac yn gymmeradwy gan dy Ddwyfol Fawredd; Yr ydym yn gwneuthur ein gost-yngedig erfynion attat dros dy weision hyn, y rhai (yn ol esampl dy sanctaidd Apostolion) y gosodasom yr awrhon ein dwylaw arnynt, i'w sicrhâu hwy, trwy yr arwydd hwn, o'th amgeledd a'th radlawn ddaioni tu ag attynt. Bydded dy dadol law, ni a attolygwn i ti, byth arnynt; bydded dy Ysryd Glân byth gyd â hwy; ac felly tywys hwy yngwybodaeth ac ufuddod dy Air, modd y gallont yn y diwedd fwynhâu bywyd tragwyddol; trwy ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn, gyd â thi a'r Ysryd Glân, sydd yn byw ac yn teyrnasu byth yn un Duw, heb drange na gorphen. *Amen.*

HOLL-alluog Arglwydd, a thragywyddol Dduw, ni a attolygwn i ti, fod yn wiw gennynt unioni, sancteiddio, a llywodraethu, ein calonnau a'n cyrph yn ffyrdd dy ddeddfau, ac yngweithredoedd dy orchymynion; fel trwy dy gadarnaf nodd-ed, yma ac yn dragwyddol, y bôm yn gadwedig gorph ac

¶ *And (all kneeling down) the Bishop shall add,*

Let us pray.

OUR Father, which art in heaven, Hallowed be thy Name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, As it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

And this Collect.

ALMIGHTY and everliving God, who makest us both to will and to do those things that be good and acceptable unto thy divine Majesty; We make our humble supplications unto thee for these thy servants, upon whom (after the example of thy holy Apostles) we have now laid our hands, to certify them (by this sign) of thy favour and gracious goodness towards them. Let thy fatherly hand, we beseech thee, ever be over them; let thy Holy Spirit ever be with them; and so lead them in the knowledge and obedience of thy Word, that in the end they may obtain everlasting life; through our Lord Jesus Christ, who with thee and the Holy Ghost liveth and reigneth, ever one God, world without end. *Amen.*

O Almighty Lord, and everlasting God, vouchsafe, we beseech thee, to direct, sanctify, and govern, both our hearts and bodies, in the ways of thy laws, and in the works of thy commandments; that, through thy most mighty protection both here and ever, we may be preserved in body and soul; through

Trefn Priodas.

enaïd; trwy ein Harglwydd a'n
Hiachawdwr Iesu Grist. *Amen.*

¶ *Yna y bendithia'r Esgob hwynt,
gan ddywedyd hyn,*

BENDITH yr Holl-alluog
Dduw, y Tad, y Mab, a'r
Yspryd Glân, a fyddo arnoch,
ac a drigo gyd â chwi yn dra-
gywydd. *Amen.*

¶ *Ac ni dderbynir neb i'r Cymmun Sanctaidd, nes iddo gael ei Gonffirmio,
neu fod o hono yn barod ac yn ewyllysgar i'w Gonffirmio.*

our Lord and Saviour Jesus
Christ. *Amen.*

¶ *Then the Bishop shall bless them,
saying thus,*

THE Blessing of God Al-
mighty, the Father, the
Son, and the Holy Ghost, be
upon you, and remain with you
for ever. *Amen.*

FFURF GWEINYDDIAD PRIODAS.

¶ *YN gyntaf, rhaid yw gofyn Gostegion pob rhai a brïoder, yn yr
Eglwys, ar dri Sul gwahanredol, ar bryd y Gwasanaeth yn y bore,
neu yn y prydnhawn, oni bydd yno Wasanaeth yn y bore, yn ebrwydd
ar ol yr ail Lith; a'r Curad yn dywedyd yn y modd arferedig,*

YR wyf yn cyhoeddi Gost-
egion Priodas rhwng *M.*
o — ac *N.* o —. Os gŵyr
neb o honoch achos neu rwystr
cyfiawn, fel na ddylid cyssylltu
y ddeuddyn hyn ynghyd mewn
glân Brïodas, mynegweh ef.
Dyma 'r waith gyntaf [ail, neu
y drydedd] o'u gofyn.

¶ *Ac os y rhai a fyynnant eu prïodi
a fydd yn trigo mewn gwahanol
Blwyfan, rhaid yw gofyn y Gost-
egion yn y ddau Blwyf; ac na bo
i Curad y naill Blwyf eu prïodi
hwy, nes cael hyspysrwydd ddar-
fod gofyn eu Gostegion dair gwaith
gan Curad y Plwyf arall.*

¶ *Ar y dydd a'r amser gosodedig i fod
y Brïodas, deued y rhai a brïoder
i gorph yr Eglwys, a'u ccraint a'u
cymmydigion: ac yno, gan sefyll
ynghyd, y Mab ar y llaw ddeheu,
a'r Ferch ar yr aswy, yr Offeiriad
a ddywed,*

FY anwyl garedigion, yr ym
ni wedi ymgynnull yma
yngolwg Duw, ac yn wyneb y
gynulleidfa hon, i gyssylltu'r
ddeuddyn hyn ynghyd mewn
glân Brïodas, yr hon sydd ystâd
barchedig wedi ei hordcinio gan

I Publish the Banns of Mar-
riage between *M.* of — and
N. of —. If any of you know
cause, or just impediment, why
these two persons should not be
joined together in holy Matrimony,
ye are to declare it. This
is the first [second, or third]
time of asking.

¶ *And if the persons that are to be
married dwell in divers Parishes,
the Banns must be asked in both
Parishes; and the Curate of the
one Parish shall not solemnize Ma-
trimony betwixt them, without a
Certificate of the Banns being thrice
asked, from the Curate of the other
Parish.*

¶ *At the day and time appointed for
solemnization of Matrimony, the
persons to be married shall come into
the body of the Church with their
friends and neighbours: and there
standing together, the Man on the
right hand, and the Woman on the
left, the Priest shall say,*

DEARLY beloved, we are
gathered together here in
the sight of God, and in the
face of this congregation, to join
together this Man and this Wo-
man in holy Matrimony; which
is an honourable estate, insti-

Dduw yn amser diniweidrwydd dyn, yn arwyddocâu i ni y dirgel undeb y sy rhwng Crist a'i Eglwys; yr hon wÿnfydedig ystâd a addurnodd ac a brydferthodd Crist â'i gynnrychioldeb ei hun, a'r gwÿrthiau cyntaf a wnaeth efe yn Cana Galilea; ac a ddywedir hefyd gan Sant Paul, ei bod yn anrhydeddus ym mhllith yr holl ddyinion: ac am hynny ni ddylai neb ei chymmeryd arno, na'i gwneuthur, mewn byrbwyll, o ysgafnder meddwl, neu nwyfiant, er mwyn digoni gwÿniau a chwantau cnawdol, fel anifeiliaid ysgrublaidd y rhai nid oes reswm ganddynt; eithr yn barchedig, yn bwyllog, yn ystyriol, yn sobr, ac mewn ofn Duw; gan ddyledus synio er mwyn pa achosion yr ordeiniwyd Prïodas.

Yn gyntaf, Hi a ordeiniwyd er ynnill plant, i'w meithrin yn ofn ac addysg yr Arglwydd, ac er moliant i'w Enw sanctaidd ef.

Yn ail, Hi a ordeiniwyd yn ymward yn erbyn pechod, ac i ymogelyd rhag godineb; megis ag y byddo i'r cyfryw rai nad oes iddynt roddiad i ymgynnal, allu prïodi, a'u cadw eu hunain yn ddihalogion aelodau corph Crist.

Yn drydydd, Hi a ordeiniwyd er cyd-gymdeithas â'u gilydd, a'r cymmorth a'r diddanwech a ddylai'r naill ei gael gan y llall, yn gystal mewn hawddfyd ac adfyd: i'r hon sanctaidd ystâd y mae'r ddeuddyn presennol hyn wedi dyfod yr awrhon i ymgysylltu. Herwydd paham, os gwÿr neb un achos cyfiawn, fel na ellir yn gyfreithlon eu cyssylltu hwy ynghyd, dywedded yr awrhon, neu na ddywedded byth rhag llaw.

¶ *A chan grybwyll hefyd wrth y rhai a brïoder, efe a ddywed,*

YR wyf fi yn erchi ac yn gorchymyn i chwi eich dau, fel

tuted of God in the time of man's innocency, signifying unto us the mystical union that is betwixt Christ and his Church; which holy estate Christ adorned and beautified with his presence, and first miracle that he wrought, in Cana of Galilee; and is commended of Saint Paul to be honourable among all men: and therefore is not by any to be enterprised, nor taken in hand, unadvisedly, lightly, or wantonly, to satisfy men's carnal lusts and appetites, like brute beasts that have no understanding; but reverently, discreetly, advisedly, soberly, and in the fear of God; duly considering the causes for which Matrimony was ordained.

First, It was ordained for the procreation of children, to be brought up in the fear and nurture of the Lord, and to the praise of his holy Name.

Secondly, It was ordained for a remedy against sin, and to avoid fornication; that such persons as have not the gift of continency might marry, and keep themselves undefiled members of Christ's body.

Thirdly, It was ordained for the mutual society, help, and comfort, that the one ought to have of the other, both in prosperity and adversity. Into which holy estate these two persons present come now to be joined. Therefore if any man can shew any just cause, why they may not lawfully be joined together, let him now speak, or else hereafter for ever hold his peace.

¶ *And also, speaking unto the persons that shall be married, he shall say,*

I Require and charge you both, as ye will answer at the dread-

Trefn Prïodas.

y bo i chwi ateb ddydd y farn
 ōfnadwy, pan gyhoedder dirgel-
 ion pob calon, os gŵyr yr un o
 honoch un anach, fel na ddylech
 yn gyfreithlawn fyned ynghyd
 mewn Prïodas, gyffesu o honoch
 yr awrhon. Canys gwybyddwch
 yn dda, am gynnifer ag a gys-
 syllter yn amgen nag y myn Gair
 Duw, na's cyssylltir hwy gan
 Dduw, ac nad yw eu Prïodas
 yn gyfreithlawn.

¶ *Ar ddydd y Brïodas, o bydd i neb
 honni a dywedyd bod un anach
 na ddylent gael eu cyssylltu mewn
 Prïodas, wrth Gyfraith Dduw,
 neu Gyfreithiau'r Deyrnas hon, ac
 a ymrwymia â meichiau digonol
 gyd âg ef i'r pleidiau, neu ynte
 roddi Gwystl (am gwbl a dâl
 cynmaint a cholled y rhai a fo
 i'w prïodi) i brofi ei ddadl: yna
 y bydd rhaid oedi dydd y Brï-
 odas hyd yr amser y profer y gwir-
 ionedd.*

¶ *Ac oni honnir un anach, yna y
 dywed y Curad wrth y Gwr,*

M. A fynni di y Ferch hon
 yn wraig brïod i ti, i fyw
 ynghyd yn ol ordinhâd Duw,
 ynglân ystâd Prïodas? A geri
 di hi, ei diddanu, ei pherchi, a'i
 chadw yn glaf ac yn iach, a chan
 wrthod pob un arall, dy gadw
 dy hun yn unig iddi hi, cyhyd
 ag y byddoch byw eich deuoedd?

¶ *Y Mab a ettyb,
 Gwnaf.*

¶ *Yna y dywed y Gweinidog,*

N. A fynni di y Mab hwn
 yn wr prïod i ti, i fyw
 ynghyd yn ol ordinhâd Duw,
 ynglân ystâd Prïodas? A uf-
 uddhâi di iddo, a'i wasanaethu,
 ei garu, ei berchi, a'i gadw yn
 glaf ac yn iach, a chan wrthod
 pawb eraill, dy gadw dy hun yn
 unig iddo ef, cyhyd ag y bydd-
 och byw eich deuoedd?

ful day of judgement when the
 secrets of all hearts shall be dis-
 closed, that if either of you know
 any impediment, why ye may
 not be lawfully joined together
 in Matrimony, ye do now con-
 fess it. For be ye well assured,
 that so many as are coupled
 together otherwise than God's
 Word doth allow are not join-
 ed together by God; neither is
 their Matrimony lawful.

¶ *At which day of Marriage, if any
 man do alledge and declare any
 impediment, why they may not be
 coupled together in Matrimony, by
 God's Law, or the Laws of this
 Realm; and will be bound, and
 sufficient sureties with him, to the
 parties; or else put in a Caution
 (to the full value of such charges
 as the persons to be married do
 thereby sustain) to prove his al-
 legation: then the solemnization
 must be deferred, until such time
 as the truth be tried.*

¶ *If no impediment be alledged, then
 shall the Curate say unto the Man,*

M. WILT thou have this
 Woman to thy wedded
 wife, to live together after God's
 ordinance in the holy estate of
 Matrimony? Wilt thou love her,
 comfort her, honour, and keep
 her in sickness and in health;
 and, forsaking all other, keep
 thee only unto her, so long as
 ye both shall live?

¶ *The Man shall answer,
 I will.*

¶ *Then shall the Priest say unto the
 Woman,*

N. WILT thou have this
 Man to thy wedded
 husband, to live together after
 God's ordinance in the holy es-
 tate of Matrimony? Wilt thou
 obey him, and serve him, love,
 honour, and keep him in sickness
 and in health; and, forsaking all
 other, keep thee only unto him,
 so long as ye both shall live?

Trefn Prïodas.

¶ *Y Ferch a ettyb,
Gwnaf.*

¶ *Yna y dywed y Gweinidog,*

Pwy sydd yn rhoddi'r Ferch hon i'w phrïodi i'r Mab hwn ?

¶ *Yna y rhoddant eu cred i'w gilydd y modd hwn.*

Y Gweinidog, gan dderbyn y Ferch o law ei thad, neu ei cheraint, a bair i'r Mab â'i law ddehau gymmeryd y Ferch erbyn ei llaw ddehau, a dywedyd ar ei ol ef fel y mae yn canlyn.

YR ydwyf fi *M.* yn dy gymmeryd di *N.* yn wraig brïod i mi, i gadw a chynnal, o'r dydd hwn allan, er gwell, er gwaeth, er cyfoethocch, er tlottach, yn glaf ac yn iach, i'th garu ac i'th fawrhâu, hyd pan y'n gwahano angau, yn ol glân ordinhâd Duw; ac ar hynny yr ydwyf yn rhoddi i ti fy nghred.

¶ *Yna y gollyngant eu dwylaw yn rhyddion; a'r Ferch â'i llaw ddehau yn cymmeryd y Mab erbyn ei law ddehau, a ddywed ar ol y Gweinidog,*

YR ydwyf fi *N.* yn dy gymmeryd di *M.* yn wr prïod i mi, i gadw a chynnal, o'r dydd hwn allan, er gwell, er gwaeth, er cyfoethocch, er tlottach, yn glaf ac yn iach, i'th garu, i'th fawrhâu, ac i ufuddhâu i ti, hyd pan y'n gwahano angau, yn ol glân ordinhâd Duw; ac ar hynny yr ydwyf yn rhoddi i ti fy nghred.

¶ *Yna drachefn y gollyngant eu dwylaw yn rhyddion, ac y dyry y Mab Fodrwy i'r Ferch, gan ei doddi ar y llyfr, ynghyd â'r ddyled ddefodol i'r Offeiriad a'r Clochydd. A'r Offeiriad a gymmer y Fodrwy, ac a'i dyry i'r Mab, i'w gosod ar y pedwerydd bys i law aswy y Ferch. A'r Mab, gan ddal y Fodrwy yno, wrth addysg yr Offeiriad, a ddywed,*

A'R Fodrwy hon y'th brïodaf, â'm corph y'th anrhydeddaf, ac â'm holl olud bydol

¶ *The Woman shall answer,
I will.*

¶ *Then shall the Minister say,*

Who giveth this Woman to be married to this Man ?

¶ *Then shall they give their troth to each other in this manner.*

The Minister, receiving the Woman at her father's or friend's hands, shall cause the Man with his right hand to take the Woman by her right hand, and to say after him as followeth.

I *M.* take thee *N.* to my wedded wife, to have and to hold from this day forward, for better for worse, for richer for poorer, in sickness and in health, to love and to cherish, till death us do part, according to God's holy ordinance; and thereto I plight thee my troth.

¶ *Then shall they loose their hands; and the Woman, with her right hand taking the Man by his right hand, shall likewise say after the Minister,*

I *N.* take thee *M.* to my wedded husband, to have and to hold from this day forward, for better for worse, for richer for poorer, in sickness and in health, to love, cherish, and to obey, till death us do part, according to God's holy ordinance; and thereto I give thee my troth.

¶ *Then shall they again loose their hands; and the Man shall give unto the Woman a Ring, laying the same upon the book with the accustomed duty to the Priest and Clerk. And the Priest, taking the Ring, shall deliver it unto the Man, to put it upon the fourth finger of the Woman's left hand. And the Man holding the Ring there, and taught by the Priest, shall say,*

WITH this Ring I thee wed, with my body I thee worship, and with all my worldly

Trefn Priodas.

y'th gynnysgaeddaf: Yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân. Amen.

¶ *Yna y gad y Mab y Fodrwy ar y pedwerydd bys o'r llaw aswy i'r Ferch; a hwy ill dau a ostyngant ar eu gliniau, ac y dywed y Gweinidog,*

Gweddïwn.

O Dragywyddol Dduw, Creawdwr a Cheidwad pob rhyw ddyd, Rhoddwr pob rhad ysprydol, Awdwr y bywyd a bery byth; Anfon dy fendith ar dy wasanaeth-ddynion hyn, y mab hwn a'r ferch hon, y rhai yr ym ni yn eu bendithio yn dy Enw di; fel ag y bu i Isaac a Rebecca fyw yn ffyddlon ynghyd, felly gallu o'r dynion hyn gyflawni a chadw yn ddiogel yr adduned a'r ammod a wnaed rhyngddynt (am yr hyn y mae rhoddiad a derbyniad y Fodrwy hon yn arwydd ac yn wystl) a gallu o honynt byth aros ynghyd mewn perffaith gariad a thangnefedd, a byw yn ol dy ddeddfau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y cysyllta'r Offeiriad eu awy law ddchau hwy ynghyd, ac y dywed,*

Y rhai a gyssylltodd Duw ynghyd, na wahaned dyn.

¶ *Yna y dywed y Gweinidog wrth y bobl.*

YN gymmaint a darfod i *M.* ac *N.* gyd-synio mewn glân Briodas, a thystiolaethu hynny ger bron Duw a'r gymulleidfa hon, ac ar hynny ddarfod iddynt ymgredu, ac ymwystlo bob un i'w gilydd, a datgan hynny gan roddi a derbyn Modrwy, a chysylltu dwylaw; yr wyf fi yn hypysu, eu bod hwy yn Wr ac yn Wraig ynghyd; Yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân. Amen.

goods I thee endow: In the Name of the Father, and of the Son, and of the Holy Ghost. Amen.

¶ *Then the Man leaving the Ring upon the fourth finger of the Woman's left hand, they shall both kneel down; and the Minister shall say,*

Let us pray.

O Eternal God, Creator and Preserver of all mankind, Giver of all spiritual grace, the Author of everlasting life; Send thy blessing upon these thy servants, this man and this woman, whom we bless in thy Name; that, as Isaac and Rebecca lived faithfully together, so these persons may surely perform and keep the vow and covenant betwixt them made, (whereof this Ring given and received is a token and pledge,) and may ever remain in perfect love and peace together, and live according to thy laws; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

¶ *Then shall the Priest join their right hands together, and say,*

Those whom God hath joined together let no man put asunder.

¶ *Then shall the Minister speak unto the people.*

FORASMUCH as *M.* and *N.* have consented together in holy wedlock, and have witnessed the same before God and this company, and thereto have given and pledged their troth either to other, and have declared the same by giving and receiving of a Ring, and by joining of hands; I pronounce that they be Man and Wife together, In the Name of the Father, and of the Son, and of the Holy Ghost. Amen.

Trefn Prïodas.

O Blessed Lord, the Father of mercies, and the God of all comforts; We beseech thee, look down in pity and compassion upon this thy afflicted servant. Thou writest bitter things against *him*, and makest *him* to possess *his* former iniquities; thy wrath lieth hard upon *him*, and *his* soul is full of trouble: But, O merciful God, who hast written thy holy Word for our learning, that we, through patience and comfort of thy holy Scriptures, might have hope; give *him* a right understanding of *himself*, and of thy threats and promises; that *he* may neither cast away *his* confidence in thee, nor place it any where but in thee. Give *him* strength against all *his* temptations, and heal all *his* distempers. Break not the bruised reed, nor quench the smoking flax. Shut not up thy tender mercies in displeasure; but make *him* to hear of joy and gladness, that the bones which thou hast broken may rejoice. Deliver *him* from fear of the enemy, and lift up the light of thy countenance upon *him*, and give *him* peace, through the merits and mediation of Jesus Christ our Lord. *Amen.*

CYMMUN Y CLAF.

¶ **YN** gymmaint a bob pob dyn marwol yn ddarostyngedig i lawer o beryglon disyfyd, heintiau, a chlefydau, ac byth yn anhyspys pa bryd yr ymadawant â'r bywyd hwn; o herwydd hynny, er mwyn gallu o honynt fod bob amser mewn parodrwydd i farw, pa bryd bynnag y rhyngo bodd i'r Holl-alluog Dduw atw am danynt; bydded i'r Curadiaid yn ddyfal, o amser i amser (ac yn cnwedig yn amser pla, neu ryw haint lynol arall) gynghori eu Plwyfolion i gymmeryd yn fynych fendigedig Gymmun Corph a Gwacd ein Hiachawdwr Crist, pan weinyddir ef yn gyhoedd yn yr Eglwys; fel, gan wneud felly, y bo llai o achos iddynt, yn eu hymweliad disymmwrth, i fod yn anheddychol yn eu meddwl o ddiffyg hynny. Ond os y claf fydd analluog i ddyfod i'r Eglwys, ac etto yn dymuno cymmeryd y Cymmun yn ei dy; yna y bydd rhaid iddo fynegi hynny mewn pryd i'r Curad, gan hyspysu hwyd pa sawl un y sydd yn darparu cymmuno gyd âg ef (y rhai a fyddant dri, neu ddau o'r lleiaf) ac wedi cael lle cyfaddas yn nhŷ y claf, gyd â phob peth angenrheidiol felly yn barod, fel y gallu y Curad weinyddu yn barchedig, gweinydded ef yno y Cymmun bendigedig, gan ddechreu ar y Colect, Epistol, a'r Efengyl, yma yn caulyn.

Y Colect.

HOLL-gyfoethog a byth-fywiol Dduw, gwneuthurwr dynol ryw, yr hwn wyt yn cospi y rhai a gerych, ac yn ceryddu pawb a'r a dderbyniech; Nyni a attolygwn i ti drugarhâu wrth dy was hwn yma ymweledig gan dy law, ac i ti ganiattâu gymmeryd o hono ei glesyd yn ddiodesfus, a chaffael ei iechyd corphorol drachefn (os dy radlawn ewylls di yw hynny) a pha bryd bynnag yr ymadawo ei enaid â'i gorph, bod o hono yn ddi-frycheulyd wrth ei gyflwyno i ti; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yr Epistol. Heb. xii. 5.

FY mab, na ddirmysa gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyoedder ganddo. Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu; ac yn fflangellu pob mab a dderbynio.

Yr Efengyl. St. Ioan v. 24.

YN wir, yn wir, meddaf i chwi, Y neb sydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragwyddol, ac ni ddaw i farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.

The Collect.

ALMIGHTY, everliving God, Maker of mankind, who dost correct those whom thou dost love, and chastise every one whom thou dost receive; We beseech thee to have mercy upon this thy servant visited with thine hand, and to grant that he may take his sickness patiently, and recover his bodily health, (if it be thy gracious will;) and whensoever his soul shall depart from the body, it may be without spot presented unto thee; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

The Epistle. Heb. xii. 5.

MY son, despise not thou the chastening of the Lord, nor faint when thou art rebuked of him. For whom the Lord loveth he chasteneth; and scourgeth every son whom he receiveth.

The Gospel. St. John v. 24.

VERILY, verily I say unto you, He that heareth my word, and believeth on him that sent me, hath everlasting life, and shall not come into condemnation; but is passed from death unto life.

Claddedigaeth y Marw.

- ¶ *Gwedi hyn yr Offeiriad a ũ ym mlaen, yn ol y ffurf osodedig uchod, i'r Cymmun bendigedig; gan ddechreu ar y geiriau hyn [Chwychwi y sawl sydd yn wir, &c.]*
- ¶ *Pan gyfraner y Sacrament bendigedig, cymmered yr Offeiriad yntau ei hun y Cymmun yn gyntaf; ac ar ol hynny, gweinydded i'r rhai a ddarparwyd i gymmuno gyd â'r claf, ac yn ddiweddaf oll i'r dyn claf.*
- ¶ *Eithr o bydd neb, naill ai o ddirdra dolur, neu o herwydd eisiau rhybudd mewn amser dyladwy i'r Curad, neu o eisian cyfeillyddion i gymmeryd gyd âg ef, neu oblegid rhyw rwystr cystawu arall, heb gymmeryd Sacrament Corph a Gwaed Crist; yna dangosed y Curad, os yw efe yn wir edisciriol am ei bechodau, ac yn credu yn ddiysgog ddarfod i Iesu Grist ddioddef angau ar y Groes drosto, a thywallt ei Waed er ei Brynedigaeth ef, gan goffu yn ddi-frif y mawr ddaioni sydd iddo ef o hynny, a chan ddiolch iddo o'i galon am dano, ei fod ef yn bwyttu ac yn yfed Corph a Gwaed ein Hiachawdwr Crist yn fuddiol i iechyd ei Enaid, er uad yw efe yn derbyn y Sacrament a'i enau.*
- ¶ *Pan ymweler â'r claf, ac yntau yn cymmeryd y Cymmun bendigedig yr un amser; bydded yna i'r Offeiriad, er mwyn prysuro yn gynt, dorri ymaith ffurf yr Ymweliad, lle mac'r Psalm [Ynot ti, O Arglwydd, y gobeithiais, &c.] ac aed yn uniawn i'r Cymmun.*
- ¶ *Yn amser Pla, Clefyd y Chwŷs, neu gyfryw amserau heintiau neu glefydau llŷn, pryd na aller cael yr un o'r Pleyf neu'r Cymmydogion i gymmuno gyd â'r cleifion yn eu tai, rhag ofn cael yr haint, ar hyspysol ddeisyfiad y claf, fe all y Gweinidog yn unig gymmuno gyd âg ef.*

TREFN

CLADDEDIGAETH Y MARW.

- ¶ *Noder yma, Na ddylid arfer y Gwasanaeth a ganlyn dros neb a fo marw heb fedydd, neu dan Ysgymmundod, neu a'u lladdasant eu hunain.*
- ¶ *Yr Offeiriad a'r Ysgolheigion, wrth gyfarfod â'r Corph wrth borth y Fynwent, ac yn myned o'i flaen i'r Eglwys, neu tu a'r Bedd, a ddywedant, neu a ganant,*

MYFI yw'r adgyfodiad a'r bywyd, medd yr Arglwydd: yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw. A phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. *St. Ioan xi. 25, 26.*

MYFI a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear. Ac er ar ol fy nghroen i bryfed ddifetha'r corph hwn, etto caf weled Duw yn fy nghnawd: yr hwn a gaf fi im' fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall. *Job xix. 25, 26, 27.*

I Am the resurrection and the life, saith the Lord: he that believeth in me, though he were dead, yet shall he live: and whosoever liveth and believeth in me shall never die. *St. John xi. 25, 26.*

I Know that my Redeemer liveth, and that he shall stand at the latter day upon the earth. And though after my skin worms destroy this body, yet in my flesh shall I see God: whom I shall see for myself, and mine eyes shall behold, and not another. *Job xix. 25, 26, 27.*

NI ddygasom ni ddim i'r byd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymmerodd ymaith; bendigedig fyddo Enw yr Arglwydd. 1 *Tim.* vi. 7. *Job* i. 21.

¶ *Gwedi eu dyfod i'r Eglwys, y darllenir un o'r Psalmau hyn yn canlyn, neu'r ddwy.*

Dixi, custodiam. Psal. xxxix.

DY WEDAIS, Cadwaf fy ffyrdd, rhag pechu â'm tafod: cadwaf ffrwyn yn fy ngenau, tra fyddo'r annuwiol yn fy ngolwg.

Tewais yn ddistaw, i'e, tewais â daioni: a'm dolur a gyffrôdd.

Gwresogodd fy nghalon o'm mewn: tra'r oeddwn yn myfyrio, ennynodd tân, a mi a leferais â'm tafod.

Arglwydd, par i mi wybod fy niwedd, a pheth yw mesur fy nyddiau: fel y gwypwyf o ba oedran y byddaf fi.

Wele, gwnaethost fy nyddiau fel dyrnfedd; a'm heinioes sy megis diddym yn dy olwg di: diau mai cwbl wagedd yw pob dyn, pan fo ar y goreu.

Dyn yn ddiâu sydd yn rhodio mewn cysgod, ac yn ymdrafferthu yn ofer: efe a dyrra olud, ac ni's gŵyr pwy a'i casgl.

Ac yn awr beth a ddisgwyliaf, O Arglwydd: fy ngobaith sydd ynot ti.

Gwared fi o'm holl gamweddau: ac na osod fi yn wardwydd i'r ynyfud.

Aethum yn fud, ac nid agorais fy ngenau: canys ti a wnaethost hyn.

WE brought nothing into this world, and it is certain we can carry nothing out. The Lord gave, and the Lord hath taken away; blessed be the Name of the Lord. 1 *Tim.* vi. 7. *Job* i. 21.

¶ *After they are come into the Church, shall be read one or both of these Psalms following.*

Dixi, custodiam. Psal. xxxix.

I Said, I will take heed to my ways: that I offend not in my tongue.

I will keep my mouth as it were with a bridle: while the ungodly is in my sight.

I held my tongue, and spake nothing: I kept silence, yea, even from good words; but it was pain and grief to me.

My heart was hot within me, and while I was thus musing the fire kindled: and at the last I spake with my tongue;

Lord, let me know mine end, and the number of my days: that I may be certified how long I have to live.

Behold, thou hast made my days as it were a span long: and mine age is even as nothing in respect of thee; and verily every man living is altogether vanity.

For man walketh in a vain shadow, and disquieteth himself in vain: he heapeth up riches, and cannot tell who shall gather them.

And now, Lord, what is my hope: truly my hope is even in thee.

Deliver me from all mine offences: and make me not a rebuke unto the foolish.

I became dumb, and opened not my mouth: for it was thy doing.

Claddedigaeth y Marw.

Tyn dy bla oddi wrthyf : gan ddyrnod dy law y darfùm i.

Pan gospit ddyn â cheryddon am anwiredd, dattodit fel gwyfyn ei ardderchowgrwydd ef : gwagedd yn ddïau yw pob dyn.

Gwranddo fy ngweddi, Arglwydd, a chlyw fy llef ; na thaw wrth fy wylofain : canys ymdeithydd ydwyf gyd â thi, ac alltud, fel fy holl dadau.

Paid â mi, fel y cryfhawyf : cyn fy myned, ac na byddwyf mwy.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

Domine, refugium. Psal. xc.

TI, Arglwydd, fuost yn breswylfa i ni : ym mhob cenedlaeth ;

Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaear a'r byd : ti hefyd wyt Dduw o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb.

Troi ddyn i ddinystyr : a dywedi, Dychwelwch, feibion dynion.

Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe : wedi'r el heibio, ac fel gwyliadwriaeth nos.

Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant ; y maent fel hûn : y bore y maent fel llysieuyn a newidir.

Y bore y blodeua, ac y tyf : prydawn y torrir ef ymaith, ac y gwywa.

Canys yn dy ddig y difethwyd ni : ac yn dy lidiowgrwydd y'n brawychwyd.

Take thy plague away from me : I am even consumed by means of thy heavy hand.

When thou with rebukes dost chasten man for sin, thou makest his beauty to consume away like as it were a moth fretting a garment : every man therefore is but vanity.

Hear my prayer, O Lord, and with thine ears consider my calling : hold not thy peace at my tears.

For I am a stranger with thee : and a sojourner, as all my fathers were.

O spare me a little, that I may recover my strength : before I go hence, and be no more seen.

Glory be to the Father, and to the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. Amen.

Domine, refugium. Psal. xc.

LORD, thou hast been our refuge : from one generation to another.

Before the mountains were brought forth, or ever the earth and the world were made : thou art God from everlasting, and world without end.

Thou turnest man to destruction : again thou sayest, Come again, ye children of men.

For a thousand years in thy sight are but as yesterday : seeing that is past as a watch in the night.

As soon as thou scatterest them, they are even as a sleep : and fade away suddenly like the grass.

In the morning it is green, and groweth up : but in the evening it is cut down, dried up, and withered.

For we consume away in thy displeasure : and are afraid at thy wrathful indignation.

Claddedigaeth y Marn.

Gosodaist ein hanwiredd ger dy fron : ein dirgel bechodau yngoleuni dy wyneb.

Canys ein holl ddyddiau ni a ddarfuant gan dy ddigofaint di : treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl.

Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mlynedd a thrugain ; ac os o gryfder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd : etto eu nerth sy boen a blinder ; canys ebrwydd y derfydd, a ni a ehedwn ymaith.

Pwy a edwyn nerth dy soriant : canys fel y mae dy ofn, y mae dy ddigter.

Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau : fel y dygom ein calon i ddoethineb.

Dychwel, Arglwydd, pa hŷd : ac edifarhâ o ran dy weision.

Diwalla ni yn fore â'th drugaredd : fel y gorfoleddom ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau.

Llawenhâ ni yn ol y dyddiau y cystuddiaist ni : a'r blynyddoedd y gwelsom ddrygyfŷd.

Gweler dy waith tu ag at dy weision : a'th ogoniant tu ag at eu plant hwy.

A bydded prydferthwch yr Arglwydd ein Duw arnom ni : a threfna weithred ein dwylaw ynom ni ; iē, trefna waith ein dwylaw.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad : yn oes oesoedd. Amen.

Thou hast set our misdeeds before thee : and our secret sins in the light of thy countenance.

For when thou art angry all our days are gone : we bring our years to an end, as it were a tale that is told.

The days of our age are threescore years and ten ; and though men be so strong, that they come to fourscore years : yet is their strength then but labour and sorrow ; so soon passeth it away, and we are gone.

But who regardeth the power of thy wrath : for even thereafter as a man feareth, so is thy displeasure.

O teach us to number our days : that we may apply our hearts unto wisdom.

Turn thee again, O Lord, at the last : and be gracious unto thy servants.

O satisfy us with thy mercy, and that soon : so shall we rejoice and be glad all the days of our life.

Comfort us again now after the time that thou hast plagued us : and for the years wherein we have suffered adversity.

Shew thy servants thy work : and their children thy glory.

And the glorious Majesty of the Lord our God be upon us : prosper thou the work of our hands upon us, O prosper thou our handy-work.

Glory be to the Father, and to the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be : world without end. Amen.

¶ *Ar ol hynny y canlyn y Llith, wedi ei chymmyryd o'r bymthegfed Benod o Epistol cyntaf Sant Paul at y Corinthiaid.*

¶ *Then shall follow the Lesson taken out of the fifteenth Chapter of the former Epistle of Saint Paul to the Corinthians.*

Claddedigaeth y Marw.

1 Cor. xv. 20.

YN awr Crist a gyfodwyd oddi wrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant. Canys, gan fod marwolaeth trwy ddyd, trwy ddyd hefyd y mae adgyfodiad y meirw. Oblegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghrist y bywhêir pawb. Eithr pob un yn ei drefn ei hun: y blaen-ffrwyth yw Crist; wedi hynny y rhai ydynt eiddo Crist, yn ei ddyfodiad ef. Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad; wedi iddo ddilëu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth. Canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed. Y gelyn diweddaf a ddinystirir yw'r angau: canys efe a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef. Eithr pan yw yn dywedyd fod pob peth wedi eu darostwng, amlwg yw mai oddi eithr yr hwn a ddarostyngodd bob peth iddo. A phan ddarostynger pob peth iddo, yna'r Mab ei hun hefyd a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef; fel y byddo Duw oll yn oll. Os amgen, beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw, os y meirw ni chyfodir ddim? Paham ynte y bedyddir hwy dros y meirw? a phaham yr ydym ninnau mewn perygl bob awr? Yr ydwyf beunydd yn marw, myn eich gorfoledd yr hon sy gennyf yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. Os yn ol dull dyn yr ymleddais âg anifeiliaid yn Ephesus, pa lesâd fydd i mi, oni chyfodir y meirw? Bwyttâwn, ac yfwn; canys y foru marw yr ydym. Na thwyller chwi: y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da. Deffrôwch yn gyfiawn, ac na phechwch; canys nid oes gan rai wybodaeth am

1 Cor. xv. 20.

NOW is Christ risen from the dead, and become the first-fruits of them that slept. For since by man came death, by man came also the resurrection of the dead. For as in Adam all die, even so in Christ shall all be made alive. But every man in his own order: Christ the first-fruits; afterward they that are Christ's, at his coming. Then cometh the end, when he shall have delivered up the kingdom to God, even the Father; when he shall have put down all rule, and all authority, and power. For he must reign, till he hath put all enemies under his feet. The last enemy that shall be destroyed is death. For he hath put all things under his feet. But when he saith, all things are put under him, it is manifest that he is excepted, which did put all things under him. And when all things shall be subdued unto him, then shall the Son also himself be subject unto him that put all things under him, that God may be all in all. Else what shall they do which are baptized for the dead, if the dead rise not at all? Why are they then baptized for the dead? and why stand we in jeopardy every hour? I protest by your rejoicing, which I have in Christ Jesus our Lord, I die daily. If after the manner of men I have fought with beasts at Ephesus, what advantageth it me, if the dead rise not? Let us eat and drink, for to-morrow we die. Be not deceived: evil communications corrupt good manners. Awake to righteousness, and sin not; for some have not the knowledge of God. I speak this to your shame. But

Claddedigaeth y Marw.

Dduw. Er cywilydd i chwi yr wyf yn dywedyd hyn. Eithr fe a ddywed rhyw un, Pa fodd y cyfodir y meirw? ac â pha ryw gorph y deuant? O ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywhêir, oni bydd efe marw. A'r peth yr wyt yn ei hau, nid y corph a fydd yr ydwyt yn ei hau, ond gronyn noeth, ysgatfydd o wenith, neu o ryw rawn arall. Eithr Duw sydd yn rhoddi iddo gorph fel y mynnodd efe, ac i bob hedyn ei gorph ei hun. Nid yw pob cnawd unrhyw gnawd; eithr arall yw cnawd dynion, ac arall yw cnawd anifeiliaid, a chnawd arall sydd i bysgod, ac arall i adar. Y mae hefyd gyrph nefol, a chyrph daearol; ond arall yw gogoniant y rhai nefol, ac arall y rhai daearol. Arall yw gogoniant yr haul, ac arall yw gogoniant y lloer, ac arall yw gogoniant y ser; canys y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant. Felly hefyd y mae adgyfodiad y meirw: efe a heuir mewn llygredigaeth; ac a gyfodir mewn anllygredigaeth: efe a heuir mewn ammharch; ac a gyfodir mewn gogoniant: efe a heuir mewn gwendid; ac a gyfodir mewn nerth: efe a heuir yn gorph anianol; ac a gyfodir yn gorph ysprydol. Y mae corph anianol, ac y mae corph ysprydol. Felly hefyd y mae yn ysgrifenedig, Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn yspryd yn bywhâu. Eithr nid cyntaf yr ysprydol, ond yr anianol; ac wedi hynny yr ysprydol. Y dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol, yr ail dyn yr Arglwydd o'r nef. Fel y mae y daearol, felly y mae y rhai daearol: ac fel y mae y nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd. Ac megis y dygasom ddelw y daearol, ni a ddygwn hefyd ddelw

some man will say, How are the dead raised up? and with what body do they come? Thou fool, that which thou sowest is not quickened, except it die. And that which thou sowest, thou sowest not that body that shall be, but bare grain, it may chance of wheat, or of some other grain: But God giveth it a body, as it hath pleased him, and to every seed his own body. All flesh is not the same flesh; but there is one kind of flesh of men, another flesh of beasts, another of fishes, and another of birds. There are also celestial bodies, and bodies terrestrial; but the glory of the celestial is one, and the glory of the terrestrial is another. There is one glory of the sun, and another glory of the moon, and another glory of the stars; for one star differeth from another star in glory. So also is the resurrection of the dead: It is sown in corruption; it is raised in incorruption: It is sown in dishonour; it is raised in glory: It is sown in weakness; it is raised in power: It is sown a natural body; it is raised a spiritual body. There is a natural body, and there is a spiritual body. And so it is written, The first man Adam was made a living soul; the last Adam was made a quickening spirit. Howbeit, that was not first which is spiritual, but that which is natural; and afterward that which is spiritual. The first man is of the earth, earthy: the second man is the Lord from heaven. As is the earthy, such are they that are earthy: and as is the heavenly, such are they also that are heavenly. And as we have borne the image of the earthy, we shall also bear the image of the

y nefol. Eithr hyn meddaf, O frodyr, na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw; ac nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth. Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch: Ni hunwn ni oll; eithr ni a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf. Canys yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, a ninnau a newidir. O herwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb. A phan ddarffio i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb, yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenydd; Angau a lyngewyd mewn buddugoliaeth. O angau, pa le mae dy golyn? O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth? Colyn angau yw pechod, a grym pechod yw'r gyfraith. Ond i Dduw y byddo'r diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Am hynny, fy mrodyr anwyl, byddwch sicr, a diymmod, a helaethion yngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi'n gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd.

¶ *Pan ddelont at y Bedd, tra fyddo'r Corpsh yn ei barottôi i'w ddodi yn y ddaear, y dywed yr Offeiriad, neu'r Offeiriad a'r Ysgolheigion a ganant,*

DYN a aned o wraig, sydd â byr amser iddo i fyw, ac sydd yn llawn trueni. Y mae efe yn blaguro fel llysieuyn, ac a dorrrir i lawr; ac a ddiiflanna fel cysgod, ac ni saif.

Ynghanol ein bywyd yr ydym mewn angau: gan bwy y mae i ni geisio ymwarded, ond gennyti, O Arglwydd, yr hwn am ein pechodau wyt yn gyfiawn yn ddigllon?

heavenly. Now this I say, brethren, that flesh and blood cannot inherit the kingdom of God; neither doth corruption inherit incorruption. Behold, I shew you a mystery: We shall not all sleep, but we shall all be changed, in a moment, in the twinkling of an eye, at the last trump, (for the trumpet shall sound,) and the dead shall be raised incorruptible, and we shall be changed. For this corruptible must put on incorruption, and this mortal must put on immortality. So when this corruptible shall have put on incorruption, and this mortal shall have put on immortality; then shall be brought to pass the saying that is written, Death is swallowed up in victory. O death, where is thy sting? O grave, where is thy victory? The sting of death is sin, and the strength of sin is the law. But thanks be to God, which giveth us the victory through our Lord Jesus Christ. Therefore, my beloved brethren, be ye steadfast, unmoveable, always abounding in the work of the Lord, forasmuch as ye know that your labour is not in vain in the Lord.

¶ *When they come to the Grave, while the Corpse is made ready to be laid into the earth, the Priest shall say, or the Priest and Clerks shall sing:*

MAN that is born of a woman hath but a short time to live, and is full of misery. He cometh up, and is cut down, like a flower; he fleeth as it were a shadow, and never continueth in one stay.

In the midst of life we are in death: of whom may we seek for succour, but of thee, O Lord, who for our sins art justly displeased?

Claddedigaeth y Marw.

Er hynny, Arglwydd Dduw sancteiddiaf, Arglwydd galluoccaf, O sanctaidd a thrugaroccaf Iachawdwr, na ollwng ni i ddygn chwerwaf boenau angau tragywyddol.

Ti, Arglwydd, a adwaenost ddirgelion ein calonnau: na chaua dy glustiau trugarog oddi wrth ein gweddiau; eithr arbed nyni, O Arglwydd sancteiddiaf, O Dduw galluoccaf, O sanctaidd a thrugarog Iachawdwr; tydi deilyngaf Farnwr tragywyddol, na âd i ni, yn yr awr ddiweddaf, er neb rhyw boenau angau, syrthio oddi wrthyt.

¶ *Yna, tra fydder yn bwrw pridd ar y Corph gan ryw rai a fo yn sefyll yno, yr Offeiriad a ddywed,*

YN gymmaint a rhyngu bodd i'r Goruchaf Dduw o'i fawr drugaredd gymmeryd atto ei hun enaid ein hanwyl *frawd* yma a ymadawodd o'r byd, gan hynny yr ym ni yn rhoddi ei *gorph ef* i'r ddaear, sef, daear i'r ddaear, lludw i'r lludw, pridd i'r pridd, mewn gwir ddiogel obaith o'r adgyfodiad i fywyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist; yr hwn a newidia ein corph gwael ni, fel y byddo yn gyffelyb i'w gorph gogoneddus ef, o herwydd y galluog weithrediad, trwy yr hwn y dichon efe ddarostwng pob dim iddo ei hun.

¶ *Yna y dywedir, neu y cenir,*

MI a glywais lais o'r nef yn dywedyd wrthyf, Ysgrifena, O hyn allan gwynfydedig yw y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd: felly y dywed yr Yspryd; canys y maent yn gorphwysu oddi wrth eu llafur.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad,*
Arglwydd, trugarhâ wrthym.
Crist, trugarhâ wrthym.
Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Yet, O Lord God most holy, O Lord most mighty, O holy and most merciful Saviour, deliver us not into the bitter pains of eternal death.

Thou knowest, Lord, the secrets of our hearts; shut not thy merciful ears to our prayer; but spare us, Lord most holy, O God most mighty, O holy and merciful Saviour, thou most worthy Judge eternal, suffer us not, at our last hour, for any pains of death, to fall from thee.

¶ *Then, while the earth shall be cast upon the Body by some standing by, the Priest shall say,*

FORASMUCH as it hath pleased Almighty God of his great mercy to take unto himself the soul of our dear *brother* here departed, we therefore commit *his* body to the ground; earth to earth, ashes to ashes, dust to dust; in sure and certain hope of the Resurrection to eternal life, through our Lord Jesus Christ; who shall change our vile body, that it may be like unto his glorious body, according to the mighty working, whereby he is able to subdue all things to himself.

¶ *Then shall be said or sung,*

I Heard a voice from heaven, saying unto me, Write, From henceforth blessed are the dead which die in the Lord: even so saith the Spirit; for they rest from their labours.

¶ *Then the Priest shall say,*
Lord, have mercy upon us.
Christ, have mercy upon us.
Lord, have mercy upon us.

EIN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, Megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, Fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Offeiriad.

HOLL-alluog Dduw, gyd â'r hwn y mae yn byw yspryd-oedd y rhai a ymadawsant oddi yma yn yr Arglwydd, ac yn yr hwn y mae eneidiau y ffydd-loniaid, wedi darfod eu rhydd-hâu oddi wrth faich y cnawd, mewn llawenydd a dedwyddyd; Yr ydym yn mawr ddïolch i ti, fod yn wiw gennyt waredu ein *brawd hwn* allan o drueni'r byd pechadurus hwn; gan attolygu i ti ryngu bodd it', o'th radlawn ddaioni, gyflawni ar fyrder nifer dy etholedigion, a phrysuero dy deyrnas; modd y gallom ni, gyd â'r rhai oll a ymadawsant â'r byd mewn gwir ffydd yn dy Enw bendigedig, gaffael i ni ddiwedd perffaith, a gwynfyd ynghorph ac enaid, yn dy ddirangc a'th dragywyddol ogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Y Colect.

O Drugarog Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yw yr adgyfodiad a'r bywyd, ym mha un pwy bynnag a gretto, a fydd byw, er iddo farw; a phwy bynnag a fo byw ac a gretto ynddo ef, ni bydd marw yn dragywydd; yr hwn hefyd a'n dysgodd (trwy ei Apostol bendigedig Sant Paul) na thrist-âem, fel rhai heb obaith, dros y rhai a hunant ynddo ef; Nyni yn ostyngedig a attolygwn i ti, O Dad, ein cyfodi ni o angau pech-

OUR Father, which art in heaven, Hallowed be thy Name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, As it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, As we forgive them that trespass against us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

Priest.

ALMIGHTY God, with whom do live the spirits of them that depart hence in the Lord, and with whom the souls of the faithful, after they are delivered from the burden of the flesh, are in joy and felicity; We give thee hearty thanks, for that it hath pleased thee to deliver this our *brother* out of the miseries of this sinful world; beseeching thee, that it may please thee, of thy gracious goodness, shortly to accomplish the number of thine elect, and to hasten thy kingdom; that we, with all those that are departed in the true faith of thy holy Name, may have our perfect consummation and bliss, both in body and soul, in thy eternal and everlasting glory; through Jesus Christ our Lord. Amen.

The Colect.

O Merciful God, the Father of our Lord Jesus Christ, who is the resurrection and the life; in whom whosoever believeth shall live, though he die; and whosoever liveth, and believeth in him, shall not die eternally; who also hath taught us, by his holy Apostle Saint Paul, not to be sorry, as men without hope, for them that sleep in him; We meekly beseech thee, O Father, to raise us from the death of sin unto the

od i fuchedd cyfiawnder; fel y bo i ni, wedi ymado â'r fuchedd hon, orphwys ynddo ef, megis y mae ein gobaith fod ein *brawd hwn*; ac ar yr adgyfodiad cyffredin y dydd diweddfaf, ein caffael yn gymmeradwy yn dy olwg di, a derbyn y fendith a ddatgan dy garedig Fab yr amser hwnnw i bawb a'r a'th ofnant ac a'th garant, gan ddywedyd, Deuwch, chwi fendigedig blant fy Nhaid, meddienwch y deyrnas a bartotowyd i chwi er pan seiliwyd y byd: Caniattâ hyn, ni a attolygwn i ti, O drugarog Dad, trwy Iesu Grist ein Cyfryngwr a'n Pryniawdwr. *Amen.*

GRAS ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glân, a fyddo gyd â ni oll byth bythoedd. *Amen.*

life of righteousness; that, when we shall depart this life, we may rest in him, as our hope is this our *brother* doth; and that, at the general Resurrection in the last day, we may be found acceptable in thy sight; and receive that blessing, which thy well-beloved Son shall then pronounce to all that love and fear thee, saying, Come, ye blessed children of my Father, receive the kingdom prepared for you from the beginning of the world: Grant this, we beseech thee, O merciful Father, through Jesus Christ, our Mediator and Redeemer. *Amen.*

THE grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God, and the fellowship of the Holy Ghost, be with us all evermore. *Amen.*

DIOLWCH GWRAGEDD AR OL ESGOR PLANT;

YR HWN A ELWIR YN GYFFREDIN, RHYDDHAU,
NEU EGLWYSA.

¶ *Y Wraig, ar yr amser arferedig ar ol esgor, a ddaw i'r Eglwys wedi ymwisgo yn weddus; ac yno y gostwng ar ei gliniau yn rhyw le cyfaddus, fel yr arferwyd, neu megis y trefno'r Ordinari: ac yna'r Offeiriad a ddywed wrthi,*

YN gymmaint a rhyngu bodd i'r goruchaf Dduw o'i ddalioni roddi i ti ryddhâd ymwar-edol, a'th gadw yn y mawr berygl wrth esgor; ti a ddiolchi yn ewyllysgar i Dduw am hynny, ac a ddywedi,

(¶ *Yua y dywed yr Offeiriad y Psalm cxvi.*)

Dilexi quoniam.

DA gennyf wrando o'r Arglwydd: ar fy llef a'm gweddïau.

FORASMUCH as it hath pleased Almighty God of his goodness to give you safe deliverance, and hath preserved you in the great danger of Child-birth; you shall therefore give hearty thanks unto God, and say,

(¶ *Then shall the Priest say the cxvith Psalm.*)

Dilexi quoniam.

I Am well pleased: that the Lord hath heard the voice of my prayer;

Diolwch Gwagedd, Neu Eglwysa.

Am ostwng o hono ei glust
attaf : am hynny llefaf dros fy
nyddiau arno ef.

Gofidion angau a'm cylchyn-
asant : a gofidiau uffern a'm dal-
iasant ; ing a blinder a gefais.

Yna y gelwais ar Enw'r Ar-
glwydd : Attolwg, Arglwydd,
gwared fy enaid.

Graslawn yw'r Arglwydd, a
chyfiawn : a thosturiol yw ein
Duw ni.

Yr Arglwydd sydd yn cadw y
rhai annichellgar : tlodais, ac efe
a'm hachubodd.

Dychwel, O fy enaid, i'th
orphwysfa : canys yr Arglwydd
fu dda wrthyf.

O herwydd it' waredu fy enaid
oddi wrth angau : fy llygaid oddi
wrth ddagrau, a'm traed rhag
llithro.

Rhodiaf o flaen yr Arglwydd :
yn nhir y rhai byw.

Credais, am hynny y lleferais :
cystuddiwyd fi yn ddirfawr.

Mi a ddywedais yn fy ffrwst :
Pob dyn sy gelwyddog.

Beth a dalaf i'r Arglwydd :
am ei holl ddoniau i mi ?

Phïol iachawdwriaeth a gym-
meraf : ac ar Enw'r Arglwydd
y galwaf.

Talaf fy addunedau i'r Ar-
glwydd : yn awr yngwŷdd ei
holl bobl ;

Ynghynteddoedd tŷ'r Ar-
glwydd : yn dy ganol di, O Je-
rusalem. Molwch yr Arglwydd.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab :
ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu,
y mae yr awr hon, ac y bydd yn
wastad : yn oes oesoedd. Amen.

Neu, Psal. cxxvii. Nisi Dominus.

OS yr Arglwydd nid adeilada
y tŷ, ofer y llafuria ei adeil-
adwŷr wrtho : os yr Arglwydd

That he hath inclined his ear
unto me : therefore will I call
upon him as long as I live.

The snares of death compassed
me round about : and the pains
of hell gat hold upon me.

I found trouble and heaviness,
and I called upon the Name of
the Lord : O Lord, I beseech
thee, deliver my soul.

Gracious is the Lord, and
righteous : yea, our God is mer-
ciful.

The Lord preserveth the sim-
ple : I was in misery, and he
helped me.

Turn again then unto thy rest,
O my soul : for the Lord hath
rewarded thee.

And why? thou hast deliver-
ed my soul from death : mine
eyes from tears, and my feet
from falling.

I will walk before the Lord :
in the land of the living.

I believed, and therefore will
I speak ; but I was sore trou-
bled : I said in my haste, All
men are liars.

What reward shall I give un-
to the Lord : for all the benefits
that he hath done unto me?

I will receive the cup of sal-
vation : and call upon the Name
of the Lord.

I will pay my vows now in
the presence of all his people :
in the courts of the Lord's
house, even in the midst of
thee, O Jerusalem. Praise the
Lord.

Glory be to the Father, and to
the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is
now, and ever shall be : world
without end. Amen.

Or, Psal. cxxvii. Nisi Dominus.

EXCEPT the Lord build the
house : their labour is but
lost that build it.

ni cheidw'r ddinas, ofer y gwyl-
ia'r ceidwad.

Ofer i chwi fore-godi, myned
yn hwyr i gysgu, bwytta bara
gofidiau : felly y rhydd efe hûn
i w anwylyd.

Wele, plant ydynt etifeddiaeth
yr Arglwydd : ei wobr ef yw
ffrwyth y groth.

Fel y mae saethau yn llaw
y cadarn : felly y mae plant
ieuengctid.

Gwyn ei fyd y gwr a lanwodd
ei gawell saethau â hwynt : ni's
gwaradwyddir hwy pan ym-
ddiddanant â'r gelynion yn y
porth.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab :
ac i'r Yspryd Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu,
y mae yr awr hon, ac y bydd yn
wastad : yn oes oesoedd. Amen.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad,*
Gweddiwn.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Crist, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

EIN Tad, yr hwn wyt yn y
nefoedd, Sancteiddier dy
Enw. Deued dy deyrnas. Bydded
dy ewyllys ar y ddaear, Megis
y mae yn y nefoedd. Dyro i ni
heddyw ein bara beunyddiol. A
maddeu i ni ein dyledion, Fel y
maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac
nac arwain ni i brofedigaeth ;
Eithr gwared ni rhag drwg :
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
A'r gallu, A'r gogoniant, Yn oes
oesoedd. Amen.

Gweinidog. Arglwydd, cadw
dy wasanaeth-wraig hon.

Atteb. Yr hon sydd yn ym-
ddiried ynot.

Gweinidog. Bydd iddi yn dŵr
cadarn ;

Atteb. Rhag wyneb ei gel-
yn.

Except the Lord keep the
city : the watchman waketh
but in vain.

It is but lost labour that ye
haste to rise up early, and so
late take rest, and eat the bread
of carefulness : for so he giveth
his beloved sleep.

Lo, children and the fruit of
the womb : are an heritage and
gift that cometh of the Lord.

Like as the arrows in the hand
of the giant : even so are the
young children.

Happy is the man that hath
his quiver full of them : they
shall not be ashamed when they
speak with their enemies in the
gate.

Glory be to the Father, and to
the Son : and to the Holy Ghost ;

As it was in the beginning, is
now, and ever shall be : world
without end. Amen.

¶ *Then the Priest shall say,*

Let us pray.

Lord, have mercy upon us.

Christ, have mercy upon us.

Lord, have mercy upon us.

OUR Father, which art in
heaven, Hallowed be thy
Name. Thy kingdom come.
Thy will be done in earth, As
it is in heaven. Give us this
day our daily bread. And for-
give us our trespasses, As we for-
give them that trespass against
us. And lead us not into tempta-
tion ; But deliver us from evil :
For thine is the kingdom, The
power, and the glory, For ever
and ever. Amen.

Minister. O Lord, save this
woman thy servant ;

Answer. Who putteth her
trust in thee.

Minister. Be thou to her a
strong tower ;

Answer. From the face of her
enemy.

Y Comminasiwn.

Gweinidog. Arglwydd, erglyw ein gweddiâu.

Atteb. A deued ein llef hyd attat.

Gweinidog. Gweddiwn.

HOLL-alluog Dduw, nyni yn ostyngedig a ddiolchwn i ti, ryngu bodd it' waredu dy wasanaeth-wraig hon oddi wrth y mawr boen a'r perygl ar Enedigaeth Dyn bach; Caniattâ, ni a attolygwn i ti, drugaroccaf Dad, allu o honi, trwy dy gynhorthwy di, fyw yn ffyddlon, a rhodio yn ol dy ewyllys di yn y fuchedd bresennol hon, a hefyd bod yn gyfrannog o'r gogoniant tragywyddol yn y bywyd a ddaw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Minister. Lord, hear our prayer.

Answer. And let our cry come unto thee.

Minister. Let us pray.

O Almighty God, we give thee humble thanks for that thou hast vouchsafed to deliver this woman thy servant from the great pain and peril of Child-birth; Grant, we beseech thee, most merciful Father, that she, through thy help, may both faithfully live, and walk according to thy will, in this life present; and also may be partaker of everlasting glory in the life to come; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

¶ *Rhaid i'r Wraig a ddél i dalu Diolch, offrymmu'r Offrymmau defodol; ac o bydd Cymmun, iawn yw iddi gymmeryd y Cymmun bendigedig.*

Y COMMINSIWN.

Neu, Gyhoeddiad Digofaint a Barnedigaethau Duw yn erbyn Pechaduriaid: gyd â rhyw Weddiâu i'w harfer ar y Dydd Cyntaf o'r *Garawys*, ac ar Amserau eraill, megis y trefno yr *Ordinari*.

¶ *Ar ol y Foreol Weddi, ar ddiwedd y Litani yn ol y modd arferedig, yr Offiriad, yn y lle y darllenir y Gwasanaeth, neu yn y Pulpud, a ddywed,*

Y Brodyr, yn y Brif Eglwys gynt, yr oedd disgyblaeth dduwiol, nid amgen na bod yn nechreu'r *Garawys*, roi cyfryw ddynion ag oeddynt bechaduriaid cyhoedd, i benyd cyhoedd, a'u poeni yn y byd yma, modd y byddai eu heneidiau gadwedig yn nydd yr Arglwydd; ac fel y gallai eraill, wedi eu rhybuddio trwy eu hesampl hwy, fod yn fwy ofnus i wneuthur ar gam.

Yn lle hynny (hyd onid adnewydder y ddywededig ddisgyblaeth, yr hyn sydd i'w fawr ddymuno) fe dybiwyd fod yn dda, yr amser hwn (yn eich gŵydd chwi oll) ddarlain yr

BRETHREN, in the Primitive Church there was a godly discipline, that, at the beginning of Lent, such persons as stood convicted of notorious sin were put to open penance, and punished in this world, that their souls might be saved in the day of the Lord; and that others, admonished by their example, might be the more afraid to offend.

Instead whereof, (until the said discipline may be restored again, which is much to be wished,) it is thought good, that at this time (in the presence of you all) should be read the

Ymadroddion cyffredin o felldithion Duw yn erbyn pechaduriaid anedifeiriol, y rhai a gasglwyd allan o'r seithfed bennod ar hugain o Deuteronomium, a lleoedd eraill o'r Ysgrhythyr Lân; a bod i chwi ateb i bob ymadrodd, *Amen*: fel, gwedi eich rhybuddio am fawr ddigllonder Duw yn erbyn pechaduriaid, y'ch cyffroer yn gynt i ddifrifol a gwir edifeirwch; ac y rhodioch yn fwy dïesgeulus y dyddiau enbyd hyn; gan gilio oddi wrth gyfryw feiau ag yr ydych chi yn sicrhâu â'ch geneuau eich bunain, fod melldith Duw yn ddyledus am danynt.

MELLDIGEDIG yw'r hwn a wnel ddelw gerfiedig neu doddedig, i'w haddoli.

¶ *A'r Bobl a atebant ac a ddywedant, Amen.*

Gweinidog. Melldigedig yw'r hwn a felldithio ei dad neu ei fam.
Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw'r hwn a symmudo derfyn tir ei gymmydog.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw'r hwn a baro i'r dall gyfeiliorni allan o'i ffordd.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw'r hwn a w'yro farn y dïeithr, yr amddifad, a'r weddw.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw'r hwn a darawo ei gymmydog yn ddirgel.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw'r hwn a orweddo gyd â gwraig ei gymmydog.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw'r hwn a gymmero wobr er dïen-aidio gwirion.

Atteb. Amen.

general sentences of God's cursing against impenitent sinners, gathered out of the seven and twentieth Chapter of Deuteronomy, and other places of Scripture; and that ye should answer to every Sentence, *Amen*: To the intent that, being admonished of the great indignation of God against sinners, ye may the rather be moved to earnest and true repentance; and may walk more warily in these dangerous days; fleeing from such vices, for which ye affirm with your own mouths the curse of God to be due.

CURSED is the man that maketh any carved or molten image, to worship it.

¶ *And the people shall answer and say, Amen.*

Minister. Cursed is he that curseth his father or mother.

Answer. Amen.

Minister. Cursed is he that removeth his neighbour's landmark.

Answer. Amen.

Minister. Cursed is he that maketh the blind to go out of his way.

Answer. Amen.

Minister. Cursed is he that perverteth the judgement of the stranger, the fatherless, and widow.

Answer. Amen.

Minister. Cursed is he that smiteth his neighbour secretly.

Answer. Amen.

Minister. Cursed is he that lieth with his neighbour's wife.

Answer. Amen.

Minister. Cursed is he that taketh reward to slay the innocent.

Answer. Amen.

Y Comminasion.

Gweinidog. Melldigedig yw'r hwn a roddo ei ymddiried mewn dyn, ac a gymmero ddyn yn amddiffyn iddo, ac yn ei galon a gilio oddi wrth yr Arglwydd.

Atteb. Amen.

Gweinidog. Melldigedig yw'r annhrugarog, y godinebus, a'r rhai a dorrant briodas, a'r cybyddion, addolwyr delwau, enllibwyr, meddwon, a'r crib-ddeilwyr.

Atteb. Amen.

Gweinidog.

YN awr, yn gymmaint a'u bod hwy oll yn felldigedig (fel y tystia Dafydd brophwyd) y rhai sydd yn myned ar gyfeiliorn oddi wrth orchymynion Duw; moeswch i ni (gan gofio y farn ofnadwy sy goruwch ein pennau, ac yn wastad ar syrthio arnom) ymchwelyd at ein Harglwydd Dduw â phob cystudd, a gostyngaidrwydd calon; gan gwynfan a galaru oblegid ein buchedd bechadurus, gan gydnabod a chyffesu ein canweddau, a cheisio dwyn ffrwythau addas i edifeirwch. Canys yr awr hon y mae'r fwyall wedi ei gosod ar wreiddyn y preniau; fel y torrir i lawr, ac y bwrir yn tân, bob pren nad yw yn dwyn ffrwyth da. Peth ofnadwy yw syrthio yn nwyllaw y Duw byw! Efe a wlawia ar yr annuwiolion, faglau, tân a brwmstan, a phoeth-wynt ystormus: dyma ran eu phiöl hwynt. Canys wele, y mae'r Arglwydd yn dyfod allan o'i fangre, i ymweled âg anwiredd preswylwyr y ddaear. Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef? a phwy a saif pan ymddangoso efe? Ei wñntyll sydd yn ei law: ac efe a lwyr-lanhâ ei lawr-dyrnu, ac a gasgl ei wenith i'w ysgubor; eithr yr us a lysg efe â thàn

Minister. Cursed is he that putteth his trust in man, and taketh man for his defence, and in his heart goeth from the Lord.

Answer. Amen.

Minister. Cursed are the unmerciful, fornicators, and adulterers, covetous persons, idolaters, slanderers, drunkards, and extortioners.

Answer. Amen.

Minister.

NOW seeing that all they are accursed (as the prophet David beareth witness) who do err and go astray from the commandments of God; let us (remembering the dreadful judgement hanging over our heads, and always ready to fall upon us) return unto our Lord God, with all contrition and meekness of heart; bewailing and lamenting our sinful life, acknowledging and confessing our offences, and seeking to bring forth worthy fruits of penance. For now is the ax put unto the root of the trees, so that every tree that bringeth not forth good fruit is hewn down, and cast into the fire. It is a fearful thing to fall into the hands of the living God: he shall pour down rain upon the sinners, snares, fire and brimstone, storm and tempest; this shall be their portion to drink. For lo, the Lord is come out of his place to visit the wickedness of such as dwell upon the earth. But who may abide the day of his coming? Who shall be able to endure when he appeareth? His fan is in his hand, and he will purge his floor, and gather his wheat into the barn; but he will burn

anniffoddadwy. Dydd yr Arglwydd a ddaw fel lleidr yn y nos: a phan ddywedant, Tangnefedd, a dïogelwch; yna y mae dinystr disymmwrth yn dyfod ar eu gwarthaf, megis gwewyr esgor ar un a fo beichiog; ac ni ddiangant hwy ddim. Yna yr ymddengys lliidiowgrwydd Duw yn nydd y digofaint, yr hwn a ddarfu i bechaduriaid anhydyn ei bentyrro ar eu gwarthaf eu hunain, trwy gyndynrwydd eu calonnau; y rhai a ddiystyrasant ddaioni, dïoddefgarwch, ac ymaros Duw, ac yntau yn eu galw hwy yn wastad i edifeirwch. Yna y galwant arnaf (medd yr Arglwydd) ond ni wrandawaf; yn fore y'm ceisiant, ond ni'm cânt: a hynny, o herwydd mai cas fu ganddynt wybodaeth, ac na ddewisant ofn yr Arglwydd; ond casâu fy nghyngor, a dirmygu fy ngherydd. Yna y bydd yn rhŷ hwyr curo, wedi cau'r drws; ac yn rhŷ hwyr galw am drugaredd, pan yw amser cyfiawnder. Och, mor aruthrol llef y farn gyfiawnaf a draethir arnynt hwy pan ddywedir wrthynt, Ewch, chwi y rhai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotowyd i ddiabol ac i'w angylion! Am hynny, frodyr, ymochelwn mewn prydd, tra parhau dydd yr iachawdwriaeth: canys y mae'r nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio. Eithr tra fyddo gennym oleuni, credwn yn y goleuni, a rhodiwn fel plant y goleuni; rhag ein bwrw i'r tywyllwch eithaf, lle y mae wylofain a rhingcian dannedd. Na cham-arferwn ddaioni Duw, yr hwn sydd yn ein galw yn drugarog i wellhâu; ac, o'i anfeidrol dosturi, yn addaw i ni faddeuant am a aeth heibio, os nynti (â chalon berffaith a

the chaff with unquenchable fire. The day of the Lord cometh as a thief in the night: and when men shall say, Peace, and all things are safe, then shall sudden destruction come upon them, as sorrow cometh upon a woman travailing with child, and they shall not escape. Then shall appear the wrath of God in the day of vengeance, which obstinate sinners, through the stubbornness of their heart, have heaped unto themselves; which despised the goodness, patience, and long-sufferance of God, when he calleth them continually to repentance. Then shall they call upon me, (saith the Lord,) but I will not hear; they shall seek me early, but they shall not find me; and that, because they hated knowledge, and received not the fear of the Lord, but abhorred my counsel, and despised my correction. Then shall it be too late to knock when the door shall be shut; and too late to cry for mercy when it is the time of justice. O terrible voice of most just judgement, which shall be pronounced upon them, when it shall be said unto them, Go, ye cursed, into the fire everlasting, which is prepared for the devil and his angels. Therefore, brethren, take we heed betime, while the day of salvation lasteth; for the night cometh, when none can work. But let us, while we have the light, believe in the light, and walk as children of the light; that we be not cast into utter darkness, where is weeping and gnashing of teeth. Let us not abuse the goodness of God, who calleth us mercifully to amendment, and of his endless pity promiseth us forgiveness of that which

chywir) a ddychwelwn atto ef. Canys, er bod ein pechodau ni cyn goched a'r ysgarlad, hwy a ant cyn wŷnned a'r eira; ac er eu bod fel y porphor, etto hwy fyddant cyn wŷnned a'r gwlan. Dychwelwch a throwch (medd yr Arglwydd) oddi wrth eich holl gamweddau, fel na byddo eich anwiredd yn dramgwydd i chwi. Bwriwch oddi wrthych eich holl gamweddau y camweddasoeh ynddynt; a gwnewch iwch' galonnau newydd, ac yspryd newydd: canys pahan, tŷ Israel, y byddwch feirw? canys nid oes ewyllys gennyf i farwlaeth y marw, medd yr Arglwydd Dduw. Dychwelwch gan hynny, a byw fyddwch. Er pechu o honom, etto y mae i ni Eiriolwr gyd a'r Tad, Iesu Grist y cyfiawn; ac efe yw'r iawn dros ein pechodau ni. Canys efe a archollwyd am ein camweddau ni, ac a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni. Ymchwelwn am hynny atto ef, yr hwn yw trugarog dderbyniwr pob pechadur gwir edifeiriol: gan gwbl-gredu ei fod ef yn barod i'n derbyn, ac yn oreu ei ewyllys i faddeu i ni, os dewn atto mewn ffyddlon edifeirwch; os nyni a ymstyngwn iddo, ac a rodiwn o hyn allan yn ei ffyrdd ef; os nyni a gymmerwn ei iau esmwyth ef, a'i faich ysgafn arnom, i'w ganlyn ef mewn gostyngeddwydd, dioddefgarwch, a chariad perffaith, a bod o honom yn drefnedig wrth lywodraeth ei Yspryd Glân ef; gan geisio yn wastad ei ogoniant, a'i wasanaethu yn ddyladwy yn ein galwedigaeth, gyd â diolchgarwch. Os hyn a wnawn, Crist a'n gwared ni oddi wrth felldith y gyfraith, ac oddi wrth y felldith eithaf a ddisgyn ar y sawl a fyddant ar y llaw aswy; ac efe a'n gesyd ni

is past, if with a perfect and true heart we return unto him. For though our sins be as red as scarlet, they shall be made white as snow; and though they be like purple, yet they shall be made white as wool. Turn ye (saith the Lord) from all your wickedness, and your sin shall not be your destruction: Cast away from you all your ungodliness that ye have done: Make you new hearts, and a new spirit: Wherefore will ye die, O ye house of Israel, seeing that I have no pleasure in the death of him that dieth, saith the Lord God? Turn ye then, and ye shall live. Although we have sinned, yet have we an Advocate with the Father, Jesus Christ the righteous; and he is the propitiation for our sins. For he was wounded for our offences, and smitten for our wickedness. Let us therefore return unto him, who is the merciful receiver of all true penitent sinners; assuring ourselves that he is ready to receive us, and most willing to pardon us, if we come unto him with faithful repentance; if we submit ourselves unto him, and from henceforth walk in his ways; if we will take his easy yoke, and light burden upon us, to follow him in lowliness, patience, and charity, and be ordered by the governance of his Holy Spirit; seeking always his glory, and serving him duly in our vocation with thanksgiving: This if we do, Christ will deliver us from the curse of the law, and from the extreme malediction which shall light upon them that shall be set on the left hand; and he will set us on his right hand, and give us the gracious benediction of his

ar ei ddeheulaw, ac a ddyry i ni wŷnfydedig fendith ei Dad ; gan orchymyn i ni gymmeryd meddiant yn ei ogoneddus deyrnas : i'r hon poed teilwng ganddo ein dwyn ni i gŷd oll, er ei anfeidrol drugaredd. Amen.

¶ *Yna y gostyngant bawb ar eu gliniau, a'r Offeiriad a'r Ysgolheigion ar eu gliniau (yn y fan lle maent arferedig a dywedyd y Litani) a ddywedant y Psalm hon.*

Miserere mei, Deus. Psal. li.

TRUGARHA wrthyf, O Dduw, yn ol dy drugarowgrwydd : yn ol lliaws dy dosturiaethau, dilea fy anwireddau.

Golch fi yn llwyr-ddwys oddi wrth fy anwiredd : a glanhâ fi oddi wrth fy mhechod.

Canys yr wyf yn cydnabod fy nghanweddau : a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron.

Yn dy erbyn di, dydi dy hunan, y pechais, ac y gwneuthum y drwg hwn yn dy olwg : fel y'th gyfiawnhâer pan leferych, ac y byddit bur pan farnech.

Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd : ac mewn pechod y bechiogodd fy mam arnaf.

Wele, ceraist wirionedd oddi mewn : a pheri i mi wybod doethineb yn y dirgel.

Glanhâ fi âg isop, a mi a lanhêir : golch fi, a byddaf wŷnnach nâ'r eira.

Par i mi glywed gorfoledd a llawenydd : fel y llawenychor'esgyrn a ddrylliaist.

Cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau : a dilea fy holl anwireddau.

Crea galon lân ynof, O Dduw : ac adnewyddda yspryd uniawn o'm mewn.

Nâ fwrw fi ymaith oddi ger

Father, commanding us to take possession of his glorious kingdom : Unto which he vouchsafe to bring us all, for his infinite mercy. Amen.

¶ *Then shall they all kneel upon their knees, and the Priest and Clerks kneeling (in the place where they are accustomed to say the Litany) shall say this Psalm.*

Miserere mei, Deus. Psal. li.

HAVE mercy upon me, O God, after thy great goodness : according to the multitude of thy mercies do away mine offences.

Wash me thoroughly from my wickedness : and cleanse me from my sin.

For I acknowledge my faults : and my sin is ever before me.

Against thee only have I sinned, and done this evil in thy sight : that thou mightest be justified in thy saying, and clear when thou art judged.

Behold, I was shapen in wickedness : and in sin hath my mother conceived me.

But lo, thou requirest truth in the inward parts : and shalt make me to understand wisdom secretly.

Thou shalt purge me with hyssop, and I shall be clean : thou shalt wash me, and I shall be whiter than snow.

Thou shalt make me hear of joy and gladness : that the bones which thou hast broken may rejoice.

Turn thy face away from my sins : and put out all my misdeeds.

Make me a clean heart, O God : and renew a right spirit within me.

Cast me not away from thy

dy fron : ac na chymmer dy Ys-
pryd Sanctaidd oddi wrthyf.

Dyro drachefn i mi orfoledd
dy iachawdwriaeth : ac â'th hael
Yspryd cynnal fi.

Yna y dysgaf dy ffyrdd i rai
anwir : a phechaduriaid a droir
attat.

Gwarded fi oddi wrth waed, O
Dduw, Duw fy iachawdwriaeth :
a'm tafod a gân yn llafar am dy
gyfiawnder.

Arglwydd, agor fy ngwefus-
au : a'm genau a fynega dy
foliant.

Canys ni chwennychi aberth ;
pe amgen, mi a'i rhoddwn :
poeth-offrwm ni fynni.

Aberthau Duw ydynt yspryd
drylliedig : calon ddrylliog gys-
tuddiedig, O Dduw, ni ddir-
mygi.

Gwna ddaioni yn dy ewyllys-
garwch i Sion : adeilada furiau
Jerusalem.

Yna y byddi foddlon i eb-
yrth cyfiawnder, i boeth-offrwm
ac aberth llosg : yna yr offrym-
mant fustych ar dy allor.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab :
ac i'r Yspryd Glân ;

Atteb. Megis yr oedd yn y
dechreu, y mae yr awr hon,
ac y bydd yn wastad : yn oes
oesoedd. Amen.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

Crist, trugarhâ wrthym.

Arglwydd, trugarhâ wrthym.

EIN Tad, yr hwn wyt yn y
nefoedd, Sancteiddier dy
Enw. Deued dy deyrnas. Bydded
dy ewyllys ar y ddaear, Megis
y mae yn y nefoedd. Dyro i
ni heddyw ein bara beunyddiol.
A maddeu i ni ein dyledion,
Fel y maddeuwn ni i'n dy-

presence : and take not thy holy
Spirit from me.

O give me the comfort of
thy help again : and stablish me
with thy free Spirit.

Then shall I teach thy ways
unto the wicked : and sinners
shall be converted unto thee.

Deliver me from blood-
guiltiness, O God, thou that art
the God of my health : and my
tongue shall sing of thy right-
eousness.

Thou shalt open my lips, O
Lord : and my mouth shall shew
thy praise.

For thou desirest no sacri-
fice, else would I give it thee :
but thou delightest not in burnt-
offerings.

The sacrifice of God is a trou-
bled spirit : a broken and con-
trite heart, O God, shalt thou
not despise.

O be favourable and gracious
unto Sion : build thou the walls
of Jerusalem.

Then shalt thou be pleased
with the sacrifice of righteous-
ness, with the burnt-offerings
and oblations : then shall they
offer young bullocks upon thine
altar.

Glory be to the Father, and to
the Son : and to the Holy Ghost ;

Answer. As it was in the
beginning, is now, and ever
shall be : world without end.
Amen.

Lord, have mercy upon us.

Christ, have mercy upon us.

Lord, have mercy upon us.

OUR Father, which art in
heaven, Hallowed be thy
Name. Thy kingdom come.
Thy will be done in earth, As
it is in heaven. Give us this
day our daily bread. And for-
give us our trespasses, As we
forgive them that trespass against

ledwŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Gweinidog. Arglwydd, cadw dy wasanaeth-ddynion;

Atteb. Y rhai a ymddiried-ant ynot.

Gweinidog. Anfon iddynt borth oddi uchod;

Atteb. Ac byth amddiffyn hwy yn gadarn.

Gweinidog. Cymmorth nyni, O Dduw ein Hiachawdwr;

Atteb. Ac er gogoniant dy Enw gwared ni; bydd drugarog wrthym ni bechaduriaid, er mwyn dy Enw.

Gweinidog. Arglwydd, gwrando ein gweddïau.

Atteb. A deued ein llef hyd attat.

Gweinidog. Gweddïwn.

O Arglwydd, ni a attolygwn i ti, yn drugarog gwrando ein gweddïau, ac arbed bawb a gyffesant eu pechodau wrthyt; fel y byddo i'r rhai y cyhuddir eu cydwybodau gan bechod, trwy dy drugarog faddeuant gaffael gollyngdod; trwy Grist ein Harglwydd. Amen.

O Alluocaf Dduw, a thrugarocaf Dad, yr hwn wyt yn tosturio wrth bob dyn, ac nid wyt yn casâu dim a'r a wnaethost, yr hwn nid ewyllysi farwolaeth pechadur, ond ymchwelyd o hono yn hytrach oddi wrth ei bechod, a bod yn gadwedig; Yn drugarog maddeu i ni ein camweddau; a derbyn a chysura ni, y rhai ydym yn flin ac yn orthrwm gennym faich ein pechodau. Ti biaŷ o briodolder drugarhâu yn wastad: i ti yn unig y perthyn maddeu pechodau. Arbed nyni am hynny, Arglwydd daionus, arbed dy bobl, y rhai a brynaist: na ddos i farn â'th weision, y rhai ym

us. And lead us not into temptation; But deliver us from evil. Amen.

Minister. O Lord, save thy servants;

Answer. That put their trust in thee.

Minister. Send unto them help from above.

Answer. And evermore mightily defend them.

Minister. Help us, O God our Saviour.

Answer. And for the glory of thy Name deliver us; be merciful to us sinners, for thy Name's sake.

Minister. O Lord, hear our prayer.

Answer. And let our cry come unto thee.

Minister. Let us pray.

O Lord, we beseech thee, mercifully hear our prayers, and spare all those who confess their sins unto thee; that they, whose consciences by sin are accused, by thy merciful pardon may be absolved; through Christ our Lord. Amen.

O Most mighty God, and merciful Father, who hast compassion upon all men, and hatest nothing that thou hast made; who wouldest not the death of a sinner, but that he should rather turn from his sin, and be saved; Mercifully forgive us our trespasses; receive and comfort us, who are grieved and wearied with the burden of our sins. Thy property is always to have mercy; to thee only it appertaineth to forgive sins. Spare us therefore, good Lord, spare thy people, whom thou hast redeemed; enter not into judgement with thy servants, who are vile earth, and

Y Comminasiwn.

bridd gwael, a phechaduriaid truaïn; eithr ymchwel felly dy lid oddi wrthym, y rhai ým yn ostyngedig yn cydnabod ein gwaeledd, ac yn wir edifeiriol gennym ein beiau; ac felly brysia i'n cynnorthwyo ni yn y byd hwn, fel y byddom fyw byth gyd â thi yn y byd a ddaw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna y dywed y bobl yr hyn yma sydd yn canlyn, ar ol y Gweinidog.*

DYCHWEL di ni, O Arglwydd daionus; ac yna y dychwelir ni. Ystyria, O Arglwydd, Ystyria wrth dy bobl, Y rhai sydd yn ymchwelyd at tat trwy wylofain, ymprydio, a gweddio. Canys ti wyt Dduw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i lid, a helaeth o dosturi. Yr wyt ti yn arbed, pan ým ni yn haeddu cospedigaeth; Ac yn dy lid yr wyt yn meddwl am drugaredd. Arbed dy bobl, Arglwydd daionus, arbed hwy; Ac na ddyger dy etifeddiaeth i waradwydd. Clyw nyni, Arglwydd; Canys mawr yw dy drugaredd; Ac yn ol lliaws dy drugareddau edrych arnom; Trwy haedd-edigaethau a chyfryngdod dy fendigedig Fab Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

¶ *Yna yr Offeiriad ei hun yn unig a ddywed,*

BENDITHIED yr Arglwydd ni, a chadwed ni; dyrchafed yr Arglwydd lewyrch ei wynch arnom, a rhodded i ni dangnefedd yr awr hon ac hyd byth bythoedd. *Amen.*

miserable sinners; but so turn thine anger from us, who meekly acknowledge our vileness, and truly repent us of our faults, and so make haste to help us in this world, that we may ever live with thee in the world to come; through Jesus Christ our Lord. *Amen.*

¶ *Then shall the people say this that followeth, after the Minister.*

TURN thou us, O good Lord, and so shall we be turned. Be favourable, O Lord, Be favourable to thy people, Who turn to thee in weeping, fasting, and praying. For thou art a merciful God, Full of compassion, Long-suffering, and of great pity. Thou sparest when we deserve punishment, And in thy wrath thinkest upon mercy. Spare thy people good Lord, spare them, And let not thine heritage be brought to confusion. Hear us, O Lord, for thy mercy is great, And after the multitude of thy mercies look upon us; Through the merits and mediation of thy blessed Son, Jesus Christ our Lord. *Amen.*

¶ *Then the Minister alone shall say,*

THE Lord bless us, and keep us; the Lord lift up the light of his countenance upon us, and give us peace, now and for evermore. *Amen.*

PSALLWYR NEU PSALMAU

DAFYDD.

Y DYDD CYNTAF.

Borcol Weddi.

Psal. i. *Beatus vir, qui non abiit.*

GWYN ei fyd y gwr ni rodia ynghyngor yr annuwiolion, ac ni saif yn ffordd pechaduriaid, ac nid eistedd yn eisteddfa gwatwarwŷr.

2 Ond sydd â'i ewyllys ynghyfraith yr Arglwydd; ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.

3 Ac efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd; a'i ddalen ni wŷwa, a pha beth bynnag a wnel, efe a lwydda.

4 Nid felly y bydd yr annuwiol; ond fel mân us yr hwn a chwal y gwŷnt ymaith.

5 Am hynny yr annuwiolion ni safant yn y farn, na phechaduriaid ynghynnulleidfa y rhai cyfiawn.

6 Canys yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn: ond ffordd yr annuwiolion a ddifethir.

Psal. ii. *Quare fremuerunt gentes?*
PAHAM y terfysga'r cenhedloedd, ac y myfyria'r bobloedd beth ofer?

2 Y mae brenhinoedd y ddaear yn ymosod, a'r pennaethiaid yn ymgynghori ynghyd, yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef, gan ddywedyd,

Mornig Prayer.

Psal. i. *Beatus vir, qui non abiit &c.*

BLESSED is the man that hath not walked in the counsel of the ungodly, nor stood in the way of sinners: and hath not sat in the seat of the scornful.

2 But his delight is in the law of the Lord: and in his law will he exercise himself day and night.

3 And he shall be like a tree planted by the water-side: that will bring forth his fruit in due season.

4 His leaf also shall not wither: and look, whatsoever he doeth, it shall prosper.

5 As for the ungodly, it is not so with them: but they are like the chaff, which the wind scattereth away from the face of the earth.

6 Therefore the ungodly shall not be able to stand in the judgement: neither the sinners in the congregation of the righteous.

7 But the Lord knoweth the way of the righteous: and the way of the ungodly shall perish.

Psal. ii. *Quare fremuerunt gentes?*
WHYY do the heathen so furiously rage together: and why do the people imagine a vain thing?

2 The kings of the earth stand up, and the rulers take counsel together: against the Lord, and against his Anointed.

3 Drylliwn eu rhwymau hwy, a thaflwn eu rheffynnau oddi wrthym.

4 Yr hwn sydd yn preswyllo yn y nefoedd a chwardd: yr Arglwydd a'u gwatwar hwynt.

5 Yna y llefara efe wrthynt yn ei lid, ac yn ei ddigllonrwydd y dychryna efe hwynt.

6 Minnau a osodais fy Mrenhin ar Sion fy mynydd sanctaidd.

7 Mynegaf y ddeddf: dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Fy mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genhedlais.

8 Gofyn i mi, a rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau'r ddaear i'th feddiant.

9 Drylli hwynt â gwialen haiarn; maluri hwynt fel llestr pridd.

10 Gan hynny'r awr hon, frenhinoedd, byddwch synhwyrol: barnwyr y ddaear, cymmerwch ddysg.

11 Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn ofn, ac ymlawen-hêwch mewn dychryn.

12 Cusenwch y mab, rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd, pan gynneuo ei lid ef, ond ychydig. Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef.

Ps. iii. *Domine, quid multiplicati?*

ARGLWYDD, mor aml yw fy nhrallodwyr? llawer yw y rhai sy'n codi i'm herbyn.

2 Llawer yw y rhai sy'n dywedyd am fy enaid, Nid oes iachawdwriaeth iddo yn ei Dduw.

3 Ond tydi, Arglwydd, ydwynt darian i mi; fy ngogoniant, a dyrchafydd fy mhen.

4 A'm llef y gelwais ar yr Arglwydd, ac efe a'm clybu o'i fynydd sanctaidd.

5 Mi a orweddais, ac a gysgais; ac a ddeffroais: canys yr Arglwydd a'm cynhaliodd.

3 Let us break their bonds asunder: and cast away their cords from us.

4 He that dwelleth in heaven shall laugh them to scorn: the Lord shall have them in derision.

5 Then shall he speak unto them in his wrath: and vex them in his sore displeasure.

6 Yet have I set my King: upon my holy hill of Sion.

7 I will preach the law, whereof the Lord hath said unto me: Thou art my Son, this day have I begotten thee.

8 Desire of me, and I shall give thee the heathen for thine inheritance: and the utmost parts of the earth for thy possession.

9 Thou shalt bruise them with a rod of iron: and break them in pieces like a potter's vessel.

10 Be wise now therefore, O ye kings: be learned, ye that are judges of the earth.

11 Serve the Lord in fear: and rejoice unto him with reverence.

12 Kiss the Son, lest he be angry, and so ye perish from the right way: if his wrath be kindled, (yea, but a little,) blessed are all they that put their trust in him.

Ps. iii. *Domine, quid multiplicati?*

LORD, how are they increased that trouble me: many are they that rise against me.

2 Many one there be that say of my soul: There is no help for him in his God.

3 But thou, O Lord, art my defender: thou art my worship, and the lifter up of my head.

4 I did call upon the Lord with my voice: and he heard me out of his holy hill.

5 I laid me down and slept, and rose up again: for the Lord sustained me.

6 Nid ofnaf fyrddiwn o bobl, y rhai o amgylch a ymosodasant i'm herbyn.

7 Cyfod, Arglwydd; achub fi, fy Nuw: canys tarewaist fy holl elynion ar garr yr ên; torraist ddannedd yr annuw-olion.

8 Iachawdwriaeth sydd eiddo'r Arglwydd: dy fendith sydd ar dy bobl.

Psal. iv. *Cum invocarem.*

GWRANDO fi pan alwyf, O Dduw fy nghyfiawnder: mewn cyfyngder yr eheng- aist arnaf; trugarhâ wrthyf, ac erglyw fy ngweddi.

2 O feibion dynion, pa hŷd y trowch fy ngogoniant yn warth? yr hoffwch wegi, ac yr argeis- iwech gelwydd?

3 Ond gwybyddwch i'r Ar- glwydd neillduo'r duwiol iddo ei hun: yr Arglwydd a wrendy pan alwyf arno.

4 Ofnwch, ac na phechwch: ymddiddenwch â'ch calon ar eich gwely, a thewch.

5 Aberthwch ebyrth cyfiawn- der; a gobeithiwch yn yr Ar- glwydd.

6 Llawer sy'n dywedyd, Pwy a ddengys i ni ddaioni? Ar- glwydd, dyrcha arnom lewyrch dy wyneb.

7 Rhoddaist lawenydd yn fy nghalon, mwy nâ'r amser yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt.

8 Mewn heddwch hefyd y gorweddaf, ac yr hunaf: canys ti, Arglwydd, yn unig a wnei i mi drigo mewn diogelwch.

Psal. v. *Verba mea auribus.*

GWRANDO fy ngeiriau, Arglwydd; deall fy my- fyrdod.

6 I will not be afraid for ten thousands of the people: that have set themselves against me round about.

7 Up, Lord, and help me, O my God: for thou smitest all mine enemies upon the cheek- bone; thou hast broken the teeth of the ungodly.

8 Salvation belongeth unto the Lord: and thy blessing is upon thy people.

Psal. iv. *Cum invocarem.*

HEAR me when I call, O God of my righteousness: thou hast set me at liberty when I was in trouble; have mercy upon me, and hearken unto my prayer.

2 O ye sons of men, how long will ye blaspheme mine honour: and have such pleasure in vanity, and seek after leasing?

3 Know this also, that the Lord hath chosen to himself the man that is godly: when I call upon the Lord, he will hear me.

4 Stand in awe, and sin not: commune with your own heart, and in your chamber, and be still.

5 Offer the sacrifice of right- eousness: and put your trust in the Lord.

6 There be many that say: Who will shew us any good?

7 Lord, lift thou up: the light of thy countenance upon us.

8 Thou hast put gladness in my heart: since the time that their corn, and wine, and oil, increased.

9 I will lay me down in peace, and take my rest: for it is thou, Lord, only, that makest me dwell in safety.

Psal. v. *Verba mea auribus.*

PONDER my words, O Lord: consider my medi- tation.

2 Erglyw ar lef fy ngwaedd, fy Mrenhin, a'm Duw: canys arnat y gweddiaf.

3 Yn fore, Arglwydd, y clywi fy llef; yn fore y cyfeirïaf fy ngweddi attat, ac yr edrychaf i fynu.

4 O herwydd nid wyt ti Dduw'n ewyllsio anwiredd: a drwg ni thrig gyd â thi.

5 Ynfydion ni safant yn dy olwg: caseaist holl weithredwyr anwiredd.

6 Difethi y rhai a ddywedant gelwydd: yr Arglwydd a ffeiddia'r gwr gwaedlyd a'r twyllodrus.

7 A minnau a ddeuaf i'th dŷ di yn amllder dy drugaredd; ac a addolaf tu a'th deml sanctaidd yn dy ofn di.

8 Arglwydd, arwain fi yn dy gyfiawnder, o achos fy ngelynyion; ac uniona dy ffordd o'm blaen.

9 Canys nid oes uniondeb yn eu genau; eu ceudod sydd anwireddau: bedd agored yw eu cêg; gwenhieithiant â'u tafod.

10 Distrywia hwynt, O Dduw; syrthiant oddi wrth eu cynghorion: gyr hwynt ymaith yn amllder eu camweddau: canys gwrthryfelasant i'th erbyn.

11 Ond llawenhâed y rhai oll a ymddiriedant ynot ti: llafarganant yn dragywydd; am i ti orchuddio drostynt: a'r rhai a garant dy Enw, gorfoleddant ynot.

12 Canys ti, Arglwydd, a fendithi y cyfiawn: â charedigrwydd megis â tharian y coroni di ef.

2 O hearken thou unto the voice of my calling, my King, and my God: for unto thee will I make my prayer.

3 My voice shalt thou hear betimes, O Lord: early in the morning will I direct my prayer unto thee, and will look up.

4 For thou art the God that hast no pleasure in wickedness: neither shall any evil dwell with thee.

5 Such as be foolish shall not stand in thy sight: for thou hatest all them that work vanity.

6 Thou shalt destroy them that speak leasing: the Lord will abhor both the blood-thirsty and deceitful man.

7 But as for me, I will come into thine house, even upon the multitude of thy mercy: and in thy fear will I worship toward thy holy temple.

8 Lead me, O Lord, in thy righteousness, because of mine enemies: make thy way plain before my face.

9 For there is no faithfulness in his mouth: their inward parts are very wickedness.

10 Their throat is an open sepulchre: they flatter with their tongue.

11 Destroy thou them, O God; let them perish through their own imaginations: cast them out in the multitude of their ungodliness; for they have rebelled against thee.

12 And let all them that put their trust in thee rejoice: they shall ever be giving of thanks, because thou defendest them; they that love thy Name shall be joyful in thee;

13 For thou, Lord, wilt give thy blessing unto the righteous: and with thy favourable kindness wilt thou defend him as with a shield.

Prifnodhawnol Cwedi.

Psal. vi. *Domine, ne in furore.*

ARGLWYDD, na cherydda fi yn dy lidiowgrwydd, ac na chospa fi yn dy lid.

2 Trugarhâ wrthyf, Arglwydd, canys llesg ydwyf fi: iachâ fi, O Arglwydd; canys fy esgyrn a gystuddiwyd.

3 A'm henaid a ddychrynwyd yn ddirfawr: tithau, Arglwydd, pa hŷd?

4 Dychwel, Arglwydd, gwared fy enaid: achub fi er mwyn dy drugaredd.

5 Canys yn angau nid oes goffa am danat: yn y bedd pwy a'th folianna?

6 Diffygiais gan fy ochain; bob nos yr ydwyf yn gwneuthur fy ngwely yn foddfa: yr ydwyf fi yn gwlychu fy ngorweddfa â'm dagrau.

7 Treuliodd fy llygad gan ddigter: beneiddiodd o herwydd fy holl elynion.

8 Ciliwch oddi wrthyf, holl weithredwyr anwiredd: canys yr Arglwydd a glywodd lef fy wylofain.

9 Clybu 'r Arglwydd fy neisfyfiad: yr Arglwydd a dderbyn fy ngwedi.

10 Gwaradwydder a thralloder yn ddirfawr fy holl elynion: dychweler a chywilyddier hwynt yn ddisymmwth.

Psal. vii. *Domine, Deus meus.*

ARGLWYDD fy Nuw, ynot yr ymddiriedais: achub fi rhag fy holl erlidwyr, a gwared fi.

2 Rhag iddo larpio fy enaid fel llew, gan ei rwygo, pryd na byddo gwaredydd.

3 O Arglwydd fy Nuw, os gwneuthum hyn; od oes anwiredd yn fy nwyllaw;

4 O thelais ddrwg i'r neb oedd heddychol â mi; (ie, mi a war-

Ebening Prayer.

Psal. vi. *Domine, ne in furore.*

O Lord, rebuke me not in thine indignation: neither chasten me in thy displeasure.

2 Have mercy upon me, O Lord, for I am weak: O Lord, heal me, for my bones are vexed.

3 My soul also is sore troubled: but, Lord, how long wilt thou punish me?

4 Turn thee, O Lord, and deliver my soul: O save me for thy mercy's sake.

5 For in death no man remembereth thee: and who will give thee thanks in the pit?

6 I am weary of my groaning; every night wash I my bed: and water my couch with my tears.

7 My beauty is gone for very trouble: and worn away because of all mine enemies.

8 Away from me, all ye that work vanity: for the Lord hath heard the voice of my weeping.

9 The Lord hath heard my petition: the Lord will receive my prayer.

10 All mine enemies shall be confounded, and sore vexed: they shall be turned back, and put to shame suddenly.

Psal. vii. *Domine, Deus meus.*

O Lord my God, in thee have I put my trust: save me from all them that persecute me, and deliver me;

2 Lest he devour my soul, like a lion, and tear it in pieces: while there is none to help.

3 O Lord my God, if I have done any such thing: or if there be any wickedness in my hands;

4 If I have rewarded evil unto him that dealt friendly with

edais yr hwn sydd elyn i mi heb achos;)

5 Erlidied y gelyn fy enaid, a goddiwedded: sathred hefyd fy mywyd i'r llawr, a gosoded fy ngogoniant yn y llwch.

6 Cyfod, Arglwydd, yn dy ddigllonedd, ymddyrycha, o herwydd llid fy ngelynyon: deffro hefyd drosof i'r farn a orchymynaist.

7 Felly cynulleidfa'r bobloedd a'th amgylchynant: er eu mwyn dychwel dithau i'r uchelder.

8 Yr Arglwydd a farn y bobloedd: barn fi, O Arglwydd, yn ol fy nghyfiawnder, ac yn ol fy mherffeithrwydd sydd yn of.

9 Darfydded weithian anwiredd yr annuwiolion, eithr cyfarwydda di y cyfiawn: canys y Duw cyfiawn a chwilia'r calonau a'r arenau.

10 Fy anddiffyn sydd o Dduw, Iachawdwr y rhai uniawn o galon.

11 Duw sy Farnydd y cyfiawn, a Duw sy ddigllon beunydd wrth yr annuwiol.

12 Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf: efe a annelodd ei fwa, ac a'i parotôdd.

13 Parotôdd hefyd iddo arfau angheuol: efe a drefnodd ei saethau yn erbyn yr erlidwyr.

14 Wele, efe a ymddwng anwiredd, ac a feichiogodd ar gamwedd, ac a esgorodd ar gelwydd.

15 Torrodd bwll, cloddiodd ef, syrthiodd hefyd yn y clawdd a wnaeth.

16 Ei anwiredd a ymchwe! ar

me: yea, I have delivered him that without any cause is mine enemy;

5 Then let mine enemy persecute my soul, and take me: yea, let him tread my life down upon the earth, and lay mine honour in the dust.

6 Stand up, O Lord, in thy wrath, and lift up thyself, because of the indignation of mine enemies: arise up for me in the judgement that thou hast commanded.

7 And so shall the congregation of the people come about thee: for their sakes therefore lift up thyself again.

8 The Lord shall judge the people; give sentence with me, O Lord: according to my righteousness, and according to the innocency that is in me.

9 O let the wickedness of the ungodly come to an end: but guide thou the just.

10 For the righteous God: trieth the very hearts and reins.

11 My help cometh of God: who preserveth them that are true of heart.

12 God is a righteous Judge, strong, and patient: and God is provoked every day.

13 If a man will not turn, he will whet his sword: he hath bent his bow, and made it ready.

14 He hath prepared for him the instruments of death: he ordaineth his arrows against the persecutors.

15 Behold, he travaileth with mischief: he hath conceived sorrow, and brought forth ungodliness.

16 He hath graven and digged up a pit: and is fallen himself into the destruction that he made for other.

17 For his travail shall come

ei ben ei hun, a'i draha a ddisgyn ar ei goppa ei hun.

17 Clodforaf yr Arglwydd yn ol ei gyfiawnder, a chanmolaf Enw'r Arglwydd goruchaf.

Ps. viii. *Domine, Dominus noster.*

ARGLOWYDD ein Ior ni, mor ardderchog yw dy Enw ar yr holl ddaear! yr hwn a osodaist dy ogoniant uwch y nefoedd.

2 O enau plant bychain a rhai yn sugno y peraiſt nerth, o achos dy elynion, i ostegu y gelyn a'r ymddialydd.

3 Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd; y lloer a'r ser, y rhai a ordeiniaist;

4 Pa beth yw dyn, i ti i'w gofio? a mab dyn, i ti i ymweled âg ef?

5 Canys gwnaethost ef ychydig is nâ'r angylion, ac a'i coronaist â gogoniant ac â harddwch.

6 Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwyllaw; gosodaist bob peth dan ei draed ef;

7 Defaid ac ychain oll, ac anifeiliaid y maes hefyd;

8 Ehediaid y nefoedd, a physgod y môr, ac y sydd yn tramwyo llwybrau'r moroedd.

9 Arglwydd ein Ior, mor ardderchog yw dy Enw ar yr holl ddaear!

Boreol Weddi.

Psal. ix. *Confitebor tibi.*

CLODFORAF di, O Arglwydd, â'm holl galon: mynegaf dy holl ryfeddodau.

2 Llawenyachaf a gorfoleddaf

upon his own head: and his wickedness shall fall on his own pate.

18 I will give thanks unto the Lord, according to his righteousness: and I will praise the Name of the Lord most High.

Ps. viii. *Domine, Dominus noster.*

O Lord our Governour, how excellent is thy Name in all the world: thou that hast set thy glory above the heavens!

2 Out of the mouth of very babes and sucklings hast thou ordained strength, because of thine enemies: that thou mightest still the enemy, and the avenger.

3 For I will consider thy heavens, even the works of thy fingers: the moon and the stars, which thou hast ordained.

4 What is man, that thou art mindful of him: and the son of man, that thou visitest him?

5 Thou madest him lower than the angels: to crown him with glory and worship.

6 Thou makest him to have dominion of the works of thy hands: and thou hast put all things in subjection under his feet;

7 All sheep and oxen: yea, and the beasts of the field;

8 The fowls of the air, and the fishes of the sea: and whatsoever walketh through the paths of the seas.

9 O Lord our Governour: how excellent is thy Name in all the world!

Morning Prayer.

Psal. ix. *Confitebor tibi.*

I Will give thanks unto thee, O Lord, with my whole heart: I will speak of all thy marvellous works.

2 I will be glad and rejoice

ynot : canaf i'th Enw di, y Goruchaf.

3 Pan ddychweler fy ngelynyon yn eu hol, hwy a gwypant ac a ddifethir o'th flaen di.

4 Canys gwnaethost fy marn a'm matter yn dda : eisteddaist ar orseddfaingc, gan farnu yn gyfiawn.

5 Ceryddaist y cenedloedd, distrywiaist yr annuwiol ; eu henw hwynt a ddileiaist byth bythol.

6 Ha elyn, darfu am ddinystyr yn dragywydd : a diwreiddiaist y dinasoedd ; darfu eu coffadwriaeth gyd â hwynt.

7 Ond yr Arglwydd a bery yn dragywydd : efe a barottôdd ei orseddfaingc i farn.

8 Ac efe a farn y byd mewn cyfiawnder : efe a farn y bobloedd mewn uniondeb.

9 Yr Arglwydd hefyd fydd noddfa i'r gorthrymmedig, noddfa yn amser trallod.

10 A'r rhai a adwaenant dy Enw, a ymddiriedant ynot : canys ni adewaist, O Arglwydd, y rhai a'th geisient.

11 Canmolwch yr Arglwydd, yr hwn sydd yn preswyllo yn Sion : mynegwch ym mysg y bobloedd ei weithredoedd ef.

12 Pan ymofyno efe am waed, efe a'u cofia hwynt : nid anghofia waedd y cystuddiol.

13 Trugarhâ wrthyf, Arglwydd ; gwel fy mlinder gan fy nghaseion, fy Nyrchafydd o byrth angau :

14 Fel y mynegwyf dy holl foliant ym mbyrth merch Sion : llawenychaf yn dy iachawdwr-iaeth.

15 Y cenedloedd a soddasant

in thee : yea, my songs will I make of thy Name, O thou most Highest.

3 While mine enemies are driven back : they shall fall and perish at thy presence.

4 For thou hast maintained my right and my cause : thou art set in the throne that judgest right.

5 Thou hast rebuked the heathen, and destroyed the ungodly : thou hast put out their name for ever and ever.

6 O thou enemy, destructions are come to a perpetual end : even as the cities which thou hast destroyed ; their memorial is perished with them.

7 But the Lord shall endure for ever : he hath also prepared his seat for judgement.

8 For he shall judge the world in righteousness : and minister true judgement unto the people.

9 The Lord also will be a defence for the oppressed : even a refuge in due time of trouble.

10 And they that know thy Name will put their trust in thee : for thou, Lord, hast never failed them that seek thee.

11 O praise the Lord which dwelleth in Sion : shew the people of his doings.

12 For, when he maketh inquisition for blood, he remembereth them : and forgetteth not the complaint of the poor.

13 Have mercy upon me, O Lord ; consider the trouble which I suffer of them that hate me : thou that liftest me up from the gates of death.

14 That I may shew all thy praises within the ports of the daughter of Sion : I will rejoice in thy salvation.

15 The heathen are sunk

yn y ffos a wnaethant: yn y rhwyd a guddiasant, y daliwyd eu troed eu hun.

16 Adweinir yr Arglwydd wrth y farn a wna: yr annuwiol a faglwyd yngweithredoedd ei ddwyllaw ei hun.

17 Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw.

18 Canys nid anghofir y tlawd byth: gobaith y trueiniaid ni cholli byth.

19 Cyfod, Arglwydd; na orfydded dyn: barner y cenedloedd ger dy fron di.

20 Gosod, Arglwydd, ofn arnynt: fel y gwybyddo'r cenedloedd mai dynion ydynt.

Psal. x. Ut quid, Domine?

PAHAM, Arglwydd, y sefi o bell? yr ymguddi yn amser cyfyngder?

2 Yr annuwiol mewn balchder a erlid y tlawd: dalier hwynt yn y bwriadau a ddychymmygasant.

3 Canys yr annuwiol a ymfrostita am ewyllys ei galon; ac a fendithia'r cybydd, yr hwn y mae'r Arglwydd yn ei ffeiddio.

4 Yr annuwiol, gan uchder ei ffroen, ni chais Dduw: nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef.

5 Ei ffyrdd sy flin bob amser; uchel yw dy farnedigaethau allan o'i olwg ef: chwythu y mae yn erbyn ei holl elynion.

6 Dywedodd yn ei galon, Ni'm symmudir: o herwydd ni byddaf mewn drygfyd hyd genhedlaeth a chenedlaeth.

7 Ei enau sydd yn llawn mell-dith, a dichell, a thwyll: dan ei dafod y mae camwedd ac anwiredd.

8 Y mae efe yn eistedd ynghynllwynfa'r pentrefydd: mewn cilfachau y lladd efe'r

down in the pit that they made: in the same net which they hid privily, is their foot taken.

16 The Lord is known to execute judgement: the ungodly is trapped in the work of his own hands.

17 The wicked shall be turned into hell: and all the people that forget God.

18 For the poor shall not always be forgotten: the patient abiding of the meek shall not perish for ever.

19 Up, Lord, and let not man have the upper hand: let the heathen be judged in thy sight.

20 Put them in fear, O Lord: that the heathen may know themselves to be but men.

Psal. x. Ut quid, Domine?

WH Y standest thou so far off, O Lord: and hidest thy face in the needful time of trouble?

2 The ungodly for his own lust doth persecute the poor: let them be taken in the crafty williness that they have imagined.

3 For the ungodly hath made boast of his own heart's desire: and speaketh good of the covetous, whom God abhorreth.

4 The ungodly is so proud, that he careth not for God: neither is God in all his thoughts.

5 His ways are always grievous: thy judgements are far above out of his sight, and therefore defieth he all his enemies.

6 For he hath said in his heart, Tush, I shall never be cast down: there shall no harm happen unto me.

7 His mouth is full of cursing, deceit, and fraud: under his tongue is ungodliness and vanity.

8 He sitteth lurking in the thievish corners of the streets: and privily in his lurking dens

gwirion : ei lygaid a dremiant yn ddirgel ar y tlawd.

9 Efe a gynllwyna mewn dirgelwch megis llew yn ei ffâu : cynllwyn y mae i ddal y tlawd : efe a ddeil y tlawd, gan ei dynnu i'w rwyd.

10 Efe a ymgrymma, ac a ymostwng, fel y cwympo tyrfa trueiniaid gan ei gedyrn ef.

11 Dywedodd yn ei galon, Anghofiodd Duw : cuddiodd ei wyneb ; ni wel byth.

12 Cyfod, Arglwydd ; O Dduw, dyrcha dy law : nac anghofia'r cystuddiol.

13 Paham y dirmyga'r annuwiol Dduw ? dywedodd yn ei galon, Nid ymfyni.

14 Gwelaist hyn ; canys ti a ganfyddi anwiredd a cham, i roddi tâl â'th ddwyllaw dy hun : arnat ti y gedy'r tlawd ; ti yw cynnorthwywr yr amddifad.

15 Tor fraich yr annuwiol a'r drygionus : cais ei ddrygioni ef hyd na chaffech ddim.

16 Yr Arglwydd sy Frenhin byth ac yn dragywydd : difethwyd y cenedloedd allan o'i dir ef.

17 Arglwydd, clywaist ddymuniaid y tlodion : parottôi eu calon hwynt, gwrendy dy glust arnynt ;

18 I farnu'r amddifad a'r gortlrymmedig, fel na 'chwanego dyn daearol beri ofn mwyach.

Psal. xi. *In Domino confido.*

YN yr Arglwydd yr wyf yn ymddiried : pa fodd y dywedwch wrth fy enaid, Eheda i'ch mynydd fel aderyn ?

doth he murder the innocent ; his eyes are set against the poor.

9 For he lieth waiting secretly, even as a lion lurketh he in his den : that he may ravish the poor.

10 He doth ravish the poor : when he getteth him into his net.

11 He falleth down, and humbleth himself : that the congregation of the poor may fall into the hands of his captains.

12 He hath said in his heart, Tush, God hath forgotten : he hideth away his face, and he will never see it.

13 Arise, O Lord God, and lift up thine hand : forget not the poor.

14 Wherefore should the wicked blaspheme God : while he doth say in his heart, Tush, thou God carest not for it.

15 Surely thou hast seen it : for thou beholdest ungodliness and wrong.

16 That thou mayest take the matter into thine hand : the poor committeth himself unto thee ; for thou art the helper of the friendless.

17 Break thou the power of the ungodly and malicious : take away his ungodliness, and thou shalt find none.

18 The Lord is King for ever and ever : and the heathen are perished out of the land.

19 Lord, thou hast heard the desire of the poor : thou preparest their heart, and thine ear hearkeneth thereto ;

20 To help the fatherless and poor unto their right : that the man of the earth be no more exalted against them.

Psal. xi. *In Domino confido.*

IN the Lord put I my trust : how say ye then to my soul, that she should flee as a bird unto the hill ?

2 Canys wele, y drygionus a annelant fwa, parottoisant eu saethau ar y llinyn; i saethu yn ddirgel y rhai uniawn o galon.

3 Canys y seiliau a ddinystriwyd, pa beth a wna'r cyfiawn?

4 Yr Arglwydd sydd yn nheml ei sancteiddrwydd; gorseddfa'r Arglwydd sydd yn y nefoedd: y mae ei lygaid ef yn gweled, ei amrantau yn profi meibion dynion.

5 Yr Arglwydd a brawf y cyfiawn: eithr cas gan ei enaid ef y drygionus, a'r hwn sydd hoff ganddo drawsder.

6 Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus: dyma ran eu phiol hwynt.

7 Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder: ei wyneb a edrych ar yr uniawn.

2 For lo, the ungodly bend their bow, and make ready their arrows within the quiver: that they may privily shoot at them which are true of heart.

3 For the foundations will be cast down: and what hath the righteous done?

4 The Lord is in his holy temple: the Lord's seat is in heaven.

5 His eyes consider the poor: and his eye-lids try the children of men.

6 The Lord alloweth the righteous: but the ungodly, and him that delighteth in wickedness doth his soul abhor.

7 Upon the ungodly he shall rain snares, fire and brimstone, storm and tempest: this shall be their portion to drink.

8 For the righteous Lord loveth righteousness: his countenance will behold the thing that is just.

Prwydhatonol Weddi.

Psal. xii. *Salvum me fac.*

ACHUB, Arglwydd; canys darfu y trugarog: o herwydd pallodd y ffyddloniaid o blith meibion dynion.

2 Oferedd a ddywedant bob un wrth ei gymmydog: â gwefus wenhieithgar, ac â chalon ddau ddyblyg, y llefarant.

3 Torred yr Arglwydd yr holl wefusau gwenhieithus, a'r tafod a ddywedo fawrhdyri.

4 Y rhai a ddywedant, A'n tafod y gorfyddwn; ein gwefusau sydd eiddom ni: pwy sydd arglwydd arnom ni?

5 O herwydd anrhaith y rhai cystuddiedig, o herwydd uchenaid y tlodion, y cyfodaf yn awr, medd yr Arglwydd, rhoddaf

Evening Prayer.

Psal. xii. *Salvum me fac.*

HELP me, Lord, for there is not one godly man left: for the faithful are minished from among the children of men.

2 They talk of vanity every one with his neighbour: they do but flatter with their lips, and dissemble in their double heart.

3 The Lord shall root out all deceitful lips: and the tongue that speaketh proud things;

4 Which have said, With our tongue will we prevail: we are they that ought to speak, who is lord over us?

5 Now for the comfortless troubles' sake of the needy: and because of the deep sighing of the poor,

6 I will up, saith the Lord:

mewn iachawdwriaeth yr hwn y magler iddo.

6 Geiriau'r Arglwydd ydynt eiriau purion; fel arian wedi ei goethi mewn ffwrn bridd, wedi ei buro seithwaith.

7 Ti, Arglwydd, a'u cedwi hwynt: cedwi hwynt rhag y genhedlaeth hon yn dragywydd.

8 Yr annuwiolion a rodiant o amgylch, pan ddyrchafer y gwaelaf o feibion dynion.

Psal. xiii. *Usque quo, Domine?*

PA hŷd, Arglwydd, y'm hanghofi? ai yn dragywydd? pa hŷd y cuddi dy wyn-eb rhagof?

2 Pa hŷd y cymmeraf gyng-horion yn fy enaid, gan fod blinder beunydd yn fy nghalon? pa hŷd y dyrchefir fy ngelyn arnaf?

3 Edrych a chlyw fi, O Arglwydd fy Nuw: goleua fy llygaid, rhag im' huno yn yr angau.

4 Rhag dywedyd o'm gelyn, Gorchfygais ef; ac i'm gwrthwynebwyr lawenychu, os go-gwyddaf.

5 Minnau hefyd a ymddiriedais yn dy drugaredd di; fy nghalon a ymlawenycha yn dy iachawdwriaeth: canaf i'r Arglwydd, am iddo synio arnaf: [ie, canmolaf Ew'r Arglwydd Goruchaf.]

Psal. xiv. *Dixit insipiens.*

YR ynfyd a ddywedodd yn ei galon, Nid oes un Duw. Ymlygrasant; ffeiddwaith a wnaethant: nid oes a wnelddaioni, [nag oes un.]

2 Yr Arglwydd a edrychodd i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion, i weled a oedd neb deallgar, yn ymgeisio â Duw.

and will help every one from him that swelleth against him, and will set him at rest.

7 The words of the Lord are pure words: even as the silver, which from the earth is tried, and purified seven times in the fire.

8 Thou shalt keep them, O Lord: thou shalt preserve him from this generation for ever.

9 The ungodly walk on every side: when they are exalted, the children of men are put to rebuke.

Psal. xiii. *Usque quo, Domine?*

HOW long wilt thou forget me, O Lord, for ever: how long wilt thou hide thy face from me?

2 How long shall I seek counsel in my soul, and be so vexed in my heart: how long shall mine enemies triumph over me?

3 Consider, and hear me, O Lord my God: lighten mine eyes, that I sleep not in death.

4 Lest mine enemy say, I have prevailed against him: for if I be cast down, they that trouble me will rejoice at it.

5 But my trust is in thy mercy: and my heart is joyful in thy salvation.

6 I will sing of the Lord, because he hath dealt so lovingly with me: yea, I will praise the Name of the Lord most Highest.

Psal. xiv. *Dixit insipiens.*

THE fool hath said in his heart: There is no God.

2 They are corrupt, and become abominable in their doings: there is none that doeth good, no not one.

3 The Lord looked down from heaven upon the children of men: to see if there were any that would understand, and seek after God.

3 Ciliodd pawb; cyd-ymddi-fwynasant: nid oes a wnel dda-ioni, nac oes un.

[4 Bedd agored yw eu cêg; â'u tafodau y gwnaethant ddi-chell: gwenwyn aspiaid sy dan eu gwefusau.

5 Y rhai y mae eu genau yn llawn melldith a chwerwedd: buain yw eu traed i dywallt gwaed.

6 Distryw ac aflwydd sydd yn eu ffyrdd, a ffordd tangnefedd nid adnabuant: nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid.]

7 Oni wŷyr holl weithredwŷr anwiredd? y rhai sy'n bwytta fy mhobl fel y bwyttaent fara: ni alwasant ar yr Arglwydd.

8 Yno y dychrynasant gan ofn; canys y mae Duw ynghen-hedlaeth y cyfiawn.

9 Cyngor y tlawd a warad-yyddasoch chwi; am fod yr Arglwydd yn obaith iddo.

10 Pwy a ddyry iachawdwr-iaeth i Israel o Sïon? pan ddy-chwelo'r Arglwydd gaethiwed ei bobl, yr ymhyfryda Jacob, ac y llawenhâ Israel.

Borcol Weddi.

Psal. xv. *Domine, quis habitabit?*

A RGLWYDD, pwy a drig yn dy babell? pwy a breswylia ym mynydd dy sancteiddrwydd?

2 Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnel gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon:

3 Heb absennu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymnydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymnydog.

4 Yr hwn y mae'r drygionus

4 But they are all gone out of the way, they are altogether become abominable: there is none that doeth good, no not one.

5 Their throat is an open sepulchre, with their tongues have they deceived: the poison of asps is under their lips.

6 Their mouth is full of cursing and bitterness: their feet are swift to shed blood.

7 Destruction and unhappiness is in their ways, and the way of peace have they not known: there is no fear of God before their eyes.

8 Have they no knowledge, that they are all such workers of mischief: eating up my people as it were bread, and call not upon the Lord?

9 There were they brought in great fear, even where no fear was: for God is in the generation of the righteous.

10 As for you, ye have made a mock at the counsel of the poor: because he putteth his trust in the Lord.

11 Who shall give salvation unto Israel out of Sion? When the Lord turneth the captivity of his people: then shall Jacob rejoice, and Israel shall be glad.

Morning Prayer.

Psal. xv. *Domine, quis habitabit?*

LORD, who shall dwell in thy tabernacle: or who shall rest upon thy holy hill?

2 Even he, that leadeth an uncorrupt life: and doeth the thing which is right, and speaketh the truth from his heart.

3 He that hath used no deceit in his tongue, nor done evil to his neighbour: and hath not slandered his neighbour.

4 He that setteth not by himself, but is lowly in his own

yn ddirmygus yn ei olwg; ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd: yr hwn a dwng i'w niweid ei hun, ac ni newidia.

5 Yr hwn ni roddes ei arian ar usuriaeth, ac ni chymmer wobr yu erbyn y gwirion. A wnelo hyn, nid ysgogir yn dragwydd.

Psal. xvi. Conserva me, Domine.

CADW fi, O Dduw: canys ynnot yr ymddiriedaf.

2 Fy enaid, dywedaist wrth yr Arglwydd, Fy Arglwydd ydwyt ti: fy nâ nid yw ddim i ti:

3 Ond i'r saint sydd ar y ddaear, a'r rhai rhagorol, yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch.

4 Gofidiau a amlhânt i'r rhai a frysiant ar ol duw dïeithr: eu dïod-offrwm o waed nid offrymmaf fi, ac ni chymmeraf eu henwau yn fy ngwefusau.

5 Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth i, a'm phiol: ti a gynheli fy nghoelbren.

6 Y llinynnau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd; ië, y mae i mi etifeddiaeth dëg.

7 Bendithiaf yr Arglwydd, yr hwn a'm cynghorodd: fy arenau hefyd a'm dysgant y nos.

8 Gosodais yr Arglwydd bob amser ger fy mron: am ei fod ar fy nebeulaw, ni'm hysgogir.

9 O herwydd hynny llawenychoedd fy nghalon, ac ymhyfrydoedd fy ngogoniant: fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith.

10 Canys ni adewi fy enaid yn uffern; ac ni oddefi i'th Sanct weled llygredigaeth.

11 Dangosi i mi lwybr bywyd:

eyes: and maketh much of them that fear the Lord.

5 He that sweareth unto his neighbour, and disappointeth him not: though it were to his own hindrance.

6 He that hath not given his money upon usury: nor taken reward against the innocent.

7 Whoso doeth these things: shall never fall.

Psal. xvi. Conserva me, Domine.

PRESERVE me, O God: for in thee have I put my trust.

2 O my soul, thou hast said unto the Lord: Thou art my God, my goods are nothing unto thee.

3 All my delight is upon the saints, that are in the earth: and upon such as excel in virtue.

4 But they that run after another god: shall have great trouble.

5 Their drink-offerings of blood will I not offer: neither make mention of their names within my lips.

6 The Lord himself is the portion of mine inheritance, and of my cup: thou shalt maintain my lot.

7 The lot is fallen unto me in a fair ground: yea, I have a goodly heritage.

8 I will thank the Lord for giving me warning: my reins also chasten me in the night-season.

9 I have set God always before me: for he is on my right hand, therefore I shall not fall.

10 Wherefore my heart was glad, and my glory rejoiced: my flesh also shall rest in hope.

11 For why? thou shalt not leave my soul in hell: neither shalt thou suffer thy Holy One to see corruption.

12 Thou shalt shew me the

digonolrwydd llawenydd sy ger dy fron, ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd.

Psal. xvii. *Exaudi, Domine.*

CLYW, Arglwydd, gyfiawnder; ystyria fy llefain, gwrando fy ngweddi o wefusau didwyll.

2 Deued fy marn oddi ger dy fron; edryched dy lygaid ar uniondeb.

3 Profaist fy nghalon, gofwyaist fi y nos; chwiliaist fi, ac ni chei ddim: bwriedais na throseddai fy ngenau.

4 Tu ag at am weithredoedd dynion, wrth eiriau dy wefusau yr ymgedwais rhag llwybrau yr yspeilydd.

5 Cynnal fy ngherddediad yn dy lwybrau, fel na lithro fy nhraed.

6 Mi a elwais arnat; canys gwrandewi arnaf fi, O Dduw: gostwng dy glust attaf, ac erglyw fy ymadrodd.

7 Dangos dy ryfedd drugaredau, O Achubydd y rhai a ymddiriedant ynot, rhag y sawl a ymgyfodant yn erbyn dy ddeheulaw.

8 Cadw fi fel canwyll llygad: cudd fi dan gysgod dy adenydd,

9 Rhag yr annuwiolion, y rhai a'm gorthrymmant: rhag fy ngelynion marwol, y rhai a'm hamgylchant.

10 Causant gan eu brasder: â'u genau y llefarant mewn balchder.

11 Ein cynniweirfa ni a gylchynasant hwy yr awrhon: gosodasant eu llygaid i dynnu i lawr i'r ddaear.

12 Eu dull sy fel llew a chwennychai 'sglyfaethu, ac meg-

path of life; in thy presence is the fulness of joy: and at thy right hand there is pleasure for evermore.

Psal. xvii. *Exaudi, Domine.*

HEAR the right, O Lord, consider my complaint: and hearken unto my prayer, that goeth not out of feigned lips.

2 Let my sentence come forth from thy presence: and let thine eyes look upon the thing that is equal.

3 Thou hast proved and visited mine heart in the night-season; thou hast tried me, and shalt find no wickedness in me: for I am utterly purposed that my mouth shall not offend.

4 Because of men's works, that are done against the words of thy lips: I have kept me from the ways of the destroyer.

5 O hold thou up my goings in thy paths: that my footsteps slip not.

6 I have called upon thee, O God, for thou shalt hear me: incline thine ear to me, and hearken unto my words.

7 Shew thy marvellous loving-kindness, thou that art the Saviour of them which put their trust in thee: from such as resist thy right hand.

8 Keep me as the apple of an eye: hide me under the shadow of thy wings,

9 From the ungodly that trouble me: mine enemies compass me round about to take away my soul.

10 They are inclosed in their own fat: and their mouth speaketh proud things.

11 They lie waiting in our way on every side: turning their eyes down to the ground;

12 Like as a lion that is greedy of his prey: and as it were

is llew ieuange yn aros mewn lleoedd dirgel.

13 Cyfod, Arglwydd, achub ei flaen ef, cwympa ef: gwared fy enaid rhag yr annuwiol, yr hwn yw dy gleddyf di.

14 Rhag dynion y rhai yw dy law, O Arglwydd, rhag dynion y byd, y rhai y mae eu rhan yn y bywyd yma, a'r rhai y llenwaist eu boliau â'th guddiedig drysor: llawn ydynt o feibion, a gadawant eu gweddill i'w rhai bychain.

15 Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder: digonir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw di.

Prwydhatonol Weddi.

Psal. xviii. *Diligam te, Domine.*

CARAF di, Arglwydd, fy nghadernid.

2 Yr Arglwydd yw fy nghraig, a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd; fy Nuw, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf; fy nharian, a chorn fy iachawdwr-iaeth, a'm huchel-dwr.

3 Galwaf ar yr Arglwydd canmoladwy: felly y'm cedwir rhag fy ngelynyion.

